# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

**Enw'r Awdurdod Lleol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Enw'r swyddog cyfrifol:** Denise Humphries

**Dyddiad Cwblhau:** Mawrth 2022

RHONDDA CYNON TAF

Carfan Gofal Plant yn RhCT
Childcare Team in RCT

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ....................5
  Cyflwyniad ....................5
  Methodoleg ....................5
  Gwaith Partneriaeth ac Ymgynghori ....................7
  Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ....................8
  Y cyflenwad gofal plant ....................10
  Anghenion rhieni/gwarcheidwaid ....................20
  Dyraniad Daearyddol ....................23
  Cynaliadwyedd ....................24
  COVID-19 ....................25
  Gweithlu ....................26
  Prif Ganfyddiadau ....................27
  Camau Gweithredu wedi'u nodi ....................28
Adran 1: Cyflwyniad ....................31
  Cyd-destun ....................31
Adran 2: Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori ....................35
  Rhieni / Gofalwyr ....................36
  Darparwyr Gofal Plant ....................36
  Unigolion sy'n cynrychioli'r rheiny â diddordeb mewn gofal plant ....................36
  Cyflogwyr lleol ....................40
  Awdurdodau lleol cymdogol ....................44
  Ysgolion ....................44
  Colegau addysg bellach ....................45
  Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg ....................46
  Gweithgor Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae (PSA) ....................46
  Swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith ....................46
  Yr Adran Gynllunio ....................47
Adran 3: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ....................48
  Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg ....................49
  Arolwg rhieni ....................50
  Prosiectau cyfalaf wedi'u cwblhau ....................52
  Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol ....................54
Adran 4: Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd ....................60
Adran 5: Cyflenwad gofal plant ....................74

Gwarchodwyr plant....74
Gofal diwrnod llawn....88
Gofal Diwrnod Sesiynol....100
Crèches....111
Gofal y tu allan i Oriau Ysgol....113
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored....124
Nani....131
Gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan rieni fel gofal....132
Adran 6: Anghenion Rhieni / Gofalwyr (galw am ofal plant)....134
Trosolwg o'r ymgynghoriad....134
Defnydd presennol o ofal plant....139
Y galw am ofal plant a ragwelir yn y dyfodol....152
Help tuag at gost gofal plant....156
Darpariaeth addysg feithrin am ddim, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant....157
Adborth ar Facebook....157
Adran 7: Dosbarthiad Daearyddol....159
Gogledd Cynon....159
De Cynon....163
Gogledd Rhondda....166
De Rhondda....170
Gogledd Ddwyrain Taf Elái....174
De Ddwyrain Taf Elái....178
De Orllewin Taf Elái....182
Adran 8: Cynaliadwyedd....187
Adran 9: Trawsffiniol....195
Adran 10: COVID-19....198
Cynlluniau Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS)....198
Effaith ar ddarparwyr gofal plant....200
Cymorth a ddarparwyd i'r sector gofal plant....206
Adran 11: Poblogaeth a Chynllun Llesiant Lleol....207
Poblogaeth....207
Y Gymraeg....209
Plant ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu....210
Dadansoddiad o Ardaloedd....211
Cynllun Datblygu Lleol....211
Creu swyddi / colli swyddi....214
Cynllun Llesiant....215
Cynllun Corfforaethol CBSRhCT....216

Adran 12: Dadansoddiad o Fylchau a Chrynodeb o Anghenion heb eu Bodloni .............218
Adran 13: Rhwystrau rhag Darpariaeth Gofal Plant ........................................................223
Adran 14: Addysg Feithrin am Ddim, Dechrau'n Deg a darpariaeth y Cynnig Gofal Plant ..........................................................................................................................................230
Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen .........................................................................230
Cynnig Gofal Plant Cymru ....................................................................................233
Dechrau'n Deg .......................................................................................................235
Adran 15: Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu ......................................................................239
Gwarchodwr Plant ..................................................................................................239
Gofal diwrnod llawn ...............................................................................................241
Gofal sesiynol ........................................................................................................242
Gofal y tu allan i oriau ysgol ..................................................................................244
Chwarae mynediad agored .....................................................................................245
Datblygiad ychwanegol y gweithlu .........................................................................246
Adran 16: Cynllun Gweithredu .........................................................................................249

# Crynodeb Gweithredol

**Cyflwyniad**

Mae gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyfrifoldeb o dan Adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006 i baratoi Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADdGP). Mae'r asesiad yma'n ein helpu ni i feithrin dealltwriaeth o ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal, anghenion rhieni a chynhalwyr a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â bylchau. Mae'r adroddiad yma'n seiliedig ar y *Canllawiau Digonolrwydd Gofal Plant (Gorffennaf 2016)* a chylchlythyr Llywodraeth Cymru *WGC 003 2021 WG21-28 Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Gofal Plant (Mawrth 2021)*.

Nod yr adroddiad yw nodi blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant yn RhCT am y pum mlynedd nesaf.

**Methodoleg**

Y prif ffynonellau data cyflenwad a galw a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ADdGP yw'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, data a gedwir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) a'r arolwg rhieni/cynhalwyr a gynhaliwyd yn hydref 2021.

***Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth***

Mae'r Datganiad Hunanasesu yn ofyniad a osodir ar bob darparwr gofal plant sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i AGC gynllunio eu harolygiadau ac yn helpu i gynghori Llywodraeth Cymru ar gyflwr y sector gofal plant yng Nghymru. Cwblhawyd yr arolwg rhwng 7 Gorffennaf a 11 Awst 2021. Er ei fod yn ofyniad statudol, roedd y gyfradd gwblhau gan ddarparwyr yn RhCT yn 87.0%. Cysylltodd swyddogion â'r rhai oedd heb lenwi eu Datganiad Hunanasesu a chyflwynwyd 11 o ffurflenni papur pellach, gan wneud y gyfradd gwblhau gyffredinol yn 92.3%. Y Datganiad Hunanasesu yw'r brif ffynhonell data am gyflenwad yn yr adroddiad ADdGP yma.

***Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd***

Cymerwyd data cyflenwad ar gyfer darparwyr gofal plant anghofrestredig/eithriedig o ddata a gedwir gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) RhCT a holiaduron darparwyr a lenwyd ym mis Tachwedd 2021. Derbyniwyd cyfanswm o naw holiadur. Yn seiliedig ar ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) a gwybodaeth leol, mae Swyddogion yn gwybod am ragor o ddarparwyr gofal plant anghofrestredig yn RhCT nag y mae nifer yr holiaduron a ddaeth yn ôl yn ei awgrymu. Rhaid bod yn ofalus, felly, wrth ddadansoddi data darpariaethau anghofrestredig.

***Arolwg Rhieni/Cynhalwyr***

Datblygodd Llywodraeth Cymru arolwg a ddefnyddiwyd gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i fesur barn rhieni ar gyflenwad ac ansawdd gofal plant. Gwnaed hyn ym mis Hydref 2021. Mae wedi darparu data cyson mae modd i bob Awdurdod Lleol ei ddefnyddio


i ddatblygu eu hadroddiadau ADdGP, ochr yn ochr â’u gwybodaeth leol a’u setiau data. Derbyniodd RhCT 823 o holiaduron wedi'u llenwi. Mae'r arolwg yma'n darparu'r prif ddata galw yn yr adroddiad ADdGP yma.

***Ardaloedd daearyddol***

At ddibenion adroddiad ADdGP 2022, mae wardiau wedi'u grwpio yn ôl yr Ardaloedd Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned a Rhwydweithiau Cymdogaeth (gweler isod). Mae’r rhain yn un agwedd ar strategaeth ‘RhCT Gyda’n Gilydd’ y Cyngor. Dyma ddull y Cyngor o weithio mewn partneriaeth â chymunedau a thrigolion sy’n cynnig cymorth i unigolion, grwpiau a gwasanaethau trwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol, Canolfannau Rhwydwaith a chymorth gyda chyllid, adnoddau a chyngor ymgynghori cymunedol.

Sylwer, ysgrifennwyd yr adroddiad yma cyn gweithredu'r newidiadau i ffiniau wardiau etholiadol a argymhellwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Daeth y rhain i rym yn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022. Cyfeirir at y wardiau etholiadol diwygiedig yma yn adroddiad diweddaru blynyddol ADdGP 2023 a'r cynllun gweithredu.

| Gogledd Cwm Cynon | De Cwm Cynon | Gogledd Cwm Rhondda | De Cwm Rhondda |
|---|---|---|---|
| Gogledd Aberaman<br>De Aberaman<br>Dwyrain Aberdâr<br>Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed<br>Hirwaun<br>Pen-y-waun<br>Rhigos | Abercynon<br>Cwm-bach<br>Gorllewin Aberpennar<br>Dwyrain Aberpennar<br>Penrhiwceiber | Glynrhedynog<br>Maerdy<br>Pentre<br>Treherbert<br>Treorci<br>Tylorstown<br>Ystrad | Cwm Clydach<br>Cymer<br>Llwynypia<br>Pen-y-graig<br>Porth<br>Tonypandy<br>Trealaw<br>Ynys-hir |
| **Gogledd-ddwyrain Taf-elái** | **De-ddwyrain Taf-elái** | **De-orllewin Taf-elái** | |
| Cilfynydd<br>Glyn-coch<br>Graig<br>Tref Pontypridd<br>Y Rhondda<br>Trallwng<br>Trefforest<br>Ynys-y-bŵl | Beddau<br>Pentre'r Eglwys<br>Y Ddraenen-wen<br>Llanilltud Faerdref<br>Canol<br>Rhydfelen/Ilan<br>Ffynnon Taf<br>Ton-teg<br>Tyn-y-Nant | Brynna<br>Gilfach-goch<br>Llanharan<br>Llanhari<br>Tref Llantrisant<br>Pont-y-clun<br>Tonysguboriau<br>Dwyrain Tonyrefail<br>Gorllewin Tonyrefail | |




## Gwaith Partneriaeth ac Ymgynghori

Wrth baratoi'r ADdGP yma, ymgynghorwyd ag ystod o randdeiliaid er mwyn deall eu barn yn llawn am y farchnad gofal plant yn RhCT. Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Haf 2022 am gyfnod o 28 diwrnod er mwyn i bob partner sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y cynnwys.

Roedd partneriaid yr ymgynghorwyd â nhw am eu barn ar y sector gofal plant yn RhCT yn cynnwys:

- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Rhieni/gwarcheidwaid
- Darparwyr Gofal Plant
- Personau sy’n cynrychioli’r rhai sydd â diddordeb mewn gofal plant:
    - Clybiau Plant Cymru
    - Blynyddoedd Cynnar Cymru
    - Mudiad Meithrin
    - NDNA Cymru

    - PACEY Cymru
- Cyflogwyr lleol
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Ysgolion
- Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Gweithgor Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Y Ganolfan Byd Gwaith
- Yr adran gynllunio

**<u>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)</u>**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) RhCT 2022 i 2032 i gael ei fabwysiadu ym mis Medi 2022 (yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru). Bwriad y cynllun yw cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 8% a 12% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg yma. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o ddisgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 506 i rhwng 720 ac 825 erbyn diwedd cyfnod y Cynllun newydd.

Y prif darged yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n ymwneud â'r ADdGP yw ***Deilliant 1: Mwy o ddisgyblion Meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.*** I gefnogi'r targed o gynyddu nifer y disgyblion blwyddyn un, bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda sefydliadau allanol a chydweithwyr i hyrwyddo gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy:

- Cefnogi darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg i ehangu a gwella'r gwasanaethau maen nhw'n cynnig drwy gynnig cymorth i fusnesau, grantiau darpariaeth newydd/ehangu grantiau darpariaeth, hyfforddiant a'u cyfeirio at sefydliadau allanol perthnasol.
- Bydd gwybodaeth am sesiynau a chyrsiau mae modd i rieni/cynhalwyr eu mynychu gyda'u plant yn parhau i gael ei rhannu drwy rwydweithiau'r Cyngor. Bydd Swyddogion yn parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni/cynhalwyr.
- Gwneud newidiadau i broses gomisiynu Dechrau'n Deg, a fydd yn golygu bod rhagor o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r teuluoedd hynny sy'n ei ddewis.
- Parhau i adolygu nifer y Darparwyr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod y rhieni/cynhalwyr hynny sy'n dymuno cael lle addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen i'w plentyn cyn iddo/iddi ddechrau yn y dosbarth meithrin yn gallu gwneud hynny.
- Gweithio gyda grŵp llywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a grŵp Marchnata a Hyrwyddo i gefnogi nodau'r Cynllun.

***Arolwg Rhieni***

Cafwyd cyfanswm o 347 o ymatebion i'r cwestiwn 'Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?'. O'r rhain, nododd 91% eu bod nhw'n deall Cymraeg (316), gyda

61.1% yn nodi eu bod nhw'n gallu siarad yr iaith (212). O'r rhai a roddodd eu cod post, mae'n ymddangos bod y lefel uchaf o sgiliau Cymraeg yn Ne Orllewin Taf-elái, De Ddwyrain Taf-elái a Gogledd Ddwyrain Taf-elái. Mae'n ymddangos mai De Cwm Cynon sydd â'r lefelau isaf o sgiliau Cymraeg ymhlith rhieni. Wrth gwrs, dylid cofio bod hyn yn seiliedig ar yr ymatebwyr i'r arolwg rhieni, ac nid ar ddata demograffig a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

***Defnydd presennol o ofal plant cyfrwng Cymraeg***

Dywedodd 75% o rieni eu bod nhw ddim yn defnyddio gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd (348). Ymatebodd 22.2% eu bod nhw'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (103). Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhagamcannu y bydd 20.6% o blant oed meithrin yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2022-2023. Mae'r ffigur yma'n is nag y mae'r arolwg rhieni yn ei awgrymu sy'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu bod modd i rai rhieni sydd ddim yn dewis trosglwyddo o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg. O'r herwydd mae angen rhagor o waith i ddadansoddi llwybrau pontio i ddeall a yw hyn yn wir.

***Defnydd o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol***

O'r rhai sydd ddim yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, dywedodd 9.7% yr hoffen nhw gael gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg (34), gyda 18.6% yn nodi 'efallai' (65). Mae'r nifer uchaf o'r rhai sy'n datgan 'hoffwn' wedi'u lleoli yn ardal Dde-ddwyrain Taf-elái a De-orllewin Taf-elái. Mae'r nifer uchaf o'r rhai sy'n nodi 'efallai' yn Ne-orllewin Taf-elái.

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd yr hoffen nhw ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg pa broblemau y maen nhw'n eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal cyfrwng Cymraeg. Dywedodd mwyafrif yr ymatebion mai diffyg argaeledd oedd yn gyfrifol am hyn gyda 69.8% o rieni yn nodi hyn (58). De-orllewin Taf-elái a gafodd y nifer uchaf o'r ymatebion yma (17), ac yna De Cwm Rhondda (10). Mae prosiectau cyfalaf diweddar wedi cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ardal Dde-orllewin Taf-elái, a fydd yn gwella argaeledd gwasanaethau. Dylid ymchwilio ymhellach i ddatblygiad darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn Ne Cwm Rhondda i sicrhau yn union le mae angen gwasanaethau cyn ysgol neu y tu allan i oriau ysgol.

***Y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd***

Er bod ystod dda o ofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg sydd wedi cofrestru gydag AGC ar gael yn RhCT, mae gwasanaethau ar gyfer plant oed ysgol yn parhau i fod yn achlysurol ac yn ddigofrestredig i raddau helaeth. Mae hyn yn gwella a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gofrestru ac ehangu gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau lle mae bylchau wedi'u nodi.

Cynhaliwyd ymarfer mapio yn 2021 i nodi bylchau mewn gwasanaethau gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i ddefnyddio yn sail i archwilio datblygiadau yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, bydd Swyddogion yn parhau i gryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau fel Mudiad Meithrin a Menter Iaith er mwyn datblygu ac ehangu gwasanaethau gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ffigyrau a gasglwyd o'r Datganiadau Hunanasesu yn nodi mai De-ddwyrain Taf-elái sydd â'r nifer uchaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg neu'r ddwy iaith (8), sydd wedi cofrestru gydag AGC, ac yna Gogledd-ddwyrain Taf-elái a De-orllewin Taf-elái (sydd â 5 yr un). Mae'r nifer fwyaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith yn cynnig gofal diwrnod llawn (18) ac mae 6 yn cynnig gofal sesiynol. Dim ond un gwarchodwr plant a ddywedodd ei fod yn cynnig gofal cyfrwng Cymraeg, a dywedodd dau eu bod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog Mae pedwar lleoliad cyfrwng Cymraeg anghofrestredig wedi'u nodi yn yr ADdGP, tri lleoliad y tu allan i oriau ysgol ac un lleoliad sesiynol, i gyd yn Ne Cwm Rhondda a De Orllewin Taf-elái.

Ni nododd unrhyw leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg na dwy iaith o unrhyw fath fod ganddyn nhw restrau aros am ofal yn ystod gwyliau ysgol. O ran darpariaeth yn ystod y tymor, dim ond un gwarchodwr plant dwyieithog, yng Ngogledd Cwm Rhondda, a nododd restr aros. Nododd darpariaethau gofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym mhob ardal ar wahan i Ogledd-orllewin Taf-elái a De-ddwyrain Taf-elái bod rhestrau aros ar gyfer darpariaeth yn ystod y tymor Dim ond dau ddarparwr gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg a nododd restrau aros, un yn Ne-ddwyrain Taf-elái ac un yn Ne-orllewin Taf-elái. Ni nododd unrhyw ddarparwr gofal y tu allan i'r ysgol cyfrwng Cymraeg na dwyieithog restrau aros ar gyfer darpariaeth yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae yna ystod dda o leoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n darparu addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae model comisiynu newydd yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Dechrau'n Deg i gynyddu nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig y cynllun yma. Mae gan rieni ddewis pa ddarparwr gofal plant sydd wedi cofrestru gydag AGC y maen nhw'n ei ddefnyddio i gael mynediad at y Cynnig Gofal Plant. O'r herwydd, mae nifer y darparwyr cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig y gwasanaeth yma'n dibynnu'n bennaf ar y galw gan rieni.

## Y cyflenwad gofal plant

Mae'r data cyflenwad yn yr adroddiad yn nodi'r nifer canlynol o leoliadau gofal plant yn RhCT (pob iaith) ar yr adeg y llenwyd y Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth:

***Nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ag AGC – fesul ARDAL***

| Nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ag AGC – fesul ARDAL | Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol diwrnod llawn | Crèche | Gofal y tu allan i oriau'r ysgol | Darpariaeth gofal chwarae mynediad agored | Nani | Cyfanswm y lleoliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cwm Cynon | 11 | 7 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | **20** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| De Cwm Cynon | 4 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | **12** |
| Gogledd Cwm Rhondda | 9 | 12 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | **24** |
| De Cwm Rhondda | 5 | 9 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | **17** |
| Gogledd-ddwyrain Taf-elái | 21 | 3 | 5 | 0 | 2 | 0 | 1 | **32** |
| De-ddwyrain Taf-elái | 25 | 9 | 5 | 0 | 1 | 0 | 0 | **40** |
| De-orllewin Taf-elái | 21 | 10 | 8 | 0 | 6 | 3 | 1 | **49** |
| **Cyfanswm** | **96** | **56** | **25** | **0** | **10** | **5** | **2** | **194** |

**Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021, Ionawr 2022*

***Nifer y lleoliadau heb eu cofrestru – fesul ARDAL***

| Nifer y lleoliadau heb eu cofrestru fesul ARDAL | Gofal sesiynol diwrnod llawn | Gofal y tu allan i oriau'r ysgol | Darpariaeth gofal chwarae mynediad agored | Cyfanswm y lleoliadau |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cwm Cynon | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cwm Cynon | 0 | 1 | 1 | **2** |
| Gogledd Cwm Rhondda | 3 | 0 | 1 | **4** |
| De Cwm Rhondda | 4 | 1 | 0 | **5** |
| Gogledd-ddwyrain Taf-elái | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De-ddwyrain Taf-elái | 0 | 1 | 0 | **1** |
| De-orllewin Taf-elái | 0 | 3 | 1 | **4** |
| **Cyfanswm** | **7** | **6** | **3** | **16** |

*Gwarchodwr plant*

Mae gwarchod plant yn dueddol o fod y math o ofal plant sy'n tueddu amrywio a newid yn y farchnad. Gan fod y math yma o ofal plant wedi'i leoli mewn cartrefi preifat, mae'n ddibynnol iawn ar amgylchiadau personol y gwarchodwr plant, sy'n esbonio trosiant cymharol uchel o gofrestriadau. Yn hanesyddol mae ardal De Cwm Rhondda wedi cael niferoedd isel o warchodwyr plant, ac mae gwaith datblygu a hyrwyddo yn y blynyddoedd blaenorol wedi methu â mynd i'r afael â hynny. Byddai'n fanteisiol pe bai ymdrechion o'r newydd yn y maes yma.

*Gofal diwrnod llawn*

Ers cyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru yn 2017, mae darparwyr gofal sesiynol wedi symud i ailgofrestru'n ddarparwyr gofal diwrnod llawn gydag AGC. Dydy hyn ddim er mwyn iddyn nhw allu cynnig yr ystod lawn o wasanaethau y mae darparwyr gofal diwrnod llawn

traddodiadol yn eu cynnig.  Yn hytrach, mae'n rhoi’r hyblygrwydd iddyn nhw gynnig gwasanaethau ychwanegol i ddarparu ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, megis gwasanaethau cofleidiol i blant oed meithrin a gofal yn ystod amser cinio.

Mae'r crynodiad uchaf o ddarparwyr gofal diwrnod llawn yng Ngogledd Cwm Rhondda (12) ac yn Ne-orllewin Taf-elái (10).  Gogledd-ddwyrain Taf-elái sydd â'r nifer lleiaf o leoliadau gofal diwrnod llawn (3).  Mae'r ardal yma'n cynnwys tref Pontypridd, yn ogystal â'r ardal myfyrwyr o amgylch Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest.  O ganlyniad, mae gan y wardiau yn yr ardal yma rai o'r niferoedd isaf o blant 0-17 oed yn RhCT.  Mae prinder lleoliadau addas hefyd sy'n golygu, er gwaethaf sawl archwiliad yn y gorffennol, mae hi wedi bod yn anodd datblygu gwasanaethau gofal diwrnod llawn.  Ers yr adroddiad ADdGP diwethaf, bu datblygiadau adeiladu sylweddol ym Mhontypridd gan gynnwys cwblhau Llys Cadwyn ac ailddatblygu adeilad y YMCA, sydd i fod i gael ei gwblhau yn ddiweddarach yn 2022.  Mae lle wedi'i gynllunio yn adeilad yr YMCA ar gyfer cyfleuster gofal plant.  Mae hyn yn gyfleuster bach ond mae'n debygol o ddiwallu rhywfaint o'r galw yn yr ardal.

*<u>Gofal sesiynol</u>*

Mae crynodiad o ddarparwyr gofal sesiynol anghofrestredig yn ardaloedd Gogledd Cwm Rhondda a De Cwm Rhondda.  Bydd ymgysylltu â’r lleoliadau yma a’u hannog i gofrestru gydag AGC yn flaenoriaeth i’r Cyngor.

Mae'n ymddangos bod nifer bach o ddarparwyr gofal sesiynol cofrestredig AGC yng Nghwm Cynon a Chwm Rhondda.  Mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i leoliadau yn dod yn ddarparwyr gofal diwrnod llawn neu mae'n bosibl bod y ffigyrau'n cael eu hystumio oherwydd nifer y lleoliadau sydd heb eu cofrestru.  Efallai bydd hi'n ddoeth ymchwilio ymhellach i weld a oes galw ychwanegol am wasanaethau gofal sesiynol yn y meysydd yma.

*<u>Crèches</u>*

Mae crèches yn cynnig gofal plant hyblyg i rieni sydd angen gofal plant at ddibenion penodol, megis mynychu cyrsiau hyfforddi.  Ar hyn o bryd does dim crèches sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn RhCT.  Oherwydd natur newidiol patrymau gwaith o ganlyniad i'r pandemig, mae llawer o rieni yn gweithio gartref, er bod symudiadau bellach i ddychwelyd i weithio yn y swyddfa, er yn rhan amser.  Mae'n bosibl bod rhai rhieni, felly, angen gofal plant ar sail ad hoc yn unig, neu am ran o ddiwrnod er mwyn mynychu eu swyddfeydd.  Byddai’n syniad da archwilio cyfleusterau gofal plant neu crèches hyblyg, ad hoc i benderfynu a oes digon o alw am y math yma o ofal, ac os felly, y ffordd orau o’i ddatblygu.

*<u>Gofal y tu allan i oriau'r ysgol</u>*

Mae'r nifer uchaf o leoliadau gofal y tu allan i oriau'r ysgol sydd wedi'u cofrestru ag AGC yn Ne Orllewin Taf-elái, ac yna Gogledd-ddwyrain Taf-elái.  Mae'r nifer uchaf o glybiau y tu allan i'r ysgol heb eu cofrestru wedi'u cofnodi yn Ne Orllewin Taf-elái, ac mae un yr un yn Ne Cwm Cynon, De Cwm Rhondda a De-ddwyrain Taf-elái.  Yn yr un modd â'r darparwyr gofal sesiynol sydd ddim wedi'u cofrestru, bydd ymgysylltu â'r lleoliadau yma a'u hannog i gofrestru ag AGC yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

*Darpariaeth gofal chwarae mynediad agored*
Mae'r nifer uchaf o ddarparwyr chwarae mynediad agored sydd wedi'u cofrestru ag AGC yn Ne Orllewin Taf-elái, ac mae un yr un yng Ngogledd Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda. Mae un lleoliad heb ei gofrestru yr un yn Ne Cwm Cynon, Gogledd Cwm Rhondda a De Orllewin Taf-elái.

*Nani*
Mae nanis yn darparu gofal i blant, fel arfer yng nghartref y plentyn ei hun. Mae Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 bellach yn darparu fframwaith rheoleiddio mae modd i nanis ei ddilyn. Mae cofrestru ar y cynllun yma'n wirfoddol, ond mae'n galluogi rhieni i gael mynediad at ystod o gymorth ariannol gyda ffioedd ac yn galluogi'r nani i ddangos eu bod nhw'n bodloni meini prawf penodol o fewn cynllun strwythuredig. Ar hyn o bryd mae dwy nani ar y cynllun yma yn RhCT, un yng Ngogledd Ddwyrain Taf-elái ac un yn Ne Orllewin Taf-elái. Dydy'r Cyngor ddim wedi ymgysylltu â'r nanis hyd yma. Serch hynny, mae'r Cyngor yn awyddus i ymgysylltu â'r rhain, a nanis eraill yn y sir, fel bo modd iddyn nhw gael mynediad at y cymorth a'r arweiniad y mae lleoliadau gofal plant eraill yn eu cael. Bydd modd iddyn nhw hefyd gael mynediad at yr hyfforddiant a ariennir y mae'r garfan datblygu gofal plant yn ei ddarparu. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn ystod yr adroddiad ADdGP yma.


***Cofrestriadau/cansladau AGC***
Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn hynod heriol i ddarparwyr gofal plant, ac wedi arwain at lai o bresenoldebau, problemau staffio a chostau uwch (fel glanhau ychwanegol, costau gwresogi, ac ati). Mae cadw eu teuluoedd eu hunain yn ddiogel, yn ogystal â’r staff a’r plant yn eu busnesau wedi bod yn arbennig o anodd i warchodwyr plant. Efallai ei bod hi ddim yn syndod, felly, ein bod ni wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoedd gwarchod plant sydd ar gael dros y ddwy flynedd diwethaf. Ers mis Ionawr 2020, mae 36 o warchodwyr plant wedi canslo eu cofrestriadau gydag AGC a dim ond wyth o warchodwyr plant newydd sydd wedi cofrestru. Mae hyn wedi arwain at golled net o 205 o leoedd cofrestredig.

Dydy'r effaith ar fathau eraill o ofal plant ddim wedi bod mor amlwg. Ers Ionawr 2020, bu cynnydd net o 63 o leoedd ar gyfer gofal diwrnod llawn. Fel y crybwyllwyd, mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i ddarparwyr gofal sesiynol yn newid eu cofrestriadau AGC. Mae cynnydd net o 20 lle ar gyfer gofal sesiynol wedi'i nodi, gyda chofrestriadau newydd yn Ne Cwm Rhondda a De Ddwyrain Taf-elái. Diddymodd yr unig crèche gofrestredig ei chofrestriad, gan arwain at golled net o 10 lle. Dydy'r Cyngor ddim yn gwybod am unrhyw gyfleusterau crèche eraill sy'n gweithredu nac yn bwriadu agor yn y dyfodol agos.

Ers Ionawr 2020, bu cynnydd net o 167 o leoedd ar gyfer gofal y tu allan i oriau ysgol. Ym mis Gorffennaf 2021, caeodd clwb tu allan i oriau ysgol sefydledig yn ardal Dde-ddwyrain Taf-elái oherwydd ymddeoliad yr arweinydd. Roedd y clwb yn casglu plant o nifer o ysgolion yn yr ardal. Sefydlwyd dau glwb newydd i ddarparu ar gyfer dwy o'r ysgolion a gafodd eu heffeithio. Mae hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y nifer o leoedd.

***Defnydd o iaith yn y lleoliadau***

Gellir gweld, mewn lleoliadau sydd wedi cofrestru ag AGC a'r rhai sydd heb eu cofrestru, mai Saesneg yw'r iaith fwyaf cyffredin. Y math mwyaf cyffredin o ofal plant i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yw gofal diwrnod llawn. Mae'r nifer uchaf o leoliadau Cymraeg yn unig yn Ne Orllewin Taf-elái (3), ac yna Gogledd Cwm Cynon a Gogledd Cwm Rhondda (2 yr un).




### *Amserau agor*

*Gwarchodwr plant*

Mae gwarchodwyr plant yn cynnig yr oriau agor mwyaf hyblyg i deuluoedd. Mae hyd at 75 yn nodi yn eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eu bod nhw'n cynnig gofal cyn 8am. Dywedodd deg eu bod nhw'n cynnig gofal ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos. Mae bron pob gwarchodwr plant yn cynnig gofal yn ystod y tymor a gwyliau ysgol (87), gyda'r rhan fwyaf ar agor am bob cyfnod gwyliau ac eithrio gwyliau'r Nadolig lle nododd 27 yn unig eu bod nhw'n cynnig gofal. Dim ond pump a ddywedodd yn eu Datganiad eu bod nhw'n cynnig gofal yn ystod y tymor ysgol yn unig.

*Gofal diwrnod llawn*

Mae darparwyr gofal diwrnod llawn hefyd yn cynnig yr ystod fwyaf o wasanaethau a'r oriau agor hiraf i deuluoedd, er eu bod nhw ddim mor hyblyg â gwarchodwyr plant. Mae 24 o leoliadau gofal diwrnod llawn yn agor cyn 8am yn ystod yr wythnos, ond dim ond un lleoliad a ddywedodd ei fod yn aros ar agor ar ôl 6pm. Dywedodd 17 o ddarparwyr gofal diwrnod llawn eu bod nhw'n gweithio yn ystod y tymor ysgol yn unig, a dywedodd chwech fod eu horiau agor yn wahanol yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n bosibl bod y nifer cymharol uchel yma'n cynnwys y darparwyr gofal sesiynol sydd wedi cofrestru fel lleoliadau gofal diwrnod llawn i gynnig rhagor o wasanaethau yn ystod y tymor, ond sydd ddim yn dymuno agor yn ystod y gwyliau.

O'r darparwyr gofal diwrnod llawn sy'n agor yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r mwyafrif ar agor yn ystod bob cyfnod gwyliau, ac eithrio gwyliau'r Nadolig, gyda 21 yn nodi eu bod ar agor, ac 17 yn nodi eu bod ar gau.

*Gofal sesiynol*

Does dim darparwyr gofal sesiynol yn cynnig oriau agor annodweddiadol (cyn 8am, ar ôl 6pm, penwythnosau neu dros nos). Dywedodd 18 o ddarparwyr gofal sesiynol eu bod nhw'n gweithredu yn ystod y tymor yn unig, a dywedodd 1 fod ei oriau agor yn wahanol yn ystod gwyliau'r ysgol i amser tymor. O'r darparwyr gofal sesiynol sy'n agor yn ystod gwyliau'r ysgol, mae pob un ar agor am gyfnod yn ystod gwyliau'r haf, ond does dim un ar agor adeg y Nadolig.

*Gofal y tu allan i oriau'r ysgol*

Dywedodd un lleoliad y tu allan i oriau ysgol ei fod yn agor cyn 8am a doedd dim un ar agor ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos. Dywedodd pedwar darparwr gofal y tu allan i oriau ysgol eu bod nhw'n gweithredu yn ystod y tymor yn unig, a dywedodd dau eu bod ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig. O'r darparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol sy'n agor yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r mwyafrif yn agor bob gwyliau, ac eithrio gwyliau'r Nadolig.

*Darpariaeth gofal chwarae mynediad agored*

Dywedodd un darparwr chwarae mynediad agored ei fod ar agor yn ystod y tymor yn ogystal â'r gwyliau. Dywedodd y lleoliad yma mai eu horiau agor yw 4pm i 5.30pm bob dydd Llun. Does dim darparwyr chwarae mynediad agored yn cynnig oriau agor annodweddiadol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm neu dros nos). Mae bron pob darparwr chwarae mynediad agored yn agor yn ystod pob gwyliau, ac eithrio gwyliau'r Nadolig, pan dydy yr un ohonyn nhw ar agor.

***Rhestrau aros / Lleoedd Gwag***
Mae dadansoddiad o restrau aros yn dangos bod gan leoliadau gofal plant ym mhob ardal restrau aros am ofal diwrnod llawn. Mae rhestrau aros hefyd mewn lleoliadau ar gyfer gofal cyn ac ar ôl oriau'r ysgol ym mhob ardal, ac eithrio Gogledd Cwm Rhondda. Fodd bynnag, mae yna hefyd leoliadau ym mhob ardal sydd wedi nodi bod ganddyn nhw leoedd gwag ar gyfer gofal diwrnod llawn, yn ogystal â lleoedd gwag ar gyfer gofal cyn ac ar ôl oriau'r ysgol. Felly, bydd angen ymchwilio ymhellach i bennu'r union feysydd sydd naill ai â gwarged neu brinder o ran y mathau o ofal plant sydd eu hangen.

*Gwarchodwyr plant*
O ran gwarchodwyr plant, Gogledd-ddwyrain Taf-elái a De-ddwyrain Taf-elái oedd â'r nifer uchaf o leoliadau a nododd restrau aros ar gyfer gofal cyn oriau'r ysgol (2 yr un). Gwarchodwyr plant yn Ne-ddwyrain Taf-elái a De-orllewin Taf-elái a nododd y nifer uchaf o leoedd gwag (9 yr un) ar gyfer y math yma o ofal. Ar gyfer gofal diwrnod llawn, gwarchodwyr plant yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái a nododd y nifer fwyaf o restrau aros (8). De-ddwyrain Taf-elái a nododd y nifer fwyaf o leoedd gwag (13), ac yna De-orllewin Taf-elái (9).

*Gofal diwrnod llawn*
Mae'r rhan fwyaf o restrau aros mewn lleoliadau gofal diwrnod llawn ar gyfer gofal diwrnod llawn a chylch chwarae bore neu sesiynau Cylch Meithrin. De-orllewin Taf-elái oedd â'r nifer uchaf o leoliadau a nododd restrau aros am ofal diwrnod llawn (3), ac yna De Cwm Rhondda (2). De Cwm Rhondda oedd â'r nifer uchaf o leoliadau a nododd restrau aros ar gyfer sesiynau cylch chwarae bore neu Gylch Meithrin (3), ac yna Gogledd Cwm Cynon (2).

Yn gyffredinol, nododd lleoliadau gofal diwrnod llawn ym mhob ardal fod lleoedd gwag ar gyfer gofal diwrnod llawn, sesiynau bore a phnawn a lleoliadau Addysg Gynnar. Nododd lleoliadau yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái y lefel isaf o leoedd gwag ar draws y gwahanol wasanaethau a gynigir o gymharu ag ardaloedd eraill.

*Gofal sesiynol*
Mae'r rhan fwyaf o restrau aros mewn lleoliadau gofal sesiynol ar gyfer sesiynau bore, a De-orllewin Taf-elái sydd â'r nifer fwyaf o leoliadau yn nodi hyn (3). Nododd pob ardal, ac eithrio De-ddwyrain Taf-elái, fod lleoedd gwag gyda nhw ar gyfer sesiynau prynhawn, a dim ond un lleoliad yn Ne Cwm Cynon a nododd rhestr aros ar gyfer sesiynau prynhawn. Gogledd-ddwyrain Taf-elái oedd â'r nifer uchaf o leoliadau yn nodi lleoedd gwag ar gyfer sesiynau bore a phrynhawn (3 yr un).

Nododd y rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddarparwyr gofal sesiynol nad ydyn nhw'n cynnig unrhyw wasanaethau eraill, ac eithrio lleoedd Addysg Gynnar neu ofal amser cinio. Dydy hyn ddim yn syndod, gan fod y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal sesiynol sydd wedi ehangu i gynnig gwasanaethau ychwanegol wedi ailgofrestru gydag AGC a bellach wedi cofrestru fel darparwyr gofal diwrnod llawn.

*Gofal y tu allan i oriau'r ysgol*

Dim ond lleoliadau y tu allan i oriau'r ysgol yn Ne Orllewin Taf-elái sydd naill ai â rhestrau aros neu leoedd gwag ar gyfer gofal ar ôl oriau'r ysgol (2 o bob un). Mae un lleoliad yn Ne-orllewin Taf-elái yn nodi lleoedd gwag ar gyfer gofal cyn oriau'r ysgol. Dydy hyn ddim yn dynodi lefel y galw sy'n cael ei awgrymu gan yr arolwg rhieni. Bydd archwiliad pellach yn pennu a oes angen gofal ychwanegol y tu allan i oriau'r ysgol.


*Darpariaeth Gofal Chwarae Mynediad Agored*

Mae'r darparwr sy'n gweithredu yn ystod y tymor ac sydd wedi'i lleoli yn Ne Orllewin Taf-elái, wedi nodi yn ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth fod ganddo restr aros ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Mae rhestr aros hefyd wedi'i nodi ar gyfer sesiynau cynllun chwarae yn Ne Orllewin Taf-elái (1), ac mae un darparwr yng Ngogledd Cwm Cynon yn nodi bod ganddo leoedd gwag ar gyfer yr un gwasanaeth.

***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Dywedodd 68.7% o'r Gwarchodwyr Plant a gyflwynodd eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eu bod nhw'n effro o'r Cod ADY (o gymharu â 92.8% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn ac 88% o ddarparwyr gofal sesiynol). Fodd bynnag, dim ond 27% a ddywedodd fod ganddyn nhw staff sydd wedi'u hyfforddi i gefnogi plant ag ADY/AAA (o gymharu ag 85.7% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn ac 80% o ddarparwyr gofal sesiynol). Dim ond lleoliadau gofal y tu allan i oriau'r ysgol yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái a De-orllewin Taf-elái a ddywedodd fod ganddyn nhw berson dynodedig sy'n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA i blant, â staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol neu'n effro o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai'n ddoeth ymgysylltu â lleoliadau y tu allan i oriau'r ysgol mewn ardaloedd eraill er mwyn sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gwybod sut i gefnogi plant yn eu gofal sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau.

Gall fod yn anodd i bob lleoliad ryddhau staff i fynychu hyfforddiant yn ystod y dydd neu'n gynnar gyda'r nos. Mae hyn yn arbennig o anodd i warchodwyr plant gan fod y rhan fwyaf yn gweithio ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, ers i'r Swyddog Arweiniol ADY ddechrau yn ei swydd ym mis Ionawr 2021, mae cynnydd mawr wedi'i gyflawni o ran sicrhau bod hyfforddiant arbenigol ar gael i bob lleoliad gofal plant ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw. Mae'r cynnydd mewn dysgu rhithwir ers i'r pandemig ddechrau wedi bod o gymorth i bob lleoliad, ond yn enwedig i warchodwyr plant, gan fod hwn yn ddull llawer mwy cyfleus o ymgysylltu yn ystod y dydd gwaith.




***Prisiau***

Gofynnwyd i ddarparwyr fewnbynnu eu ffioedd yn eu ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, yn ôl a ydyn nhw'n codi tâl fesul awr, neu fesul sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. O edrych ar yr ymatebion, mae'n amlwg bod rhai darparwyr wedi camddeall y cwestiwn yma. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r cyfraddau isod.

*Gwarchodwr plant*

Mae'r gyfradd fesul awr ar gyfartaledd a gofnodwyd ar gyfer gwarchodwyr plant yn amrywio o £4.72 i £5.50 yr awr. Roedd y gyfradd fesul awr uchaf ar gyfartaledd yn ardal De Cwm Cynon gyda £6.00 yr awr yn cael ei godi ar blant rhwng 8 ac 11 oed. Y gyfradd gyfartalog isaf fesul awr oedd £4.00 yr awr ar gyfer plant dan 1 oed, a gafodd ei nodi yn ardaloedd Gogledd Cwm Cynon a De Ddwyrain Taf-elái. Mae'r cyfraddau yn Ne-ddwyrain Taf-elái a De-orllewin Taf-elái ar ochr isaf yr amrediad. Dyma'r ardaloedd sydd â'r crynodiad uchaf o warchodwyr plant cofrestredig, felly efallai fod hyn yn arwydd o'r gystadleuaeth yn yr ardal.

*Gofal diwrnod llawn*

Mae'r gyfradd ddyddiol gyfartalog ar gyfer darparwyr gofal diwrnod llawn yn amrywio o £34.80 i £47.85 y dydd. Roedd y gyfradd ddyddiol gyfartalog uchaf gan ddarparwyr yng Ngogledd Ddwyrain Taf-elái gyda £66.00 y dydd yn cael ei godi ar blant blwydd oed ac iau. Y gyfradd ddyddiol isaf ar gyfartaledd oedd £31.07 y dydd ar gyfer plant 2-3 oed yng Ngogledd Cwm Rhondda.

*Gofal sesiynol*

Mae'r gyfradd sesiynol gyfartalog ar gyfer darparwyr gofal sesiynol yn amrywio o £6.25 i £22.48 y dydd. Cafodd y gyfradd sesiynol gyfartalog uchaf ei nodi gan ddarparwyr yng Ngogledd Cwm Cynon, sef £31.45 y sesiwn. Y gyfradd sesiynol gyfartalog isaf oedd £5.50 y dydd a gafodd ei nodi yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái. Doedd dim data ar gael ar gyfer lleoliadau yng Ngogledd Cwm Rhondda felly does dim modd eu cymharu.

*Gofal y tu allan i oriau'r ysgol*

Cafodd y gyfradd sesiwn gyfartalog uchaf ei nodi gan ddarparwyr yn Ne Orllewin Taf-elái, sef £22.00 y sesiwn. Y gyfradd sesiwn gyfartalog isaf oedd £7.00 y sesiwn, a gafodd ei nodi yn Ne Cwm Rhondda. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus gyda'r data yma, gan fod lefel y data a gyflwynwyd yn isel a dydy'r ystodau oedran ddim yn cyfateb i oedran y plant sy'n cael gofal mewn lleoliadau y tu allan i oriau'r ysgol (h.y. o 3 oed neu'r isafswm oedran derbyn disgyblion i'r ysgol).

***Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar***

Dywedodd 51 o leoliadau yn eu ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg, dywedodd 31 eu bod yn darparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen i blant tair oed a dywedodd 125 eu bod yn cael cyllid drwy Gynnig Gofal Plant Cymru.

| Math o ofal plant | Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Gofal y tu allan i oriau'r ysgol | Chwarae mynediad agored | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg | 14 | 26 | 11 | 0 | 0 | **51** |
| Cynnig Gofal Plant *(yn derbyn cyllid ar hyn o bryd)* | 55 | 54 | 14 | 2 | 0 | **125** |
| Addysg Meithrin Cyfnod Sylfaen | 0 | 25 | 6 | 0 | 0 | **31** |

*Dechrau'n Deg*

Roedd y crynodiad uchaf o warchodwyr plant yn cynnig gwasanaethau Dechrau'n Deg yng Ngogledd Cwm Cynon (6), ac yna Gogledd Cwm Rhondda a Gogledd-ddwyrain Taf-elái (3 yr un). Roedd y nifer uchaf o ddarparwyr gofal diwrnod llawn yng Ngogledd Cwm Rhondda (7) ac yna De Cwm Cynon (5). Roedd y crynodiad uchaf o ddarparwyr gofal sesiynol yn Ne-orllewin Taf-elái (3), ac yna De Cwm Rhondda (2). Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol nodi yn eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eu bod nhw'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg neu addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen.

*Cynnig Gofal Plant*

Roedd y nifer uchaf o warchodwyr plant sy'n cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái (15), ac yna De-orllewin Taf-elái (12). Roedd y nifer uchaf o leoliadau gofal diwrnod llawn


yng Ngogledd Cwm Rhondda (11) ac yna De-orllewin Taf-elái (10). Roedd y nifer uchaf o ddarparwyr gofal sesiynol yn Ne-orllewin Taf-elái (6), ac yna Gogledd-ddwyrain Taf-elái (3). Dim ond dau ddarparwr y tu allan i oriau'r ysgol a nododd eu bod nhw'n darparu Cynnig Gofal Plant Cymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu nad yw lleoliadau gofal y tu allan i oriau'r ysgol yn cynnig hawl gwyliau'r Cynnig Gofal Plant ar hyn o bryd. Byddai eu hannog i wneud hynny'n darparu'r gwasanaeth yma i rieni ac yn ei wneud yn fwy cynaliadwy i'r lleoliad, gan fod rhieni'n defnyddio gofal plant wedi'i ariannu i ddefnyddio'r gwasanaeth.

*Addysg Meithrin Cyfnod Sylfaen*

Roedd y nifer uchaf o leoliadau gofal diwrnod llawn a oedd yn darparu addysg Meithrin y Cyfnod Sylfaen yn Ne-ddwyrain Taf-elái (6) ac yna Gogledd Cwm Rhondda a De-orllewin Taf-elái (5 yr un). Roedd y nifer uchaf o leoliadau gofal sesiynol yn ne-orllewin Taf-elái (3) ac yna De-ddwyrain Taf-elái (2).

***Gofal Plant Di-dreth / Talebau Gofal Plant***

Nododd 151 yn eu ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth fod eu rhieni yn cael gofal plant di-dreth neu dalebau gofal plant i gefnogi costau ffioedd.




Gwarchodwyr plant yn Ne-ddwyrain Taf-elái oedd fwyaf tebygol o dderbyn y cynllun gofal plant di-dreth neu dalebau gofal plant (24), ac yna Gogledd-ddwyrain Taf-elái (18). Lleoliadau gofal diwrnod llawn yng Ngogledd Cwm Rhondda oedd fwyaf tebygol (11), ac yna De-orllewin Taf-elái (10). Nododd lleoliadau gofal sesiynol yn Ne-orllewin Taf-elái (6), ac yna De-ddwyrain Taf-elái (4) eu bod nhw'n derbyn y cynlluniau yma. Ni wnaeth unrhyw leoliadau gofal sesiynol yng Nghwm Cynon na Chwm Rhondda nodi yn eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eu bod nhw'n derbyn taliad drwy'r cynlluniau hyn. Lleoliadau gofal y tu allan i oriau'r ysgol yn Ne Orllewin Taf-elái oedd fwyaf tebygol (5), ac yna un lleoliad yr un yn Ne Cwm Rhondda, Gogledd-ddwyrain Taf-elái a De-ddwyrain Taf-elái.

**Anghenion rhieni/gwarcheidwaid**

Cafodd arolwg ar-lein ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn agored i'w gwblhau yn ystod mis Hydref 2021. Cafodd hyn ei hyrwyddo'n eang yn RhCT trwy leoliadau gofal plant, ysgolion ac asiantaethau partner. Roedd yr arolwg hefyd ar gael ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn ogystal â Connect RCT, platfform cymunedol ar-lein. Aeth swyddogion hefyd i grwpiau rhieni a phlant bach i ymgysylltu â rhieni'n uniongyrchol.

Daeth cyfanswm o 823 o ymatebion i law gan deuluoedd sy'n byw yn RhCT. Gan ddefnyddio'r data o god post a ddarparwyd, daeth ymatebion i law o bob rhan o RCT. Rhieni

yn Ne-orllewin Taf-elái a gyflwynodd y nifer fwyaf o ymatebion (190), a De Cwm Cynon a gyflwynodd y lleiaf (138). O ran y rhai a atebodd:

- Mae gan 93.8% gyfrifoldeb dros blant (771)
- Roedd gan yr ymatebwyr gyfanswm o 1338 o blant, gyda chyfartaledd o 2 o blant fesul teulu.
- Roedd gan 38.7% o'r ymatebwyr blant rhwng 5 ac 8 oed (318), roedd gan 37.8% blant o dan 2 oed (310) ac roedd gan 25.3% blant 3 oed (208)
- Roedd gan 28.3% o'r ymatebwyr blant rhwng 9 ac 17 oed (232)
- Mae gan 7.4% o'r ymatebwyr blentyn ag anabledd neu salwch hirdymor (61)
- Mae gan 9.7% o'r ymatebwyr blentyn ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u dysgu (79)

Roedd 27.6% o'r ymatebwyr (217) yn cytuno'n gryf fod gofal plant yn eu rhwystro rhag cael gwaith neu hyfforddiant, ac roedd bod 21% yn tueddu i gytuno (165). Mae cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) wedi cefnogi rhieni i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ers iddo gael ei lansio. Mae'r ymatebion yma'n awgrymu bod angen gwaith hyrwyddo pellach i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn gwbl effro i'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw.

Gofynnwyd i rieni/gwarcheidwaid a oedd ganddyn nhw unrhyw faterion yn ymwneud â gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oedd wedi effeithio arnyn nhw. Dywedodd 74% o'r ymatebwyr fod materion gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith (417), a'r rhan fwyaf ohonyn nhw o ardal De-orllewin Taf-elái (178), ac yna De-ddwyrain Taf-elái (145). Er nad yw'r ymatebion ar eu pen eu hunain yn nodi mai pandemig COVID-19 oedd y rheswm dros y materion yma, mae testun yr ymatebion yn awgrymu ei fod yn ffactor a gyfrannodd.

***Gofal plant a ddefnyddir ar hyn o bryd YN YSTOD Y TYMOR***

O'r rhai sy'n defnyddio gofal plant yn ystod y tymor ar hyn o bryd, mae 51.8% o rieni yn dibynnu ar deulu a ffrindiau (414). Roedd defnydd Meithrinfa Ddydd Breifat yn ail gyda 30% o rieni yn defnyddio'r rhain (240), a 24.4% yn defnyddio Clwb Cyn Ysgol / Clybiau Brecwast (195). Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus gyda'r ymatebion ar gyfer gofal cyn ysgol, gan fod llawer o rieni'n defnyddio darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac y bydden nhw'n ystyried y ddarpariaeth yma fel gofal plant. Mae 13.9% o rieni (111) yn defnyddio gwarchodwyr plant ar hyn o bryd.

Dywedodd rhieni yng Ngogledd Cwm Cynon a De Cwm Cynon eu bod nhw'n defnyddio'r nifer fwyaf o oriau o ofal plant yn ystod y tymor. Mae'r ffigurau ar gyfer yr ardaloedd yma'n sylweddol uwch na'r ardaloedd eraill a chyfartaledd RhCT, felly dylid eu hystyried yn ofalus. Mae hyn yn arbennig o wir gan mai rhieni yng Ngogledd Cwm Cynon a roddodd yr ymatebion uchaf am beidio â defnyddio gofal plant gan ei fod yn rhy ddrud. Mae'r dadansoddiad yma hefyd yn cynnwys y defnydd o deulu a ffrindiau, nid gofal plant sy'n codi ffi yn unig. Felly nid yw'n rhoi darlun clir o'r defnydd o ofal plant sy'n codi ffi ond gallai esbonio'r nifer uchel o oriau a ddefnyddir yng Ngogledd Cwm Cynon.

***Gofal plant sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn ystod GWYLIAU'R YSGOL***

Eto, mae ymatebwyr yn nodi mai teulu a ffrindiau sy’n darparu eu gofal, gyda 53.7% yn nodi mai dyma’r math o ofal plant y maen nhw'n ei ddefnyddio yn ystod Gwyliau’r Ysgol (417). Meithrinfeydd Dydd Preifat unwaith eto yw'r ail fath mwyaf poblogaidd o ofal plant yn ystod y gwyliau gyda 30.2% o rieni yn defnyddio'r rhain (220). Nododd 14.4% nad ydyn nhw'n defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (105).

Nododd rhieni yng Ngogledd Cwm Cynon a De-ddwyrain Taf-elái eu bod nhw'n defnyddio'r nifer fwyaf o oriau o ofal plant yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol. Unwaith eto, mae'r dadansoddiad yma yn cynnwys y defnydd o deulu a ffrindiau yn ogystal â gofal plant sy'n codi ffi, felly nid yw'n rhoi darlun clir o'r defnydd o ofal plant sy'n codi ffi.

***Costau gofal plant presennol***

Nododd 30% o ymatebwyr eu bod nhw'n gwario £0 yr wythnos ar ofal plant (224). Byddai hyn yn cyd-fynd â'r ymatebion sy'n dangos y ddibyniaeth uchel ar ofal plant anffurfiol gyda theulu a ffrindiau yn gofalu am eu plant. O’r rhai sy’n talu costau gofal plant, nododd 21% eu bod yn talu rhwng £100 a £199 yr wythnos (155). Gan ddefnyddio cyfradd Cynnig Gofal Plant Cymru o £4.50 yr awr fel arwydd, byddai hyn yn prynu rhwng 22 a 44 awr o ofal plant yr wythnos i rieni. Mae'n ymddangos bod hyn yn cyfateb i nifer cyfartalog yr oriau o ofal plant y dywedodd rhieni wrthon ni eu bod nhw'n eu defnyddio. Ar gyfer y rhai a nododd eu codau post, rhieni yn Ne-orllewin Taf-elái sydd fwyaf tebygol o dalu mwy na £200 yr wythnos ar gostau gofal plant.

***Meysydd o drefniadau gofal plant y gellid eu gwella***

Pan ofynnwyd iddyn nhw a oedden nhw'n anhapus ag unrhyw agwedd ar eu trefniadau gofal plant, 'mwy fforddiadwy' oedd yr ymateb mwyaf cyffredin gyda 50.7% yn dewis yr ymateb yma (33). 'Mwy o oriau ar gael' (lleoliad yn rhy brysur/llawn) oedd nesaf gyda 27.6% o'r ymatebion (18), ac yna 'ymestyn oriau agor gyda'r nos' gyda 24.6% o ymatebion (16).

Mae canfyddiadau rhieni bod costau gofal plant yn rhy uchel yn gyfarwydd i’r ymatebion i’r arolwg yn adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 (ADdGP). Mae llawer o gynlluniau cyffredinol, yn ogystal â’r rhai sydd wedi’u targedu at ddemograffeg benodol, ar gael i rieni yn gymorth gyda chostau gofal plant, megis Gofal Plant Di-dreth, talebau gofal plant gan gyflogwyr, Cynnig Gofal Plant Cymru, Dechrau’n Deg a’r elfen gofal plant o Gredyd Cynhwysol. Peth doeth fyddai hyrwyddo'r cynlluniau hyn yn well.

***Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant***

Y rhesymau mwyaf a gafodd eu rhestru gan ymatebwyr dros beidio â defnyddio gofal plant ar hyn o bryd oedd ei fod yn 'rhy ddrud' (152) a'u bod nhw'n defnyddio 'gofal plant anffurfiol fel teulu neu ffrindiau' (132). Mae'r ddau yn debygol o gyfateb i'w gilydd yn yr ystyr bod rhieni'n defnyddio gofal plant anffurfiol gan eu bod nhw'n teimlo bod gofal â ffïoedd yn rhy ddrud. Y rhesymau nesaf a gafodd eu dewis oedd nad yw'r 'gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer eu hanghenion' (61) a bod 'yr amseroedd y mae ar gael yn anaddas' (47). Mae'r canfyddiadau yma'n debyg i rai o ADdGP 2017. Er bod gwaith wedi'i gyflawni

ers hynny i gefnogi'r sector gofal plant i gynnig sesiynau/opsiynau mwy hyblyg ac i gynnig gofal o fewn oriau annodweddiadol, mae'r cynnydd wedi bod yn gyfyngedig.

***Dod o hyd i wybodaeth***

Y prif gyfrwng i rieni ddod o hyd i wybodaeth yw trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD). Ers yr adroddiad ADdGP diwethaf, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi mynd trwy nifer o newidiadau ac mae cyfleoedd cyfyngedig wedi bod i'r Swyddog GGD fynd i achlysuron ymgysylltu â rhieni. Pan ofynnwyd iddyn nhw sgorio'r datganiad 'Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am ofal plant', roedd 37.2% o'r ymatebwyr yn 'tueddu i anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf' (294). Mae'r pandemig wedi cyfyngu'n ddifrifol ar ymgysylltiad wyneb yn wyneb â rhieni. Nid yw'n syndod, felly, y gallai rhieni fod yn ansicr ble i ddod o hyd i wybodaeth am ofal plant neu gymorth ariannol. Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dudalen Facebook lwyddiannus a chynnwys ar brif wefan y Cyngor. Mae'r garfan Datblygu Gofal Plant a charfan y Cynnig Gofal Plant hefyd yn hyrwyddo opsiynau gofal plant i rieni pryd bynnag y bydd ganddyn nhw achlysuron ymgysylltu wyneb yn wyneb neu rithwir. Nawr bod cyfyngiadau yn llacio, dylid rhoi pwyslais o'r newydd ar hyrwyddo gwybodaeth i rieni ac egluro'n glir ble mae modd iddyn nhw ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol iddyn nhw.

***Yr angen a ragwelir yn y dyfodol am ofal plant***

Holwyd rhieni am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac a oedden nhw'n debygol o fod angen mwy neu lai o ofal plant yn y ddwy flynedd nesaf. Ar adeg cynnal yr arolwg, roedd lefel uchel o weithio gartref o hyd ac aflonyddwch i batrymau gwaith arferol. Felly, efallai ei bod wedi bod yn anodd i rieni ragweld eu hanghenion gofal plant yn gywir wrth symud ymlaen. O'r rheiny a ymatebodd, nododd 51.1% eu bod yn rhagweld y bydd angen mwy o ofal plant arnyn nhw yn y flwyddyn neu ddwy nesaf (405), roedd 24.3% yn rhagweld y bydd eu hanghenion gofal plant yn aros yr un fath (193), tra bod 13.1% yn rhagweld y bydd angen llai o ofal plant arnyn nhw (104). Doedd 11.3% ddim yn gwybod neu roedden nhw'n ansicr (90).

**<u>Dyraniad Daearyddol</u>**

Wrth ddadansoddi'r wardiau ym mhob ardal, cafodd bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth eu canfod. Y prif fathau o ofal plant a gafodd eu hamlygu yn y dadansoddiad yma i'w hymchwilio ymhellach oedd gofal y tu allan i oriau'r ysgol a gwarchod plant. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddiffyg darparwyr gofal sesiynol cofrestredig yng Ngogledd Cwm Rhondda a De Cwm Rhondda. Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn dangos bod nifer o leoliadau Sesiynol heb eu cofrestru yn yr ardaloedd yma, felly o'u hannog i gofrestru mae modd i hyn ddatrys unrhyw fylchau posibl yn y ddarpariaeth.

Mae angen monitro datblygiadau tai yn Ne Cwm Rhondda, De-ddwyrain Taf-elái a De-orllewin Taf-elái am eu heffaith ar anghenion gofal plant yn yr ardaloedd yma dros y pum mlynedd nesaf.

**Cynaliadwyedd**

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant ac i deilwra cymorth i ddiwallu anghenion darparwyr gofal plant. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi a ariennir, pecynnau cychwyn gwarchod plant a chynlluniau grant i gefnogi darpariaeth newydd/ehangu'r ddarpariaeth, ac i gefnogi caledi ariannol difrifol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi lleoliadau i ddelio â'r pandemig COVID-19.

Mae'r cymorth penodol a gafodd ei gynnig i'r sector dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Grant darpariaeth newydd – i gefnogi datblygiad gwasanaethau newydd mewn ardaloedd lle mae angen.
- Grant ehangu darpariaeth – i gefnogi ehangu lleoliadau presennol i gynnig gwasanaethau newydd, neu fwy o oriau, er mwyn ymateb lle mae galw.
- Pecyn gwarchodwyr plant newydd - i gefnogi unigolion i ddod yn Warchodwyr Plant cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a ariennir, aelodaeth PACEY am flwyddyn a grant cychwyn bach, yn ogystal â chymorth unigol gan y garfan datblygu gofal plant.
- Cefnogaeth gyda chyflenwadau cyfarpar diogelu personol - i gefnogi lleoliadau gyda chostau cyfarpar diogelu personol a deunyddiau glanhau ychwanegol trwy'r pandemig.
- Grant cymorth COVID – i gefnogi lleoliadau gyda'r incwm is a'r costau ychwanegol sydd wedi'u hachosi gan y pandemig. Rhannwyd y grant yn dair adran:
    - Cau lleoliad yn llawn/rhannol – i gefnogi darparwyr y bu'n rhaid iddyn nhw gau eu lleoliadau o ganlyniad i achosion positif ymhlith staff neu blant neu oherwydd nad oes modd iddyn nhw fodloni'r cymarebau staffio gofynnol gan fod staff yn hunanynysu.
    - Costau uwch – i gefnogi lleoliadau gyda chostau uwch sy'n gysylltiedig â'r pandemig, megis costau gwresogi, glanhau neu wisgoedd ychwanegol, neu gostau sy'n ymwneud ag eiddo gan nad oes modd iddyn nhw agor neu weithredu hyd eithaf eu gallu.
    - Caledi ariannol difrifol – i gefnogi lleoliadau sy'n profi caledi ariannol difrifol o ganlyniad i'r pandemig a lle nad oes cyllid cyhoeddus arall ar gael i dalu'r un costau.
- Grant TGCh – i gefnogi darparwyr i ddefnyddio technoleg ddigidol yng ngoleuni'r pandemig ac er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflwyno system ddigidol y Cynnig Gofal Plant yn ddiweddarach yn 2022.
- Grant monitro C02 – i ddarparu monitorau C02 i leoliadau gofal plant fel un o'r mesurau amddiffynnol i ddiogelu rhag COVID-19.
- Grant adnoddau – i gefnogi lleoliadau i barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel trwy ddarparu ystod o adnoddau iddyn nhw. Roedd saith pecyn adnoddau gwahanol ar gael, ac roedd modd i leoliadau ddewis hyd at dri phecyn yr un.
- Grant cyfalaf bach – i gefnogi lleoliadau i wneud addasiadau neu welliannau cyfalaf bach i'w lleoliadau i'w helpu i gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru.

**COVID-19**
Yn yr ymateb uniongyrchol i COVID-19, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws (C-CAS) i ddarparu gofal plant brys i deuluoedd gweithwyr allweddol a phlant a oedd yn cael eu hystyried yn agored i niwed.  Roedd y cynllun yn rhedeg o fis Ebrill i fis Awst 2020, er bod RhCT yn darparu gofal i rai plant o 23 Mawrth.  Yn gyfan gwbl, cafodd 99 o ddarparwyr gofal plant gyllid i gefnogi plant RhCT, gyda 14 ohonyn nhw'n lleoliadau y tu allan i RCT.  Cafodd 747 o blant eu cefnogi, ac roedd 95 ohonyn nhw'n cael eu hystyried yn agored i niwed.  Cafodd 223,115 o oriau o ofal eu hariannu, gan gostio £1.115 miliwn.


Cafodd arolwg gwerthuso ei anfon at rieni a darparwyr yn ystod hydref 2020.  Daeth cyfanswm o 289 o ymatebion i law gan rieni a 46 gan ddarparwyr.  Roedd 99% o rieni yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawson nhw gan y Cyngor (286).  Roedd pob rhiant yn hapus gyda'r gofal a gafodd ei ddarparu i'w plant (289).  Nododd 99% fod Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws wedi eu galluogi i barhau i gyflawni eu rôl hollbwysig bryd hynny (287), tra bod 79% wedi nodi bod Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws wedi eu galluogi i gynyddu eu horiau gwaith er mwyn ymateb i'r pandemig (224).  Roedd 50% o'r darparwyr a ymatebodd yn ei chael yn 'Hawdd Iawn' i ddod o hyd i wybodaeth am y cynllun a sut i'w gyflwyno (23) tra bod 44% yn ei chael yn 'Hawdd' (20).  Nododd yr holl ymatebwyr eu bod yn gweld eu rhwymedigaethau'n hawdd i'w deall, yn ogystal â'r broses weinyddu a hawlio. Nododd yr holl ymatebwyr fod ganddyn nhw ddigon o staff i ddarparu Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws a nododd 91% fod y cynllun wedi helpu eu busnesau yn ariannol (41).

***Effaith ar ddarparwyr gofal plant***
Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddofn ar ddarparwyr.  Mae materion staffio a rheoli achosion positif yn parhau i fod yn her, yn enwedig i warchodwyr plant sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain.  Gall achosion positif ymhlith eu teulu eu hunain darfu ar gyflenwi eu busnesau.

*Cau dros dro*
Ers mis Medi 2020, mae AGC wedi cyhoeddi diweddariadau wythnosol ar nifer y lleoliadau sydd wedi'u cau dros neu sydd wedi ail-agor.   Roedd ychydig o dan 50% o leoliadau RhCT ar gau hyd at fis Rhagfyr 2020.  Ers 2021, mae hyn wedi lleihau'n sylweddol, gyda chynnydd bach yn ystod gaeaf 2021 wrth i'r amrywiad Omicron gael effaith ar nifer yr achosion positif.

*Achosion o COVID-19 mewn lleoliadau*
Yn ogystal â bod â dyletswydd i roi gwybod i AGC a Phrofi, Olrhain, Diogelu, gofynnwyd i leoliadau hefyd roi gwybod i garfan datblygu gofal plant yr ALI am unrhyw achosion positif, fel bod modd i swyddogion gynnig cymorth ac arweiniad.  Cafodd ffurflen ar-lein ei llunio yn ystod hydref 2020 ac mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hysbysiadau cadarnhaol a gafodd eu cyflwyno i'r garfan gofal plant rhwng Mawrth 2021 a Chwefror 2022.  Rhaid nodi nad data swyddogol y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu yw hwn ac roedd yn dibynnu ar leoliadau

gofal plant i roi gwybod i garfan gofal plant y Cyngor. Felly nid yw'n adlewyrchu'r holl achosion sydd wedi digwydd mewn lleoliadau yn RhCT.




Mae modd gweld bod yr amrywiad Omicron wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr achosion positif mewn lleoliadau yn ystod Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022. Bu cynnydd mawr ym mis Medi hefyd, fwy na thebyg o ganlyniad i'r dychweliad i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf.

*Effaith COVID-19 ar y galw am wasanaethau*

Mae’n anodd gwerthuso effaith hirdymor COVID-19 ar y galw am wasanaethau gofal plant. Mae'r effaith tymor byr wedi bod yn sylweddol. Mae patrymau gwaith rhieni wedi newid, gyda llawer bellach yn gweithio gartref. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar ddarparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol a gofal yn ystod y gwyliau yn arbennig. Mae effaith lleoliadau’n cau yn sgil achosion positif a phrinder staff hefyd wedi effeithio ar hyder rhieni i ddefnyddio gwasanaethau gofal plant, yn ogystal â’r ofn y bydd eu plant yn dal COVID-19 mewn lleoliadau a’i drosglwyddo i aelodau o’u teuluoedd sy'n agored i niwed.

Amlygodd yr arolwg rhieni'r anawsterau yr oedd rhieni’n eu hwynebu gyda phlant yn methu â mynychu lleoliadau gofal plant heb fawr o rybudd, yn gorfod hunanynysu fel cysylltiadau agos a’r cyfyngiadau ar niferoedd o ran gofal brecwast a gofal ar ôl ysgol a gafodd ei achosi gan yr angen i gynnal swigod. Fydd yr arolwg rhieni a gafodd ei gynnal yn nhymor yr hydref 2021 ddim yn adlewyrchu anghenion gofal plant rhieni yn llawn gan fod trefniadau gweithio llawer o rieni yn parhau i fod yn hyblyg. Bydd adroddiad blynyddol o ddiweddariadau gweithredu ADdGP 2023 yn rhoi darlun cliriach o faterion hirdymor o ran cyflenwad neu alw am wasanaethau gofal plant. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sector ac yn ymateb lle bo modd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u bod yn hyfyw.

## Gweithlu

Mae'r sector gofal plant yn RhCT yn elwa ar staff medrus, cymwys iawn. Mae gwaith yn parhau i gefnogi ymarferwyr gofal plant i ennill cymwysterau uwch a sicrhau bod DPP rheolaidd yn cael ei annog a'i gefnogi. Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a DPP wedi'i ariannu i'r holl staff gofal plant. Mae newidiadau i ofynion

cymwysterau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau gweithlu sydd â chymwysterau addas.

At ddibenion yr adroddiad yma, mae data ar gymwysterau a hyfforddiant presennol y gweithlu gofal plant wedi'i gymryd o'r data o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a gafodd eu cyflwyno gan ddarparwyr gofal plant ym mis Medi 2021. Mae gan 57.2% o ymarferwyr gymhwyster Lefel 3 (439). Dyma'r lefel ofynnol o gymwysterau ar gyfer staff sy'n rheoli neu'n arwain lleoliadau gofal plant, fel y nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith lleoliadau Dechrau'n Deg, i sicrhau bod gan arweinwyr lleoliadau gymwysterau NVQ Lefel 4 neu Ddiploma FfCCh Lefel 5. Mae 26.3% o ymarferwyr yn RhCT yn nodi eu bod nhw bellach yn meddu ar gymhwyster Lefel 5 (202).

Yn ogystal â hyfforddiant statudol, mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o gyfleoedd hyfforddi statudol a DPP wedi'u hariannu ar gyfer y gweithlu gofal plant yn RhCT. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd Lefel 2
- Cymorth Cyntaf Paediatreg Lefel 3
- Diogelu Lefel 3
- Iechyd a Diogelwch
- Codi a Chario
- Rheoli Ymddygiad Heriol
- Cefnogi plant drwy Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACES)
- Babanod gafodd eu geni yn ystod Pandemig Covid-19
- Ymlyniadau Cadarnhaol
- Swyddog Tân
- Gwrando'n Weithredol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Adeiladu Cadernid
- Hyfforddiant Emosiynau
- Makaton
- Cymorth Cyntaf Iechyd y Meddwl
- Therapi Chwarae
- Gwydnwch, Hunanasesu ac Adeiladu Cynllun Gweithredu
- Cynllunio Adnoddau
- Asesu Risg
- Deall Chwarae Plant

**<u>Prif Ganfyddiadau</u>**

Mae'r prif ganfyddiadau yn ADdGP 2022 yn dangos fod angen archwilio rhai ardaloedd daearyddol ymhellach er mwyn sefydlu a oes angen gofal plant ychwanegol, yn enwedig ardaloedd Gogledd-ddwyrain Taf-elái a De Cwm Rhondda. Dywedodd rhieni bod y gofal y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod y gwyliau i blant oed ysgol yn gyfyngedig. Fodd bynnag,

mae llawer o glybiau y tu allan i oriau'r ysgol yn defnyddio lleoliadau cymunedol a rennir ac roedd cyfyngiadau a gafodd eu gosod mewn ymateb i COVID-19 yn effeithio arnyn nhw, felly mae'n bosibl bod yr adborth yma o ganlyniad i hynny. Wedi dweud hynny, mae datblygu mwy o ofal yn ystod y gwyliau yn flaenoriaeth a nodwyd yn y cynllun gweithredu ar gyfer yr ADdGP yma. Mae cefnogi ehangiad gofal plant cyfrwng Cymraeg yn thema allweddol arall, yn enwedig o ran ymchwilio i'r galw am ofal cyfrwng Cymraeg yn ardal De Cwm Rhondda. Mae recriwtio gwarchodwyr plant hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus a bydd yn parhau felly am gyfnod yr ADdGP yma.

**<u>Camau Gweithredu wedi'u nodi</u>**

Y camau gweithredu isod yw'r rhai sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ADdGP ac maen nhw'n sail i'r cynllun gweithredu hollgyffredinol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

***1 – Galw posibl heb ei fodloni – mathau o ofal plant, lleoliad, oedran***

- Annog darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol presennol i gynnig gofal yn ystod y gwyliau
- Archwilio'r galw am ofal hyblyg ad hoc a/neu gyfleusterau meithrinfa
- Ymchwilio i'r galw am warchodwyr plant ychwanegol ym mhob rhan o RCT, ond yn arbennig:
    - Gogledd Cwm Cynon (Hirwaun a Rhigos)
    - De Cwm Cynon (Abercynon a Gorllewin Aberpennar)
    - Gogledd Cwm Rhondda (Glynrhedynog a Threorci)
    - De Cwm Rhondda (pob ward)
    - Gogledd-ddwyrain Taf-elái (Trefforest)
    - De-ddwyrain Taf-elái (Rhydfelen/Canol Ilan)
    - De-orllewin Taf-elái (Gilfach-goch, Llanharan a Dwyrain Tonyrefail)
- Ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal ychwanegol y tu allan i oriau'r ysgol (ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau) ym mhob rhan o RCT
- Ymchwilio i'r galw am ofal diwrnod llawn ychwanegol yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái
- Monitro effaith datblygiadau tai ar anghenion gofal plant, yn enwedig yn yr ardaloedd canlynol:
    - Llanilid (Brynna)
    - Llanilltud Faerdref
    - Pen-y-graig
- Cefnogi darparwyr gofal sesiynol heb eu cofrestru i gofrestru gydag AGC ac ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal sesiynol ychwanegol yn yr ardaloedd canlynol:
    - Gogledd Cwm Cynon
    - De Cwm Cynon
    - Gogledd Cwm Rhondda
    - De Cwm Rhondda

***2 – Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg***

- Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol cyfrwng Cymraeg sydd heb eu cofrestru, a'u cefnogi i gofrestru gydag AGC ac ymestyn gwasanaethau i ddarparu gofal yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o alw a nodwyd
- Archwilio'r galw am Gylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd daearyddol a nodwyd yn yr ymarfer mapio
- Ymchwilio i fylchau posibl mewn gofal sesiynol a gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg yn Ne Cwm Rhondda
- Cynnig cymorth a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn hyderus i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau ac i hyrwyddo eu hunain fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- Hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol i leoliadau ac annog cyfranogiad
- Ymgyrch hyrwyddo i ddenu mwy o warchodwyr plant Cymraeg eu hiaith
- Cefnogi nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynyddu cyfraddau pontio o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg

***3 – Fforddiadwyedd gofal plant***

- Parhau i hyrwyddo manteision ariannol y Cynnig Gofal Plant, gan bwysleisio'n arbennig yr hawl yn ystod y gwyliau
- Cefnogi darparwyr gofal plant i dderbyn taliad drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth neu dalebau gofal plant gan gyflogwyr
- Gweithio mewn partneriaeth â GGD i hyrwyddo opsiynau gofal plant a chymorth ariannol i rieni

***4 – Plant a chanddyn nhw anghenion addysgol arbennig neu anableddau***

- Archwilio'r galw am ofal yn ystod y gwyliau i blant ag anghenion ychwanegol neu anabledd
- Dod o hyd i gyfleoedd i wella mynediad i ofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant ag anghenion dysgu a chorfforol ychwanegol
- Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a chyfrifoldebau'r lleoliad i blant a'u teuluoedd
- Cynnig hyfforddiant ar amrywiaeth i ddarparwyr gofal plant i wella cynhwysiant o fewn lleoliadau

***5 – Cymorth i'r sector gofal plant***

- Parhau i gynnig grantiau i gefnogi darpariaeth newydd neu ehangu darpariaeth bresennol, ac i gefnogi lleoliadau sy'n wynebu caledi ariannol difrifol
- Annog pob lleoliad i gofrestru gyda GGD a chadw'u cyfrifon yn gyfredol
- Archwilio sut mae modd cefnogi darparwyr i gynnig gofal mwy hyblyg a all ddarparu ar gyfer patrymau sifft a galw ad hoc
- Gwella ymgysylltiad â nanis sydd eisoes ar y cynllun Darparwr Gofal Plant yn y Cartref
- Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa, gan amlygu'n glir y pecyn cymorth sydd ar gael i ddarpar warchodwyr plant

- Hyrwyddo manteision cael mynediad at ofal plant rheoledig i les a datblygiad plentyn
- Hyrwyddo'r cynllun Darparwr Gofal Plant yn y Cartref i rieni; hyrwyddo manteision cofrestru iddyn nhw, ac i nanis presennol sydd ddim ar y cynllun
- Cefnogi'r sector i baratoi ar gyfer cyflwyno cynllun Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy flwydd oed, a'u cefnogi i ymgysylltu ag ef
- Cefnogi lleoliadau i farchnata eu gwasanaethau'n effeithiol, yn enwedig rhinweddau unigryw, fel ieithoedd ychwanegol, neu wasanaethau hyblyg, ad hoc neu annodweddiadol.

***6 – Ansawdd a llywodraethu***

- Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol a gofal sesiynol sydd heb eu cofrestru; eu hannog a'u cefnogi i gofrestru gydag AGC
- Gwella ansawdd y lleoliadau gofal plant y tu hwnt i Safonau Cenedlaethol Gofynnol AGC
- Hyrwyddo manteision defnyddio gwasanaethau gofal plant cofrestredig AGC i rieni

***7 – Oriau annodweddiadol / galw ad hoc***

- Archwilio'r defnydd o leoedd ad hoc ac annog lleoliadau i gynnig contractau mwy hyblyg
- Cynnal ymgynghoriad pellach i sefydlu'r galw am ofal plant yn ystod oriau annodweddiadol, yn arbennig cyn 8am neu ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos, penwythnosau a gofal dros nos

***8 – Datblygu'r Gweithlu***

- Sicrhau bod modd i ymarferwyr fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi statudol a DPP perthnasol
- Hyrwyddo hyfforddiant ADY a chynhwysiant; gwella mynediad at hyfforddiant, yn enwedig i warchodwyr plant
- Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau i gynnig llwybrau pontio i'r sector gofal plant ar gyfer disgyblion sy'n gadael yr ysgol, yn enwedig disgyblion cyfrwng Cymraeg

# Adran 1: Cyflwyniad

Mae gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyfrifoldeb o dan Adran 26 Deddf Gofal Plant 2006 i baratoi Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal, anghenion rhieni/gofalwyr ac i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n cael eu nodi. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y canllawiau *Canllawiau Digonolrwydd Gofal Plant (Gorffennaf 2016)* a chylchlythyr Llywodraeth Cymru *WGC 003 2021 WG21-28 Canllawiau Statudol ar Ofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (Mawrth 2021)*.

Nod yr adroddiad yw nodi blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn cydnabod bod gofal plant fforddiadwy, ac o ansawdd uchel, yn hanfodol i sicrhau ffyniant ei drigolion, drwy gynorthwyo rhieni i fynd i mewn i addysg/hyfforddiant neu'r gweithle. Mae'n hanfodol hefyd i les y plant, gan sicrhau eu bod nhw'n derbyn gofal mewn amgylcheddau diogelu ac ysgogol sy'n cynorthwyo ac yn annog eu datblygiad. Hefyd, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n dda.

***COVID-19***

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith gythryblus ar y cyflenwad gofal plant a'r galw am ofal plant. Bu'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant ar gau am nifer o fisoedd ar ddechrau'r pandemig. Ers ailagor, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi wynebu tarfu ar eu busnesau, yn sgil staff yn hunanynysu, achosion positif o fewn y lleoliad a sicrhau bod canllawiau mesurau amddiffynnol yn cael eu gweithredu. Mae lleihad yn y galw wrth i lawer o rieni ddechrau gweithio o gartref wedi gwaethygu'r anawsterau y mae rhai lleoliadau wedi'u hwynebu.

Mae'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael ei lunio ar adeg pan fo'r galw am wasanaethau yn dal yn ansicr ac yn gyfnewidiol, a phan fo'r cyflenwad gofal plant yn dal yn destun cyfyngiadau a therfynau ar y gwasanaethau a gynigir. Er bod y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn mor gywir ag y bo modd, nid yw'n bosibl pennu gydag unrhyw sicrwydd beth fydd y blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Gobeithir y bydd y sefyllfa'n sefydlogi dros y deuddeng mis nesaf ac y bydd unrhyw fylchau sy'n cael eu nodi ar ôl hynny yn cael eu cynnwys yn adroddiadau diweddaru'r cynllun gweithredu blynyddol.

**<u>Cyd-destun</u>**

Y prif ffynonellau data ar gyflenwad a galw a ddefnyddiwyd i lunio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yw'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, data a gedwir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) a'r arolwg rhieni/gofalwyr a gynhaliwyd yn haf 2021.

***Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS)***

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn mynnu bod yr holl wasanaethau gofal plant a chwarae a reoleiddir yn cwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n darparu gwybodaeth i AGC i gynllunio'u harolygiadau, ac yn helpu cynghori Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflwr y sector. Roedd yn ofynnol i ddarparwyr gwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth eleni rhwng 7 Gorffennaf ac 11 Awst 2021. Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu gydag Awdurdodau Lleol i'w galluogi i asesu'r cyflenwad gofal plant yn eu hardal, ochr yn ochr â gwybodaeth leol, a setiau data eraill.

Er ei fod yn ofyniad statudol, y ganran o ddarparwyr gofal plant yn RhCT a gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar-lein oedd 87.0%, fel y manylir isod:

| **Rhondda Cynon Taf** | | Nifer y gwasanaethau sy'n gymwys i gyflwyno datganiadau SASS | Nifer y gwasanaethau a gyflwynodd ddatganiadau SASS | % o wasanaethau cymwys a gyflwynodd ddatganiadau SASS | Nifer y gwasanaethau a gyflwynodd ffurflenni papur i'r Cyngor | % gyffredinol o wasanaethau cymwys a gyflwynodd naill ai SASS neu ffurflenni papur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Wasanaeth | Gwarchodwr Plant | 107 | 91 | 85.0% | 5 | 89.7% |
| | Crèche | - | - | - | - | - |
| | Gofal Diwrnod Llawn | 57 | 54 | 94.7% | 1 | 96.5% |
| | Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 6 | 5 | 83.3% | - | 83.3% |
| | Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol | 11 | 6 | 54.5% | 4 | 90.9% |
| | Gofal Dydd Sesiynol | 26 | 24 | 92.3% | 1 | 96.2% |
| **Cyfanswm** | | **207** | **180** | **87.0%** | **11** | **92.3%** |

Cysylltodd swyddogion RhCT â phob lleoliad gofal plant rheoledig na gwblhaodd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar-lein, a chyflwynwyd un ar ddeg o ffurflenni papur ychwanegol i'r Cyngor. Felly, mae'r data ar gyflenwad a ddadansoddwyd yn yr Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn seiliedig ar **92.3%** o wasanaethau gofal plant rheoledig yn RhCT.

***Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd***

Cymerir yr holl ddata ar gyfer gofal plant anghofrestredig/eithriedig o'r data a gedwir gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd RhCT a holiaduron darparwyr a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2021. Derbyniwyd cyfanswm o naw holiadur, yn seiliedig ar ddata'r Gwasanaeth

Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) a gwybodaeth leol. Roedd swyddogion yn ymwybodol o ddarparwyr gofal plant anghofrestredig ychwanegol yn RhCT nag y mae'r lefel yn awgrymu. Rhaid bod yn ofalus, felly, wrth ddadansoddi data darpariaeth anghofrestredig. Mae'n parhau'n flaenoriaeth gan y Cyngor i ymgysylltu â lleoliadau anghofrestredig a'u hannog i fanteisio ar ein pecynnau cymorth ac i gofrestru gydag AGC.

***Arolwg Rhieni/Gofalwyr***

Datblygodd Llywodraeth Cymru arolwg canolog a ddefnyddiwyd ledled Cymru i fesur barnau rheini ar y cyflenwad gofal plant a'i ansawdd. Cynhaliwyd hwn ym mis Hydref 2021. Mae wedi darparu data cyson y gall pob Awdurdod Lleol ei ddefnyddio i ddatblygu'u Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ochr yn ochr â'u gwybodaeth leol a setiau data. Derbyniodd RhCT 823 o holiaduron wedi'u llenwi. Roedd gan y teuluoedd hyn gyfanswm o 1,338 o blant, sy'n gyfwerth â 2.67% yn unig o'r rhai 0-17 oed yn RhCT.[1]

***Ardaloedd daearyddol***

Yn adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017, cafodd wardiau etholiadol eu grwpio yn wyth ardal ddaearyddol. Er bod y grwpiau hyn wedi'u seilio ar ffiniau naturiol a/neu boblogaethau tebyg, bu'n anodd dadansoddi anghenion unigol cymunedau. At ddibenion adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022, mae wardiau wedi'u grwpio yn ôl Canolfannau Cydnerthedd Cymunedol ac Ardaloedd Rhwydweithiau Cymdogaeth (gweler isod). Un agwedd ar strategaeth 'RhCT Gyda'n Gilydd' y Cyngor yw hon. Dyma yw ymagwedd y Cyngor at weithio mewn partneriaeth â chymunedau a thrigolion sy'n cynnig cymorth i unigolion, grwpiau a gwasanaethau trwy Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol, Canolfannau Rhwydwaith a chymorth gyda chyllid, adnoddau a chyngor ymgynghori â'r gymuned.

Er y bydd y meysydd hyn yn cael eu defnyddio fel sail y naratif yn yr adroddiad hwn, mae'r wardiau etholiadol yn RhCT wedi'u dadansoddi ar wahân yn Adran Saith. Bydd hyn yn sicrhau asesiad mwy cywir o'r cyflenwad a'r galw.


Nodwch, ysgrifennwyd yr adroddiad hwn cyn gweithredu'r newidiadau i ffiniau wardiau etholiadol a argymhellwyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Daw'r rhain i rym yn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022. Cyfeirir ar y wardiau etholiadol diwygiedig hyn yn adroddiad diweddaru blynyddol a chynllun gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2023.

| Gogledd Cynon | De Cynon | Gogledd Rhondda | De Rhondda |
|---|---|---|---|
| Gogledd Aberaman | Abercynon | Glynrhedynog | Cwm Clydach |
| De Aberaman | Cwmbach | Maerdy | Cymer |
| Dwyrain Aberdâr | Gorllewin | Pentre | Llwynypia |
| Gorllewin | Aberpennar | Treherbert | Pen-y-Graig |
| Aberdâr/Llwydcoed | Dwyrain Aberpennar | Treorci | Porth |
| Hirwaun | Penrhiwceibr | Tylorstown | Tonypandy |
| Pen-y-Waun | | Ystrad | Trealaw |

[1] Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, gweler Adran 11

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhigos | | | Ynyshir |

| **Gogledd Ddwyrain Taf Elái** | **De Orllewin Taf Elái** | **De Orllewin Taf Elái** |
|---|---|---|
| Cilfynydd<br>Glyncoch<br>Graig<br>Tref Pontypridd<br>Rhondda<br>Trallwng<br>Trefforest<br>Ynysybwl | Beddau<br>Pentre'r Eglwys<br>Y Ddraenen Wen<br>Llanilltud Faerdref<br>Rhydyfelin/<br>Canol Ilan<br>Ffynnon Taf<br>Tonteg<br>Tyn-y-Nant | Brynnau<br>Gilfach Goch<br>Llanharan<br>Llanhari<br>Tref Llantrisant<br>Pont-y-clun<br>Tonysguboriau<br>Dwyrain Tonyrefail<br>Gorllewin Tonyrefail |



# Adran 2: Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Wrth baratoi'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ymgynghorwyd ag ystod o randdeiliaid er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'u barnau ynglŷn â'r farchnad gofal plant yn RhCT. Rhestrir y rhain isod.

Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn Haf 2022 am gyfnod o 28 diwrnod.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) yn RhCT yn y pum mlynedd diwethaf, ac erbyn hyn mae'n cyflogi un swyddog FIS sy'n brif gyswllt ar ymholiadau'n gysylltiedig â gofal plant. Yn sgil hyn, a'r pandemig COVID-19, nid yw swyddog y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi gallu mynychu digwyddiadau ymgysylltu fel yr oedd yn gwneud yn flaenorol. Gobeithir y bydd digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cynyddu wrth i gyfyngiadau'r pandemig leihau.

Mae swyddog y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithio'n agos gyda'r tîm datblygu gofal plant i rannu gwybodaeth gyda rhieni ac annog darparwyr gofal plant i gofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod eu manylion ar gronfa ddata DEWIS. Gall rhieni chwilio hon yn uniongyrchol ac mae'n offeryn marchnata rhad ac am ddim pwysig yr anogir pob darparwr i'w ddefnyddio i'w fantais.

Oherwydd newidiadau i'r ffordd y cofnodir ymholiadau, dim ond data am ymholiadau drwy'r e-bost dros y chwe mis diwethaf yr oedd Swyddog y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gallu ei ddarparu. Roedd mwyafrif yr ymholiadau ar gyfer gwarchodwyr plant (18) ac yna grwpiau rhieni a phlant bach (10). Daeth y rhan fwyaf o ymholiadau gan rieni yn ardal De Rhondda (12), ac yna De Ddwyrain Taf Elái (8). Nid yw'n ymddangos fod yna ardal benodol sy'n gofyn am fathau penodol o ofal plant. Fodd bynnag, De Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái welodd y rhan fwyaf o ymholiadau ar gyfer gwarchodwyr plant, a De Rhondda welodd y nifer uchaf o ymholiadau ar gyfer grwpiau rhieni a phlant bach.

| Nifer yr ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Gogledd Cynon | De Cynon | Gogledd Rhondda | De Rhondda | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | De Ddwyrain Taf Elái | De Orllewin Taf Elái | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 2 | 3 | 1 | 3 | 1 | 4 | 4 | **18** |
| Gofal Diwrnod Llawn | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | **3** |
| Gofal sesiynol | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | **4** |
| Gweithgareddau / cynlluniau | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | **3** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| chwarae yn ystod gwyliau | | | | | | | | |
| Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | **2** |
| Dechrau'n Deg | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | **3** |
| Grwpiau Rhieni a Phlant bach | 1 | 2 | 0 | 4 | 1 | 2 | 0 | **10** |
| Gwasanaethau gofal plant (heb eu pennu) | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | **2** |
| **Cyfanswm** | **3** | **7** | **2** | **12** | **6** | **8** | **7** | |

**Rhieni / Gofalwyr**

Gweler adran Chwech.

**Darparwyr Gofal Plant**

Gweler adran Pedwar.

**Unigolion sy'n cynrychioli'r rheiny â diddordeb mewn gofal plant**

Mae darparwyr gofal plant yng Nghymru yn cael cefnogaeth gan sefydliadau ambarél, sy'n darparu cyngor, arweiniad, a hyfforddiant i'w haelodau. Fe'u gelwir gyda'i gilydd yn CWLWM, a cheisiwyd barnau'r sefydliadau hyn ynglŷn â'r farchnad gofal plant yn RhCT. Gofynnwyd iddynt am farnau ar ddigonolrwydd, ansawdd, fforddiadwyedd, a hygyrchedd yr holl fathau o ofal plant a oedd ar gael yn RhCT. Hefyd, gofynnom i bartneriaid CWLWM i nodi gwelliannau ar gyfer sut gallai gofal plant ddiwallu anghenion categorïau penodol o rieni/gofalwyr yn well. Ymatebodd holl bartneriaid CWLWM i'r arolwg, er bod llawer o'r sylwadau i weld yn eithaf generig ac nid yn benodol i RhCT. Ceir adborth unigol isod:

***Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs***

Mae nifer uchel o leoliadau anghofrestredig y tu allan i'r ysgol o hyd yn RhCT, er gwaethaf cymorth a gynigir gan CPCKC a'r ALI dros nifer o flynyddoedd. Gall cael gofal plant cofrestredig ar safle ysgol fod yn ffactor yn newisiadau rhieni, e.e. o ran dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Cafodd cau clwb mawr y tu allan i'r ysgol yn ystod pandemig COVID effaith fawr ar ddarpariaeth yn RhCT. Er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol, mae angen cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng gofal plant ac addysg. Gofal plant yn yr ysgol yw dewis rhieni yn aml, ac mae'n opsiwn mwy cynaliadwy i ddarparwyr (trafnidiaeth). Fodd bynnag, mae mynediad i safleoedd ysgol yn cael ei rwystro'n aml gan faterion yn ymwneud ag agor/cloi i fyny, heb ystyriaeth ddigonol wrth gynllunio adeiladau newydd, galw cynyddol sy'n arwain at ddiffyg gofod ar gael, pryderon parhaus ynglŷn â COVID a chymysgu grwpiau oedran.

**Meysydd gwella ar gyfer RhCT**

| | |
|---|---|
| Teuluoedd incwm isel | Mae gweithwyr ar gyflogau is yn aml yn gweithio patrymau shifft annodweddiadol. Mae angen gwneud gwaith i ddatblygu, cynnal a hyrwyddo darpariaeth gofal plant sy'n cynnig oriau annodweddiadol. Bydd annog lleoliadau anghofrestredig i gofrestru yn cynorthwyo teuluoedd incwm isel gan y byddant yn gallu elwa o gynlluniau cymorth ariannol. Ehangu cynlluniau presennol o ran cymhwystra ac ystodau oedran i sicrhau y gall effaith hirdymor fod o fudd i gymaint o deuluoedd ag y bo modd (fel Dechrau'n Deg). |
| Teuluoedd â phlant ag anableddau | Sicrhau bod cyllid ar gael a chymorth i ddatblygu a chynnal darpariaeth i blant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â chyllid a chymorth i sicrhau bod lleoliadau'n gynhwysol ac yn hygyrch (e.e. cyllid ar gyfer cymorth 1:1/hyfforddiant ychwanegol i staff). |
| Teuluoedd sy'n gweithio | Gofal plant cofrestredig addas i bob oedran ac yn y dewis iaith. Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn arbennig. Ymestyn cymhwystra cynnig gofal plant i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Hyrwyddo gofal plant di-dreth yn well. |
| Teuluoedd sy'n chwilio am waith | LIC i archwilio ymestyn cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwystra ac ystodau oedran. Gall costau gofal plant oedran ysgol barhau i fod yn rhwystr o ran rhieni'n cynyddu oriau gwaith/ gwneud cynnydd mewn gyrfaoedd/ ymgymryd â chyflogaeth. |

**Ymateb** – ar ôl cau'r clwb sefydledig y tu allan i oriau ysgol y soniwyd amdano uchod, gweithiodd y Cyngor gyda darparwr gofal plant lleol i sefydlu dau glwb newydd y tu allan i oriau ysgol ar safleoedd yr ysgolion unigol (roedd y clwb blaenorol wedi casglu plant o nifer o ysgolion a'u cludo i hwb canolog yn yr ysgol uwchradd leol). Agorodd y rhain ym Medi 2021, ac maent yn llwyddiannus iawn. Gweithiodd ysgol leol cyfrwng Cymraeg gyda grŵp meithrin lleol i sefydlu'u clwb eu hunain ar safle'r ysgol.

Effeithiwyd yn anghymesur ar ofal y tu allan i oriau ysgol gan gyfyngiadau COVID-19 a rhieni'n gweithio o gartref. Mae'r arolwg rhieni'n awgrymu bod galw o hyd am y math hwn o ofal plant a bydd hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Sefydlu gofal y tu allan i oriau ysgol mewn ardaloedd lle ceir angen dynodedig**

***Blynyddoedd Cynnar Cymru***

Mae ystod eang o aelodau gan Blynyddoedd Cynnar Cymru yn RhCT, gan gynnwys meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant a chlybiau ar ôl ysgol. Maent yn cynorthwyo aelodau i ymadfer o effaith COVID, a gyda materion penodol fel cynaliadwyedd, recriwtio, asesiadau risg ac ansawdd. Codwyd recriwtio fel mater i aelodau, ac mae hyn yn cael effaith ar ansawdd, yn ogystal ag arwain at rai o'u haelodau yn methu cynnal darpariaeth gyda chapasiti llawn.

**Meysydd gwella ar gyfer RhCT**

| | |
|---|---|
| Teuluoedd incwm isel | Estyniadau i ddarpariaeth Dechrau'n Deg lle ceir capasiti. Mae pocedi o angen gyda rhieni sy'n disgyn y tu allan i Dechrau'n Deg. |
| Teuluoedd â phlant ag anableddau | Maent yn cefnogi darparwyr i ddarparu gwasanaethau i'r holl blant ond nid ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â theuluoedd sydd â phlant ag anableddau. Byddai llwybr atgyfeirio clir a gwybodaeth gan yr ALI yn fuddiol. |
| Teuluoedd sy'n gweithio | Nid yw Blynyddoedd Cynnar Cymru'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd yn y sir hon ond maent yn cynorthwyo darparwyr i gynnig gwasanaethau i deuluoedd, yn enwedig y Cynnig gofal plant. |
| Teuluoedd sy'n chwilio am waith | Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru'n hapus i weithio gyda sefydliadau eraill i helpu lledaenu negeseuon i deuluoedd sy'n chwilio am gyflogaeth. |

**Ymateb** – mae datblygu a chynllunio'r gweithlu yn bryder allweddol i leoliadau ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda CWLWM, a phartneriaid eraill, i hyrwyddo gofal plant fel dewis gyrfa cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd gweithio agosach gyda cholegau Addysg Bellach lleol a pharhau i gynnig rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr fel y gall darparwyr sicrhau bod cymwysterau addas gan eu gweithlu.

***Mudiad Meithrin***

Mae rhywfaint o waith i'w wneud i hyrwyddo a marchnata cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg a gofal ar eich [y Cyngor] gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol. Wrth chwilio am wybodaeth nid yw ar gael yn uniongyrchol/yn glir. Mae angen gwneud llawer iawn o chwilio CYN bod y wybodaeth yn dod i'r golwg. Rwyf wedi methu dod o hyd i'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' / 'Being Bilingual' ar y wefan. Mae angen i hwn fod ar gael yn uniongyrchol.

| **Meysydd gwella ar gyfer RhCT** | |
|---|---|
| Teuluoedd incwm isel | Ehangu lleoliadau Dechrau'n Deg. Gall bod yn ddwyieithog gael effaith gadarnhaol ar dlodi rhwng y cenedlaethau. Sicrhau gallu rhiant i gael mynediad digyfyngiad i ofal cyfrwng Cymraeg ble bynnag y mae'n byw yn y sir. |
| Teuluoedd â phlant ag anableddau | Hyfforddiant ar gyfer staff a marchnata'r darpariaethau yn well ar gyfer pob plentyn/teulu. Sicrhau bod gofal cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i'r teuluoedd hyn. |
| Teuluoedd sy'n gweithio | Mwy o ddarpariaethau i ymestyn oriau/mwy o ddarpariaethau gofal dydd Cymraeg. Sicrhau gwybodaeth eglur a hawdd ei deall ynglŷn â'r cynnig gofal 30 awr. |
| Teuluoedd sy'n chwilio am waith | Fel uchod. |

**Ymateb** – Fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae gwaith wedi'i wneud ar wefan y Cyngor i sicrhau bod mynediad at wybodaeth am ofal plant ac opsiynau ysgol cyfrwng Cymraeg yn llawer haws i'w gael. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cyflawni ers ymgynghori â phartneriaid Cwlwm, felly dylai gwelliannau fod yn eglur nawr. Bydd y gwaith

hwn yn parhau fel rhan o gynllun gweithredu marchnata'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. O ran ehangu Dechrau'n Deg, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cynllun hwn yn cael ei ehangu i fod ar gael i'r holl blant dwy oed yng Nghymru. Bydd rhan gyntaf yr ehangu hwn yn rhoi pwyslais arbennig ar gryfhau mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

***Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd [NDNA Cymru]***

Mae'r pandemig COVID wedi arwain at faterion cynaliadwyedd ar gyfer llawer o'u haelodau. Bydd hyn yn ei dro'n cael effaith ar argaeledd lleoedd gofal plant yn y dyfodol. Mae recriwtio, yn enwedig recriwtio staff cymwys, yn broblem fawr ar hyn o bryd hefyd. Nodont fod pryder fod lleoliadau sy'n agor ar safleoedd ysgol yn peryglu dadleoli lleoedd gofal plant presennol mewn meithrinfeydd, a allai arwain atynt yn mynd yn anghynaliadwy neu osod baich ariannol fwy ar deuluoedd plant iau/nas ariennir.

| **Meysydd gwella ar gyfer RhCT** | |
|---|---|
| Teuluoedd incwm isel | Gwybodaeth am y mathau o ofal plant a'r dewisiadau sydd ar gael, yn ogystal â chyfathrebu effeithiol ynglŷn â chymorth ariannol sydd ar gael iddynt. |
| Teuluoedd â phlant ag anableddau | Rhoi gwybodaeth lawn a chyson i deuluoedd am eu dewisiadau a dealltwriaeth lawn o ofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd gan ddarparwyr. |
| Teuluoedd sy'n gweithio | Sicrhau bod lleoedd digonol mewn lleoliadau gofal dydd llawn, gan fod y rhain yn diwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio yn well. Cyfleu'r Cynnig Gofal Plant yn effeithiol. |
| Teuluoedd sy'n chwilio am waith | Cymorth ariannol gyda chostau gofal plant ar gyfer cyfnod cychwynnol pan fydd rhiant yn dechrau cyflogaeth. |

**Ymateb** – bu nifer o ddatblygiadau dros y pum mlynedd diwethaf i wella gwasanaethau gofal plant ar safleoedd ysgol. Mae'r rhain, ac eithrio dwy ddarpariaeth gwbl newydd, wedi golygu bod darparwyr gofal plant presennol yn adleoli mewn lleoliadau gwell, naill ai o adeilad arall ar safle'r ysgol, neu o adeilad cyfagos. Nid yw'r Cyngor yn dymuno rhoi unrhyw leoliadau presennol dan risg. Dim ond lle nodwyd bod y safle presennol yn anaddas a/neu yn rhy fach, neu lle nodwyd bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, y mae'r datblygiadau hyn wedi'u gwneud.

***PACEY Cymru***

Mae'n bryder gan PACEY Cymru i nodi gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru, gan gynnwys RhCT. Maent yn pryderu hefyd ynglŷn â'r nifer isel o gofrestriadau newydd. Maent yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa ac opsiynau gofal plant i deuluoedd. Byddent yn hoffi gweithio gyda'r ALl i drafod unrhyw faterion a allai effeithio ar gynaliadwyedd gwarchodwyr plant, fel gofynion cynllunio lleol neu ffioedd gwastraff masnach.

| **Meysydd gwella ar gyfer RhCT** |
|---|

| | |
|---|---|
| Teuluoedd incwm isel | Mae rhai gwarchodwyr plant yn RhCT yn cael eu hariannu i ddarparu Dechrau'n Deg. Dylai cyfleoedd i warchodwyr plant i gael mynediad i gyllid ar gyfer Addysg Gynnal gael eu hystyried gan yr ALI os ydynt yn bodloni meini prawf diffiniedig. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb cyfleoedd o fewn y sector, yn cefnogi cynaliadwyedd a deilliannau gwell i blant drwy barhad gofal. Dylai'r deilliannau i blant fod yn ganolog i benderfyniadau, yn ogystal â goblygiadau cost i ddarparu gwasanaethau wedi'u hariannu. |
| Teuluoedd â phlant ag anableddau | Cyfle i ganfod mwy am y cyfnod pontio i'r Ddeddf ADY newydd, ac mae'r pontio hwn yn datblygu'n lleol ar gyfer gwarchodwyr plant. Credant y gallai nanis cymeradwy fod yn opsiwn i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, yn enwedig y rheiny â phlant sydd ag anableddau, gan y byddent yn gofalu am y plant yn eu cartref eu hunain, a gall rhieni gael mynediad i'r elfen Ddi-dreth a thalebau gofal plant seiliedig ar gyflogwr. |
| Teuluoedd sy'n gweithio | Mae gwarchodwyr plant mewn sefyllfa dda i ddarparu gofal plant o safon i deuluoedd sy'n gweithio oriau annodweddiadol, shifftiau neu hyd yn oed darparu gofal dros nos, o enedigaeth hyd at 14 oed (neu 16 oed os oes anghenion dysgu ychwanegol gan y plant). Gallai nanis cymeradwy fod yn opsiwn i gefnogi rhai teuluoedd sy'n gweithio. |
| Teuluoedd sy'n chwilio am waith | Mae PACEY Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith, PaCE, Gyrfa Cymru, ac asiantaethau eraill i greu diddordeb a chynyddu recriwtio i fod yn warchodwr plant, sydd, nid yn unig yn darparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd ond hefyd yn cynorthwyo pobl i fynd yn ôl i mewn i waith. Maent yn croesawu'r cyfle i barhau i weithio gyda'r ALI a phartneriaid i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa. |

**Ymateb** – Mae'r Cyngor yn pryderu hefyd gan nifer y gwarchodwyr plant sy'n dewis rhoi'r gorau i fasnachu. Mae pecyn cymorth wedi'i wella ar gael yn RhCT nawr, ac mae'r tîm gofal plant wrthi'n adolygu'u deunydd marchnata i ddenu darpar warchodwyr plant newydd i gofrestru gyda AGC. Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i weithio'n agos gyda PACEY Cymru i gefnogi gwarchod plant yn RhCT.

<u>**Cyflogwyr lleol**</u>

Cafodd arolwg ar-lein ei hyrwyddo i gyflogwyr yn RhCT drwy ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost wedi'u targedu, a chydweithio gyda chydweithwyr mewn adrannau eraill. Derbyniwyd 14 o ymatebion.

| Ardal | Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad | Cyfanswm nifer y bobl a gyflogir |
|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 4 | 39 |
| De Cynon | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 2 | 21 |
| De Rhondda | 1 | 18 |

| | | |
|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 2 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 3 | 110 |
| De Orllewin Taf Elái | 2 | 49+ |
| Ledled RhCT | 1 | Ni chofnodwyd |


***Gofal plant digonol***

Pan ofynnwyd a oes gofal plant digonol yn RhCT i ddiwallu anghenion grwpiau rhieni gwahanol, derbyniwyd yr ymatebion canlynol. Barn y rhan fwyaf o gyflogwyr oedd bod gofal plant annigonol ar gael neu nid oeddent yn sicr a oes gofal plant digonol. Roedd yr eithriad i hyn ar gyfer teuluoedd sy'n dymuno cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

| A ydych chi'n meddwl fod gofal plant digonol yn RhCT i ddiwallu anghenion: | Ydw | | Nac ydw | | Ansicr | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Rhieni sy'n gweithio | 6 | 43% | 2 | 14% | 6 | 43% |
| Rhieni sy'n ceisio cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant | 3 | 21% | 7 | 29% | 4 | 50% |
| Aelwydydd di-waith | 3 | 21% | 2 | 14% | 9 | 64% |
| Teuluoedd incwm isel | 3 | 21% | 5 | 36% | 6 | 4% |
| Unig rieni | 3 | 21% | 4 | 29% | 7 | 50% |
| Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol | 4 | 31% | 1 | 8% | 8 | 62% |
| Teuluoedd â phlant sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol | 4 | 29% | 4 | 29% | 6 | 43% |
| Teuluoedd sy'n dymuno cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 6 | 46% | 2 | 15% | 5 | 39% |
| Teuluoedd lle nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf | 5 | 39% | 1 | 8% | 7 | 54% |

***Trefniadau gweithio hyblyg***


Oriau rhan-amser oedd y trefniant gweithio hyblyg mwyaf cyffredin a gynigiwyd, gydag 86% o gyflogwyr yn cynnig y trefniant gweithio hwn, ac yna gweithio yn ystod y tymor / oriau ysgol (64%). Ochr yn ochr â'r trefniant gweithio hyblyg hwn, mae un arall yn cynnig cyfleoedd goramser mewn cangen arall o'r cwmni os oes angen.




***Buddiannau cyflogeion***

Roedd 90% o gyflogwyr a ymatebodd yn darparu gwybodaeth i gyflogeion am gynlluniau cymorth ariannol, fel Cynnig Gofal Plant Cymru, Gofal Plant Di-dreth ac ati, ac yna gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant yn lleol (80%). Gellir priodoli'r gyfradd uchel o gyflogwyr sy'n cynnig gofal plant (70%) i'r ffaith fod 10 o'r 14 o ymatebion a dderbyniwyd gan fusnesau gofal plant. O'r pedwar ymateb arall, heb fod yn syndod gan eu bod yn gyflogwyr cymharol fach, nid oedd yr un ohonynt yn cynnig cyfleusterau gofal plant ar y safle. Mae un o'r cyflogwyr hyn yn cynnig cynllun yswiriant iechyd i gyflogeion.

Dywedodd 90% o ymatebwyr bod y buddiannau cyflogeion a restrir yn y tabl isod yn cael eu defnyddio'n dda gan gyflogeion.




***Materion gofal plant***

Pan ofynnwyd a oedd materion gofal plant wedi atal cyflogai rhag ymgymryd â chyflogaeth neu barhau i weithio yn eu busnes, dywedodd 64% o'r cyflogwyr a ymatebodd 'ddim o gwbl', gyda 21% yn datgan 'ychydig'.

O'r ymatebion isod, mae'n ymddangos mai gofal y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant oedran ysgol oedd y mater mwyaf a oedd yn wynebu cyflogeion:

- *Roedd gennym agoriad swydd ar gyfer aelod o staff, dywedodd 2 o'r ymgeiswyr nad oedd yr oriau'n addas oherwydd bod eu plant yn mynd i ysgol wahanol, ac er ein bod yn cynnig clwb ar ôl ysgol, nid oedd unrhyw un gan y rhieni i godi'u plant o ysgol wahanol a'u gollwng gyda ni.*
- *Cost gofal plant.*
- *Diffyg cymorth gofal plant i'r rhan 4 i 12 oed ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.*

| Materion gofal plant yn atal cyflogai rhag derbyn cyflogaeth | Dim o gwbl | Ychydig | Ddim yn gwybod | Llawer |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 2 | 1 | 1 | 0 |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 1 | 0 | 1 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 0 | 0 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 2 | 1 | 0 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 2 | 0 | 0 | 0 |

***COVID-19***

O ran y pandemig COVID, isod ceir rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd pan ofynnwyd i gyflogwyr a oeddent wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i'r modd yr oedd eu cyflogeion yn defnyddio gofal plant, neu a oedd unrhyw bryderon wedi'u codi gyda nhw ynglŷn â chael mynediad i ofal plant a/neu waith:

- *Gan nad oes clybiau brecwast mewn ysgolion, mae staff wedi'i chael hi'n anodd i ddechrau gwaith ar amser tebyg na chyn COVID-19. Hefyd, gydag ysgolion yn addasu amserau ysgol a meithrinfeydd yn cynnig llai o ofal cofleidiol, mae staff wedi cael anhawster gyda hyn hefyd.*
- *Nid wyf wedi sylwi ar unrhyw newidiadau gyda defnydd fy nghyflogeion o ofal plant gan ein bod ni'n rhedeg yn ystod oriau ysgol, nid yw hyn yn broblem.*
- *Rwyf wedi colli staff i swyddi amser tymor yn unig oherwydd diffyg clybiau gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol.*
- *Mae trefniadau gweithio hyblyg a llai o oriau contract wedi helpu datrys rhai o'r materion yn ymwneud â gofal plant. Mae mynychder absenoldebau staff am fod plant yn cael eu hanfon adref o ysgolion yn parhau i fod yn heriol. Mae rotâu yn newid yn gyson.*
- *Mae staff eisiau lleihau eu horiau oherwydd y pandemig.*

Gan fod mwyafrif yr ymatebion gan gyflogwyr gan fusnesau gofal plant, cyfyngedig yw'r cyfle i staff weithio o gartref. Felly, efallai bod effaith COVID-19 ar gymarebau staffio wedi bod yn fwy amlwg nag ar gyfer busnesau y gallai eu staff drosglwyddo i weithio o gartref.

***Sylwadau eraill***

Pan ofynnwyd i gyflogwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â gofal plant yn RhCT, neu sut gallwn wella darpariaeth, darparwyd y sylwadau canlynol:

- *Mae'r cyfan yn rhy ddrud i bobl sy'n gweithio. Mae 2 ddiwrnod yr wythnos, 9-3pm yn £300 y mis. Mae RhCT ond yn hyrwyddo gofal plant rhad ac am ddim ar gyfer plant dros 3 oed, mae hyn yn dal yn ddrud gan y gall y rhan fwyaf o blant ddechrau'r ysgol yn 3 oed ac eto, o ryw 8 mis i 3 oed mae'n rhaid i ni dalu miloedd o bunnau er mwyn gallu gweithio.*
- *Nid wyf yn gwybod am ddarparwyr gofal plant eraill yn RhCT. Mae cefnogaeth dda i'n sesiynau cylch chwarae/gofal cofleidiol ni gyda niferoedd yn cynyddu yn sgil y cynnig gofal plant.*
- *Ehangu ardaloedd Dechrau'n Deg.*
- *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn Ne y sir.*

**Ymateb** – Mae'n aneglur pa ardal yn ne'r sir y mae'r sylw diwethaf yn cyfeirio ati. Mae Meithrinfa bresennol yn Llanhari, Beddau a Phentre'r Eglwys. Mae'r Mudiad Meithrin wrthi'n sefydlu Cylch Meithrin newydd yn Ffynnon Taf. Hon oedd un o'r ardaloedd a nodwyd mewn ymarferiad mapio diweddar gan y Cyngor, ac mae'r Cyngor wedi cynnig cymorth i ddatblygu'r ddarpariaeth newydd hon.

## Awdurdodau lleol cymdogol


Gweler Adran Naw.

## Ysgolion

Ymgynghorwyd ag ysgolion ynglŷn â'u barnau am ddarpariaeth gofal plant yn eu hardaloedd, a hefyd pa ofal plant (os o gwbl) y maent yn ei ddarparu ar hyn o bryd neu sydd ganddynt ar hyn o bryd ar safle'r ysgol. Arolwg byr, ar-lein ydoedd. Er yr anfonwyd nodau atgoffa trwy restr ddosbarthu'r adran Addysg, a hyrwyddo'r arolwg yn uniongyrchol i benaethiaid lle bo modd, ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion gan ysgolion.

Mae gennym nifer o leoliadau gofal plant nawr ar safleoedd ysgol yn eu cyfleusterau pwrpasol eu hunain (defnydd unigryw). Mae'r nifer wedi'i chynyddu ers yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, yn rhannol yn sgil buddsoddiad cyfalaf drwy gynlluniau grant cyfalaf y Cynnig Cyfrwng Cymraeg a Gofal Plant. Mae gwaith yn mynd rhagddo i safoni'r trefniadau prydles, drwy Ystadau Corfforaethol, ar gyfer yr holl leoliadau defnydd unigryw ar safleoedd ysgol.

Mae'r graff isod yn dangos dosbarthiad lleoliadau ar safleoedd ysgol yn ôl ardal. Nid yw hyn yn cynnwys lleoliadau, fel gofal y tu allan i oriau ysgol, neu wasanaethau cofleidiol sy'n rhannu gofod mewn ysgolion i ddarparu'u gwasanaethau. Mae trefniadau bloclogi yn uniongyrchol gyda'r ysgol ar waith ar gyfer y darparwyr hyn.




***Cynllun Strategol Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2022-2025***

Mae'r Cynllun Strategol Addysg cyfredol yn nodi bod buddsoddiad wedi'i wneud yn y pedair blynedd diwethaf i ymestyn a gwella cyfleusterau gofal plant ar safleoedd ysgol. Yn ogystal â phrosiectau i gefnogi gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, a amlinellwyd yn Adran Tri, mae prosiectau yn cynnwys darparu cyfleusterau'r 21ain Ganrif i leoliadau gofal plant presennol ar safleoedd ysgol yn ardaloedd Gogledd Rhondda, De Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái. Mae hefyd yn nodi buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer llawer o leoliadau yn RhCT, drwy gynllun grant cyfalaf bach y Cynnig Gofal Plant. Mae hwn wedi dyfarnu grantiau i dros 80 o leoliadau ers 2019, yn gwneud cyfanswm o £425,000.

Mae'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn y Blynyddoedd Cynnar gan ei fod yn darparu'r llwyfan ar gyfer adeiladu datblygu a dysgu yn y dyfodol. Mae cynorthwyo darparwyr addysg nas cynhelir i ddarparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer plant oed cyn-meithrin yn allweddol i hyn.

**Colegau addysg bellach**

Ymgynghorwyd â Choleg y Cymoedd fel rhan o'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae ganddynt gampysau mewn tair ardal o RhCT, yn ogystal â champws yn Sir Caerffili. Maent yn cynnig cyrsiau'n gysylltiedig â gofal plant yn Saesneg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir cyfleusterau gofal plant ar ddau o'u campysau, gyda darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig ar drydydd campws.

Mae'r coleg yn darparu cymorth ariannol i ddysgwyr gyda chost ffioedd gofal plant. Er nad yw hyn bob amser yn talu cost lawn gofal plant, nod y coleg yw lleihau hyn fel rhwystr i gymaint o ddysgwyr ag y bo modd.

**Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg**
Gweler Adran Tri.

**Gweithgor Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae (PSA)**
Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar y cyd o Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae ac Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn flaenorol yn RhCT. Mae hwn wedi'i ddisodli gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (EYCPDP), a sefydlwyd yn 2021. Un o nodau'r grŵp hwn yw gweithio ar y cyd i gyfrannu at ddatblygu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae a'u diweddariadau blynyddol.

Erbyn hyn mae gan y tîm chwarae weithgor Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae dynodedig i gytuno ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer y gwasanaeth chwarae. Mae cynrychiolydd o'r grŵp hwn yn eistedd ar bartneriaeth ehangach yr EYCPDP.

Mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu sefydliadau'r Trydydd Sector i gyflwyno'r mwyafrif o'r ddarpariaeth chwarae ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ochr yn ochr â'r gweithgor Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae, ceir Fforwm Darparwyr Chwarae hefyd sy'n rhoi llwyfan i'r gweithlu chwarae ledled RhCT i ddod ynghyd i drafod ffyrdd o weithio gyda'i gilydd a rhannu arfer da.

Mae perthynas weithio agos o hyd rhwng y timau datblygu gofal plant a chwarae ac maent yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiectau ar y cyd.

Mae barnau'r Fforwm Darparwyr Chwarae wedi'u hystyried wrth gwblhau'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Y brif flaenoriaeth o ran cyflenwad gofal plant yw gweithio ar y cyd i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi digonol ar gyfer y gweithlu gofal plant y tu allan i oriau ysgol, ac i gefnogi'r gweithlu chwarae i gyflwyno gofal plant y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau lle bo'n briodol.

**Swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith**
Ymgynghorwyd â swyddogion y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorwyr PaCE a gofynnwyd am eu barnau ar y rhwystrau y mae eu cleientiaid yn eu hwynebu wrth geisio mynd i mewn i'r gweithle. Y brif neges yw fod angen gymaint o ofal plant ag y bo modd ac y byddai mynediad i ofal plant rhad ac am ddim, neu am gost isel, yn cynorthwyo'u cleientiaid ganfod cyflogaeth neu aros mewn cyflogaeth. Nid yw'n ymddangos bod galw arbennig gan gleientiaid am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn benodol.

Yn ogystal â PaCE, sy'n darparu cymorth ariannol tymor hwy i rieni, mae rhaglenni cymorth cyflogaeth Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy y Cyngor yn darparu cymorth ariannol i rieni i dalu am ofal plant tymor byr er mwyn cael mynediad i hyfforddiant

drwy gronfa rhwystrau. Mae llawer o'u hyfforddiant bellach ar gael ar-lein/yn rhithwir, a'r adborth gan rai rhieni yw bod hwn yn well opsiwn iddynt o ran ymrwymiadau gofal plant. Mae Cynllun Benthyg Chromebook ar waith hefyd, sy'n galluogi cleientiaid i fenthyg dyfais gyda lwfans data fel y gallant fynychu cyrsiau hyfforddi, chwilio am swyddi, ymgeisio am swyddi a mynychu cyfweliadau rhithwir.

Mae dadansoddiad pellach o greu swyddi a cholli swyddi ar gael yn Adran Un ar Ddeg.

**<u>Yr Adran Gynllunio</u>**

Gweler Adran Un ar Ddeg.

## Adran 3: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) RhCT 2022 i 2032 i'w fabwysiadu ym mis Medi 2022 (yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru). Nod y cynllun yw cynyddu nifer y dysgwyr blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg o ryw 8% a 12% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn. Mae hyn yn gyfwerth â chynnydd o 506 o ddysgwyr blwyddyn un nawr i rhwng 720 a 825 o ddysgwyr blwyddyn un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn diwedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amcanestyniadau presennol ar gyfer dysgwyr blwyddyn un yn mynd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg, a'r amcanestyniadau os yw'r Cyngor i gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr blwyddyn un erbyn 2032 yn ystod oes y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn.

| **Amcanestyniadau o ddysgwyr meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Amcanestyniadau o ddysgwyr meithrin / tair oed a allai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg *(yn seiliedig ar ragolygon dros dro Tachwedd 2020)* | | Amcanestyniadau o ddysgwyr meithrin / tair oed a ddylai dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r Cyngor i gyflawni ei darged o 720 o ddysgwyr blwyddyn un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 | |
| **Blwyddyn academaidd** | **Nifer** | % | **Nifer** | **%** |
| 2022-2023 | 481 | 20.6% | 481 | 20.6% |
| 2023-2024 | 460 | 18.7% | 509 | 20.7% |
| 2024-2025 | 471 | 19.3% | 537 | 22.1% |
| 2025-2026 | 476 | 19.5% | 568 | 23.3% |
| 2026-2027 | 485 | 19.9% | 601 | 24.7% |
| 2027-2028 | 485 | 19.9% | 636 | 26.1% |
| 2028-2029 | 485 | 19.9% | 672 | 27.6% |
| 2029-2030 | 485 | 19.9% | 711 | 29.2% |
| 2030-2031 | 485 | 19.9% | 750 | 29.6% |
| 2031-2032 | 485 | 19.9% | 750 | 29.6% |

Nid yw data Cyfrifiad 2021 ar gael eto. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi data o Gyfrifiad 2011 sy'n dynodi bod 12.3% o drigolion RhCT yn gallu siarad Cymraeg bryd hynny.[2] Gellir cymharu hyn â ffigur Cymru gyfan o 19% yn 2011.

Hefyd, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn defnyddio data o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol sy'n cael ei ddiweddaru bob chwarter, ac mae'n set ddata fwy diweddar felly. Gan ddefnyddio'r data hwn, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

[2] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

yn nodi, ar gyfer y chwarter yn diweddu ym Medi 2020, bod 19.3% o ymatebwyr sy'n byw yn RhCT wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 28.8%.[3] Er ei fod yn is na chyfartaledd Cymru, mae'r data hwn yn awgrymu bod nifer y trigolion sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu ers 2011.

Y prif darged o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n ymwneud â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yw Deilliant Un (gweler isod).

***Deilliant 1: Mwy o ddysgwyr meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg***

I gefnogi'r targed o gynyddu nifer y dysgwyr blwyddyn un, bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda sefydliadau allanol a chydweithwyr i hyrwyddo gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gwneud hyn trwy

- Gynorthwyo darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg i ymestyn a gwella'r gwasanaethau a gynigiant trwy gynnig cymorth busnes, grantiau darpariaeth newydd/ehangu darpariaeth, hyfforddiant a chyfeirio at sefydliadau allanol perthnasol.
- Bydd gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyrsiau y gall rhieni/gofalwyr eu mynychu gyda'u plant yn parhau i gael eu rhannu drwy rwydweithiau'r Cyngor a bydd Swyddogion yn parhau i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni/gofalwyr.
- Gwneud newidiadau i'r broses comisiynu Dechrau'n Deg, a fydd yn golygu mwy o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r teuluoedd hynny sy'n ei ddewis.
- Parhau i adolygu nifer y Darparwyr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod y rhieni/gofalwyr hynny sy'n dymuno cael addysg Meithrinfeydd y Cyfnod Sylfaen cyn-meithrin yn gallu ei chael.
- Gweithio gyda grŵp llywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r grŵp Marchnata a Hyrwyddo i gefnogi nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer yr Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ymgynghorwyd â'r Mudiad Meithrin a'r Fforwm Iaith, sef grŵp sy'n cynrychioli buddiannau cyfrwng Cymraeg yn RhCT. Mae'r prif ymateb gan y Mudiad Meithrin wedi'i gynnwys yn Adran Dau, ond yn gryno, roedd eu hadborth yn awgrymu ei bod hi'n anodd i rieni ddod o hyd i wybodaeth am ddewisiadau gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg yn RhCT, ac y dylid gwneud gwelliannau i wefan y Cyngor fel ei bod hi'n haws i rieni wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Fforwm trafod a chydweithio yw'r Fforwm Iaith ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Mae'r grŵp yn cynnwys ystod o randdeiliaid allweddol, fel ysgolion

[3] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language


cyfrwng Cymraeg, swyddogion CBSRhCT, Mudiad Meithrin, yr URDD a RhAG (Rhieni dros addysg Gymraeg). Nod y fforwm yw cynyddu ystod y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn RhCT trwy greu gweithio mewn partneriaeth creadigol a lledaenu arfer da. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol gan gadeirydd y Fforwm Iaith, ond mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos â'r fforwm a gyda phartneriaid unigol i gryfhau'r ddarpariaeth gofal plant a dewisiadau cyfrwng Cymraeg i rieni.

**Arolwg rhieni**

Roedd cyfanswm o 347 o ymatebion i'r cwestiwn 'A ydych chi'n deall, siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg'. O'r rhain, dywedodd 91% eu bod yn deall Cymraeg (316), gyda 61.1% yn dweud eu bod yn gallu siarad yr iaith (212).

| Sgiliau Cymraeg ymatebwyr i'r arolwg rhieni ledled RhCT | Nifer | % |
|---|---|---|
| Deall | 316 | 91% |
| Siarad | 212 | 61.1% |
| Darllen | 208 | 59.9% |
| Ysgrifennu | 172 | 49.5% |


O'r rheiny a ddarparodd god post, mae'n ymddangos bod y lefel uchaf o sgiliau Cymraeg yn Ne Orllewin Taf Elái, De Ddwyrain Taf Elái a Gogledd Ddwyrain Taf Elái. Mae'n ymddangos mai yn Ne Cynon y ceir y lefelau isaf o sgiliau Cymraeg ymhlith rhieni. Wrth gwrs, dylid cofio fod hyn yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg rhieni, ac nid ar ddata demograffig a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.




***Defnydd presennol o ofal plant cyfrwng Cymraeg***

Dywedodd 75% o rieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd (348). Ymatebodd 22.2% eu bod yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (103). Yr amcanestyniad yn nharged y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw i 20.6% o blant oed meithrin i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2022-2023. Mae'r ffigur hwn

yn is nag y mae'r arolwg rhieni'n awgrymu eu bod yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. mae hyn yn awgrymu efallai bod rhai rhieni sy'n peidio â dewis pontio o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, mae angen mwy o waith i ddadansoddi llwybrau pontio er mwyn deall a yw hyn yn wir mewn gwirionedd.




## Ymchwilio i lwybrau pontio o ofal plant i addysg cyfrwng Cymraeg

***Defnydd o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol***

O'r rheiny nad ydyn nhw'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, dywedodd 9.7% y byddent yn hoffi defnyddio gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg (34), gydag 18.6% yn dweud 'efallai' (65). Mae nifer uchaf y rheiny sy'n dweud 'ie' wedi'u lleoli yn ardal De Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái, gyda'r nifer uchaf y rheiny sy'n dweud 'efallai' wedi'u lleoli yn Ne Orllewin Taf Elái.

| Rhieni a fyddai'n hoffi defnyddio gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg | Ie | Efallai |
|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 10 |
| De Cynon | 4 | 5 |
| Gogledd Rhondda | 1 | 4 |
| De Rhondda | 7 | 8 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 4 | 8 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 2 | 15 |
| De Orllewin Taf Elái | 14 | 14 |

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd y byddent yn hoffi defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg pa faterion y maen nhw'n eu hwynebu o ran cael gofal cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebion mai diffyg argaeledd ydoedd, gyda 69.8% o rieni yn dweud hyn (58). De Orllewin Taf Elái oedd yr ardal gyda'r mwyaf o'r ymateb hwn (17), ac yna De Rhondda (10). Mae prosiectau cyfalaf diweddar wedi cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ardal De Orllewin Taf Elái, a fydd yn gwella argaeledd

gwasanaethau. Dylid ymchwilio ymhellach i ddatblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn Ne Rhondda er mwyn sicrhau'n union pa wasanaethau ychwanegol sydd eu heisiau, a ph'un a yw hyn ar gyfer gwasanaethau cyn ysgol neu wasanaethau y tu allan i oriau ysgol.

| Materion a wynebwyd ar gyfer rhieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Argaeledd | 58 | 69.8% |
| Oriau gofal annigonol | 22 | 26.5% |
| Pellter | 18 | 21.6% |
| Cost | 17 | 20.4% |
| Gallu iaith staff | 14 | 16.8% |
| Ansawdd Gofal | 5 | 6% |

## Ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardal De Rhondda

**Prosiectau cyfalaf wedi'u cwblhau**

Yn 2018, cafodd y Cyngor y cyfle i gynnig am gyllid cyfalaf i gefnogi cynnydd mewn dysgwyr cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r targed Cymraeg 2050. Cynigiodd y Cyngor chwe phrosiect, a dyfarnwyd bob un ohonynt. Roedd pob un o'r prosiectau ac eithrio un i gynyddu a gwella cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg:

***Gogledd Cynon***

Creu cyfleuster gofal plant newydd ar safle Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yw'r prosiect hwn. Bydd hwn yn creu 30 o leoedd ychwanegol wedi'u cofrestru gydag AGC, a bydd yn ategu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn yr ardal. Mae hwn i fod i agor ym mis Medi 2022.

***De Cynon***

Creu cyfleuster gofal plant newydd ar safle Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon oedd y prosiect hwn. Mae hwn wedi creu 24 o leoedd ychwanegol wedi'u cofrestru gydag AGC yn ardal Cynon isaf, ac mae'n cynnig sesiynau bore i blant dwy a thair oed. Agorodd yn Ionawr 2022. Yn sgil yr ymateb cadarnhaol gan deuluoedd, mae'r lleoliad wrthi'n gwneud cynlluniau i ymestyn ei oriau agor i gynnig gofal prynhawn.

***Gogledd Rhondda***

Adleoli meithrinfa bresennol o hen adeilad dros dro ar safle Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen i gyfleuster adeilad newydd, pwrpasol wedi'i leoli mewn maes parcio cyfagos oedd y prosiect hwn. Mae'r prosiect wedi cynyddu nifer y lleoedd sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn y lleoliadau o 24 i 30. Mae hefyd wedi galluogi'r lleoliad i gynyddu'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i deuluoedd i gynnwys gofal prynhawn, ar ôl ysgol a gofal gwyliau. Fel rhan o'r prosiect, cafodd yr hen adeilad dros dro ei ddymchwel a thirluniwyd yr ardal i

ddarparu man agored ychwanegol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol. Agorodd ym mis Medi 2020.

***Gogledd Ddwyrain Taf Elái***

Ad-drefnu ardal o Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James oedd y prosiect hwn, i greu ystafell ddosbarth ychwanegol fel bod modd i ran o'r ystafell ddosbarth meithrin bresennol gael ei datblygu yn gyfleuster gofal plant pwrpasol. Dim ond yn y prynhawniau yr oedd y ddarpariaeth Feithrin hon ar agor yn flaenorol i gynnig gofal cofleidiol i blant oedran meithrin, ond bellach mae ganddi ei gofod ei hun trwy gydol y dydd ac mae wedi ehangu ei gwasanaethau i gynnig sesiynau meithrin bore i blant dwy oed a gofal ar ôl oriau ysgol i blant 3-5 oed. Parhaodd nifer y lleoedd a oedd wedi'u cofrestru gydag AGC ar 48, ond erbyn hyn gallant gynnig dwy sesiwn y dydd, gan ddyblu nifer y plant a all fynychu'r cyfleuster felly. Roedd y gwaith o fewn yr ysgol yn cynnwys ailosod ardal ymneilltuo fel ystafell ddosbarth, ailwampio'r gofod hwn a chreu ystafell ymyrryd newydd mewn ardal arall o fewn yr ysgol, ac ailwampio ardal chwarae awyr agored sy'n cael ei rhannu. Agorodd ym mis Medi 2019.

***De Orllewin Taf Elái***

Dyfarnwyd cyllid i ni ar gyfer dau brosiect yn yr ardal hon. Y cyntaf oedd adleoli darpariaeth Feithrin bresennol o hen fwthyn gofalwr ar safle Ysgol Llanhari i gyfleuster newydd, pwrpasol wedi'i leoli mewn ardal arall o'r safle. Mae'r prosiect wedi cynyddu nifer y lleoedd sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn y lleoliad o 45 i 69. Mae hefyd wedi galluogi'r lleoliad i gynyddu'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i deuluoedd, i gynnwys gofal prynhawn, ar ôl oriau ysgol a gofal gwyliau. Maent hefyd yn gallu darparu ar gyfer plant dan ddwy oed erbyn hyn. Agorodd y prosiect hwn ym mis Ionawr 2020.

Y prosiect arall yn yr ardal hon oedd darparu estyniad i ystafell ddosbarth er mwyn cynyddu capasiti disgyblion gan 30 yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant. Mae hyn i ddarparu ar gyfer galw yn y dyfodol am leoedd yn sgil parhau i ddatblygu tai yn yr ardal. Fe'i cwblhawyd yn 2021.

Sicrhawyd cyllid ychwanegol drwy gynllun grant cyfalaf y Cynnig Gofal Plant. Un o'r prosiectau llwyddiannus oedd creu cyfleuster gofal plant newydd ar safle Ysgol Gynradd Dolau. Mae hyn wedi creu 24 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGC. Mae'r cyfleuster yn cynnig sesiwn cyfrwng Cymraeg yn y boreau i blant 2-3 oed, a sesiynau dwyieithog yn y prynhawniau i ddarparu ar gyfer y plant oedran meithrin sy'n mynychu'r ysgol ddwyieithog hon.

***Datblygiadau eraill***

Yn ychwanegol at y prosiectau y soniwyd amdanynt uchod, mae datblygiadau eraill ers adroddiad yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf yn cynnwys symud Cylch Meithrin presennol i ystafell bwrpasol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn yn ardal De Rhondda. Roedd y grŵp yn wynebu gorfod cau os na allent sicrhau lleoliad amgen. Ailwampiodd y Cyngor ystafell yn yr ysgol ac mae'r lleoliad wedi gallu ehangu'i wasanaethau i gynnwys gofal cofleidiol yn y prynhawn i blant oedran meithrin.

Roedd Cylch Meithrin arall yn wynebu cyfyng-gyngor tebyg, ac roedd y Cyngor wedi gallu darparu ar gyfer y lleoliad hwn yn ei ystafell ei hun yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn ardal De Orllewin Taf Elái. Pan symudodd yr ysgol i leoliad newydd, y meithrin, fe wnaeth gwasanaeth gofal plant cofleidiol ar wahân symud gyda nhw, ac mae gan bob lleoliad ei gyfleusterau pwrpasol ei hun erbyn hyn ar safle newydd yr ysgol.

## Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol


### *Trosolwg*

Er bod ystod dda o ddarpariaethau gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cofrestru gydag AGC ar gael yn RhCT, mae gwasanaethau ar gyfer plant oedran ysgol yn parhau'n wasgaredig a heb eu cofrestru i raddau helaeth. Mae hyn yn gwella, a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi cofrestru ac ehangu gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau pan fo bylchau wedi'u nodi.

### *Mapio gwasanaethau presennol*

Ymgymerwyd ag ymarferiad mapio yn 2021 i nodi bylchau mewn gwasanaethau gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg (gweler isod). Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer archwilio datblygiadau yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â hyn, bydd Swyddogion yn parhau i gryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau fel y Mudiad Meithrin a'r Fenter Iaith er mwyn datblygu ac ehangu gwasanaethau gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Un flaenoriaeth arbennig fydd cefnogi datblygu mwy o ofal cofrestredig cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau ar gyfer plant oedran ysgol.




**Archwilio ymarferoldeb creu Cylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd daearyddol a ddynodwyd drwy'r ymarferiad mapio**
**Cefnogi datblygu gofal plant cofrestredig cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ystod gwyliau**

***Nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL***


Mae'r data hwn yn seiliedig ar ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth (SASS).

| Nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwarchodwyr plant | | Gofal diwrnod llawn | | Gofal sesiynol | | Gofal y tu allan i oriau ysgol | | Chwarae mynediad agored | |
| | Cymraeg | Y ddau | Cymraeg | Y ddau | Cymraeg | Y ddau | Cymraeg | Y ddau | Cymraeg | Y ddau |
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Cynon | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 1 | 3 | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| De Orllewin Taf Elái | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **1** | **2** | **10** | **8** | **5** | **1** | **3** | **1** | **0** | **0** |

***Nifer y lleoliadau anghofrestredig – yn ôl ARDAL***

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adran Pedwar, ond gellir gweld mai dim ond pedwar o leoliadau anghofrestredig sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) sy'n adrodd eu bod yn defnyddio naill ai Cymraeg yn unig neu Cymraeg a Saesneg.




***Gwasanaethau a gynigir***

| Math o ofal a gynigir (wedi'u cofrestru gydag AGC yn unig) Ledled RhCT Cymraeg yn unig a Dwyieithog | Nifer y lleoliadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwarchodwyr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Darpariaeth chwarae mynediad agored |
| Prynhawniau | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Ar ôl ysgol | 2 | 5 | 0 | 3 | 0 |
| Cyn ysgol | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 13 | 2 | 0 | 0 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 3 | 13 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 1 | 7 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 2 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| Cinio | 0 | 7 | 1 | 0 | 0 |
| Boreau | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
|---|---|---|---|---|---|

***Nifer y lleoedd gofal plant wedi'u cofrestru gydag AGC sydd ar gael – yn ôl ARDAL***

| Nifer y lleoedd AGC yn ôl ARDAL<br><br>Cymraeg yn unig a dwyieithog | Gwarchod-wyr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Crèche | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Darpar-iaeth chwarae mynediad agored | Nani* | Cyfanswm lleoedd – yn ôl ARDAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 89 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **89** |
| De Cynon | 0 | 70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **70** |
| Gogledd Rhondda | 10 | 114 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **124** |
| De Rhondda | 0 | 73 | 0 | 0 | 30 | 0 | 0 | **103** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 19 | 72 | 0 | 54 | 0 | 0 | **145** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 6 | 149 | 57 | 0 | 60 | 0 | 0 | **272** |
| De Orllewin Taf Elái | 9 | 85 | 48 | 0 | 0 | 0 | 0 | **142** |
| **Cyfanswm lleoedd – yn ôl MATH** | **25** | **599** | **177** | **0** | **144** | **0** | **0** | |

** Nid yw data gan AGC yn ymwneud â nifer y darparwyr gofal plant yn y cartref (nanis) wedi'u cymeradwyo i weithredu yn RhCT yn datgan nifer y lleoedd sydd ganddynt ar gael*

***Amserau agor***
Mae gwybodaeth am amserau agor yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad o bob math o ofal plant yn Adran Pump.

***Lleoedd sydd ar gael, lleoedd wedi'u llenwi***
Mae gwybodaeth ar gael yn Adran Pedwar.

***Patrymau mynychu***
Cynhwysir trosolwg o batrymau mynychu, wedi'u dadansoddi yn ôl iaith, yn Adran Pedwar.


***Rhestrau aros / lleoedd gwag***
Mae gwybodaeth am restrau aros a lleoedd gwag ar gael yn Adran Pedwar.
Nid adroddodd unrhyw leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o unrhyw fath o ofal plant fod ganddynt restrau aros ar gyfer gofal gwyliau. Dim ond un gwarchodwr plant dwyieithog yng Ngogledd Rhondda, adroddodd am restr aros ar gyfer darpariaeth adeg tymor. Adroddodd darparwyr gofal diwrnod llawn, cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ym mhob ardal ac eithrio Gogledd Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái, fod ganddynt restrau aros ar gyfer darpariaeth adeg tymor. Dim ond dau ddarparwyr gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg adroddodd am restrau aros, un yn Ne Ddwyrain Taf Elái ac un yn Ne Orllewin Taf Elái. Nid

adroddodd unrhyw ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol, cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, am restrau aros.

***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adran Pedwar. Mae'r tabl isod yn dangos data ar gyfer lleoliadau Cymraeg a dwyieithog fel yr adroddwyd yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth.

| Nifer y lleoliadau sy'n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag ADY/AAA ar hyn o bryd Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Gwybyddiaeth a dysgu | Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | Cyfathrebu a rhyngweithio | Synhwyraidd a/neu gorfforol |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Gofal diwrnod llawn | 15 | 16 | 16 | 15 |
| Gofal sesiynol | 3 | 4 | 5 | 4 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwarae mynediad agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **19** | **22** | **23** | **20** |





***Dechrau'n Deg, cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar***

Ceir ystod dda o leoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n darparu addysg feithrin y cyfnod sylfaen. Mae model comisiynu newydd yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Dechrau'n Deg i gynyddu nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n darparu'r cynllun hwn (gweler Adran Pedwar ar Ddeg am fwy o wybodaeth). Mae gan rieni ddewis o ran pa ddarparwr wedi'i gofrestru gydag

AGC y maen nhw'n ei ddefnyddio i gael y Cynnig Gofal Plant. Felly, mae nifer y darparwyr cyfrwng Cymraeg sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn cael ei bennu i raddau helaeth gan y galw gan rieni.

| Math o ofal plant Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Chwarae mynediad agored | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg | 0 | 9 | 2 | 0 | 0 | **11** |
| Cynnig Gofal Plant (sy'n derbyn cyllid ar hyn o bryd) | 3 | 18 | 3 | 0 | 0 | **24** |
| Addysg feithrin y cyfnod sylfaen | 0 | 14 | 2 | 0 | 0 | **16** |

***Gofal plant di-dreth / Talebau gofal plant***




***Cryfderau***

- Ystod dda o ddarparwyr Gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg cofrestredig
- Buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg

***Gwendidau***

- Diffyg gofal gwyliau cyfrwng Cymraeg cofrestredig
- Gofal y tu allan i oriau ysgol ddim ar gael ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
- Bylchau daearyddol mewn gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg

# Adran 4: Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd

***Trosolwg***

At ddibenion yr adroddiad hwn, cymerwyd y data ar gyfer darpariaeth gofrestredig o'r ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gafodd eu llenwi gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn Haf 2021. Cwblhawyd hyn rhwng 7 Gorffennaf ac 11 Awst 2021. Yn gyffredinol, llenwyd y ffurflen gan 92.3% o ddarparwyr yn RhCT (gan gynnwys y rheiny a lenwodd gopïau papur ar ôl y dyddiad cau), i fyny o 73.2% ar gyfer adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017. Gellir dadansoddi hyn fel a ganlyn:

- 85.0% o warchodwyr plant
- 94.7% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn
- 54.5% o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol
- 92.3% o ddarparwyr gofal sesiynol
- 83.3% o ddarparwyr chwarae mynediad agored

Un rheswm posibl dros y gyfradd lenwi isel ar gyfer darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol yw'r cyfyngiadau COVID-19 parhaus ar yr adeg y llenwyd y Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth. Roedd llawer o glybiau y tu allan i oriau ysgol yn methu agor ar y dechrau yn sgil cyfyngiadau o ran cael mynediad i'w lleoliadau, a gostyngiad mawr yn y galw am y math hwn o ofal.

O'r lleoliadau hynny wedi'u cofrestru gydag AGC na chyflwynodd eu ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae wyth wedi atal neu ddiddymu eu cofrestriad (yr holl warchodwyr plant) ar ôl hynny, ac fe wnaeth 11 gwblhau'r cwestiynau â llaw pan gysylltodd y Tîm Gofal Plant â nhw:

- Pedwar o Warchodwyr Plant
- Dau ddarparwr gofal diwrnod llawn
- Tri o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol
- Dau ddarparwr gofal sesiynol

Cymerwyd y data ar gyfer darpariaeth anghofrestredig o holiaduron darparwyr a lenwyd ym mis Tachwedd 2021 a data o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

***Nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL***

| Nifer y lleoliadau wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL | Gwarchod-wr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal diwrnod sesiynol | Crèche | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Darpar-iaeth chwarae mynediad agored | Nani* | Cyfanswm lleoliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 11 | 7 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | **20** |
| De Cynon | 4 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | **12** |
| Gogledd Rhondda | 9 | 12 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | **24** |
| De Rhondda | 5 | 9 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | **17** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 21 | 3 | 5 | 0 | 2 | 0 | 1 | **32** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 25 | 9 | 5 | 0 | 1 | 0 | 0 | **40** |
| De Orllewin Taf Elái | 21 | 10 | 8 | 0 | 6 | 3 | 1 | **49** |
| **Cyfanswm** | **96** | **56** | **25** | **0** | **10** | **5** | **2** | **194** |

**Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, Ionawr 2022*

Mae dadansoddiad manwl o bob math o ofal plant ar gael yn Adran Pump.

***Nifer y Lleoliadau Anghofrestredig – yn ôl ARDAL***

Daw'r data ar gyfer nifer y lleoliadau gofal plant anghofrestredig, a restrir isod, o gronfa ddata DEWIS a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r data hwn yn ddibynnol ar ddarparwyr yn cofrestru'u gwybodaeth, ac yna'n diweddaru eu cyfrifon. Felly, mae Swyddogion yn ymwybodol y gallai fod lleoliadau anghofrestredig ychwanegol yn RhCT nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

| Nifer y lleoliadau Anghofrestredig yn ôl ARDAL | Gofal diwrnod sesiynol | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Darpariaeth chwarae mynediad agored | Cyfanswm lleoliadau |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cynon | 0 | 1 | 1 | **2** |
| Gogledd Rhondda | 3 | 0 | 1 | **4** |
| De Rhondda | 4 | 1 | 0 | **5** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 1 | 0 | **1** |
| De Orllewin Taf Elái | 0 | 3 | 1 | **4** |
| **Cyfanswm** | **7** | **6** | **3** | **16** |

***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***

Mae'r pandemig COVID-19 wedi bod yn hynod heriol i ddarparwyr gofal plant, ac wedi arwain at niferoedd llai yn mynychu, materion staffio a chostau uwch (fel costau glanhau, gwresogi ychwanegol, ac ati).

Mae cadw eu teuluoedd eu hunain yn ddiogel, yn ogystal â'r staff a phlant yn eu busnesau, wedi bod yn arbennig o anodd i warchodwyr plant. Efallai nad yw'n syndod, felly, ein bod

wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoedd gwarchod plant sydd ar gael dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae recriwtio mwy o warchodwyr plant yn flaenoriaeth barhaus a bydd yn parhau i fod felly. Mae'r Cyngor yn cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i ddarpar warchodwyr plant ac mae wyth yn gweithio drwy'r broses gofrestru ar hyn o bryd.


| Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC Ion 2020-Ion 2022 yn ôl MATH | Cofrestriad newydd | Nifer y lleoedd newydd | Cofrestriad wedi'i ddiddymu | Nifer y lleoedd wedi'u colli | Colled/ cynnydd lleoedd net |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 8 | 58 | 36 | 263 | -205 |
| Gofal diwrnod llawn | 15 | 488 | 16 | 425 | 63 |
| Gofal sesiynol | 8 | 200 | 7 | 180 | 20 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 8 | 336 | 5 | 169 | 167 |
| Crèche | 0 | 0 | 1 | 10 | -10 |
| Chwarae mynediad agored | 0 | 0 | 2 | 55 | -55 |
| **Cyfanswm** | **39** | **1082** | **67** | **1102** | **-20** |


Rhestrau AGC wythnosol

## Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa

***Iaith a ddefnyddir mewn lleoliadau***

Gellir gweld, mewn lleoliadau wedi'u cofrestru gydag AGC, a'r rheiny sy'n Anghofrestredig, mai Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin. Y math mwyaf cyffredin o ofal plant i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yw Gofal diwrnod llawn.







Mae rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol ar gael yn Adran Tri.


***Cynnig Rhagweithiol***

Nod Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg yng Nghymru yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg os yw'n ofynnol heb fod rhaid i unigolyn ofyn amdano. Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant fel rhan o'u ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, a ydyn nhw'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol yn eu lleoliadau, neu a ydyn nhw'n gweithio tuag ato. Gellir gweld mai dim ond nifer gymharol fach o leoliadau yn RhCT a ddywedodd ar eu ffurflen Datganiad eu bod naill ai'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol neu'n gweithio tuag ato. Fel rhan o'n gwaith parhaus i annog defnyddio'r Gymraeg mewn gofal plant, bydd hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol yn flaenoriaeth.




**Hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol i leoliadau ac annog cyfranogiad**

O'r rheiny sy'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol, neu sy'n gweithio tuag ato, mae'r graff isod yn dangos mai darparwyr Gofal diwrnod llawn yw'r math mwyaf cyffredin o ofal plant, ac yna darparwyr Gofal sesiynol. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod gan y mathau hyn o ofal plant fwy o staff, ac felly maent yn fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg a all wthio'r math hwn o bolisi ymlaen.




De Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái yw'r ardaloedd â'r mwyaf o leoliadau sydd naill ai'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol, neu'n gweithio tuag ato.

| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg Yn ôl ARDAL | Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg wedi'i Ddarparu | Gweithio Tuag at Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 3 | 7 | **10** |
| De Cynon | 1 | 4 | **5** |
| Gogledd Rhondda | 3 | 8 | **11** |
| De Rhondda | 2 | 7 | **9** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 3 | 6 | **9** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 8 | 10 | **18** |
| De Orllewin Taf Elái | 8 | 8 | **16** |

***Gwasanaethau a gynigir***

Ar adeg cwblhau'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, roedd 32 o leoliadau gofal plant wedi cofrestru i ddarparu addysg cyn-meithrin ac yn gallu cynnig lleoliadau addysg gynnar. Nid yw'r un o'r lleoliadau hyn yn warchodwyr plant. Gellir gweld isod fod llawer mwy o ddarparwyr wedi dweud eu bod yn cynnig y gwasanaeth hwn. Nid yw'n ymddangos bod diffiniad wedi'i gynnwys yn yr arolwg o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth i egluro beth oedd pob categori'n ei olygu, felly dylid edrych yn ofalus ar y data ar Leoliadau Addysg Gynnar.

| Math o ofal a gynigir – Iedled RhCT | Nifer y lleoliadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwarch-odwr plant | Gofal diwrnod llawn | Darpar-iaeth chwarae mynediad agored | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Gofal sesiynol |
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 |
| Ar ôl ysgol | 75 | 20 | 1 | 9 | 0 |
| Cyn ysgol | 62 | 13 | 0 | 1 | 0 |
| Crèche | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 31 | 39 | 0 | 0 | 9 |
| Min nos ar ôl 6pm | 11 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 82 | 46 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 52 | 37 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 55 | 38 | 0 | 0 | 0 |
| Cinio | 0 | 19 | 0 | 0 | 7 |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 18 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 21 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 22 | 0 | 0 | 0 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Penwythnosau | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

***Nifer y lleoedd gofal plant wedi'u cofrestru gydag AGC sydd ar gael – yn ôl ARDAL***

| Nifer y lleoedd AGC yn ôl ARDAL | Gwarch-odwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Crèche | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Darpar-iaeth chwarae mynediad agored | Nani* | Cyfan-swm lleoedd – yn ôl ARDAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 88 | 246 | 30 | 0 | 0 | 70 | 0 | **434** |
| De Cynon | 32 | 190 | 38 | 0 | 0 | 0 | 0 | **260** |
| Gogledd Rhondda | 71 | 343 | 38 | 0 | 0 | 30 | 0 | **482** |
| De Rhondda | 31 | 282 | 46 | 0 | 30 | 0 | 0 | **389** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 177 | 98 | 134 | 0 | 54 | 0 | - | **463** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 200 | 378 | 133 | 0 | 60 | 0 | 0 | **771** |
| De Orllewin Taf Elái | 179 | 493 | 286 | | 213 | 245 | - | **1416** |
| **Cyfanswm lleoedd – yn ôl MATH** | **778** | **2030** | **705** | **0** | **357** | **345** | **0** | |

** Nid yw data gan AGC yn ymwneud â nifer y darparwyr gofal plant yn y cartref (nanis) wedi'u cymeradwyo i weithredu yn RhCT yn datgan nifer y lleoedd sydd ganddynt ar gael.*

***Amserau agor***

Mae gwybodaeth am amserau agor adeg tymor a gwyliau ysgol wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad o bob math o ofal plant yn Adran Pump.

***Lleoedd sydd ar gael, lleoedd wedi'u llenwi***

| **Math o ofal plant – Pob iaith** | **Lleoedd wedi' u cofrestru gydag AGC** | **Oedrannau plant sy'n mynychu lleoliadau** | | | | | | | | | **Patrwm mynychu** | | | **Nifer y plant ar y llyfrau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **O dan 1 oed** | **1 Oed** | **2 Oed** | **3 Oed** | **4 Oed** | **5-7 Oed** | **8-11 Oed** | **12-14 Oed** | **15-17 Oed** | **Amser llawn** | **Rhan-amser** | **Ad hoc** | |
| Gwarchodwr plant | 599 | 27 | 94 | 135 | 108 | 51 | 146 | 96 | 2 | 1 | 93 | 491 | 74 | 660 |
| Gofal diwrnod llawn | 1537 | 79 | 401 | 867 | 696 | 123 | 76 | 33 | 0 | 0 | 477 | 1748 | 88 | 2317 |
| Chwarae Mynediad Agored | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 | 65 | 30 | 0 | 0 | 100 | 30 | 130 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 114 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 419 | 0 | 3 | 197 | 147 | 50 | 18 | 13 | 0 | 0 | 86 | 351 | 0 | 433 |
| **Cyfansymiau** | **2769** | **106** | **498** | **1199** | **951** | **224** | **275** | **207** | **32** | **1** | **656** | **2690** | **192** | **3540** |

| Math o ofal plant – Cyfrwng Cymraeg | Lleoedd wedi' u cofrestru gydag AGC | Oedrannau plant sy'n mynychu lleoliadau | | | | | | | | | Patrwm mynychu | | | Nifer y plant ar y llyfrau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | O dan 1 oed | 1 Oed | 2 Oed | 3 Oed | 4 Oed | 5-7 Oed | 8-11 Oed | 12-14 Oed | 15-17 Oed | Amser llawn | Rhan-amser | Ad hoc | |
| Gwarchodwr plant | 9 | 0 | 1 | 0 | 4 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 3 | 6 | 0 | 9 |
| Gofal diwrnod llawn | 377 | 6 | 33 | 162 | 188 | 22 | 20 | 22 | 0 | 0 | 106 | 367 | 12 | 485 |
| Chwarae Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 120* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Gofal sesiynol | 153 | 0 | 0 | 52 | 65 | 18 | 18 | 13 | 0 | 0 | 40 | 94 | 0 | 134 |
| **Cyfansymiau** | **659** | **6** | **34** | **214** | **257** | **40** | **42** | **35** | **0** | **0** | **149** | **467** | **12** | **628** |

**nid oes dadansoddiad ar gael*


| Math o ofal plant – Saesneg a Chymraeg | CIW registered places | Oedrannau plant sy'n mynychu lleoliadau | | | | | | | | | Patrwm mynychu | | | Nifer y plant ar y llyfrau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | O dan 1 oed | 1 Oed | 2 Oed | 3 Oed | 4 Oed | 5-7 Oed | 8-11 Oed | 12-14 Oed | 15-17 Oed | Amser llawn | Rhan-amser | Ad hoc | |
| Gwarchodwr plant | 16 | 0 | 6 | 4 | 4 | 4 | 5 | 1 | 0 | 0 | 5 | 12 | 7 | 24 |
| Gofal diwrnod llawn | 222 | 3 | 21 | 112 | 135 | 12 | 4 | 0 | 0 | 0 | 179 | 119 | 0 | 298 |
| Chwarae Mynediad Agored | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 24* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Gofal sesiynol | 24 | 0 | 0 | 0 | 7 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | 24 |
| **Cyfansymiau** | **286** | **3** | **27** | **116** | **146** | **25** | **9** | **1** | **0** | **0** | **184** | **155** | **7** | **346** |


** nid oes dadansoddiad ar gael*


***Patrymau mynychu***

Mynychu'n rhan-amser yw'r math pennaf o leoliad ym mhob math o ofal plant, ac eithrio mewn lleoliadau gofal diwrnod llawn sy'n defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Ychydig o fynychu ad hoc sy'n digwydd, gan awgrymu mai oriau wedi'u trefnu ymlaen llaw yw'r norm. Gallai hyn helpu i egluro pam mai un o'r materion a adroddir gan rieni yw nad oes digon o hyblygrwydd yn y sector gofal plant i fod yn addas i'w defnyddiau. Gallai archwilio hyn ymhellach a chynorthwyo lleoliadau i gynnig lleoedd mwy hyblyg gefnogi hyn.

**Archwilio defnydd o leoliadau ad hoc ac annog lleoliadau i gynnig contractau mwy hyblyg**






***Rhestrau aros / Lleoedd gwag***

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y lleoliadau gofal plant wedi'u cofrestru gydag AGC (pob math) gyda rhestrau aros (mewn coch) a'r rheiny gyda lleoedd gwag (mewn gwyrdd).


Gellir gweld bod y rhan fwyaf o restrau aros ar gyfer Gofal diwrnod llawn, gyda lleoliadau gofal plant ym mhob ardal yn adrodd bod rhestrau aros ganddynt ar gyfer y math hwn o ofal. Yr ardal â'r nifer uchaf o leoliadau yn adrodd bod ganddynt restrau aros yw Gogledd Ddwyrain Taf Elái (8), yna Gorllewin Taf Elái (5). Fodd bynnag, mae lleoliadau hefyd ym mhob ardal sydd wedi adrodd bod lleoedd gwag ganddynt ar gyfer Gofal diwrnod llawn. Roedd y nifer uchaf o leoliadau yn adrodd hyn yn Ne Ddwyrain Taf Elái (18), ac yna De Orllewin Taf Elái (14). Byddai'n ddoeth ymchwilio ymhellach i ardal Gogledd Ddwyrain Taf Elái i asesu pa lefel o alw sydd yno am wasanaethau Gofal diwrnod llawn.

**Ymchwilio i'r galw am ofal ddiwrnod llawn yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái**

| Nifer y lleoliadau gyda rhestrau aros / lleoedd gwag Pob math o ofal plant YN YSTOD Y TYMOR | Gogledd Cynon | | De Cynon | | Gogledd Rhondda | | De Rhondda | | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | | De Ddwyrain Taf Elái | | De Orllewin Taf Elái | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawniau | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Ar ôl ysgol | 1 | 8 | 2 | 2 | 0 | 5 | 1 | 3 | 2 | 3 | 3 | 11 | 5 | 16 |
| Cyn ysgol | 1 | 2 | 0 | 2 | 0 | 4 | 1 | 2 | 2 | 0 | 2 | 10 | 2 | 14 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 7 | 1 | 4 | 0 | 3 | 0 | 6 | 1 | 2 | 2 | 12 | 1 | 13 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 2 | 9 | 2 | 4 | 2 | 8 | 2 | 9 | 8 | 9 | 3 | 18 | 5 | 14 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ | 0 | 6 | 0 | 4 | 0 | 4 | 3 | 3 | 0 | 2 | 1 | 12 | 0 | 13 |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| meithrinfa hanner diwrnod AM | | | | | | | | | | | | | | |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 6 | 0 | 5 | 0 | 6 | 1 | 6 | 1 | 3 | 2 | 13 | 1 | 9 |
| Cinio | 0 | 2 | 0 | 3 | 0 | 5 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Boreau | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 3 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 | 3 | 1 | 0 | 1 | 1 | 4 | 0 | 1 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae'r graff isod yn dangos nifer y lleoliadau sydd â rhestrau aros ar gyfer cyfnodau gwyliau ysgol. Gellir gweld bod y nifer uchaf o restrau aros ar gyfer gwyliau'r haf, a chan Dde Orllewin Taf Elái y mae'r nifer uchaf o leoliadau sy'n adrodd hyn (4). O'r arolwg rhieni, mae'n ymddangos mai gofal ar ôl oriau ysgol yw'r angen mwyaf taer i rieni, yn hytrach na gofal gwyliau. Fodd bynnag, mae'r nifer uchaf o leoliadau â rhestrau aros yn Ne Orllewin Taf Elái yn cyfateb i'r nifer uchaf o ymatebion yn yr arolwg rhieni a ddywedodd bod angen gofal gwyliau arnyn nhw (gweler Adran Chwech, dadansoddiad *Angen mwy o ofal plant*).





### *Darparu ar gyfer plant ag anableddau*

Mae'r data isod ar gyfer RhCT gyfan a phob iaith. Dadansoddir y data hwn ymhellach yn Adran Tri ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

| Nifer y lleoliadau sy'n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag | Gwybyddiaeth a dysgu | Datblygiad ymddygiadol, | Cyfathrebu a rhyngweithio | Synhwyraidd a/neu gorfforol |
|---|---|---|---|---|

| ADY/AAA ar hyn o bryd<br>Ledled RhCT | | emosiynol a chymdeithasol | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 29 | 33 | 34 | 33 |
| Gofal diwrnod llawn | 44 | 45 | 46 | 43 |
| Gofal sesiynol | 14 | 18 | 21 | 16 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwarae mynediad agored | 5 | 5 | 5 | 5 |
| **Cyfanswm** | **95** | **105** | **110** | **100** |




Dywedodd 68.7% o Warchodwyr Plant a gyflwynodd eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn ymwybodol o'r Cod ADY (o gymharu â 92.8% o ddarparwyr Gofal diwrnod llawn, ac 88% o ddarparwyr Gofal sesiynol). Fodd bynnag, dim ond 27% a ddywedodd fod ganddynt staff wedi'u hyfforddi i gynorthwyo plant ag ADY/AAA (o gymharu ag 85.7% o ddarparwyr Gofal diwrnod llawn ac 80% o ddarparwyr Gofal sesiynol).  Gall fod yn anodd i warchodwyr plant fynychu hyfforddiant yn ystod y dydd neu'n gynnar min nos. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen chwilio am ffyrdd i gynyddu mynediad i gyfleoedd hyfforddi, yn enwedig ar gyfer y math hwn o ofal plant.

**Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a chyfrifoldebau lleoliadau**
**Cynyddu mynediad i hyfforddiant ADY, yn enwedig ar gyfer gwarchodwyr plant**

***Taliadau***

Mae rhagor o wybodaeth am daliadau ar gael yn Adran Pump ar gyfer pob math o ofal plant.

***Dechrau'n Deg, cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar***


Dywedodd 51 o leoliadau yn eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth bod ganddynt ddarpariaeth Dechrau'n Deg, dywedodd 31 eu bod yn darparu addysg feithrin y cyfnod sylfaen, ac roedd 125 yn derbyn cyllid trwy Gynnig Gofal Plant Cymru. Ceir dadansoddiad yn ôl math o leoliad isod:

| Math o ofal plant | Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Chwarae mynediad agored | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dechrau'n Deg | 14 | 26 | 11 | 0 | 0 | **51** |
| Cynnig Gofal Plant (sy'n derbyn cyllid ar hyn o bryd) | 55 | 54 | 14 | 2 | 0 | **125** |
| Addysg feithrin y cyfnod sylfaen | 0 | 25 | 6 | 0 | 0 | **31** |

Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn ar gael yn Adran Pedwar ar Ddeg.

***Gofal plant di-dreth / Talebau gofal plant***

Dywedodd 151 yn eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth bod eu rhieni'n derbyn gofal plant di-dreth neu dalebau gofal plant i gynorthwyo â chost ffioedd. Mae'r dadansoddiad fel a ganlyn:




Gweler Adran Deuddeg am gamau gweithredu dynodedig yn ymwneud â'r pwnc hwn.

***Adborth darparwyr***

Fel rhan o'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, ni ofynnwyd i ddarparwyr am adborth, ac eithrio rhai cyfleoedd ar gyfer ymatebion testun yn ymwneud â gwybodaeth am gynlluniau sicrhau ansawdd y maen nhw'n eu defnyddio a ….

Fodd bynnag, mae darparwyr yn cyfleu adborth yn gyson i’r tîm datblygu gofal plant drwy arolygon bodlonrwydd rheolaidd a digwyddiadau ymgysylltu. Mae’r adborth yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â lefel y cymorth a dderbyniant a’r dewis o hyfforddiant a gynigir. Mae ADY a hyfforddiant ymwybyddiaeth o alergenau yn ddau o anghenion hyfforddiant y gofynnwyd amdanynt yn ddiweddar gan leoliadau. Materion yn ymwneud â gwaddol o’r pandemig yw’r anawsterau presennol ar gyfer y sector yn bennaf, fel llai o niferoedd, materion recriwtio ac anawsterau ariannol wedi’u hachosi gan ddwy flynedd o darfu.

# Adran 5: Cyflenwad gofal plant

## Gwarchodwyr plant


### *Trosolwg*

Y duedd yw mai gwarchod plant yw'r math o ofal plant mwyaf cyfnewidiol yn y farchnad. Gan fod y math hwn o ofal plant yn seiliedig mewn cartrefi preifat, mae'n ddibynnol iawn ar amgylchiadau personol y gwarchodwr plant, ac felly'r niferoedd uchel o gofrestriadau wedi'u ddiddymu, o gymharu â mathau eraill o ofal plant.

Mae'n ymddangos bod y pandemig COVID-19 wedi arwain at nifer uwch na'r arfer o ddiddymiadau cofrestriadau, gyda 36 o warchodwyr plant yn diddymu'u cofrestriadau yn y ddwy flynedd diwethaf. Ni allwn fod yn sicr mai'r pandemig yw'r unig reswm, ond mae sgyrsiau gyda rhai o'r gwarchodwyr plant hynny sydd wedi gadael y sector yn awgrymu ei fod yn ffactor cyfrannol. Mewn cyferbyniad, dim ond wyth o warchodwyr plant newydd sydd wedi cofrestru gydag AGC yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r cyfnodau clo a'r cyfyngiadau ar symud wedi bod yn ffactor yn hyn yn sicr, felly hefyd yr ansicrwydd ynglŷn â lefelau galw y mae'r pandemig wedi'i achosi. Mae'r sefyllfa'n ysgafnu nawr ac mae arwyddion y bydd nifer gyson o gofrestriadau newydd yn dod drwy'r system dros y misoedd i ddod.

Ers yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, mae Rhwydwaith Gwarchod Plant RhCT wedi dod i ben, yn sgil blaenoriaethau yn newid ac ailstrwythuro staff. Mae pecyn cynhwysfawr o gymorth wedi'i wella i gynorthwyo darpar warchodwyr plant i gwblhau'u proses gofrestru gydag AGC. Mae'r pecyn yn cynnwys cymorth ariannol i gwblhau'u cwrs cyn-gofrestru, yn ogystal â hyfforddiant Diogelu, Hylendid Bwyd a Chymorth Cyntaf Pediatrig. Mae aelodaeth blwyddyn o PACEY yn cael ei chynnig hefyd, felly hefyd grant adnoddau bach i gychwyn arni, pecyn cychwyn ansawdd ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am y nifer bresennol o ddarpar warchodwyr plant sy'n cael eu cynorthwyo i gwblhau'u cofrestriad AGC ar gael yn Adran Wyth.

### *Nifer y lleoliadau wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL*




Mae'n ymddangos bod niferoedd isel o warchodwyr plant yn ardaloedd De Cynon a De Rhondda. Mae ardal De Rhondda, yn hanesyddol, wedi gweld lefelau isel o warchodwyr plant y mae gwaith datblygu a hyrwyddo mewn blynyddoedd blaenorol wedi methu mynd i'r afael â nhw. Byddai ymdrechion o'r newydd yn yr ardal hon yn fanteisiol.

**Archwilio'r galw am warchodwyr plant ychwanegol yn ardaloedd De Cynon a De Rhondda**

***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***

Ers Ionawr 2020, mae 36 o warchodwyr plant wedi diddymu'u cofrestriadau gydag AGC, gan golli 263 o leoedd. Mewn cyferbyniad, mae wyth o gofrestriadau newydd wedi'u cofnodi, gyda 58 o leoedd wedi'u creu. Mae hyn yn golled net o 205 o leoedd yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 15 o gofrestriadau newydd a 10 diddymiad ar adeg yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf.

Fel y soniwyd uchod, er bod trosiant gweddol gyson fel arfer o warchodwyr plant cofrestredig, mae'n ymddangos bod y pandemig COVID wedi cyflymu graddfa colli gwarchodwyr plant cofrestredig ac wedi arwain at ostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant newydd sy'n cofrestru.




| Gwarchodwyr plant (ers Ionawr 2020) | Cofrestriad newydd | Nifer y lleoedd newydd | Cofrestriadau wedi'u diddymu | Nifer y lleoedd a gollwyd | Colli/ ennill lleoedd net |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 2 | 16 | 8 | 72 | -56 |
| De Cynon | 0 | | 4 | 17 | -17 |
| Gogledd Rhondda | | | 4 | 37 | -37 |
| De Rhondda | | | 3 | 16 | -16 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 2 | 15 | 9 | 64 | -49 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 4 | 27 | 0 | 0 | 27 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| De Orllewin Taf Elái | | | 8 | 57 | -57 |
| **Cyfanswm** | **8** | **58** | **36** | **263** | **-205** |

**Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa, gan dynnu sylw'n glir at y pecyn cymorth sy'n cael ei gynnig i ddarpar warchodwyr plant**

***Iaith – yn ôl ARDAL***

Mae'r graff isod yn dangos bod bron yr holl warchodwyr plant yn disgrifio'u hunain fel rhai cyfrwng Saesneg. Mae dau yn adrodd eu bod yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn eu lleoliadau, gydag ond un yn adrodd mai lleoliad cyfrwng Cymraeg ydyw. Mae'n debygol bod llawer o warchodwyr plant cyfredol yn gallu sgwrsio yn Gymraeg gyda'r plant yn eu gofal yn eithaf hyderus, ond nid ydyn yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu nid yw'r hyder ganddynt i farchnata eu gwasanaethau fel rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gan weithio gyda phartneriaid, un flaenoriaeth yn ystod yr adroddiad hwn ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant fydd annog defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gwarchod plant, a chynorthwyo'r rheiny sy'n gwybod rhywfaint o Gymraeg i wneud mwy o ddefnydd ohoni yn eu hymarfer.

Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth gwarchod plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn Adran Tri.





**Ymgyrch hyrwyddo i ddenu mwy o warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg. Cynnig cymorth a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg rhydlyd i fod yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu lleoliadau a hyrwyddo'u hunain fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg?**

***Gwasanaethau a gynigir***

Fel y soniwyd yn Adran Pedwar, dim ond 32 o leoliadau gofal plant sydd wedi cofrestru i ddarparu addysg cyn-meithrin ac sy'n gallu cynnig lleoliadau addysg gynnar. Nid yw'r un o'r

lleoliadau hyn yn warchodwyr plant. Felly, dylid edrych yn ofalus ar y data ar Leoliadau Addysg Gynnar.


| Math o Ofal Gwarchodwr Plant a gynigir | Nifer y lleoliadau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd Cynon | De Cynon | Gogledd Rhondda | De Rhondda | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | De Ddwyrain Taf Elái | De Orllewin Taf Elái | Cyfanswm |
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar ôl ysgol | 12 | 3 | 7 | 4 | 12 | 22 | 18 | **78** |
| Cyn ysgol | 6 | 1 | 6 | 4 | 7 | 21 | 17 | **62** |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 4 | 2 | 2 | 1 | 1 | 14 | 7 | **31** |
| Min nos ar ôl 6pm | 1 | 1 | 3 | 0 | 1 | 3 | 2 | **11** |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 10 | 3 | 6 | 4 | 19 | 21 | 19 | **82** |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 7 | 3 | 5 | 3 | 8 | 13 | 13 | **52** |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 8 | 3 | 4 | 3 | 5 | 19 | 13 | **55** |
| Cinio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Penwythnosau | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1** |




| Gwarchodwr Plant Wythnosau yn gweithredu Yn ôl ARDAL | Adeg Tymor a Gwyliau | Adeg Tymor yn Unig | Adeg Gwyliau yn Unig |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 11 | 0 | 0 |
| De Cynon | 3 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 7 | 1 | 0 |
| De Rhondda | 4 | 0 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 21 | 0 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 23 | 2 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 18 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **87** | **5** | **0** |

***Amserau agor – ADEG TYMOR***

| Gwarchodwr plant Amserau agor ADEG TYMOR RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 75 | 10 | 2 |
| Mawrth | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 75 | 9 | 2 |
| Mercher | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 75 | 10 | 2 |
| Iau | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 73 | 10 | 2 |
| Gwener | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 71 | 9 | 2 |
| Sadwrn | 05:00 | 07:30 | 10:00 | 19:00 | 3 | 1 | 1 |
| Sul | 05:00 | 07:30 | 10:00 | 19:00 | 4 | 1 | 1 |





Mae data ar gyfer gofal dros nos yn amrywio ar draws y cyflwyniadau Datganiadau Hunanaseu Gwasanaeth. Mae Adran Pedwar yn nodi'r gwasanaethau a gynigir yn ôl pob math o ofal plant. Yn y rhan hon o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, nid adroddodd unrhyw warchodwyr plant eu bod yn cynnig gofal dros nos. Fodd bynnag, yn yr adran o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth sy'n holi ynghylch amserau agor, dywedodd 2 warchodwr plant eu bod yn cynnig y gwasanaeth hwn. Adroddir hyn yn y graff uchod. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth adolygu'r canlyniadau. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i sefydlu a yw'r ddau warchodwr plant hyn yn cynnig gofal dros nos mewn gwirioned. A bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i annog mwy o warchodwyr plant i gynnig oriau annodweddiadol.

**Ymchwilio ymhellach i'r galw gan rieni am ofal ar y penwythnos / dros nos**

***Amserau agor – GWYLIAU YSGOL***

Dywedodd pump o warchodwr plant eu bod yn gweithio yn ystod y tymor yn unig, a dywedodd 11 bod eu hamserau agor yn ystod gwyliau'r ysgol yn wahanol i'w hamserau adeg tymor.


O'r gwarchodwyr plant hynny sy'n agor yn ystod gwyliau'r ysgol, dangosir y dadansoddiad o yn ystod pa wyliau y maent ar agor isod. Fel y gellir gweld, mae'r mwyafrif yn agor bob gwyliau, ac eithrio egwyl y Nadolig, gyda 27 yn dweud eu bod ar agor, a 47 yn dweud eu bod ar gau.




Nifer gyfartalog y diwrnodau a ddarperir yn ystod y gwyliau gan warchodwyr plant yw:

- Gwyliau'r haf 25
- Hanner tymor mis Hydref 5
- Gwyliau'r Nadolig 10
- Hanner tymor Chwefror 5
- Gwyliau'r Pasg 8
- Hanner tymor mis Mai 4

| Gwarchodwr plant Amserau agor GWYLIAU YSGOL RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 70 | 8 | 2 |
| Mawrth | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 70 | 9 | 2 |
| Mercher | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 70 | 9 | 2 |
| Iau | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 68 | 10 | 2 |
| Gwener | 05:00 | 15:00 | 06:30 | 20:00 | 68 | 9 | 2 |
| Sadwrn | 05:00 | 07:30 | 10:00 | 19:30 | 3 | 1 | 1 |
| Sul | 05:00 | 07:30 | 10:00 | 19:30 | 4 | 1 | 1 |




Gellir gweld bod gwarchodwyr plant yn cynnig gwasanaeth hyblyg i rieni, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o gyfnodau gwyliau ysgol, yn ogystal â chynnig oriau agor hirach na mathau eraill o ofal plant.

***Rhestrau aros / Lleoedd gwag***

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y Gwarchodwyr Plant â rhestrau aros (mewn coch) a'r rheiny â lleoedd gwag (mewn gwyrdd).

Gellir gweld bod y rhan fwyaf o restrau aros ar gyfer gofal cyn ysgol a gofal diwrnod llawn. Gan Ogledd Ddwyrain Taf Elái a De Ddwyrain Taf Elái oedd y nifer uchaf o warchodwyr plant yn adrodd bod ganddynt restrau aros (2 yr un) ar gyfer gofal cyn ysgol, a gwarchodwyr plant yn Ne Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái a adroddodd y nifer uchaf o leoedd gwag (9 yr un). Ar gyfer gofal diwrnod llawn, gwarchodwyr plant yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái adroddodd am y rhan fwyaf o restrau aros (8), a De Ddwyrain Taf Elái adroddodd am y rhan fwyaf o leoedd gwag (13), ac yna De Orllewin Taf Elái (9). Mae recriwtio gwarchodwyr plant newydd yn flaenoriaeth barhaus, ond gallai fod yn ddoeth cynnal ymgyrch hyrwyddo yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái.

**Ymgyrch hyrwyddo gwarchod plant yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái**

| Nifer rhestrau aros / lleoedd gwag Gwarchodwyr plant ADEG TYMOR | Gogledd Cynon | | De Cynon | | Gogledd Rhondda | | De Rhondda | | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | | De Ddwyrain Taf Elái | | De Orllewin Taf Elái | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar ôl ysgol | 1 | 5 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 2 | 2 | 3 | 3 | 8 | 1 | 8 |
| Cyn ysgol | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 9 | 1 | 9 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 8 | 0 | 4 |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 1 | 5 | 1 | 1 | 0 | 3 | 0 | 3 | 8 | 6 | 3 | 13 | 2 | 9 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 0 | 4 | 0 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 7 | 0 | 9 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 4 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 | 8 | 1 | 4 |
| Cinio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Rhestrau aros gwarchodwyr plant GWYLIAU YSGOL RhCT | Rhestr aros? | | |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nac oes | Nifer gyfartalog o blant ar restr aros |
| Gwyliau'r haf | 4 | 77 | 1.5 |
| Hanner tymor mis Hydref | 2 | 71 | 2 |
| Gwyliau'r Nadolig | 0 | 27 | 0 |
| Hanner tymor mis Chwefror | 1 | 73 | 3 |
| Gwyliau'r Pasg | 1 | 69 | 3 |
| Hanner tymor mis Mai | 1 | 67 | 3 |


***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Adroddodd 41 o warchodwyr plant yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn gofalu am blant ag anghenion dysgu neu anghenion corfforol ar hyn o bryd. Gall fod yn broblemus i warchodwyr plant gael mynediad i hyfforddiant i gynorthwyo'r plant hyn o gymharu â mathau eraill o ofal plant, gan nad ydyn nhw'n gallu rhyddhau staff i fynychu cyrsiau hyfforddi yn ystod y dydd. Mae hyd yn oed y gwarchodwyr plant hynny sy'n cyflogi cynorthwywyr yn gwneud hynny i sicrhau cynnal eu cymhareb, ac felly efallai na fyddant yn gallu gadael y lleoliad. Mae'r tabl isod yn dangos y math o angen dysgu ychwanegol neu angen corfforol y mae gwarchodwyr plant yn eu cynorthwyo ar hyn o bryd yn eu lleoliadau.

Ers i'r Swyddog Arweiniol ADY ddod i'w swydd yn Ionawr 2021, mae cynnydd mawr wedi'i wneud o ran sicrhau bod hyfforddiant arbenigol ar gael i'r holl leoliadau gofal plant ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Mae'r cynnydd mewn dysgu rhithwir ers dechrau'r pandemig wedi helpu

gwarchodwyr plant gyda hyn, gan fod hwn yn ddull ymgysylltu mwy cyfleus o lawer iddynt yn ystod diwrnodau'r wythnos.

| **Gwarchodwyr plant Nifer y lleoliadau sy'n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag ADY/AAA ar hyn o bryd yn ôl ARDAL** | **Gwybyddiaeth a dysgu** | **Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol** | **Cyfathrebu a rhyngweithio** | **Synhwyraidd a/neu gorfforol** |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 5 | 6 | 6 | 5 |
| De Cynon | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Gogledd Rhondda | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Rhondda Rhondda | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 9 | 10 | 9 | 11 |
| De Ddwryain Taf Elái | 6 | 7 | 8 | 5 |
| De Orllewin Taf Elái | 5 | 6 | 8 | 8 |
| **Cyfanswm** | **29** | **33** | **34** | **33** |




***Taliadau***

Gofynnwyd i ddarparwyr i nodi eu ffioedd ar eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, yn ôl p'un a ydynt yn codi fesul awr, neu fesul sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. Mae'n amlwg o rai o'r ymatebion bod rhai darparwyr wedi camddeall y cwestiwn hwn. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r cyfraddau isod.

Er hyn, gellir gweld bod y gyfradd gyfartalog fesul awr ar gyfer gwarchodwyr plant yn amrywio o £4.72 i £5.50 yr awr.

*<u>Taliadau – ledled RhCT</u>*

| Gwarchodwr plant Taliad uchaf RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £6.00 | £0.00 | £48.00 | £90.00 | £0.00 |
| 1 oed | £6.00 | £49.50 | £48.00 | £102.00 | £0.00 |
| 2 oed | £6.00 | £45.00 | £49.50 | £170.00 | £0.00 |
| 3 oed | £6.00 | £49.50 | £48.00 | £90.00 | £0.00 |
| 4 oed | £6.50 | £15.00 | £45.00 | £15.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £6.50 | £20.00 | £45.00 | £150.00 | £150.00 |
| 8-11 oed | £6.50 | £15.00 | £42.00 | £150.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £6.00 | £10.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £150.00 |

| Gwarchodwr plant Taliad isaf RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £4.00 | £0.00 | £35.00 | £80.00 | £0.00 |
| 1 oed | £4.00 | £30.00 | £33.75 | £40.00 | £0.00 |
| 2 oed | £4.00 | £25.00 | £33.75 | £40.00 | £0.00 |
| 3 oed | £4.00 | £6.00 | £15.00 | £30.00 | £0.00 |
| 4 oed | £4.00 | £6.00 | £16.00 | £15.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £4.00 | £6.00 | £16.00 | £45.00 | £150.00 |
| 8-11 oed | £4.00 | £5.00 | £10.00 | £45.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £5.00 | £10.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £150.00 |

| Gwarchodwr plant Taliad cyfartalog RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £4.77 | £0.00 | £43.10 | £85.00 | £0.00 |
| 1 oed | £4.75 | £41.50 | £42.06 | £71.00 | £0.00 |
| 2 oed | £4.76 | £33.33 | £42.07 | £105.00 | £0.00 |
| 3 oed | £4.77 | £22.58 | £40.94 | £56.25 | £0.00 |
| 4 oed | £4.72 | £9.79 | £32.67 | £15.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £4.78 | £10.81 | £33.20 | £77.25 | £150.00 |
| 8-11 oed | £4.75 | £8.75 | £28.83 | £85.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £5.50 | £10.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £150.00 |

*Taliadau – yn ôl ARDAL*


Roedd y gyfradd uchaf fesul awr o ardal De Cynon gyda £6.00 fesul awr yn cael ei godi ar gyfer plant 8-11 oed. Y gyfradd isaf fesul awr oedd £4.00 yr awr ar gyfer plant dan 1 oed, a adroddwyd yn ardal Gogledd Cynon. Mae cyfraddau yn Ne Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái ar ochr is yr ystod taliadau. Y rhain yw'r ardaloedd â'r crynoadau uchaf o


warchodwyr plant cofrestredig, felly efallai fod hyn yn ddangosol o'r gystadleuaeth yn yr ardal.

| Gwarchodwr plant Cost gyfartalog fesul awr Yn ôl ARDAL | O dan 1 oed | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 12-14 oed | 15-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | £4.00 | £5.03 | £5.22 | £5.16 | £5.20 | £5.13 | £5.13 | £0.00 | £0.00 |
| De Cynon | £5.75 | £5.50 | £5.50 | £5.50 | £5.50 | £5.50 | £6.00 | £6.00 | £0.00 |
| Gogledd Rhondda | £4.50 | £4.70 | £4.58 | £4.60 | £4.55 | £4.72 | £4.78 | £0.00 | £0.00 |
| De Rhondda | £0.00 | £4.50 | £4.00 | £4.50 | £4.25 | £4.50 | £4.25 | £0.00 | £0.00 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | £5.00 | £5.00 | £5.13 | £5.13 | £5.17 | £5.63 | £5.50 | £0.00 | £0.00 |
| De Ddwyrain Taf Elái | £4.00 | £4.60 | £4.50 | £4.55 | £4.64 | £4.68 | £4.61 | £5.00 | £0.00 |
| De Orllewin Taf Elái | £4.69 | £4.46 | £4.43 | £4.50 | £4.38 | £4.44 | £4.57 | £0.00 | £0.00 |


***Disgowntiau yn cael eu cynnig***

Nid yw'r mwyafrif o warchodwyr plant yn cynnig disgowntiau i rieni. Fe allai'r gystadleuaeth y soniwyd amdani uchod drosi hefyd i'r arfer o ddenu rhieni trwy gynnig disgowntiau, gan fod y gyfran uchaf o'r rheiny a adroddodd eu bod yn cynnig disgowntiau yn ardaloedd De Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái, yn ogystal â Gogledd Ddwyrain Taf Elái.







## *Dechrau'n Deg, cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar*




## *Gofal plant di-dreth / Talebau gofal plant*




***Cryfderau***

- Mae pecyn cymorth da ar waith ar gyfer darpar rieni
- Nifer galonogol o warchodwyr plant yn y rhan fwyaf o ardaloedd daearyddol RhCT

***Gwendidau***


- Nifer isel o warchodwyr plant yn Ne Cynon a De Rhondda
- Nifer isel o warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg
- Mae nifer uchel yn diddymu cofrestriadau yn broblem bob amser, ond mae'n ymddangos yn fwy o broblem yng ngoleuni pandemig COVID-19

## Gofal diwrnod llawn

***Trosolwg***

Ers cyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru yn 2017, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y darparwyr Gofal diwrnod llawn yn RhCT, gyda llawer o ddarparwyr Gofal sesiynol yn newid eu math o gofrestriad gydag AGC i fod yn ddarparwyr Gofal diwrnod llawn. Nid yw hyn oherwydd eu bod eisiau cynnig ystod lawn y gwasanaethau y mae darparwyr Gofal diwrnod llawn traddodiadol yn eu cynnig, fel gofal i fabanod dros oriau estynedig. Ond yn hytrach, mae oherwydd nad ydyn wedi'u cyfyngu i ddwy sesiwn y dydd a gallant gynnig gwasanaethau codi plant ar gyfer plant oedran meithrin a gofal amser cinio, yn ogystal â gofal cofleidiol yn y prynhawn.

***Nifer y lleoliadau wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL***





Gogledd Ddwyrain Taf Elái sydd â'r nifer leiaf o ddarparwyr Gofal dydd llawn. Mae'r ardal hon yn cwmpasu tref Pontypridd, yn ogystal â'r ardal myfyrwyr o amgylch Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest. O ganlyniad, mae gan y wardiau yn yr ardal hon rai o'r niferoedd isaf o blant 0-17 oed yn RhCT gyfan. Hefyd, mae diffyg lleoliadau addas sy'n golygu, er gwneud nifer o archwiliadau yn y gorffennol, y bu datblygu gwasanaethau Gofal diwrnod llawn yn her. Ers yr adroddiad Asesu Digonolrwydd Gofal Plant diwethaf, gwelwyd nifer o ddatblygiadau adeiladu sylweddol ym Mhontypridd, gan gynnwys creu adeiladau Llys Cadwyn ac ailddatblygu'r adeilad YMCA, sydd i'w gwblhau'n ddiweddarach yn 2022. Mae lle wedi'i gynllunio yn y YMCA ar gyfer cyfleuster gofal plant. Cyfleuster bach fydd hwn, ond mae'n debygol o ddarparu ar gyfer rhywfaint o'r galw heb ei ddiwallu yn y dyfodol.

### Monitro'r galw am wasanaethau Gofal diwrnod llawn yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái

***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***

Ers Ionawr 2020, bu cynnydd net o 63 o leoedd ar gyfer Gofal diwrnod llawn. Fel y soniwyd uchod, mae'n debygol bod hyn yn ganlyniad darparwyr Gofal sesiynol yn newid eu cofrestriadau AGC.





| Gofal diwrnod llawn (ers Ionawr 2020) | Cofrestriad newydd | Nifer y lleoedd newydd | Cofrestriadau wedi'u diddymu | Nifer y lleoedd a gollwyd | Colli/ ennill lleoedd net |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 3 | 100 | 3 | 72 | **28** |
| De Cynon | 3 | 86 | 3 | 66 | **20** |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 1 | 60 | **-60** |
| De Rhondda | 2 | 37 | 2 | 41 | **-4** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 5 | 138 | 4 | 97 | **41** |
| De Orllewin Taf Elái | 2 | 127 | 3 | 89 | **38** |
| **Cyfanswm** | **15** | **488** | **16** | **425** | **63** |

Mae nifer y lleoedd Gofal diwrnod llawn wedi aros yn weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r golled net yng Ngogledd Rhondda yn ganlyniad lleoliad cyfrwng Cymraeg yn cau yn 2021.

***Iaith – yn ôl ARDAL***

Mae'r graff isod yn dangos yr iaith a ddefnyddir mewn lleoliadau Gofal diwrnod llawn ledled RhCT. Er mai lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r mwyafrif o ddarparwyr Gofal diwrnod llawn, mae dewis rhesymol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn Adran Tri.





***Gwasanaethau a gynigir***

Fel y byddech yn disgwyl, darparwyr Gofal diwrnod llawn sy'n cynnig yr ystod gwasanaethau ehangaf i rieni, ac maent hefyd ar agor am y mwyafrif o gyfnodau gwyliau ysgol. Er bod nifer uchel yn agor cyn 8am ar ddiwrnodau'r wythnos, dim ond un lleoliad a adroddodd ei fod yn agor yn hwyrach na 6pm, gan olygu bod gofal yn ystod oriau annodweddiadol yn gyfyngedig. Mae'r un lleoliad a adroddodd ei fod yn cynnig gofal dros nos yn annhebygol o fod yn gywir, er yr ymchwilir ymhellach i sefydlu hyn.

| Gofal diwrnod llawn Math o ofal a gynigir | Nifer y lleoliadau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd Cynon | De Cynon | Gogledd Rhondda | De Rhondda | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | De Ddwyrain Taf Elái | De Orllewin Taf Elái | Cyfanswm |
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar ôl ysgol | 3 | 2 | 3 | 2 | 0 | 3 | 7 | **20** |
| Cyn ysgol | 1 | 2 | 2 | 1 | 0 | 2 | 5 | **13** |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 4 | 3 | 7 | 8 | 1 | 7 | 9 | **39** |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | **1** |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 4 | 5 | 8 | 8 | 3 | 9 | 8 | **45** |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 4 | 3 | 6 | 6 | 3 | 7 | 8 | **64** |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 4 | 3 | 7 | 6 | 2 | 7 | 9 | **38** |
| Cinio | 3 | 2 | 7 | 2 | 0 | 2 | 3 | **19** |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 2 | 2 | 5 | 5 | 1 | 5 | 1 | **21** |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 2 | 2 | 6 | 5 | 1 | 5 | 1 | **22** |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |





| **Gofal diwrnod llawn Wythnosau yn gweithredu Yn ôl ARDAL** | **Adeg Tymor a Gwyliau** | **Adeg Tymor yn Unig** | **Gwyliau yn Unig** |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 5 | 2 | 0 |
| De Cynon | 1 | 4 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 7 | 5 | 0 |
| De Rhondda | 7 | 2 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 2 | 1 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 7 | 2 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 9 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **38** | **17** | **0** |

***Amserau agor – ADEG TYMOR***

| **Gofal diwrnod llawn ADEG TYMOR Oriau agor RhCT** | **Amser agor cynharaf** | **Amser agor hwyraf** | **Amser cau cynharaf** | **Amser cau hwyraf** | **Nifer ar agor cyn 8am** | **Nifer ar agor ar ôl 6pm** | **Nifer ar agor dros nos** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 06:45 | 13:00 | 12:15 | 19:00 | 24 | 1 | 1 |
| Mawrth | 06:45 | 13:00 | 12:15 | 19:00 | 24 | 1 | 1 |
| Mercher | 06:45 | 13:00 | 12:15 | 19:00 | 24 | 1 | 1 |


| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iau | 06:45 | 13:00 | 12:15 | 19:00 | 24 | 1 | 1 |
| Gwener | 06:45 | 13:00 | 12:15 | 19:00 | 24 | 1 | 1 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |




***Amserau agor – GWYLIAU YSGOL***

Dywedodd 17 o ddarparwyr Gofal diwrnod llawn eu bod yn gweithio yn ystod y tymor yn unig, tra bod chwech wedi dweud bod eu hamserau agor yn wahanol yn ystod gwyliau'r haf i adeg tymor. Efallai mai'r darparwyr Gofal sesiynol yw'r nifer gymharol uchel hon sydd wedi cofrestru fel lleoliadau Gofal diwrnod llawn er mwyn cynnig mwy o wasanaethau adeg tymor, ond nad ydynt yn dymuno agor yn ystod cyfnodau gwyliau.


O'r darparwyr gofal diwrnod llawn sydd yn agor yn ystod gwyliau ysgol, dangosir dadansoddiad isod o ba wyliau y maent yn eu cwmpasu. Fel y gellir gweld, mae'r mwyafrif yn agor yn ystod pob gwyliau, ac eithrio egwyl y Nadolig, ac mae 21 yn dweud eu bod ar agor, ac 17 yn dweud eu bod ar gau.



Nifer gyfartalog y diwrnodau a ddarperir yn ystod y gwyliau gan ddarparwyr gofal diwrnod llawn yw:

- Gwyliau'r haf 20
- Hanner tymor mis Hydref 5
- Gwyliau'r Nadolig 5
- Hanner tymor mis Chwefror 5
- Gwyliau'r Pasg 7
- Hanner tymor mis Mai 4

| Gofal diwrnod llawn GWYLIAU YSGOL Oriau agor RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 06:45 | 12:25 | 15:00 | 19:00 | 24 | 1 | 0 |
| Mawrth | 06:45 | 12:25 | 15:00 | 19:00 | 24 | 1 | 0 |
| Mercher | 06:45 | 12:25 | 15:00 | 19:00 | 24 | 1 | 0 |
| Iau | 06:45 | 12:25 | 15:00 | 19:00 | 24 | 1 | 0 |
| Gwener | 06:45 | 12:25 | 15:00 | 19:00 | 24 | 1 | 0 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |




***Rhestrau Aros / Lleoedd gwag***

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr Gofal diwrnod llawn sydd â rhestrau aros (mewn coch) a'r rheiny â lleoedd gwag (mewn gwyrdd).

Gellir gweld mai ar gyfer gofal diwrnod llawn y mae'r rhan fwyaf o restrau aros. De Orllewin Taf Elái (3) a De Rhondda (2) sy'n adrodd am y nifer uchaf o leoliadau â rhestrau aros. Lleoliadau yn Ne Orllewin Taf Elái oedd yn fwyaf tebygol o adrodd am leoedd gwag, ac yna De Ddwyrain Taf Elái.

| **Nifer y lleoliadau Gofal diwrnod llawn â rhestrau aros / lleoedd gwag ADEG TYMOR** | **Gogledd Cynon** | | **De Cynon** | | **Gogledd Rhondda** | | **De Rhondda** | | **Gogledd Ddwyrain Taf Elái** | | **De Ddwyrain Taf Elái** | | **De Orllewin Taf Elái** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar ôl ysgol | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 | 6 |
| Cyn ysgol | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 4 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 4 | 1 | 2 | 0 | 3 | 0 | 5 | 0 | 1 | 2 | 4 | 1 | 6 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 1 | 4 | 1 | 3 | 0 | 5 | 2 | 6 | 0 | 3 | 0 | 5 | 3 | 5 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 4 | 2 | 2 | 0 | 2 | 0 | 5 | 0 | 4 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 2 | 0 | 3 | 0 | 5 | 1 | 4 | 0 | 2 | 1 | 5 | 0 | 5 |
| Cinio | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 5 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 | 3 | 1 | 0 | 1 | 1 | 4 | 0 | 1 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


| **Rhestrau aros gofal diwrnod llawn GWYLIAU YSGOL RhCT** | **Rhestr aros?** | | |
|---|---|---|---|
| | **Oes** | **Nac oes** | **Nifer gyfartalog o blant ar restr aros** |
| Gwyliau'r haf | 1 | 35 | 3 |
| Hanner tymor mis Hydref | 0 | 33 | 0 |
| Gwyliau'r Nadolig | 0 | 21 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hanner tymor mis Chwefror | 0 | 33 | 0 |
| Gwyliau'r Pasg | 0 | 33 | 0 |
| Hanner tymor mis Mai | 0 | 33 | 0 |

***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Adroddodd 47 o leoliadau gofal diwrnod llawn yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu neu anghenion corfforol ar hyn o bryd.

| Gofal diwrnod llawn Nifer y lleoliadau sy'n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag ADY/AAA ar hyn o bryd yn ôl ARDAL | Gwybyddiaeth a dysgu | Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithaso l | Cyfathrebu a rhyngweithio | Synhwyraidd a/neu gorfforol |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 5 | 5 | 5 | 5 |
| De Cynon | 4 | 5 | 5 | 4 |
| Gogledd Rhondda | 10 | 11 | 11 | 9 |
| De Rhondda | 7 | 7 | 7 | 7 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 3 | 2 | 3 | 2 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 5 | 5 | 5 | 5 |
| De Orllewin Taf Elái | 8 | 8 | 8 | 8 |
| **Cyfanswm** | **42** | **43** | **44** | **40** |




***Taliadau***

Gofynnwyd i ddarparwyr i nodi eu ffioedd ar eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, yn ôl p'un a ydynt yn codi fesul awr, neu fesul sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. Mae'n amlwg o rai o'r ymatebion bod rhai darparwyr wedi camddeall y cwestiwn hwn. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r cyfraddau isod.

Ar sail y data hwn, gellir gweld bod y gyfradd gyfartalog ddyddiol ar gyfer darparwyr Gofal diwrnod llawn yn amrywio o £34.80 i £47.85 y dydd.

*Taliadau – ledled RhCT*

| Gofal diwrnod llawn Taliad uchaf RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £10.00 | £51.00 | £66.00 | £300.00 | £0.00 |
| 1 oed | £10.00 | £51.00 | £66.00 | £300.00 | £0.00 |
| 2 oed | £10.00 | £51.00 | £63.00 | £290.00 | £0.00 |
| 3 oed | £10.00 | £51.00 | £58.00 | £270.00 | £7,200.00 |
| 4 oed | £10.00 | £51.00 | £58.00 | £270.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £10.00 | £51.00 | £51.00 | £0.00 | £0.00 |
| 8-11 oed | £10.00 | £51.00 | £51.00 | £0.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

| Gofal diwrnod llawn Taliad isaf RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £4.28 | £10.85 | £39.95 | £185.00 | £0.00 |
| 1 oed | £4.28 | £10.85 | £39.95 | £185.00 | £0.00 |
| 2 oed | £4.28 | £9.00 | £12.00 | £40.00 | £0.00 |
| 3 oed | £4.28 | £9.00 | £12.00 | £40.00 | £7,200.00 |
| 4 oed | £4.28 | £10.00 | £23.00 | £190.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £4.28 | £4.25 | £24.00 | £0.00 | £0.00 |
| 8-11 oed | £4.28 | £4.25 | £24.00 | £0.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

| Gofal diwrnod llawn Taliad cyfartalog RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £7.14 | £30.27 | £47.85 | £221.57 | £0.00 |
| 1 oed | £8.07 | £28.57 | £47.35 | £219.16 | £0.00 |
| 2 oed | £7.82 | £20.03 | £39.57 | £197.36 | £0.00 |
| 3 oed | £7.41 | £19.10 | £38.40 | £189.16 | £7,200.00 |
| 4 oed | £7.40 | £22.64 | £43.75 | £219.39 | £0.00 |
| 5-7 oed | £8.29 | £16.13 | £36.45 | £0.00 | £0.00 |
| 8-11 oed | £8.09 | £16.14 | £34.80 | £0.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |


*Taliadau – yn ôl ARDAL*


Roedd y gyfradd ddyddiol uchaf gan ddarparwyr yn ardal Gogledd Ddwyrain Taf Elái gyda £66.00 y dydd yn cael ei godi ar gyfer plant o dan 1 oed. Y gyfradd ddyddiol isaf oedd £32.00 y dydd ar gyfer plant 5-11 oed, a adroddwyd yn ardal Gogledd Cynon.

| Gofal diwrnod llawn Cost gyfartalog fesul diwrnod Yn ôl ARDAL | O dan 1 oed | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 12-14 oed | 15-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | £48.33 | £47.88 | £41.71 | £41.71 | £47.50 | £32.00 | £32.00 | £0.00 | £0.00 |
| De Cynon | £41.98 | £43.98 | £36.99 | £36.99 | £46.00 | £48.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Gogledd Rhondda | £47.75 | £47.75 | £31.07 | £31.07 | £35.13 | £35.00 | £35.00 | £0.00 | £0.00 |
| De Rhondda | £44.88 | £43.90 | £37.79 | £37.79 | £46.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | £66.00 | £66.00 | £48.75 | £34.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| De Ddwyrain Taf Elái | £51.29 | £49.83 | £42.09 | £41.93 | £46.92 | £36.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| De Orllewin Taf Elái | £46.25 | £46.25 | £44.64 | £40.81 | £43.07 | £35.00 | £35.67 | £0.00 | £0.00 |


***Disgowntiau yn cael eu cynnig***

Mewn cyferbyniad i warchodwyr plant, mae'r mwyafrif o ddarparwyr Gofal diwrnod llawn yn cynnig rhyw fath o ddisgownt i rieni, gyda darparwyr yn Ne Orllewin Taf Elái yn fwyaf tebygol o wneud hynny. Darparwyr yng Ngogledd Rhondda oedd yn fwyaf tebygol o beidio â chynnig disgowntiau.







## *Dechrau'n Deg, cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar*




## *Gofal plant di-dreth / Talebau gofal plant*




***Cryfderau***

- Mae llawer o ddarparwyr gofal sesiynol wedi ailgofrestru fel gofal diwrnod llawn, felly, gallant gynnig mwy o wasanaethau a bod yn fwy derbyniol i anghenion rhieni
- Dewis da o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

***Gwendidau***

- Nifer gyfyngedig o leoliadau yn ardaloedd De Cynon a Gogledd Ddwyrain Taf Elái
- Nid ydynt, yn nodweddiadol, yn cynnig oriau annodweddiadol i rieni sy'n gweithio shifftiau neu oriau anghymdeithasol


## Gofal Diwrnod Sesiynol

### *Trosolwg*

Fel y soniwyd yn yr adran uchod, mae nifer o ddarparwyr Gofal sesiynol wedi ailgofrestru yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf fel gofal Diwrnod llawn. Mae nifer y darparwyr Gofal sesiynol anghofrestredig yn parhau'n bryder. Mae ymgysylltu â'r lleoliadau hyn a'u hannog i gofrestru gydag AGC wedi bod yn flaenoriaeth mewn adroddiadau blaenorol Asesu Digonolrwydd Gofal Plant ac mae'n parhau'n flaenoriaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

**Ymgysylltu gyda darparwyr Gofal sesiynol anghofrestredig a'u hannog i gofrestru gydag AGC**

### *Nifer y lleoliadau wedi'u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL*





Mae'n ymddangos bod nifer isel o ddarparwyr Gofal sesiynol cofrestredig yng nghymoedd Cynon a Rhondda. Gallai hyn fod yn sgil lleoliadau yn troi yn ddarparwyr Gofal diwrnod llawn, neu gallai'r nifer fod wedi'i hystumio yn sgil nifer y lleoliadau anghofrestredig. Gallai fod yn ddoeth ymchwilio ymhellach i bennu a oes galw ychwanegol am wasanaethau Gofal sesiynol yn yr ardaloedd hyn.

**Ymchwilio i'r galw am wasanaethau Gofal sesiynol ychwanegol yng nghymoedd Cynon a Rhondda**


### *Nifer y Lleoliadau anghofrestredig – yn ôl ARDAL*

Daw'r data ar gyfer nifer y lleoliadau gofal plant anghofrestredig, a restrir isod, o gronfa ddata DEWIS a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r data hwn yn ddibynnol ar ddarparwyr yn cofrestru'u gwybodaeth, ac yna'n diweddaru eu cyfrifon. Felly, mae Swyddogion yn ymwybodol y gallai fod lleoliadau anghofrestredig ychwanegol yn RhCT nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.




***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***


Ers Ionawr 2020, bu cynnydd net o 20 o leoedd ar gyfer Gofal sesiynol. Mae'r golled net a gofnodwyd yn Ne Orllewin Taf Elái yn ganlyniad i Gylch Meithrin sefydledig yn cau ym mis Gorffennaf 2021 yn sgil ymddeoliad yr arweinydd.




| Gofal sesiynol (ers Ionawr 2020) | **Cofrestriad newydd** | **Nifer y lleoedd newydd** | **Cofrestriad wedi'i ddiddymu** | **Nifer y lleoedd wedi'u colli** | **Colled/ cynnydd lleoedd net** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cynon | 2 | 36 | 2 | 36 | **0** |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Rhondda | 2 | 46 | 0 | 0 | **46** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 24 | 1 | 24 | **0** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 1 | 40 | 0 | 0 | **40** |
| De Orllewin Taf Elái | 2 | 54 | 4 | 120 | **-66** |
| **Cyfanswm** | **8** | **200** | **7** | **180** | **20** |

***Iaith – yn ôl ARDAL***

Gellir gweld o'r graff isod mai Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir fwyaf mewn lleoliadau Gofal sesiynol cofrestredig. Mae Adran Pedwar yn nodi bod saith o leoliadau Gofal sesiynol anghofrestredig wedi'u nodi yn yr arolygon darparwyr neu gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y mae bob un ohonynt yn lleoliadau cyfrwng Saesneg, ac eithrio un lleoliad dwyieithog.





***Gwasanaethau a gynigir***

Yn ôl natur y math o ofal plant, gellir gweld bod lleoliadau Gofal sesiynol yn cynnig nifer gyfyngedig o wasanaethau i rieni, gyda'r rhan fwyaf yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn, a dim ond saith yn cynnig gofal amser cinio. Hefyd, mae'r mwyafrif o ddarparwyr Gofal sesiynol ond yn rhedeg adeg tymor, ac nid ydynt yn cynnig gofal gwyliau.

| **Gofal sesiynol Math o ofal a gynigir** | **Nifer y lleoliadau** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gogledd Cynon** | **De Cynon** | **Gogledd Rhondda** | **De Rhondda** | **Gogledd Ddwyrain Taf Elái** | **De Ddwyrain Taf Elái** | **De Orllewin Taf Elái** | **Cyfanswm** |
| Prynhawniau | 1 | 2 | 2 | 2 | 5 | 0 | 5 | **17** |
| Ar ôl ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cyn ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 1 | 4 | **9** |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| hanner diwrnod AM | | | | | | | | |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cinio | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 5 | **7** |
| Boreau | 1 | 1 | 1 | 2 | 5 | 2 | 6 | **18** |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |




| Gofal sesiynol Wythnosau yn gweithredu Yn ôl ARDAL | Adeg Tymor a Gwyliau | Adeg Tymor yn Unig | Gwyliau yn Unig |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 1 | 0 |
| De Cynon | 1 | 1 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 0 | 2 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 2 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 4 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 3 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 3 | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **18** | **0** |


***Amserau agor – ADEG TYMOR***

| Gofal sesiynol ADEG TYMOR Oriau agor RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 08:00 | 15:30 | 12:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Mawrth | 08:00 | 15:30 | 12:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Mercher | 08:00 | 15:30 | 12:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Iau | 08:00 | 15:30 | 12:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Gwener | 08:00 | 15:30 | 12:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Nid oes unrhyw ddarparwyr Gofal sesiynol yn cynnig oriau agor annodweddiadol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm neu dros nos).

***Amserau agor – GWYLIAU YSGOL***

Dywedodd 18 o ddarparwyr Gofal sesiynol eu bod yn gweithredu adeg tymor yn unig, a dywedodd un bod eu hamserau agor yn ystod y gwyliau yn wahanol i amserau adeg tymor. O'r darparwyr Gofal sesiynol sy'n agor yn ystod gwyliau'r ysgol, dangosir dadansoddiad isod o ba wyliau y maent yn eu cwmpasu. Fel y gellir gweld, maent i gyd yn agor am ryw gyfnod drwy wyliau'r haf, ond nid yw'r un ohonynt yn agor adeg y Nadolig.




Nifer gyfartalog y diwrnodau a ddarperir yn ystod y gwyliau gan ddarparwyr Gofal sesiynol yw:

- Gwyliau'r haf 16
- Hanner tymor mis Hydref 5
- Gwyliau'r Nadolig 0
- Hanner tymor mis Chwefror 5

- Gwyliau'r Pasg 6
- Hanner tymor mis Mai 4

| Gofal sesiynol ADEG GWYLIAU Oriau agor RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 08:00 | 09:15 | 13:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Mawrth | 08:00 | 09:15 | 13:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Mercher | 08:00 | 09:15 | 13:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Iau | 08:00 | 09:15 | 13:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Gwener | 08:00 | 09:15 | 13:00 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Nid oes unrhyw ddarparwyr Gofal sesiynol yn cynnig oriau agor annodweddiadol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm neu dros nos).

***Rhestrau aros / Lleoedd gwag***

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr Gofal sesiynol wedi'u cofrestru gydag AGC sydd â rhestrau aros (mewn coch) a'r rheiny â lleoedd gwag (mewn gwyrdd).

Gellir gweld bod y rhan fwyaf o restrau aros ar gyfer sesiynau bore, ac yn Ne Orllewin Taf Elái y ceir y rhan fwyaf o leoliadau yn adrodd hyn (3). Gogledd Ddwyrain Taf Elái oedd â'r nifer uchaf o leoliadau yn adrodd am leoedd gwag ar gyfer sesiynau bore a phrynhawn (3 yr un).

| Nifer y lleoliadau Gofal sesiynol â rhestrau aros / lleoedd gwag ADEG TYMOR | Gogledd Cynon | | De Cynon | | Gogledd Rhondda | | De Rhondda | | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | | De Ddwyrain Taf Elái | | De Orllewin Taf Elái | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawniau | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Ar ôl ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyn ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cinio | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Boreau | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 3 | 1 | 0 | 3 | 1 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


| Rhestrau aros gofal sesiynol GWYLIAU YSGOL RhCT | Rhestr aros? | | |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nac oes | Nifer gyfartalog o blant ar restr aros |
| Gwyliau'r haf | 1 | 4 | 7 |
| Hanner tymor mis Hydref | 0 | 2 | 0 |
| Gwyliau'r Nadolig | 0 | 0 | 0 |
| Hanner tymor mis Chwefror | 0 | 2 | 0 |
| Gwyliau'r Pasg | 0 | 3 | 0 |
| Hanner tymor mis Mai | 0 | 2 | 0 |

***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Adroddodd 21 o leoliadau Gofal sesiynol yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu neu anghenion corfforol ar hyn o bryd.

| Gofal sesiynol Nifer y lleoliadau sy'n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag ADY/AAA ar hyn o bryd yn ôl ARDAL | Gwybyddiaeth a dysgu | Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | Cyfathrebu a rhyngweithio | Synhwyraidd a/neu gorfforol |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 1 | 1 | 1 |
| De Cynon | 2 | 2 | 2 | 2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Rhondda | 1 | 1 | 2 | 1 |
| De Rhondda | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 4 | 5 | 5 | 4 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 1 | 1 | 3 | 2 |
| De Orllewin Taf Elái | 5 | 6 | 6 | 5 |
| **Cyfanswm** | **14** | **18** | **21** | **16** |




***Taliadau***

Gofynnwyd i ddarparwyr nodi eu ffioedd ar eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, yn ôl p'un a ydynt yn codi fesul awr, neu fesul sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. Mae'n amlwg o rai o'r ymatebion bod rhai darparwyr wedi camddeall y cwestiwn hwn. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r cyfraddau isod.

Ar sail y data hwn, gellir gweld bod y gyfradd gyfartalog fesul sesiwn ar gyfer darparwyr Gofal sesiynol yn amrywio o £6.25 i £22.48 fesul diwrnod.

*Taliadau – ledled RhCT*

| Gofal sesiynol Taliad uchaf RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £9.00 | £13.50 | £43.50 | £0.00 | £0.00 |
| 1 oed | £9.00 | £31.45 | £55.60 | £261.60 | £0.00 |
| 2 oed | £9.00 | £30.45 | £53.85 | £253.45 | £0.00 |
| 3 oed | £9.00 | £70.00 | £99.99 | £253.45 | £0.00 |
| 4 oed | £9.00 | £70.00 | £99.99 | £75.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £0.00 | £7.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 8-11 oed | £0.00 | £7.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

| Gofal sesiynol Taliad isaf RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £9.00 | £13.50 | £43.50 | £0.00 | £0.00 |
| 1 oed | £9.00 | £13.50 | £43.50 | £261.60 | £0.00 |
| 2 oed | £4.50 | £8.75 | £13.00 | £65.00 | £0.00 |
| 3 oed | £4.50 | £7.00 | £13.00 | £65.00 | £0.00 |
| 4 oed | £9.00 | £7.00 | £13.00 | £65.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £0.00 | £5.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 8-11 oed | £0.00 | £5.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

| Gofal sesiynol Taliad cyfartalog RhCT | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £9.00 | £13.50 | £43.50 | £0.00 | £0.00 |
| 1 oed | £9.00 | £22.48 | £49.55 | £261.60 | £0.00 |
| 2 oed | £6.75 | £15.94 | £30.73 | £119.48 | £0.00 |
| 3 oed | £6.75 | £18.09 | £44.89 | £131.15 | £0.00 |
| 4 oed | £9.00 | £18.29 | £43.10 | £70.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £0.00 | £6.25 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 8-11 oed | £0.00 | £6.25 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

*Taliadau – yn ôl ARDAL*

Roedd y gyfradd uchaf fesul sesiwn gan ddarparwyr yn ardal Gogledd Cynon, gyda £30.45 fesul sesiwn. Y gyfradd ddyddiol isaf oedd £7.00 y dydd a adroddwyd yn Ne Orllewin Taf Elái. Nid oedd data ar gael ar gyfer lleoliadau yng Ngogledd Rhondda, felly ni ellir cymharu.


| Gofal sesiynol Cost gyfartalog fesul sesiwn Yn ôl ARDAL | O dan 1 oed | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 12-14 oed | 15-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | £0.00 | £31.45 | £30.45 | £30.45 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| De Cynon | £0.00 | £0.00 | £20.00 | £20.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Gogledd Rhondda | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| De Rhondda | £0.00 | £0.00 | £13.50 | £13.50 | £13.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | £0.00 | £0.00 | £15.33 | £25.60 | £25.60 | £5.50 | £5.50 | £0.00 | £0.00 |
| De Ddwyrain Taf Elái | £0.00 | £0.00 | £16.33 | £16.33 | £15.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |


| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| De Orllewin Taf Elái | £13.50 | £13.50 | £12.85 | £12.11 | £11.75 | £7.00 | £7.00 | £0.00 | £0.00 |

*Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal sesiynol yng Ngogledd Rhondda gofnodi data ar daliadau


***Disgowntiau yn cael eu cynnig***

Adroddodd y mwyafrif o'r darparwyr Gofal sesiynol nad ydynt yn cynnig disgowntiau i rieni. O'r rheiny sy'n gwneud, roedd y nifer uchaf o leoliadau yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái (3 yr un).





***Dechrau'n Deg, cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar***




### *Gofal plant di-dreth / Talebau gofal plant*




### *Cryfderau*

- Ystod dda o ddarparwyr Gofal sesiynol yn ardaloedd Taf
- Dewis da o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd Taf

### *Gwendidau*

- Nifer y darparwyr Gofal sesiynol yng Ngogledd a De Rhondda
- Diffyg Gofal sesiynol yn ystod cyfnodau gwyliau
- Nifer isel o leoliadau Gofal sesiynol yng nghymoedd Cynon a Rhondda

## Crèches

***Trosolwg***

Mae crèches yn darparu atebion gofal plant hyblyg i rieni y mae angen gofal plant arnynt at ddibenion penodol, fel mynychu cyrsiau hyfforddi.

Yn flaenorol, roedd gan y tîm Dechrau'n Deg wasanaeth crèche cofrestredig a oedd yn darparu gofal i rieni'n mynychu rhaglenni rhianta Dechrau'n Deg. Yn sgil ailstrwythuro adrannol, diddymwyd y cyfleuster hwn yn 2019. Mae'r tîm rhianta bellach yn prynu'u rhaglenni yn ôl y galw, ac mae cyfleusterau crèche yn gyfrifoldeb y sefydliad tendro llwyddiannus i'w darparu. Ers y pandemig, mae'r holl raglenni rhianta wedi bod ar-lein ac felly nid oes angen cyfleusterau crèche ar hyn o bryd.

Oherwydd natur newidiol patrymau gweithio a achoswyd gan y pandemig, mae llawer o rieni yn dal i weithio o gartref. Ond i lawer, maent yn symud yn ôl i weithio yn y swyddfa am ran o'r wythnos. Gallai fod rhieni, felly, sydd ond angen gofal plant ar sail ad hoc, neu am ran o ddiwrnod er mwyn mynychu'u swyddfeydd. Byddai'n ddoeth ymchwilio i ofal plant hyblyg, ad hoc, neu gyfleusterau crèche er mwyn pennu a oes galw digonol am y math hwn o ofal, ac os oes, beth yw'r ffordd orau o'i ddatblygu.


### Archwilio'r galw am gyfleusterau gofal ad hoc, gofal hyblyg a/neu gyfleusterau crèche

***Nifer y lleoliadau cofrestredig – yn ôl ARDAL***

Nid oes unrhyw Crèches wedi'u cofrestru gydag AGC yn RhCT ar hyn o bryd.

***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***

Mae'r unig Crèche cofrestredig wedi diddymu ei gofrestriad yn y ddwy flynedd diwethaf, gan arwain at golled net o 10 lle. Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw gyfleusterau Crèche eraill sy'n gweithredu nac yn bwriadu agor yn y dyfodol agos.



| **Crèche**<br>(ers Ionawr 2020) | **Cofrestriad newydd** | **Nifer y lleoedd newydd** | **Cofrestriad wedi'i ddiddymu** | **Nifer y lleoedd wedi'u colli** | **Colled/ cynnydd lleoedd net** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Cynon | 0 | 0 | 1 | 10 | **-10** |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Orllewin Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **1** | **10** | **-10** |

***Cryfderau***

- Dewis hyblyg o ofal plant i rieni y mae angen gofal afreolaidd, ad hoc arnynt, yn enwedig y rheiny sy'n mynychu hyfforddiant neu addysg
- Gellir ei gynnig fel estyniad i wasanaeth gofal plant presennol
- Gallai'r trefniadau hybrid newydd ar gyfer gweithio gartref gynnig cyfleoedd i rai darparwyr gynnig cyfleusterau crèche pan fydd angen i rieni fynychu'r swyddfa

***Gwendidau***

- Mae'n anodd cynllunio lefelau staffio a sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy
- Mae'n anodd darparu ar gyfer anghenion pob plentyn unigol os ydynt ond yn mynychu ar sail ad hoc, neu am gyfnod amser wedi'i gyfyngu i amser


## Gofal y tu allan i Oriau Ysgol

***Trosolwg***

Gofal y tu allan i oriau ysgol fu’r math o ofal plant yr effeithiwyd arno fwyaf gan y pandemig a chyfnodau clo dilynol. Mae cyfyngiadau ar ddefnyddio lleoliadau a rennir, a mwy o rieni yn gweithio o gartref wedi cael effaith niweidiol ar y galw am y math hwn o wasanaeth gofal plant.

Fodd bynnag, mae adborth yn yr arolwg rhieni’n awgrymu bod angen y math hwn o ofal plant gan rieni plant oedran ysgol a bod yna fylchau yn y ddarpariaeth ledled RhCT. Nodwyd hyn fel blaenoriaeth i ymchwilio iddi ymhellach.

***Nifer y lleoliadau wedi’u cofrestru gydag AGC – yn ôl ARDAL***





Mae’r nifer uchaf o leoliadau Gofal y tu allan i oriau ysgol yn Ne Orllewin Taf Elái. Mae hyn yn cyfateb i’r arolwg rhieni lle’r oedd y nifer uchaf o ymatebion yn dweud eu bod yn defnyddio clybiau ar ôl ysgol gan rieni yn ardal De Orllewin Taf Elái (43).

***Nifer y lleoliadau Anghofrestredig – yn ôl ARDAL***


Daw’r data ar gyfer nifer y lleoliadau gofal plant anghofrestredig, a restrir isod, o gronfa ddata DEWIS a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae’r data hwn yn ddibynnol ar ddarparwyr yn cofrestru’u gwybodaeth, ac yna’n diweddaru eu cyfrifon. Felly, mae Swyddogion yn ymwybodol y gallai fod lleoliadau anghofrestredig ychwanegol yn RhCT nad ydynt wedi’u cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Fel gydag adroddiadau blaenorol Asesu Digonolrwydd Gofal Plant, mae nifer y lleoliadau anghofrestredig Gofal y tu allan i oriau ysgol yn parhau’n bryder. Mae ymgysylltu â’r lleoliadau hyn a’u hannog i gofrestru gydag AGC yn parhau yn flaenoriaeth.

**Ymgysylltu â darparwyr anghofrestredig Gofal y tu allan i oriau ysgol a’u hannog i gofrestru gydag AGC**




***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***

Ers Ionawr 2020, bu cynnydd net o 167 o leoedd ar gyfer Gofal y tu allan i oriau ysgol. Ym mis Gorffennaf 2021, caeodd clwb sefydledig y Tu allan i oriau ysgol yn ardal De Ddwyrain Taf Elái yn sgil ymddeoliad yr arweinydd. Roedd y clwb hwn yn casglu plant o nifer o ysgolion yn yr ardal. Sefydlwyd dau glwb newydd i ddarparu ar gyfer y ddwy ysgol yr effeithiwyd arnynt. Mae hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r lleoedd sydd wedi cynyddu. Grŵp partneriaeth gymunedol yn cau oedd y rheswm dros y ddarpariaeth yng Ngogledd Cynon yn cau.





| Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol (ers Ionawr 2020) | **Cofrestriad newydd** | **Nifer y lleoedd newydd** | **Cofrestriad wedi'i ddiddymu** | **Nifer y lleoedd wedi'u colli** | **Colled/ cynnydd lleoedd net** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 1 | 25 | **-25** |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Rhondda | 1 | 30 | 0 | 0 | **30** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 30 | 0 | 0 | **30** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 5 | 246 | 3 | 114 | **132** |
| De Orllewin Taf Elái | 1 | 30 | 1 | 30 | **0** |
| **Cyfanswm** | **8** | **336** | **5** | **169** | **167** |

***Iaith – yn ôl ARDAL***

Mae'r graff isod yn dangos yr iaith a ddefnyddir mewn lleoliadau Gofal y tu allan i oriau ysgol ledled RhCT. Er mai lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r mwyafrif o ddarparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol, ceir ystod dda o leoliadau cyfrwng Cymraeg.

Mae rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn Adran Tri.





***Gwasanaethau a gynigir***

Mae darparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol, yn ôl natur eu cofrestriad, yn cynnig gwasanaethau cyfyngedig i rieni. O'r rheiny sydd wedi'u cofrestru gydag AGC, mae'r Cyngor ond yn ymwybodol o ddau ohonynt sy'n cynnig gofal gwyliau ar hyn o bryd. Yn seiliedig ar yr arolwg rhieni, mae galw am y gwasanaeth hwn ac felly bydd yn flaenoriaeth i ymgysylltu â darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol i'w hannog i ehangu'u gwasanaethau i gyfnodau gwyliau.

**Annog darparwyr cofrestredig Gofal y tu allan i oriau ysgol i gynnig gofal gwyliau**

| Gofal y tu allan i oriau ysgol Math o ofal a gynigir | Nifer y lleoliadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd Cynon | De Cynon | Gogledd Rhondda | De Rhondda | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | De Ddwyrain Taf Elái | De Orllewin Taf Elái |
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar ôl ysgol | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 1 | 5 |
| Cyn ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cinio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |





| Gofal y tu allan i Oriau Ysgol Wythnosau yn gweithredu | Adeg Tymor a Gwyliau | Adeg Tymor yn Unig | Gwyliau yn Unig |
|---|---|---|---|

| Yn ôl ARDAL | | | |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 0 |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 1 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 1 | 1 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 1 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 1 | 4 | 1 |
| **Cyfanswm** | **1** | **7** | **2** |

***Amserau agor – ADEG TYMOR***


| Gofal y tu allan i oriau ysgol Amserau agor RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 07:00 | 15:15 | 18:00 | 18:00 | 1 | 0 | 0 |
| Mawrth | 07:00 | 15:15 | 18:00 | 18:00 | 1 | 0 | 0 |
| Mercher | 07:00 | 15:15 | 18:00 | 18:00 | 1 | 0 | 0 |
| Iau | 07:00 | 15:15 | 18:00 | 18:00 | 1 | 0 | 0 |
| Gwener | 07:00 | 15:15 | 18:00 | 18:00 | 1 | 0 | 0 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |




***Amserau agor – GWYLIAU YSGOL***

Dywedodd pedwar o'r darparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol mai dim ond adeg tymor y maen nhw'n gweithredu, tra bod dau wedi dweud eu bod ar agor yn ystod gwyliau'r haf yn unig.

O'r darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol sy'n agor yn ystod gwyliau ysgol, dangosir dadansoddiad isod o ba wyliau y maent yn eu cwmpasu. Fel y gellir gweld, mae'r mwyafrif yn agor yn ystod pob gwyliau, ac eithrio egwyl y Nadolig.




Nifer gyfartalog y diwrnodau a ddarperir yn ystod y gwyliau gan warchodwyr plant yw:

- Gwyliau'r haf 30
- Hanner tymor mis Hydref 5
- Gwyliau'r Nadolig 0
- Hanner tymor mis Chwefror 5
- Gwyliau'r Pasg 8
- Hanner tymor mis Mai 4

| Gofal y tu allan i oriau ysgol GWYLIAU YSGOL Amserau agor RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 08:00 | 08:30 | 17:30 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Mawrth | 08:00 | 08:30 | 17:30 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Mercher | 08:00 | 08:30 | 17:30 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Iau | 08:00 | 08:30 | 17:30 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Gwener | 08:00 | 08:30 | 17:30 | 18:00 | 0 | 0 | 0 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Nid oes unrhyw ddarparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol yn cynnig oriau agor annodweddiadol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm neu dros nos).

***Rhestrau aros / Lleoedd gwag***

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol sydd wedi'u cofrestru gydag AGC sydd â rhestrau aros (mewn coch) a'r rheiny â lleoedd gwag (mewn gwyrdd).

Gellir gweld mai dim ond lleoliadau yn Ne Orllewin Taf Elái sydd naill ai â rhestrau aros neu leoedd gwag. Nid yw hyn yn dynodi lefel y galw y mae'r arolwg rhieni'n ei awgrymu. Bydd ymchwilio pellach yn pennu a oes angen mewn gwirionedd am Ofal ychwanegol y Tu allan i oriau ysgol.

| **Nifer y lleoliadau Gofal y tu allan i oriau ysgol â rhestrau aros / lleoedd gwag ADEG TYMOR** | **Gogledd Cynon** | | **De Cynon** | | **Gogledd Rhondda** | | **De Rhondda** | | **Gogledd Ddwyrain Taf Elái** | | **De Ddwyrain Taf Elái** | | **De Orllewin Taf Elái** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar ôl ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Cyn ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cinio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Rhestrau aros gofal y tu allan i oriau ysgol GWYLIAU YSGOL RhCT | Rhestr aros? | | |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nac oes | Nifer gyfartalog o blant ar restr aros |
| Gwyliau'r haf | 1 | 0 | 10 |
| Hanner tymor mis Hydref | 1 | 1 | 0 |
| Gwyliau'r Nadolig | 0 | 0 | 0 |
| Hanner tymor mis Chwefror | 1 | 1 | 0 |
| Gwyliau'r Pasg | 1 | 1 | 0 |
| Hanner tymor mis Mai | 1 | 1 | 0 |

***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Adroddodd pedwar o leoliadau Gofal y tu allan i oriau ysgol yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu neu anghenion corfforol ar hyn o bryd. Roedd bob un o'r rhain yn ardal De Orllewin Taf Elái.

| Gofal y tu allan i oriau ysgol Nifer y lleoliadau sy'n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag ADY/AAA ar hyn o bryd yn ôl ARDAL | Gwybyddiaeth a dysgu | Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | Cyfathrebu a rhyngweithio | Synhwyraidd a/neu gorfforol |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 3 | 4 | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **3** | **4** | **4** | **3** |




***Taliadau***

Gofynnwyd i ddarparwyr nodi eu ffioedd ar eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth, yn ôl p'un a ydynt yn codi fesul awr, neu fesul sesiwn, diwrnod, wythnos neu dymor. Mae'n amlwg o rai o'r ymatebion bod rhai darparwyr wedi camddeall y cwestiwn hwn. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r cyfraddau isod.

Ar sail y data hwn, gellir gweld bod y gyfradd gyfartalog fesul sesiwn ar gyfer darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol yn amrywio o £9.67 i £22.00 fesul sesiwn.

*Taliadau – ledled RhCT*

| Uchaf | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 1 oed | £0.00 | £22.00 | £38.00 | £0.00 | £0.00 |
| 2 oed | £0.00 | £22.00 | £38.00 | £0.00 | £0.00 |
| 3 oed | £3.00 | £22.00 | £0.00 | £38.00 | £0.00 |
| 4 oed | £8.00 | £11.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £8.00 | £11.00 | £0.00 | £38.48 | £0.00 |
| 8-11 oed | £8.00 | £11.00 | £0.00 | £38.48 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |


| Isaf | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 1 oed | £0.00 | £22.00 | £38.00 | £0.00 | £0.00 |
| 2 oed | £0.00 | £22.00 | £38.00 | £0.00 | £0.00 |
| 3 oed | £3.00 | £10.00 | £0.00 | £38.00 | £0.00 |
| 4 oed | £3.00 | £10.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £3.00 | £10.00 | £0.00 | £38.48 | £0.00 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8-11 oed | £3.00 | £10.00 | £0.00 | £38.48 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

| Cyfartalog | Taliad fesul awr | Taliad fesul sesiwn | Taliad fesul diwrnod | Taliad fesul wythnos | Taliad fesul tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 1 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 1 oed | £0.00 | £22.00 | £38.00 | £0.00 | £0.00 |
| 2 oed | £0.00 | £22.00 | £38.00 | £0.00 | £0.00 |
| 3 oed | £3.00 | £14.33 | £0.00 | £38.00 | £0.00 |
| 4 oed | £6.38 | £10.50 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 5-7 oed | £6.38 | £9.67 | £0.00 | £38.48 | £0.00 |
| 8-11 oed | £6.38 | £9.67 | £0.00 | £38.48 | £0.00 |
| 12-14 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| 15-17 oed | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

***Disgowntiau yn cael eu cynnig***

Mae'r mwyafrif o glybiau gofal y Tu allan i oriau ysgol yn cynnig disgowntiau i rieni, gyda darparwyr yn Ne Orllewin Taf Elái y rhai mwyaf tebygol o wneud hynny.







***Dechrau'n Deg, cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar***

Ni ddywedodd unrhyw ddarparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn darparu Dechrau'n Deg ac addysg feithrin y cyfnod sylfaen. Dim ond dau ddywedodd eu bod yn darparu Cynnig Gofal Plant Cymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu nad yw lleoliadau Gofal y tu allan i oriau ysgol yn cynnig hawl gwyliau'r Cynnig Gofal Plant. Byddai eu hannog i wneud hynny'n darparu'r gwasanaeth hwn i rieni ac yn ei wneud yn fwy cynaliadwy i'r lleoliad, gan fod rhieni'n cael gofal plant wedi'i ariannu i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

## Annog Clybiau cofrestredig y Tu allan i oriau ysgol i gynnig gofal gwyliau

***Gofal plant di-dreth / Talebau gofal plant***




***Cryfderau***

- Mae'r arolwg rhieni'n awgrymu bod galw cryf o hyd am y math hwn o ofal plant
- Ceir dewis da o ddarparwyr cofrestredig gofal y tu allan i oriau ysgol yn ardal De Orllewin Taf Elái
- Ceir dewis da o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg (er bod y rhan fwyaf heb gofrestru ar hyn o bryd)

***Gwendidau***

- Nifer y darparwyr anghofrestredig Gofal y tu allan i oriau ysgol
- Nifer isel y darparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol sy'n cynnig gofal gwyliau


## Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

***Trosolwg***

Mae'r tîm chwarae yn comisiynu 11 o ddarparwyr Chwarae mynediad agored i gyflwyno sesiynau cynllun chwarae ar ei ran ar hyn o bryd, mewn 17 o leoliadau.


| Sesiynau chwarae mynediad agored wedi'u comisiynu Yn ôl Ardal | Nifer y lleoliadau |
|---|---|
| Gogledd Cynon | 2 |
| De Cynon | 1 |
| Gogledd Rhondda | 4 |
| De Rhondda | 2 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 3 |
| De Orllewin Taf Elái | 5 |
| **Cyfanswm** | **17** |

***Nifer y lleoliadau cofrestredig – yn ôl ARDAL***





***Nifer y lleoliadau Anghofrestredig – yn ôl ARDAL***

Daw'r data ar gyfer nifer y lleoliadau gofal plant anghofrestredig, a restrir isod, o gronfa ddata DEWIS a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r data hwn yn ddibynnol ar ddarparwyr yn cofrestru'u gwybodaeth, ac yna'n diweddaru eu cyfrifon. Felly, mae Swyddogion yn ymwybodol y gallai fod lleoliadau anghofrestredig ychwanegol yn RhCT nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.




***Cofrestriadau / diddymu cofrestriadau AGC***


Ers Ionawr 2020, bu colled net o 55 o leoedd ar gyfer Darpariaeth chwarae mynediad agored. Roedd y rhain yng Ngogledd Cynon a De Ddwyrain Taf Elái.




| **Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored** (ers Ionawr 2020) | **Cofrestriad newydd** | **Nifer y lleoedd newydd** | **Cofrestriad wedi'i ddiddymu** | **Nifer y lleoedd wedi'u colli** | **Colled/ cynnydd lleoedd net** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 1 | 25 | **-25** |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 1 | 30 | **-30** |
| De Orllewin Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **2** | **55** | **-55** |


***Iaith – yn ôl ARDAL***

Gellir gweld o'r graff isod bod yr holl ddarparwyr cofrestredig Chwarae mynediad agored yn cyflwyno'u gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.




***Gwasanaethau a gynigir***

Dim ond un lleoliad sy'n adrodd yn ei Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth ei fod yn cynnig sesiynau ar ôl ysgol, yn ogystal â sesiynau cynllun chwarae arferol. Fel y byddid yn disgwyl, mae'r rhan fwyaf o leoliadau'n gweithredu yn ystod gwyliau yn unig.




| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored Wythnosau yn gweithredu Yn ôl ARDAL | Adeg Tymor a Gwyliau | Adeg Tymor yn Unig | Adeg Gwyliau yn Unig |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 0 | 0 | 1 |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 1 | 0 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | | 0 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 0 | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **1** | **0** | **4** |


***Amserau agor – ADEG TYMOR***

Adroddodd y lleoliad cofrestredig sy'n cynnig sesiynau ar ôl oriau ysgol adeg tymor mai ei oriau agor yw 4pm i 5.30pm bob dydd Llun.

Nid oes unrhyw ddarparwyr chwarae mynediad agored yn cynnig oriau agor annodweddiadol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm neu dros nos).

***Amserau agor – GWYLIAU YSGOL***

Mae bron yr holl ddarparwyr chwarae mynediad agored yn agor yn ystod yr holl wyliau, ac eithrio egwyl y Nadolig, pan nad yw'r un ohonynt ar agor.




Nifer gyfartalog y diwrnodau a ddarperir yn ystod y gwyliau gan warchodwyr plant yw:

- Gwyliau'r haf 21
- Hanner tymor mis Hydref 5
- Gwyliau'r Nadolig 10
- Hanner tymor Chwefror 5
- Gwyliau'r Pasg 8
- Hanner tymor mis Mai 5

| Darpariaeth chwarae mynediad agored GWYLIAU YSGOL Amserau agor RhCT | Amser agor cynharaf | Amser agor hwyraf | Amser cau cynharaf | Amser cau hwyraf | Nifer ar agor cyn 8am | Nifer ar agor ar ôl 6pm | Nifer ar agor dros nos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | 10:00 | 14:00 | 12:55 | 16:30 | 0 | 0 | 0 |
| Mawrth | 10:00 | 14:00 | 12:55 | 16:30 | 0 | 0 | 0 |
| Mercher | 10:00 | 14:00 | 12:55 | 16:30 | 0 | 0 | 0 |
| Iau | 10:00 | 14:00 | 12:55 | 16:30 | 0 | 0 | 0 |
| Gwener | 10:00 | 14:00 | 12:55 | 16:30 | 0 | 0 | 0 |
| Sadwrn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sul | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Nid oes unrhyw ddarparwyr Chwarae mynediad agored yn cynnig oriau agor annodweddiadol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm neu dros nos).

***Rhestrau aros / Lleoedd gwag***

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol sydd wedi'u cofrestru gydag AGC sydd â rhestrau aros (mewn coch) a'r rheiny â lleoedd gwag (mewn gwyrdd).

Gellir gweld bod y darparwr sy'n gweithredu adeg tymor yn adrodd fod ganddo restr aros ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Nodir rhestr aros hefyd ar gyfer sesiynau cynllun chwarae yn Ne Orllewin Taf Elái, tra bod darparwr yng Ngogledd Cynon yn adrodd bod ganddo leoedd gwag ar gyfer yr un gwasanaeth.

| Nifer y darparwyr Chwarae mynediad agored â rhestrau aros / lleoedd gwag ADEG TYMOR | Gogledd Cynon | | De Cynon | | Gogledd Rhondda | | De Rhondda | | Gogledd Ddwyrain Taf Elái | | De Ddwyrain Taf Elái | | De Orllewin Taf Elái | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynhawniau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ar ôl ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Cyn ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Crèche | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lleoliad Addysg Gynnar | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Min nos ar ôl 6pm | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn/ meithrinfa diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod AM/ meithrinfa hanner diwrnod AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal hanner diwrnod PM/ meithrinfa hanner diwrnod PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cinio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Boreau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dros nos | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |


| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin AM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin PM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sesiynau Cynllun Chwarae | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Penwythnosau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Rhestrau aros y ddarpariaeth Chwarae mynediad agored GWYLIAU YSGOL RhCT | Rhestr aros? | | |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nac oes | Nifer gyfartalog o blant ar restr aros |
| Gwyliau’r haf | 2 | 2 | 10 |
| Hanner tymor mis Hydref | 2 | 2 | 5 |
| Gwyliau’r Nadolig | 0 | 0 | 0 |
| Hanner tymor mis Chwefror | 2 | 2 | 5 |
| Gwyliau’r Pasg | 2 | 2 | 5 |
| Hanner tymor mis Mai | 2 | 2 | 5 |

***Darparu ar gyfer plant ag anableddau***

Adroddodd pump o ddarparwyr Chwarae mynediad agored yn eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth eu bod yn darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu neu anghenion corfforol ar hyn o bryd.

| Chwarae mynediad agored Nifer y lleoliadau sy’n darparu ar gyfer / cynorthwyo plant ag ADY/AAA ar hyn o bryd yn ôl ARDAL | Gwybyddiaeth a dysgu | Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | Cyfathrebu a rhyngweithio | Synhwyraidd a/neu gorfforol |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 1 | 1 | 1 | 1 |
| De Cynon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Rhondda | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De Orllewin Taf Elái | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **4** | **4** | **4** | **4** |



Darpariaeth chwarae mynediad agored
Darpariaeth ADY/AAA – yn ôl ARDAL
4
3
2
1
0
Gogledd Cynon
De Cynon
Gogledd Rhondda
De Rhondda
Gogledd Ddwyrain Taf Elái
De Ddwyrain Taf Elái
De Orllewin Taf Elái
Person dynodedig sy'n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA ar gyfer plant
Staff â hyfforddiant ychwanegol/arbenigol yn cynorthwyo plant ag ADY/AAA
Ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol
Atgyfeiriadau i'r ALl a/neu gysylltu â'r ALl mewn perthynas â darpariaeth/cymorth ar gyfer plant ag ADY/AAA

**Nani**

Mae nanis yn darparu gofal i blant, o fewn cartref y plentyn ei hun yn nodweddiadol. Erbyn hyn, mae'r Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) (2021) yn darparu fframwaith rheoleiddio y gall nanis weithredu yn unol ag ef. Mae cofrestru ar y cynllun hwn yn wirfoddol, ond mae'n galluogi rhieni i gael ystod o gymorth ariannol gyda ffioedd, ac yn galluogi'r nani i ddangos y gall fodloni meini prawf penodol o fewn cynllun strwythuredig.

***Nifer y lleoliadau cofrestredig – yn ôl ARDAL***

Gellir gweld mai dim ond dwy nani sydd ar y cynllun hwn yn RhCT ar hyn o bryd. Hyd yma, ni fu unrhyw ymgysylltu gyda nanis. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awyddus i ymgysylltu â'r rhain, a nanis eraill yn y sir, fel y gallant gael y cymorth ac arweiniad y mae lleoliadau gofal plant eraill yn eu derbyn. Hefyd, byddant yn gallu cael yr hyfforddiant wedi'i ariannu y gall y tîm datblygu gofal plant ei ddarparu. Bydd hyn yn flaenoriaeth dros gyfnod adroddiad yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn.




***Cryfderau***

- Mae'n cynnig hyblygrwydd i rieni ynghyd â gwasanaethau wedi'u teilwra at eu hamgylchiadau teuluol penodol
- Gall fod yn fwy addas i anghenion teuluoedd mawr neu'r rheiny â phlant ag anghenion cymhleth
- Mae'r Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yn cynnig strwythur a chydnabyddiaeth i'r math hwn o ofal plant

***Gwendidau***

- Dim ymgysylltiad â'r tîm datblygu gofal plant hyd yma

**Hyrwyddo'r Cynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref**
**Gwella ymgysylltiad â nanis ar y cynllun**

## Gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan rieni fel gofal

### *Darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim*

Er nad yw wedi'i ddiffinio fel gofal plant, mae'r Fenter Brecwast am Ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cymorth hanfodol i rieni/gofalwyr ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Mae 101 o ysgolion yn RhCT yn cynnig y gwasanaeth hwn. Cyfartaledd y niferoedd a oedd yn mynychu'n ddyddiol yn nhymor yr Hydref 2021 oedd 3406 disgyblion y dydd, fel y dangosir isod:

| Ardal | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 402 | 55 | 0 |
| De Cynon | 307 | 27 | 0 |
| Gogledd Rhondda | 451 | 106 | 0 |
| De Rhondda | 443 | 38 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 296 | 60 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 418 | 72 | 43 |
| De Orllewin Taf Elái | 526 | 97 | 65 |
| **Cyfanswm** | **2843** | **455** | **108** |

Mae cyfyngiadau wedi bod yn angenrheidiol trwy gydol y pandemig i gyfyngu ar niferoedd y plant sy'n mynychu clybiau brecwast, ac i sicrhau bod 'swigod' grwpiau yn cael eu cynnal. Achosodd hyn rai anawsterau i rieni a oedd yn dibynnu ar y gwasanaeth hwn er mwyn teithio i'w gweithle. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau hyn yn llacio erbyn hyn ac mae clybiau'n mynd yn ôl i'w lefelau gwasanaeth cyn y pandemig.

### *Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS)*

Yn ychwanegol at wasanaethau gofal plant traddodiadol, mae'r Cyngor yn cynnig gweithgareddau a darpariaeth ieuenctid i blant 11-14 oed. Defnyddir hon yn aml gan rieni fel gwasanaeth diogel, dan oruchwyliaeth ar gyfer eu plant, yn enwedig y rheiny ym mlynyddoedd 7 ac 8 yn yr ysgol uwchradd.

Mae pob ysgol uwchradd yn RhCT yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol hyd at 4.30pm. Mae clybiau ieuenctid yn cael eu cynnig mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol hefyd, yn ogystal â darpariaeth gwaith ieuenctid ar y stryd. Mae hon ar gael 5 niwrnod yr wythnos. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei chynnig ar benwythnosau ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn ystod yr wythnos ar gael am 50 wythnos y flwyddyn (ac ond yn cau am bythefnos adeg y Nadolig).

Mae darpariaeth gwyliau yn cynnig clybiau ieuenctid, darpariaeth ar y stryd a darpariaeth gymunedol, a thripiau.

### *Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy*

Mae’r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy (HSPSS) yn gynllun sy’n hyrwyddo iechyd a lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol pawb sy’n ‘dysgu, gweithio, chwarae a byw’ mewn lleoliad gofal plant a’i gymuned gysylltiedig. Mabwysiedir ymagwedd lleoliad cyfan at bynciau fel:

- Maetheg ac iechyd y geg
- Gweithgarwch corfforol a chwarae
- Iechyd a lles meddyliol ac emosiynol
- Iechyd a lles yn y gweithle
- Amgylchedd
- Diogelwch
- Hylendid

Mae 49 o leoliadau yn RhCT yn cyfranogi yn y cynllun ar hyn o bryd. Mae Ymarferydd Cynllun Cyn-Ysgol Iach dynodedig gan bob lleoliad sy’n cynorthwyo’r lleoliadau i ymgorffori a chynnal y camau gweithredu gofynnol. Yn ystod y pandemig, roedd y cymorth ar-lein, ond mae ymweliadau wyneb yn wyneb yn dechrau cael eu cynnal wrth i gyfyngiadau lacio. Yn ystod y pandemig, roedd ymarferwyr y Cynllun Cyn-Ysgol Iach yn bartner arweiniol mewn ymagwedd amlasiantaeth at ddarparu cyngor ac arweiniad i leoliadau ynglŷn â chanllawiau mesurau diogelu COVID.

Er nad gofal plant ydyw, mae’r cynllun hwn yn cynnig cymorth ac arweiniad i leoliadau presennol sy’n gwella eu gwasanaeth i blant a theuluoedd.

# Adran 6: Anghenion Rhieni / Gofalwyr (galw am ofal plant)


**Trosolwg o'r ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd arolwg ar-lein gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn agored i'w gwblhau yn ystod mis Hydref 2021. Cafodd hwn ei hyrwyddo'n eang o fewn RhCT drwy leoliadau gofal plant, ysgolion, ac asiantaethau partner. Roedd yr arolwg ar gael ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd, yn ogystal â Cysylltu RhCT, sef llwyfan ar-lein cymunedol. Hefyd, bu swyddogion yn mynychu grwpiau rhieni a phlant bach i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhieni.


Casglwyd cyfanswm o 823 o ymatebion gan deuluoedd sy'n byw yn RhCT. O'r rheiny a ymatebodd:

- mae gan 93.8% gyfrifoldeb dros blant (771)
- mae 1.2% yn ddarpar rieni (10)
- mae 0.4% yn ofalwyr maeth (3)
- mae 3% yn deidiau a neiniau (25)
- roedd gan yr ymatebwyr gyfanswm o 1338 o blant, a 2 blentyn oedd maint cyfartalog teuluoedd
- roedd gan 38.7% o ymatebwyr blant 5 i 8 oed (318), a dilynir hynny'n agos gan 37.8% â phlant o dan 2 oed (310) yna 25.3% gyda phlant 3 oed (208)
- Roedd gan 28.3% o ymatebwyr blant 9 i 17 oed (232)
- Mae gan 7.4% o ymatebwyr blentyn ag anabledd neu salwch hirdymor (61)
- Mae gan 9.7% o ymatebwyr blentyn ag angen addysgol arbennig / angen dysgu ychwanegol sy'n mynnu cymorth ychwanegol gyda'u dysgu (79)

| Cyfansoddiad cartrefi ymatebwyr | Nifer | % |
|---|---|---|
| Rwy'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant â rhywun rwy'n byw gyda nhw | 609 | 74% |
| Mae gen i gyfrifoldeb llwyr dros fy mhlant | 162 | 19.7% |
| Rwy'n rhannu cyfrifoldeb dros fy mhlant gyda rhywun nad ydw i'n byw gyda nhw | 60 | 7.3% |
| Rwy'n daid / naid | 25 | 3% |
| Rwy'n ddarpar riant | 10 | 1.2% |
| Rwy'n ofalwr maeth | 3 | 0.3% |





Byddai'r graff uchod yn awgrymu bod angen y rhan fwyaf o ofal plant ar gyfer plant o dan 2 oed ac ar gyfer y rheiny sy'n 5 i 8 oed.





***Ymatebion rhieni – Yn ôl ARDAL***

Gan ddefnyddio'r data cod post a ddarparwyd, derbyniwyd ymatebion o bob ardal o RhCT. Rhieni yn Ne Orllewin Taf Elái wnaeth gyflwyno'r rhan fwyaf o ymatebion (190), a rhieni yn Ne Cynon wnaeth gyflwyno'r nifer leiaf (138).




***Statws cyflogaeth / Incwm wythnosol gros aelwydydd***

Dywedodd 54.5% o ymatebwyr eu bod yn cael eu cyflogi (666), gyda 45.5% o bartneriaid yn cael eu cyflogi (557). O'r rheiny a roddodd eu cod post, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a ddywedodd eu bod nhw, neu eu partner, yn cael eu cyflogi yn byw yn Ne Orllewin Taf Elái (164).





***Incwm aelwydydd***

Ni wnaeth 9.8% ddatgan eu hincwm aelwydydd (81), a dywedodd 14.2% ei bod yn well ganddynt beidio â dweud (117).


Roedd gan 22.0% o ymatebwyr incwm gros aelwyd o lai na £500 yr wythnos (181). Rhieni yng Ngogledd Cynon a De Rhondda roddodd y nifer uchaf o ymatebion ar gyfer y braced incwm aelwyd hwn.

Roedd gan 53.9% o ymatebwyr incwm gros aelwyd o £500 i dros £1000 yr wythnos (444). Y cyfraddau uchaf ar gyfer ymatebion yn y braced incwm aelwyd hwn oedd De Orllewin Taf Elái a De Ddwyrain Taf Elái.





***Barn rhieni – effeithiau ar gyflogaeth***

Roedd 27.6% o ymatebwyr (217) yn cytuno'n gryf, tra bod 21% yn tueddu cytuno (165), bod gofal plant yn rhwystr iddynt rhag cael cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) wedi cynorthwyo rhieni i gael mynediad i gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ers ei lansio. Byddai'r ymatebion hyn yn awgrymu bod angen rhagor o waith hyrwyddo i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn llwyr ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt.




Gofynnwyd i rieni/gofalwyr a oeddent wedi cael unrhyw faterion yn y flwyddyn ddiwethaf a oedd wedi effeithio arnynt. Dywedodd 74% o ymatebwyr fod materion yn ymwneud â gofal

plant wedi achosi problemau yn y gwaith (417), a daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hynny o ardal De Orllewin Taf Elái (178), ac yna De Ddwyrain Taf Elái (145).




Er nad yw'r ymatebion ar eu pennau'u hunain yn nodi mai'r pandemig oedd y rheswm dros y materion hyn, mae'r ymatebion testun yn awgrymu hyn:


- *Oherwydd cyfyngiadau Covid, mae fy mhlentyn ieuengaf wedi cael ei hanfon adre' nifer o weithiau gyda thymheredd uchel sydd wedi golygu fy mod i neu fy ngŵr wedi gorfod gadael y gwaith i'w chasglu hi. Yn y gorffennol, byddai paracetamol wedi cael ei roi ond nid yw lleoliadau meithrin yn gallu gwneud hyn nawr.*
- *Gorfod talu £86 y diwrnod i'r ddau blentyn fynychu'r feithrinfa, a bod yn y gwaith am 1 awr wedyn a chael fy ngalw i gasglu un ohonynt am fod peswch ganddo. Mae hyn yn effeithio ar fy swydd; nid wyf yn cael fy nhalu am y diwrnod ac wedyn mae'n rhaid i mi fod ar fy ngholled hefyd. Nid oedd yn broblem erioed cyn Covid i anfon plentyn i mewn gyda pheswch. Er nad yw'r plentyn yn sâl o gwbl gydag ef.*
- *Mae'r problemau hyn yn ymwneud â COVID yn bennaf gan fod mynychder cau meithrinfeydd/ysgolion wedi gwneud gwaith yn fwy heriol o lawer.*
- *Mae fy mhlentyn yn anhwylus o hyd o'i leoliad gofal plant. Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'n rhaid i mi gadw fy mhlentyn adref bron bob yn ail wythnos i ynysu a chael profion (mae pob annwyd yn arwain at beswch). Mae wedi achosi effaith negyddol arnaf i'n feddyliol ac yn gorfforol. Nid oes llawer o gefnogaeth teulu gen i, felly mae'n wirioneddol anodd ar brydiau*
- *Mae'n straen am fy mod wedi gorfod gwneud cais am leoedd yn y clwb brecwast; byddai fy mab gan fy rhieni fel arfer ond oherwydd Covid nid oedd hyn yn bosibl. Rwy'n dysgu, ac felly gwasanaeth cofleidiol fyddai'r ateb gorau wedi bod. Roedd rhaid i mi adael gwaith yn gynnar i godi fy mhlentyn*
- *Roedd ynysu cyson tra'n gweithio o gartref gyda phlentyn 4 oed yn anodd iawn ac effeithiodd ar fy ngallu i wneud cynnydd yn y gwaith*
- *Mae cael plant gartref wrth weithio wedi golygu nad ydw i wedi gallu gweithio patrwm arferol/i'r un safon*

- *Efallai y bydd rhaid i mi adael fy swydd os bydd fy ngŵr yn mynd yn ôl i'r swyddfa gan nad oes unrhyw ofal plant ar ôl oriau ysgol/ ar y penwythnos.*
- *Mae wedi effeithio ar gynhyrchiant - gweithio o gartref gyda phlant ifanc.*
- *Yn ystod y pandemig roedd rhaid i ni gydbwyso gwaith amser llawn gyda 2 blentyn bach. Rydym wir wedi'i chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd i weithio ac ymdopi â gofal plant, nid yw'n deg bod y rheiny sydd ddim yn gweithio yn cael mwy o help*

***Ethnigrwydd yr ymatebwyr***

Fe wnaeth 97% o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg nodi eu bod yn Wyn (801). O'r rhain, roedd 98% yn Gymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelod o Ogledd Iwerddon/Prydeinig (781). Roedd y 2% o ymatebwyr a nododd eu bod o *'unrhyw gefndir gwyn arall'* yn cynnwys Pwylaidd, Twrcaidd, Sbaenaidd, Portiwgeaidd a Ffrengig (17). Mae dros hanner yr ymatebwyr *'unrhyw gefndir arall'* yn byw yn Ne Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái, gyda Gogledd Rhondda yn dilyn yn agos.

Mae canran yr ymatebion gan ymatebwyr Du/Affricanaidd//Caribïaidd/Du Prydeinig, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a Chymysg/Grwpiau Aml-ethnig (cyfanswm o 3%) yn cyfateb yn fras i'r Arolwg Llafurlu Lleol/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2021, sy'n dweud bod 3.4% o boblogaeth RhCT o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.[4] Eto, mae dros hanner yr ymatebwyr hynny'n byw yn Ne Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái, ac yna Gogledd Cynon.





## <u>Defnydd presennol o ofal plant</u>

***Gofal plant a ddefnyddir ar hyn o bryd ADEG TYMOR***

O'r rheiny sy'n defnyddio gofal plant yn ystod y tymor, mae 51.8% o rieni'n dibynnu ar deulu a ffrindiau (414). Defnydd o Feithrinfa Dydd Breifat oedd yn ail gyda 30% o rieni'n defnyddio'r rhain (240), ac yna 24.4% yn defnyddio Clwb Cyn Ysgol / Clwb Brecwast (195). Fodd

[4] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup

bynnag, mae'n rhaid bod yn ofalus gyda gofal cyn ysgol, gan fod llawer o rieni'n defnyddio darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru a byddent yn dosbarthu'r ddarpariaeth hon fel gofal plant. Mae gwarchodwyr plant yn cael eu defnyddio gan 13.9% o rieni (111) ar hyn o bryd.




O'r rheiny a roddodd eu codau post, gellir rhannu hwn i'r ardaloedd fel a ganlyn:

| **Nifer y rhieni sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd ADEG TYMOR, yn ôl Math o Ofal Plant ac ARDAL** | **Gwarchodwr Plant** | **Clwb Cyn Ysgol / Clwb Brecwast** | **Clwb ar ôl Ysgol** | **Meithrinfa Ddydd Breifat** | **Metihrinfa Ysgol** | **Cylch Chwarae** | **Cylch Meithrin** | **Crèche Gollwg Plant** | **Nani** | **Au Pair** | **Teulu / Ffrindiau (am dâl)** | **Teulu / Ffrindiau (di-dâl)** | **Dim Adeg y Tymor** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 16 | 30 | 7 | 38 | 7 | 11 | 9 | 3 | 0 | 0 | 9 | 65 | 10 |
| De Cynon | 6 | 8 | 2 | 11 | 4 | 6 | 6 | 2 | 0 | 0 | 1 | 23 | 6 |
| Gogledd Rhondda | 14 | 23 | 12 | 17 | 3 | 8 | 9 | 3 | 0 | 0 | 3 | 51 | 7 |
| De Rhondda | 11 | 23 | 6 | 30 | 6 | 2 | 6 | 4 | 0 | 0 | 6 | 53 | 7 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 21 | 17 | 9 | 24 | 2 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 1 | 52 | 6 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 21 | 40 | 28 | 36 | 16 | 4 | 15 | 1 | 1 | 0 | 4 | 70 | 14 |
| De Orllewin Taf Elái | 18 | 46 | 43 | 78 | 26 | 18 | 8 | 3 | 1 | 0 | 8 | 77 | 13 |
| **Cyfansymiau** | **107** | **187** | **107** | **234** | **64** | **56** | **60** | **16** | **2** | **0** | **32** | **391** | **63** |

Roedd rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant adeg tymor yn cynnwys:

- *Nid yw'r clwb ar ôl ysgol wedi ailagor, wedi gorfod lleihau oriau gweithio*
- *Gŵr yn gweithio yn ystod oriau ysgol gan nad oes gofal cyn nac ar ôl ysgol yn ein hardal*
- *Mae fy mhlant yn mynd at aelod gwahanol o'r teulu bron bob dydd er mwyn i mi allu gweithio*
- *Nid oes cyfleusterau gofal plant ar gyfer rhai 11 oed yn Aberpennar*
- *Dim ond ar un diwrnod mae gofal ar ôl oriau ysgol ar gael ac nid yw ar gael ar gyfer diwrnodau eraill y bydden i'n eu hoffi. Ond gan nad ydw i'n gallu cael unrhyw help i dalu am glybiau ar ôl ysgol gallai fynd yn ddrud i mi wneud hynny beth bynnag*
- *Yn defnyddio meithrinfa breifat cyn covid*

O'r sylwadau hyn, mae i weld yn amlwg bod rhai rhieni'n cael anhawster dod o hyd i ddarpariaeth addas ar ôl oriau ysgol erbyn hyn. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ofal ar ôl ysgol, gan nad yw llawer o wasanaethau wedi gallu ailagor ers i'r cyfyngiadau clo lacio. Un o'r prif resymau dros hyn yw fod llawer o glybiau y tu allan i oriau ysgol yn defnyddio lleoliadau sy'n cael eu rhannu, fel neuaddau ysgol a chanolfannau cymunedol. Oherwydd swigod ysgolion, a phryderon ynglŷn â defnydd cymysg, nid yw'r lleoliadau hyn wedi bod ar gael iddynt. Mae'r rheiny sydd wedi ailagor wedi'i chael hi'n anodd gweithredu ar gapasiti llawn, eto oherwydd cyfyngiadau ar leoliadau, a gweithredu canllawiau mesurau diogelu LIC, fel swigod ar wahân a pheidio â chael plant yn mynychu o fwy nag un ysgol.

O ran gofal ar ôl oriau ysgol i blant 11 oed a hŷn, mae'r mater hwn wedi'i nodi mewn adroddiadau blaenorol Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae'r Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) yn cynnig gweithgareddau allgyrsiol i bobl ifanc 11 oed a hŷn. Er nad gofal plant ydyw, mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu defnyddio gan lawer o rieni fel amgylchedd diogel i'w plant yn ystod y flwyddyn neu ddwy gyntaf yn yr ysgol uwchradd, yn enwedig yn ystod cyfnodau gwyliau. Gweler Adran Pedwar am ragor o wybodaeth am Wasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid.

## Archwilio'r galw am ofal ar ôl oriau ysgol

*Nifer yr oriau a ddefnyddir – ADEG TYMOR*


Ar sail data'r arolwg a amlinellir isod, rhieni yng Ngogledd Cynon a De Cynon sy'n defnyddio'r nifer fwyaf o oriau o ofal plant yn ystod y tymor. Mae'r ffigurau ar gyfer yr ardaloedd hyn yn sylweddol uwch na'r ardaloedd eraill a chyfartaledd RhCT, felly dylid edrych arnynt yn ofalus. Mae hyn yn arbennig o wir am mai rhieni yng Ngogledd Cynon a roddodd y nifer uchaf o ymatebion am beidio â defnyddio gofal plant am ei fod yn rhy ddrud. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cynnwys, nid yn unig gofal plant gan dalu ffi, ond defnyddio teulu a ffrindiau hefyd, felly nid yw'n rhoi darlun clir o'r defnydd o ofal plant gan dalu ffi, ond gallai egluro'r defnydd uchel yng Ngogledd Cynon.

| Nifer yr oriau gofal plant a ddefnyddiwyd Adeg Tymor | Adeg Tymor (o leiaf) | Adeg Tymor (ar y mwyaf) | Adeg Tymor (cyfartaledd) |
|---|---|---|---|
| **Ledled RhCT** | **22.3** | **26.9** | **19.3** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 29.3 | 40 | 38.5 |
| De Cynon | - | - | 36 |
| Gogledd Rhondda | 17.5 | 22.5 | 17.2 |
| De Rhondda | 25 | 24 | 19.4 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 21.8 | 12.5 | 14.5 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 23 | - | 15 |
| De Orllewin Taf Elái | 26.5 | 33.3 | 19.8 |


*Bodlonrwydd â gofal plant – ADEG TYMOR*

Pan ofynnwyd pa mor fodlon yr oedd rhieni/gofalwyr â'u gofal plant adeg tymor, roedd 39.1% yn cytuno'n gryf â'r datganiad (313), tra bod 33.5% yn tueddu cytuno (268). Mae hyn i weld yn awgrymu, ar gyfer y rhieni hynny sy'n defnyddio gwasanaethau gofal plant rheoledig, eu bod yn hapus gydag ansawdd a'r gwasanaeth a dderbynnir.




***Gofal plant a ddefnyddir ar hyn o bryd yn ystod GWYLIAU YSGOL***

Eto, teulu a ffrindiau y dywed ymatebwyr sy'n darparu'u gofal, gyda 53.7% yn datgan mai dyma'r math o ofal plant y maen nhw'n ei ddefnyddio yn ystod Gwyliau Ysgol (417). Meithrinfeydd Dydd Preifat, eto, yw'r ail fath mwyaf poblogaidd o ofal plant yn ystod gwyliau, gyda 30.2% o rieni'n defnyddio'r rhain (220). Dywedodd 14.4% nad ydyn nhw'n defnyddio gofal plan tyn ystod gwyliau ysgol (105).




O'r rheiny a roddodd eu codau post, gellir rhannu hwn i'r ardaloedd fel a ganlyn:

| Nifer y rhieni sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd ADEG GWYLIAU, yn ôl Math o Ofal Plant ac ARDAL | Gwarchodwr Plant | Gofal Gwyliau | Meithrinfa Ddydd Breifat | Ysgol Gyn-Baratoadol (Breifat) | Cylch chwarae | Cylch Meithrin | Crèche Gollwg Plant | Nani | Au Pair | Cynllun chwarae | Teulu / Ffrindiau (am dâl) | Teulu / Ffrindiau (di-dâl) | Dim yn ystod Gwyliau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 14 | 1 | 30 | 0 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 8 | 68 | 18 |
| De Cynon | 2 | 3 | 9 | 0 | 2 | 1 | 2 | 0 | 0 | 2 | 2 | 24 | 7 |
| Gogledd Rhondda | 15 | 12 | 16 | 0 | 4 | 4 | 3 | 0 | 0 | 4 | 2 | 49 | 15 |
| De Rhondda | 5 | 2 | 26 | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 | 1 | 7 | 49 | 11 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 22 | 3 | 22 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 48 | 7 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 17 | 17 | 33 | 1 | 1 | 5 | 0 | 0 | 0 | 8 | 4 | 74 | 19 |
| De Orllewin Taf Elái | 17 | 25 | 78 | 0 | 11 | 2 | 2 | 1 | 0 | 11 | 11 | 85 | 20 |
| **Cyfansymiau** | **92** | **59** | **214** | **1** | **23** | **14** | **11** | **1** | **0** | **29** | **36** | **397** | **97** |

Roedd rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant adeg gwyliau yn cynnwys:

- *Gwersylloedd gweithgarwch*
- *Rwy'n gweithio adeg tymor*
- *Ers COVID, mae'r clwb gwyliau ond yn fodlon cymryd plant dan 8 oed yn ystod gwyliau ysgol; 'does fawr ddim clybiau o gwbl i blant anabl*
- *Gwarchodwr plant rhan-amser yn ystod gwyliau*

- *Cymryd gwyliau o'r gwaith*
- *Gweithio o gartref*
- *Dim byd ar gael yn fy ardal i*

Daeth y sylw testun uchod sy'n datgan nad oedd unrhyw beth ar gael yn eu hardal o ward y Ddraenen Wen yn Ne Ddwyrain Taf Elái. Mae'r ardal hon wedi'i nodi fel ardal o angen dynodedig bosibl yn y gorffennol. Bu datblygiad tai yn y ward hon ers adroddiad 2017 yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gyhoeddwyd, ac mae hynny'n debygol o fod wedi effeithio ar y galw yn yr ardal hon. Yn ?? fe wnaeth y Cyngor gefnogi datblygu gofal ar ôl oriau ysgol yn yr ardal hon, yn dilyn ymgynghoriad a rheini. Yn anffodus, nid oedd y clwb yn gallu defnyddio ardal o fewn yr ysgol gynradd, ac felly defnyddiodd leoliad cymunedol lleol ryw 1 filltir i ffwrdd. Roedd hyn yn anneniadol i rieni a oedd yn pryderu ynglŷn â cherdded i'r lleoliad, a daeth y clwb yn anymarferol a bu'n rhaid iddo gau. Gyda datblygu ysgol pob oed newydd yn yr ardal hon, efallai y byddai'n ddoeth ail-ystyried hyn.

## Archwilio'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau yn ward y Ddraenen Wen yn Ne Ddwyrain Taf Elái


*Nifer yr oriau a ddefnyddiwyd – GWYLIAU YSGOL*

Ar sail data'r arolwg a amlinellir isod, rhieni yng Ngogledd Cynon a De Ddwyrain Taf Elái sy'n defnyddio'r nifer fwyaf o oriau gofal plant yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol. Eto, mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cynnwys, nid yn unig gofal plant gan dalu ffi, ond defnyddio teulu a ffrindiau hefyd, felly nid yw'n rhoi darlun clir o'r defnydd o ofal plant gan dalu ffi.

| | Gwyliau Ysgol (o leiaf) | Gwyliau Ysgol (ar y mwyaf) | Gwyliau Ysgol (cyfartaledd) |
|---|---|---|---|
| **RhCT** | **25** | **23.4** | **24.9** |
| Gogledd Cynon | 29.3 | 40 | 40 |
| De Cynon | - | - | 16 |
| Gogledd Rhondda | 18.5 | 22.5 | 17 |
| De Rhondda | 25 | - | 26.6 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 30 | - | - |
| De Ddwyrain Taf Elái | 50.3 | - | 30 |
| De Orllewin Taf Elái | 19.5 | 24 | 25.2 |

*Bodlonrwydd â gofal plant – GWYLIAU YSGOL*

Pan ofynnwyd pa mor fodlon yr oedd rhieni/gofalwyr â'u gofal plant adeg gwyliau, roedd 29.8% yn cytuno'n gryf â'r datganiad (235), tra bod 23.5% yn tueddu cytuno (185). Mae'r cyfraddau bodlonrwydd yn is nag ar gyfer gofal plant adeg tymor, ond mae'n dal i awgrymu bod rhieni'n tueddu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth y maen nhw'n ei dderbyn.




***Costau gofal plant presennol***

Adroddodd 30% o ymatebwyr eu bod yn gwario £0 ar ofal plant yr wythnos (224). Byddai hyn yn cyfateb i'r ymatebion sy'n dynodi'r ddibyniaeth uchel ar ofal plant anffurfiol gyda theulu a ffrindiau yn gofalu am eu plant. O'r rheiny sydd yn talu costau gofal plant, dywedodd 21% eu bod yn talu rhwng £100 a £199 yr wythnos (155). Gan ddefnyddio cyfradd Cynnig Gofal Plant Cymru, sef £4.50 yr awr, fel dynodiad, byddai hwn yn prynu rhwng 22 a 44 o oriau gofal plant yr wythnos i rieni. Mae hyn i weld yn cyfateb i nifer gyfartalog yr oriau gofal plant y dywedodd rhieni wrthym eu bod yn defnyddio.

| Gwariant wythnosol cyfartalog ar ofal plant (heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y llywodraeth) - RhCT | | |
|---|---|---|
| **Cost fesul wythnos** | **Nifer** | **%** |
| £0 | 224 | 30.48% |
| 1c-£10 | 17 | 2.31% |
| £10-£49 | 118 | 16.05% |
| £50-£99 | 139 | 18.91% |
| £100-£199 | 155 | 21.09% |
| £200-£299 | 54 | 7.35% |
| £300+ | 28 | 3.81% |


O ran y rheiny a roddodd eu codau post, gellir gweld mai rhieni yn Ne Ddwyrain Taf Elái sy'n talu fwyaf fesul wythnos am ofal plant.

| Gwariant wythnosol cyfartalog ar ofal plant (heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y llywodraeth) - Nifer yr ymatebion fesul ARDAL | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost yr wythnos** | **Gogledd Cynon** | **De Cynon** | **Gogledd Rhondda** | **De Rhondda** | **Gogledd Ddwyrain Taf Elái** | **De Ddwyrain Taf Elái** | **De Orllewin Taf Elái** | **Cyfanswm** |
| £0 | 44 | 17 | 29 | 19 | 21 | 39 | 34 | **203** |
| 1c-£10 | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 | 2 | 3 | **11** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £10-£49 | 10 | 6 | 15 | 15 | 15 | 18 | 35 | **114** |
| £50-£99 | 27 | 4 | 19 | 8 | 17 | 22 | 39 | **136** |
| £100-£199 | 20 | 9 | 18 | 21 | 14 | 29 | 38 | **149** |
| £200-£299 | 3 | 5 | 2 | 11 | 7 | 5 | 20 | **53** |
| £300+ | 2 | 1 | 3 | 3 | 6 | 6 | 6 | **27** |

***Bodlonrwydd â'r darparwr gofal plant presennol***


Dywedodd 48.9% eu bod yn fodlon iawn â'u darparwr gofal plant (353) gydag ond 2.2% yn adrodd eu bod yn anfodlon iawn (16). Ardal De Ddwyrain Taf Elái oedd â'r nifer uchaf o ymatebion 'bodlon iawn' (56), a De Orllewin Taf Elái oedd â'r nifer uchaf o ymatebion 'anfodlon iawn'.




***Meysydd y trefniadau gofal plant y gellid eu gwella***

Pan ofynnwyd a oeddent yn anhapus gydag unrhyw agwedd ar eu trefniadau gofal plant, mwy fforddiadwy oedd yr ymateb mwyaf cyffredin, gyda 50.7% yn dewis yr ymateb hwn (33). Mwy o oriau ar gael (y lleoliad yn rhy brysur/llawn) oedd nesaf gyda 27.6% o ymatebion (18), ac yn dilyn yn agos, ymestyn oriau agor gyda'r nos, gyda 24.6% o ymatebion (16).

Mae canfyddiadau rhieni bod costau gofal plant yn rhy uchel yn gyfarwydd i'r ymatebion arolwg yn adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017. Mae llawer o gynlluniau cyffredinol i'w cael, yn ogystal â'r rheiny sy'n targedu demograffeg benodol, ar gael i rieni i'w cynorthwyo gyda chost gofal plant, fel Gofal Plant Di-dreth, talebau gofal plant yn y cyflogwr, Cynnig Gofal Plant Cymru, Dechrau'n Deg a'r elfen gofal plant o Gredyd Cynhwysol.




## Gwella hyrwyddo cynlluniau ariannol i helpu gyda chost gofal plant

***Gofal plant cyfrwng Cymraeg***
Gweler Adran Tri.

***Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant***
Y rhesymau pennaf a restrwyd gan ymatebwyr dros beidio â defnyddio gofal plant ar hyn o bryd oedd ei fod yn rhy gostus, a’u bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol fel teulu neu ffrindiau. Mae’n debyg bod y ddau’n cyfateb i’w gilydd wrth bod rhieni’n defnyddio gofal plant anffurfiol gan eu bod yn teimlo bod talu ffi am ofal yn rhy gostus. Y rhesymau nesaf a ddewiswyd fwyaf oedd nad yw’r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer eu hanghenion, a bod yr amserau y mae’r gofal ar gael yn anaddas. Mae’r canfyddiadau hyn yn debyg i’r rheiny o Adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017. Er bod gwaith wedi’i wneud ers hynny i gynorthwyo’r sector gofal plant i gynnig sesiynau/opsiynau mwy hyblyg, ac i gynnig gofal yn ystod oriau annodweddiadol, cynnydd cyfyngedig sydd wedi’i wneud.

| Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant | Nifer | % |
|---|---|---|
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 152 | 43.4% |
| Rwy’n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o’r teulu neu ffrind | 132 | 37.7% |
| Nid yw’r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i’m hanghenion i | 61 | 17.4% |
| Mae amserau gofal plant yn anaddas | 47 | 13.4% |

| | | |
|---|---|---|
| Nid oes unrhyw ofal plant ar gael sy'n addas i oedran fy mhlentyn | 41 | 11.7% |
| Nid oes unrhyw ofal plant lle mae ei angen arnaf | 40 | 11.4% |
| Rwy'n rhiant aros gartref ac nid oes angen gofal plant arnaf | 29 | 8.2% |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant | 22 | 6.2% |
| Nid oes unrhyw ofal plant o ansawdd digonol | 19 | 5.4% |
| Dim ond ar sail ad hoc rwy'n defnyddio gofal plant, ac mae'n amhosibl cynllunio | 18 | 5.1% |
| Nid oes unrhyw ofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 14 | 4% |
| Mae fy mhlentyn ar restr aros am ddarparwr, ac rydym yn disgwyl i le ddod ar gael | 13 | 3.7% |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas | 13 | 3.7% |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 11 | 3.1% |
| Nid oes darpariaeth addas yn ein hiaith ni, ac nid Cymraeg na Saesneg ydyw | 3 | 0.8% |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanyn nhw'u hunain | 2 | 0.5% |

| **Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant yn ôl ARDAL** | **Gogledd Cynon** | **De Cynon** | **Gogledd Rhondda** | **De Rhondda** | **Gogledd Ddwyrain Taf Elái** | **De Ddwyrain Taf Elái** | **De Orllewin Taf Elái** | **Cyfan-swm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 30 | 8 | 23 | 24 | 19 | 23 | 20 | **147** |
| Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind | 25 | 12 | 19 | 13 | 14 | 24 | 15 | **122** |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i'm hanghenion i | 12 | 3 | 13 | 6 | 11 | 7 | 6 | **58** |
| Mae amserau gofal plant yn anaddas | 9 | 2 | 7 | 7 | 6 | 7 | 7 | **45** |
| Nid oes unrhyw ofal plant ar gael sy'n addas i oedran fy mhlentyn | 7 | 5 | 8 | 6 | 6 | 6 | 3 | **41** |
| Nid oes unrhyw ofal plant lle mae ei angen arnaf | 6 | 0 | 6 | 5 | 10 | 3 | 4 | **34** |
| Rwy'n rhiant aros gartref ac nid oes angen gofal plant arnaf | 7 | 1 | 2 | 4 | 1 | 3 | 8 | **26** |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant | 3 | 1 | 2 | 0 | 3 | 6 | 2 | **17** |
| Nid oes unrhyw ofal plant o ansawdd digonol | 3 | 2 | 4 | 2 | 3 | 3 | 1 | **18** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim ond ar sail ad hoc rwy'n defnyddio gofal plant, ac mae'n amhosibl cynllunio | 0 | 0 | 7 | 1 | 2 | 4 | 3 | **17** |
| Nid oes unrhyw ofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 3 | 0 | 2 | 0 | 1 | 4 | 4 | **14** |
| Mae fy mhlentyn ar restr aros am ddarparwr, ac rydym yn disgwyl i le ddod ar gael | 2 | 0 | 5 | 0 | 1 | 1 | 2 | **11** |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas | 2 | 0 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | **12** |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 4 | 0 | 1 | 3 | 2 | 1 | 0 | **11** |
| Nid oes darpariaeth addas yn ein hiaith ni, ac nid Cymraeg na Saesneg ydyw | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | **3** |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanyn nhw'u hunain | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | **2** |

Pan ddadansoddir y data hwn i ardaloedd, ar gyfer y rhieni hynny a roddodd eu codau post, gellir gwneud yr arsylwadau canlynol:

*Gogledd Cynon*

Rhieni yn yr ardal hon a roddodd y nifer fwyaf o atebion ar gyfer defnyddio gofal plant anffurfiol (25), bod amserau gofal plant yn anaddas (9) a bod problemau gyda thrafnidiaeth ganddynt (4). Y nhw hefyd a gafodd y nifer fwyaf o ymatebion yn dweud bod gofal plant yn rhy gostus (30). Gallai hyn egluro pam mae'r defnydd o ofal plant anffurfiol yn uwch nag mewn ardaloedd eraill.

Mae sylwadau rhieni ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys:

- *Nid oes darparwr gofal plant ar gael i godi'r plant o'r ysgol pan mae arnaf angen iddyn nhw wneud*
- *Nid yw'r oriau yn dda iawn ar gyfer gwaith*
- *Gofal plant teuluol*
- *Yn yr ysgol*

*De Cynon*

Roedd ymatebion rhieni o'r ardal hon yn eithaf cyfyngedig. Fodd bynnag, y defnydd o ofal plant anffurfiol oedd y rheswm mwyaf cyffredin ar gyfer peidio â defnyddio gofal plant (12), ac yna cost gofal plant (8).

Mae sylwadau rhieni ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys:

- *Wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gofal plant yn ddiweddar am fy mod i wedi newid swydd*
- *Hoffwn i fy merch fynd i mewn i fwy o ofal plant ond ni allaf ei fforddio*

<u>*Gogledd Rhondda*</u>
Rhieni yn yr ardal hon oedd â'r nifer fwyaf o ymatebion yn dweud bod eu plentyn yn disgwyl am le i ddod ar gael yn eu dewis ddarparwr (5) ac nad oedd y gofal plant a oedd ar gael yn ddigon hyblyg i'w hanghenion (13). Y nhw hefyd oedd â'r nifer fwyaf o ymatebion yn dweud nad oedd unrhyw ofal plant o ansawdd digonol (4), ar gyfer oedran eu plentyn (8) neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (3). Mae hyn i gyd yn awgrymu bod yna fylchau yn y ddarpariaeth yn yr ardal hon a bod angen archwilio'r sefyllfa ymhellach.

Mae sylwadau rhieni ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys:

- *Rwy'n gweithio'n llawn amser felly byddwn yn gwerthfawrogi gofal plant ar ôl oriau ysgol*
- *Hefyd rwy'n gweithio gartref ar hyn o bryd yn sgil Covid 19. Pan fydd fy nghyflogwr eisiau i mi fynd yn ôl i mewn i'r gwaith bydd yn hunllef. Mae'r clwb brecwast yn rhoi blaenoriaeth i bobl nad ydyn nhw'n gweithio - gweithiwch hynny allan. Mae clwb ar ôl ysgol yn dda am ryw awr, ond nid yw ein swyddi ni'n gorffen am 4pm.*
- *Symudais ysgol fy merched gan nad oedd darpariaeth addas yno*
- *Nid oes UNRHYW ofal plant ar gael ble ry'n ni'n byw*

Daeth y ddau sylw diwethaf gan rieni yn ward Tylorstown yng Ngogledd Rhondda. Mae'r ardal hon wedi'i hamlygu fel ardal ag angen yn y gorffennol. Mae nifer o ymdrechion wedi'u gwneud i sefydlu clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol, ond nid oedd galw digonol amdano i'w wneud yn ymarferol. Mae ymgyrchoedd gwarchod plant wedi'u cynnal yn y ward hon hefyd, gyda llwyddiant cyfyngedig eto. Mae un darpar warchodwr plant newydd sy'n ymgysylltu â phecyn ariannu RhCT ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw'r cais wedi'i gyflwyno i AGC eto.

<u>*De Rhondda*</u>
Eto, gofal plant yn rhy gostus (24) a defnyddio gofal plant anffurfiol (13) oedd yr ymatebion mwyaf mynych ar gyfer yr ardal hon. Gan yr ardal hon oedd yr ail nifer uchaf o ymatebion yn dweud bod problem gyda thrafnidiaeth (3).

Nid oedd unrhyw sylwadau gan rieni o'r ardal hon.

<u>*Gogledd Ddwyrain Taf Elái*</u>
Rhieni yn yr ardal hon oedd â'r nifer fwyaf o ymatebion i ddweud nad oedd gofal plant ar gael lle mae arnynt angen iddo fod (10). Bydd angen ymchwilio ymhellach i bennu'n union pa ardaloedd sydd â bylchau yn y ddarpariaeth.

Mae sylwadau rhieni ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys:

- *Mae'n rhaid i mi weithio o gartref gan nad oes gofal plant cofleidiol digonol o ysgol Cilfynydd ble mae fy mhlentyn 3 oed yn gorffen am 12pm. Rwyf wedi rhoi cynnig ar 7 o ddarparwyr gofal plant gwahanol.*

- *Mae fy mhlant yn mynychu clwb gwyliau yn ardal Caerffili yn ystod gwyliau'r ysgol, gan mai nifer gyfyngedig o glybiau gwyliau sydd yn ardaloedd RhCT. Nid oes unrhyw feithrinfeydd na gwarchodwyr plant sy'n gwasanaethu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton ar gyfer gofal cofleidiol. Lleoedd meithrin cyfyngedig a geir yn ardal Pontypridd, ac mae gofal plant yn her aruthrol i rieni sy'n gweithio yn RhCT, ardal Pontypridd*

<u>*De Ddwyrain Taf Elái*</u>

Rhieni yma oedd â'r nifer fwyaf o ymatebion yn dweud nad yw'r gofal plant sydd ar gael yn darparu ar gyfer eu hanghenion penodol (4). Roedd yr un nifer o ymatebion ar gyfer hyn gan Dde Orllewin Taf Elái hefyd. Nod cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yw sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol plant yn cael eu hadnabod a'u cefnogi yn gynharach ac mewn modd mwy cydgysylltiedig. Mae gan yr holl ddarparwyr gofal plant fynediad i gyrsiau hyfforddi am ddim i gefnogi adnabod anghenion dysgu ychwanegol, a'u cynorthwyo. Hefyd, mae Fforwm Blynyddoedd Cynnar RhCT wedi'i ailstrwythuro i ystyried telerau'r Ddeddf.

Mae sylwadau rhieni ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys:

- *Nid oes digon o ddarparwyr gofal plant yn fy ardal i*
- *Ar gyfnod mamolaeth, plentyn o dan 2 oed*
- *Rhy gostus, byddai'n costio £76 yr wythnos ar gyfer gofal cofleidiol ar ôl oriau ysgol, ac mae'n £34 y dydd adeg gwyliau*

<u>*De Orllewin Taf Elái*</u>

Yr ardal hon oedd â'r nifer fwyaf o ymatebion ar gyfer rhieni aros gartref (8). Er nad oes angen gofal plant at ddibenion gwaith ar y rhieni hyn, gallai hyrwyddo'r buddion i ddatblygiad a lles plant fod yn fuddiol.

Mae sylwadau rhieni ar gyfer yr ardal hon yn cynnwys:

- *Dim problemau gyda'n plentyn ieuengaf, ond nid ydym yn gallu cael gofal plant ar gyfer ein plentyn hynaf*
- *Mae'r clwb brecwast am 8.10, a chan fy mod i'n gweithio mewn ysgol, mae ei angen arnaf o 8.00.*
- *Anhawster dod o hyd i ofal plant addas oherwydd covid - mae'r clwb ar ôl ysgol wedi'i gyfyngu o ran niferoedd*
- *Plentyn awtistig sy'n cyfathrebu'n ddieiriau, sy'n cael anhawster mynd gydag unrhyw un arall*
- *Nid oes Gofal Plant lleol ar gael, ac nid yw'n gallu diwallu anghenion cymhleth fy mhlentyn*
- *Mae'n teimlo'n anniogel gyda'r cyfraddau covid cyfredol*

Mae plant o dan ddwy oed a 4 oed gan riant y sylw cyntaf uchod. Gallai hyn awgrymu bod materion gyda gofal y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol.

**Archwilio ymhellach y rhwystrau posibl rhag cael gofal plant yng Ngogledd Cynon**
**Ymchwilio i'r cyflenwad gofal plant yng Ngogledd Rhondda – mae'r rhan fwyaf ar restr aros yma**
**Ymchwilio i Ogledd Ddwyrain Taf Elái – dim gofal plant ble maent angen iddo fod**
**Hyrwyddo buddion gofal plant i les a datblygiad plant**
**Archwilio'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau yn Ne Orllewin Taf Elái**

***Cael mynediad i wybodaeth***

Y prif gyfrwng i rieni gael mynediad i wybodaeth yw drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Ers yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi gweld nifer o newidiadau a chyfyngedig fu'r cyfleoedd i Swyddog y Gwasanaeth fynychu digwyddiadau ymgysylltu â rhieni. Hefyd, mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda rhieni. Nid yw'n syndod, felly, y gall rhieni fod yn ansicr ble i ganfod gwybodaeth am ofal plant neu gymorth ariannol. Mae tudalen Facebook lwyddiannus gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ac mae ganddo gynnwys ar brif wefan y Cyngor. Hefyd, mae'r tîm datblygu gofal plant a thîm y Cynnig Gofal Plant yn hyrwyddo opsiynau gofal plant i rieni pa bryd bynnag y maent yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb neu rithwir.

Gan fod y cyfyngiadau'n llacio erbyn hyn, dylid rhoi pwyslais o'r newydd ar hyrwyddo gwybodaeth i rieni ac esbonio'n eglur ble y gallant ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol iddynt.


| Datganiad | Cytuno'n Gryf | | Tueddu Cytuno | | Tueddu Anghytuno | | Anghytuno'n Gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gwybod ble i ganfod gwybodaeth am ofal plant | 136 | 17.2% | 281 | 35.5% | 189 | 23.9% | 105 | 13.3% |
| Rwy'n gwybod ble i ganfod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant | 75 | 9.4% | 192 | 24.2% | 238 | 30% | 212 | 26.7% |

**Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo opsiynau gofal plant a chymorth ariannol i rieni**

**Y galw am ofal plant a ragwelir yn y dyfodol**

Gofynnwyd i rieni ynglŷn â'u cynlluniau i'r dyfodol a ph'un a fyddent yn debygol o fod angen mwy neu lai o ofal plant yn y ddwy flynedd nesaf. Ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg, roedd lefel uchel o weithio gartref o hyd, a tharfu ar batrymau gwaith arferol. Felly, efallai yr oedd yn anodd i rieni ragweld eu hanghenion gofal plant yn gywir i'r dyfodol. O'r rheiny wnaeth ymateb, dywedodd 51.1% eu bod y rhagweld y bydd angen mwy o ofal plant arnynt yn y ddwy flynedd nesaf (405), roedd 24.3% yn rhagweld y bydd eu hanghenion o ran gofal plant

yn aros yr un peth (193), tra bod 13.1% yn rhagweld y bydd angen llai o ofal plant arnynt (104). Nid oedd 11.3% yn gwybod, neu roeddent yn ansicr (90).




***Angen llai o ofal plant***


O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn rhagweld y bydd angen llai o ofal plant arnynt, dywedodd 91.5% mai'r rheswm am hyn oedd y bydd eu plentyn yn hŷn (108), ac yna 10.1% sy'n disgwyl gweithio/astudio mwy o gartref (12).  O'r rheiny sy'n teimlo y bydd angen llai o ofal plant arnynt, daeth y nifer uchaf o ymatebion gan y rheiny sy'n byw yn Ne Orllewin Taf Elái (26), De Ddwyrain Taf Elái (20) a Gogledd Ddwyrain Taf Elái (16).  Oherwydd newidiadau ym mhatrymau gweithio llawer o rieni dros y ddwy flynedd nesaf, mae'n syndod nad yw'r ffigur sy'n disgwyl gweithio neu astudio o gartref mwy yn uwch. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant am y pum mlynedd nesaf yn gwerthuso effaith gweithio o gartref a ph'un a yw hyn wedi dod yn nodwedd barhaol mewn patrymau gweithio neu p'un a yw gweithwyr wedi dychwelyd i'w swyddfeydd wrth i effeithiau'r pandemig leihau. Nodir rhesymau dros ragweld defnyddio llai o ofal plant isod:

| Rhesymau dros fod angen LLAI o ofal plant yn y ddwy flynedd nesaf | Nifer | % |
|---|---|---|
| Bydd y plentyn yn hŷn | 108 | 91.53% |
| Disgwyl gweithio / astudio mwy o gartref | 12 | 10.17% |
| Ceisio cael mwy o amser gyda'r teulu | 6 | 5.08% |
| Disgwyl gweithio / astudio llai o oriau | 3 | 2.54% |
| Pryderon ynglŷn â COVID-19 / heintiau | 2 | 1.69% |
| Pryder ynglŷn â COVID-19 yn tarfu ar wasanaethau / yn cau gwasanaethau | 1 | 0.85% |

***Angen mwy o ofal plant***

O'r rheiny sy'n teimlo y bydd angen mwy arnynt, roedd y nifer fwyaf o ymatebion gan y rheiny sy'n byw yn Ne Orllewin Taf Elái (94), De Ddwyrain Taf Elái (66) a Gogledd Cynon (61).

Dywedodd 55.7% y byddai angen mwy o ddarpariaeth Cyn Ysgol/Clwb Brecwast arnynt yn y ddwy flynedd nesaf (233), ac yna datganodd 51.2% yr angen am Glwb ar Ôl Ysgol (214).




O'r rheiny a roddodd eu codau post, gellir dadansoddi hyn i'r ardaloedd fel a ganlyn:

| **Nifer y rhieni sy'n rhagweld y bydd angen MWY o ofal plant arnynt yn y ddwy flynedd nesaf, yn ôl Math o Ofal Plant ac ARDAL** | **Gwarchodwr Plant** | **Clwb Cyn Ysgol / Clwb Brecwast** | **Clwb ar Ôl Ysgol** | **Meithrinfa Ddydd Breifat** | **Meithrinfa Ysgol** | **Cylch Chwarae** | **Cylch Meithrin** | **Crèche Gollwg Plant** | **Nani** | **Au Pair** | **Ysgol Gyn-Baratoadol (Breifat)** | **Clwb Gwyliau** | **Teulu / Ffrindiau (am dâl)** | **Teulu / Ffrindiau (di-dâl)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 18 | 37 | 24 | 19 | 10 | 9 | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 8 | 4 | 38 |
| De Cynon | 4 | 10 | 10 | 6 | 4 | 6 | 10 | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 | 7 | 11 |
| Gogledd Rhondda | 20 | 38 | 33 | 19 | 9 | 7 | 12 | 1 | 2 | 0 | 0 | 17 | 2 | 26 |
| De Rhondda | 7 | 27 | 22 | 29 | 18 | 10 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | 7 | 6 | 32 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 13 | 22 | 25 | 13 | 15 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 2 | 19 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 14 | 42 | 42 | 28 | 20 | 8 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 4 | 28 |
| De Orllewin Taf Elái | 11 | 53 | 54 | 46 | 30 | 19 | 10 | 4 | 4 | 1 | 1 | 30 | 8 | 38 |
| **Cyfansymiau** | **87** | **229** | **210** | **160** | **106** | **67** | **79** | **21** | **7** | **1** | **1** | **100** | **33** | **192** |

*Gogledd Cynon*

Y math o ofal plant sy'n fwyaf tebygol o fod ei angen yn y ddwy flynedd nesaf yw Teulu/Ffrindiau (di-dâl) a Chlwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg hwn sydd wedi dewis Clybiau Cyn Ysgol/Brecwast yn debygol o fod yn cyfeirio at y clybiau brecwast am ddim, yn yr ysgol. Felly mae rhieni yng Ngogledd Cynon yn rhagweld y bydd angen iddynt ddefnyddio mathau o ofal anffurfiol, anghofrestredig.

*De Cynon*

Teulu/Ffrindiau (di-dâl) oedd yr ymateb mwyaf poblogaidd yn yr ardal hon hefyd, ac yna Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast, Clwb ar Ôl Ysgol a Chylch Meithrin. Ar gyfer pob un o'r opsiynau ac eithrio Cylch Meithrin, nid yw'n eglur p'un a yw rhieni'n cyfeirio at ofal plant gan dalu ffi neu mentrau a chlybiau gweithgarwch am ddim a ddarperir gan yr ysgolion. Agorodd darpariaeth feithrin newydd yn Abercynon yn Ionawr 2022 trwy gyllid o gynllun cyfalaf cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon gan 24 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGC. Gan i hwn agor ar ôl cynnal yr arolwg rhieni, efallai nad oedd y rhieni y mae angen y math hwn o ofal plant arnynt yn ymwybodol o'r datblygiad arfaethedig.

*Gogledd Rhondda*

Eto, Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast oedd yr opsiwn a ddewiswyd amlaf ar gyfer cynnydd tebygol yn yr angen am ofal plant dros y ddwy flynedd nesaf, ac yna Clwb ar Ôl Ysgol a Theulu/Ffrindiau (di-dâl).

*De Rhondda*

Mae'r tri opsiwn y soniwyd amdanynt uchod i'w gweld hefyd yn yr ymatebion yn Ne Rhondda, ond Meithrinfa Ddydd Breifat yw'r ymateb ail fwyaf poblogaidd. Hefyd, yr ardal hon wnaeth derbyn yr ail ymateb uchaf ar gyfer gofal plant Cylch Meithrin. Byddai'n ddoeth archwilio ymhellach y galw am ofal sesiynol cyfrwng Cymraeg a gofal diwrnod llawn yn yr ardal hon.

*Gogledd Ddwyrain Taf Elái*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn yr ardal hon ar gyfer Clybiau ar Ôl Ysgol, ac yna Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast. Mae clwb sefydledig y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon. Mae swyddogion wedi archwilio'r galw posibl am glybiau newydd y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon yn y gorffennol. Fodd bynnag, ni phennwyd y byddai digon o alw i wneud unrhyw ddarpariaeth newydd yn ymarferol. Gallai fod yn ddoeth ailadrodd yr ymarferiad hwn nawr ac ymchwilio i anghenion am ofal y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon.

*De Ddwyrain Taf Elái*

Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast a Chlwb ar Ôl Ysgol eto oedd yr ymatebion mwyaf cyffredin ar gyfer angen a ragwelir am ofal plant yn yr ardal hon. Dywedodd 24 o ymatebwyr hefyd y byddai angen gwasanaethau Clwb Gwyliau arnynt. Hwn oedd yr ail ffigur uchaf ar gyfer y math hwn o ofal plant. Mae gwasanaethau gwyliau ar gyfer plant 4 oed a hŷn yn faes i'w ddatblygu, fel y bu mewn adroddiadau blaenorol Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Yr ardal hon hefyd oedd â'r nifer fwyaf o ymatebion ar gyfer gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg. Gan yr ardal hon y mae'r nifer uchaf o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, fel yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf yn 2017. Fodd bynnag, mae dau Gylch Meithrin wedi cau ers hynny. Mae'r Mudiad Meithrin wrthi'n ailsefydlu un o'r cylchoedd meithrin.


*De Orllewin Taf Elái*

Fel yr ardaloedd eraill, Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast a Chlwb ar Ôl Ysgol oedd y nifer uchaf o ymatebion. Fodd bynnag, yr ardal hon wnaeth dderbyn y nifer fwyaf o ymateb hefyd ar gyfer Meithrinfa Ddydd Breifat, Meithrinfa Ysgol a Chlwb Gwyliau. Yr ardal hon hefyd oedd â'r ail ymateb uchaf ar gyfer Teulu/Ffrindiau (di-dâl). Fel gyda De Ddwyrain Taf Elái, mae angen archwilio'r galw am ofal gwyliau ymhellach.

**Cynorthwyo lleoliadau i farchnata pa wasanaethau y gallant eu cynnig, yn enwedig ar gyfer plant hŷn a'r rheiny ag anableddau**
**Annog yr holl leoliadau i gofrestru gyda DEWIS a diweddaru'u cyfrifon**
**Ymchwilio i fylchau posibl mewn gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg a gofal diwrnod llawn yn Ne Rhondda**
**Ymchwilio i fylchau posibl mewn gofal y tu allan i oriau ysgol yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái**
**Archwilio'r galw am ofal gwyliau wedi'u cofrestru gydag AGC ar gyfer plant 4 oed a hŷn**

## Help tuag at gost gofal plant

Dywedodd 52.2% o ymatebwyr eu bod yn derbyn Talebau Gofal Plant/Gofal Plant Di-dreth i'w helpu gyda chost gofal plant (194). Dilynwyd hyn gan 27.7% a ddywedodd eu bod yn gallu cael yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol (103).




O'r rheiny a roddodd eu codau post, Gogledd Cynon oedd â'r nifer fwyaf o ymatebwyr a oedd yn derbyn yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol (23). De Orllewin Taf Elái oedd â'r nifer uchaf yn defnyddio talebau gofal plant/Cynllun gofal plant Di-dreth (69), ac yna De Ddwyrain Taf Elái (42). Roedd gan Ogledd Cynon a Gogledd Rhondda dri ymatebydd yr un a oedd yn derbyn grant gofal plant ar gyfer myfyrwyr. Roedd gan Dde Cynon, Gogledd Rhondda a De Orllewin Taf Elái un ymateb yr un i ddatgan eu bod yn derbyn cyfraniadau cyflogwr tuag at gost gofal plant, er nad ydynt yn dweud beth mae'r cymorth hwn yn ei olygu.

Dywedodd 34 yn y golofn ymateb testun nad ydynt yn derbyn unrhyw gymorth ariannol gyda chostau gofal plant.

Roedd ymatebion testun eraill yn cynnwys:

- *Rhywfaint o help gyda Chredyd Cynhwysol ond mae ei gael ar ffurf ôl-daliadau yn ei gwneud hi'n anodd iawn, ac nid wyf wedi derbyn y cyfraniad oherwydd camgymeriad nifer o weithiau*
- *Gofal plant di-dreth, gan mai dyna'r cyfan ry'n ni'n gymwys i'w gael. Rwy'n teimlo ei fod wir yn annheg, pe na bai'r un ohonom ni'n gweithio, gallem gael gofal plant di-dâl ond ni fyddai ei angen arnom wedyn gan y byddem yma i ofalu am ein plant – nid yw'r rheolau'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl*
- *Roeddwn i'n derbyn credydau treth plant hyd nes iddyn nhw benderfynu eu bod wedi gordalu £5000 i ni, ac rwy'n gorfod ei dalu'n ôl nawr*
- *Cyllid drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth*
- *Nid wyf yn siŵr beth sydd hawl gen i i'w gael*

Nid oedd unrhyw ymatebion testun yn cyfeirio at Ofal Plant Di-dreth. Cynllun aberthu cyflog yw hwn sy'n cynnig hyd at £2000 y flwyddyn fesul plentyn i rieni tuag at gostau gofal plant. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun yn eithaf isel ar hyn o bryd, a byddai'r diffyg ymatebion yn awgrymu diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth ymhlith rhieni. Byddai hyrwyddo'r cynllun hwn ac egluro'i fuddion yn cynorthwyo llawer o deuluoedd, fel y byddai cynnig gwybodaeth eglur am ba asiantaethau all gynghori rhieni ar y cymorth sydd ar gael.

**Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hyrwyddo cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer costau gofal plant**

**<u>Darpariaeth addysg feithrin am ddim, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant</u>**
Gweler Adran Un ar Bymtheg.

**<u>Adborth ar Facebook</u>**
Cafodd y sylwadau canlynol eu postio ar dudalen Facebook y Cyngor mewn ymateb i hyrwyddo'r arolwg rhieni:

- *Mae'n rhy ddrud*
- *Costus. Mae angen i ofal plant fod am ddim neu mae angen disgownt anferthol i deuluoedd sy'n gweithio*
- *Mae mor anghywir, dylai pobl sy'n gweithio gael mwy o gymorth, mae fy nau deulu i'n gweithio ac nid ydym yn cael unrhyw gymorth gan ein bod yn yr ardal cod post anghywir, eto mae pobl yn byw sy'n byw o amgylch yn ei gael*
- *Mae'n rhy ddrud, dylai rhieni sy'n gweithio gael help*
- *Nid wyf yn deall sut mae'n rhaid i famau sy'n gweithio dalu cyfraddau afresymol am ofal plant am nad ydyn nhw'n byw mewn ardal sy'n gymwys ar gyfer dechrau'n deg,*


*ac eto mae rhai plant yn y cynllun dechrau'n deg ac nid yw'r rhieni hyd yn oed yn gweithio. Nid wyf yn ei ddeall o gwbl, mae'n hurt*

- *Rwyf ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd ac rwy'n wynebu'r pryder a'r realiti'n gyson y bydd rhaid i mi fynd yn ôl i'r gwaith yn gynharach nag yr oeddwn am wneud oherwydd y cyflog mamolaeth ac nad ydym yn gallu byw ar yr arian sy'n cael ei roi. Rwyf i a fy mhartner mewn cyflogaeth amser llawn felly nid ydym yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl er nad yw'r un ohonom mewn swyddi sy'n talu cyflogau uchel. Yn ffodus, nid yw fy mhartner yn dechrau gwaith hyd nes 2, felly bydd yn gallu gofalu am y babi tan hynny, ac rwy'n gorffen gwaith am 3.20pm felly bydd rhaid i ni chwilio am drefniadau amgen ar gyfer yr amser hwnnw; yn y tymor hir bydd rhaid i ni ddechrau chwilio naill ai am crèche neu bydd rhaid i fi adael y swydd rwyf yn ei charu ac wedi bod ynddi ers 7 mlynedd a chwilio am swydd arall sy'n gweithio o amgylch oriau fy mhartner am fod gofal plant mor gostus! Rwy'n ei weld yn annheg nad oes unrhyw gymorth yno gyda'r costau gan ein bod ni'n dau mewn cyflogaeth amser llawn, a'r unig amser y byddai angen y cymorth ychwanegol arnom fyddai o 1.30-3,30 ond byddai'n rhaid i ni dalu am y prynhawn cyfan!*
- *Fe wnes i dalu ychydig o dan £2000 y mis ar gyfer gofal plant gan fod gefeilliaid gen i, ac ni chefais unrhyw gymorth gyda chostau gofal plant, ddim yr un geiniog. Pe bai fy ngŵr neu minnau'n rhoi'r gorau i'n gwaith i ofalu amdanynt, pan fyddent yn dechrau'r ysgol byddem yn chwilio am swyddi ac ni fyddem yn cael y swyddi oedd gennym yn ôl. Rydym yn ei chael hi'n anodd, ac fe wnaethom golli'r blynyddoedd pwysicaf yn bondio gyda'n babanod oherwydd y pryder a'r gorbryder cyson ynglŷn â sut roeddem yn mynd i fforddio talu'r biliau, gweithio a thalu gofal plant. Mae'r ddau ohonom yn gweithio'n amser llawn, yn talu ein trethi, ac arweiniodd at ddim ond un cyflog yn dod i mewn yr un peth ag y byddai pe bai un ohonom yn rhoi'r gorau i weithio a gofalu amdanynt ond gyda swydd ar ddiwedd hynny, roedd yn gyfnod dychrynllyd. Mae'r efeilliaid yn yr ysgol erbyn hyn ac rydym yn cael 30 awr o ofal plant ar gyfer gwyliau ysgol hyd nes y byddant yn 4 oed - sy'n dda, ond mae angen cymorth i rieni sy'n gweithio i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth, nid pan fyddant yn 3 oed.*

# Adran 7: Dosbarthiad Daearyddol

Isod, ceir trosolwg o ddata demograffig a data cyflenwad ym mhob ward yn yr ardaloedd daearyddol a restrir yn Adran Un. Cymerwyd y data yn y tablau isod o’r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth ar gyfer lleoliadau wedi’u cofrestru gydag AGC a data’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer lleoliadau anghofrestredig. Mae’n rhaid cofio mai dim ond 87.0% oedd y gyfradd gwblhau ar gyfer y Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth ymhlith darparwyr RhCT, ynghyd ag 11 o ffurflenni papur ychwanegol a gyflwynwyd i’r Cyngor, felly mae rhai bylchau yn y data. Lle maent yn hysbys, cyfeirir at y cofrestriadau newydd gydag AGC, a gadarnhawyd ers i’r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth gael eu cwblhau, yn y dadansoddiadau o wardiau ac maent wedi’u hamlygu yn felyn.

## Gogledd Cynon




Mae ardal Gogledd Cynon yn cwmpasu’r wardiau yng ngogledd Cwm Cynon o'r Rhigos i lawr i Dde Aberaman. Y brif dref yn ardal hon yw Aberdâr, ac mae hefyd yn cynnwys anheddiad allweddol Hirwaun.

***Poblogaeth***

Mae 20.45% o boblogaeth Gogledd Cynon rhwng 0-17 oed. Yng Ngorllewin Aberdâr/Llwydcoed y ceir y nifer uchaf o’r rhai 0-17 oed (1786) a Rhigos sydd â’r nifer leiaf (304). Fodd bynnag, y ganran uchaf o’r rhai 0-17 oed o gymharu â’r boblogaeth gyffredinol, yw ward Penywaun gyda 24.72% o’r boblogaeth o dan 17 oed, ac yna Hirwaun gyda 21.98%.

Mae rhagor o ddata am y boblogaeth ar gael yn Adran Un ar Ddeg.

***Cyflenwad gofal plant***

Mae’r tablau isod yn dangos nad oes unrhyw warchodwyr plant cofrestredig yn wardiau etholiadol Dwyrain Aberdâr, Hirwaun, Penywaun a Rhigos ar hyn o bryd. Mae croesgyfeirio gyda data wythnosol diweddaraf AGC yn dangos bod gwarchodwr plant ychwanegol wedi cofrestru ers i’r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth gael eu cwblhau, yn ward Dwyrain Aberdâr ac wedi cofrestru i ofalu am 6 o blant. Byddai’n ddoeth ymchwilio ymhellach yn wardiau Hirwaun a Rhigos i bennu a oes galw ychwanegol am wasanaethau gwarchod plant.

## Ymchwilio i'r galw am warchodwyr plant yn wardiau etholiadol Hirwaun a Rhigos

Hefyd, ceir diffyg gofal y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon, ac nid oes unrhyw glybiau y tu allan i oriau ysgol sydd wedi'u cofrestru gydag AGC, na rhai anghofrestredig. Mae angen ymchwilio ymhellach i asesu'r galw.

## Ymchwilio i'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol yn ardal Gogledd Cynon

***Dechrau'n Deg / Addysg cyn-meithrin***

Ar hyn o bryd mae tri o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig yng Ngogledd Cynon, sy'n cyflenwi addysg cyn-meithrin i blant 3 oed. Mae Darparwr Addysg Cofrestredig cyfrwng Saesneg yn ward Penywaun, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog, y ddwy yn Nwyrain Aberdâr.

Mae pedwar o wasanaethau wedi'u comisiynu gan Dechrau'n Deg yn yr ardal hon, un darparwr Gofal sesiynol cyfrwng Saesneg a thri o leoliadau Gofal diwrnod llawn cyfrwng Saesneg.

***Prosiectau cyfalaf***

Mae cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i sefydlu gwasanaethau gofal plant newydd, neu i wella gwasanaethau gofal plant presennol yn yr ardal hon dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ward Hirwaun, defnyddiwyd cyllid cyfalaf Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant i adeiladu cyfleuster gofal plant pwrpasol ar safle ysgol gynradd newydd. Symudodd darparwr presennol i mewn i'r cyfleuster yn 2021 ac mae wedi cynyddu nifer y lleoedd cofrestredig o 19 i 30, ac wedi cynyddu ei wasanaethau i ddarparu ar gyfer galw gan rieni.

Yn ward Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, mae cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd hwn yn cynnig gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gyfer rhyw 30 o blant fesul sesiwn, a bydd yn agor ym mis Medi 2022.

***Dadansoddiad economaidd***

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALIC)[5], mae tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn yr ardal hon sydd ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys un Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd ymhlith yn 10% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Ym Mhenywaun 2 y ceir y nifer uchaf o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm (685) yn ardal Gogledd Cynon, ac yng Ngorllewin Aberdâr/Llwydcoed 6 y ceir y nifer leiaf (55).[6]

***Datblygiadau eraill***

[5] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-Indicator-Data-By-Age/Income-Deprivation-By-Age/?_ga=2.258485642.1882903630.1632733075-270198967.1631896086

[6] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-Indicator-data-2019

Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio llawn ar gyfer datblygiadau tai dros 10 uned wedi'u cymeradwyo yn yr ardal hon rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2021.

| Gogledd Aberaman | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2 | 15 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 1 | 30 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwarae mynediad agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **45** | **0** | **0** |

| De Aberaman | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 3 | 26 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **26** | **0** | **0** |

| Dwyrain Aberdâr | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0<br>1 | 0<br>6 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 3 | 88 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **88** | **0** | **0** |

| Gorllewin Aberdâr / Llwydcoed | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 3 | 23 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 79 | 0 | 0 |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **102** | **0** | **0** |

| **Hirwaun** | **Nifer y lleoliadau AGC** | **Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael** | **Nifer y lleoliadau anghofrestredig** | **Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael** |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 30 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 1 | 70 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **100** | **0** | **0** |

| **Penywaun** | **Nifer y lleoliadau AGC** | **Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael** | **Nifer y lleoliadau anghofrestredig** | **Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael** |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 30 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **30** | **0** | **0** |

| **Rhigos** | **Nifer y lleoliadau AGC** | **Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael** | **Nifer y lleoliadau anghofrestredig** | **Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael** |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 19 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **19** | **0** | **0** |

## De Cynon




Mae ardal De Cynon yn cwmpasu'r ardal o Gwm-bach i Abercynon. Aberpennar yw'r anheddiad allweddol yn yr ardal hon.

***Poblogaeth***
Mae 21.69% o boblogaeth De Cynon rhwng 0-17 oed. Yn Abercynon y ceir y nifer uchaf o'r rhai 0-17 oed (1410) a Dwyrain Aberpennar sydd â'r nifer leiaf (590). Fodd bynnag, y ganran uchaf o'r rhai 0-17 oed o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, yw ward Cwm-bach gyda 28.87% o'r boblogaeth o dan 17 oed, ac yna Penrhiwceiber gyda 22.81% yn ail agos.

Mae rhagor o ddata am y boblogaeth ar gael yn Adran Un ar Ddeg.

***Cyflenwad gofal plant***
Mae'r tablau isod yn dangos nad oes unrhyw warchodwyr plant cofrestredig yn wardiau etholiadol Abercynon a Gorllewin Aberpennar ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw warchodwyr plant ychwanegol wedi cofrestru ers i'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gael ei gwblhau.

**Ymchwilio i'r galw am warchodwyr plant yn wardiau etholiadol Abercynon a Gorllewin Aberpennar**

Mae difffyg gofal y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon hefyd, heb unrhyw glybiau y tu allan i oriau ysgol sydd wedi'u cofrestru gydag AGC. Mae un lleoliad anghofrestredig yn ward Dwyrain Aberpennar. Mae angen ymchwilio ymhellach i asesu'r galw.

**Ymchwilio i'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol yn ardal De Cynon**

***Dechrau'n Deg / Addysg cyn-meithrin***
Ar hyn o bryd mae dau Ddarparwr Addysg Cofrestredig yn Ne Cynon, sy'n cyflenwi addysg cyn-meithrin i blant 3 oed. Mae Darparwr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg yn Nwyrain Aberpennar a darpariaeth ddwyieithog yn ward Penrhiwceiber.

Mae chwech o wasanaethau wedi'u comisiynu gan Dechrau'n Deg yn yr ardal hon, dau ddarparwr Gofal sesiynol cyfrwng Saesneg, tri o leoliadau Gofal diwrnod llawn cyfrwng Saesneg ac un lleoliad Gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg.

***Prosiectau cyfalaf***
Mae cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi’i ddefnyddio i sefydlu gwasanaethau gofal plant newydd, neu i wella gwasanaethau gofal plant presennol yn yr ardal hon dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ward Abercynon, mae cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd wedi’i sefydlu ar safle’r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Agorodd hwn yn Ionawr 2022 ac mae’n cynnig Gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gyfer 24 o blant fesul sesiwn.

***Dadansoddiad economaidd***
Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, mae tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn yr ardal hon sydd ymhlith y 10% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ym Mhenrhiwceiber 1 y ceir y nifer uchaf o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm (645) yn ardal De Cynon, ac yng Nghwm-bach 3 y ceir y nifer leiaf (70).

***Datblygiadau eraill***
Rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2021, cafodd un cais cynllunio llawn ei gymeradwyo yn yr ardal hon ar gyfer deg uned neu fwy. Roedd hwn ar gyfer 17 o unedau yn ward Cwm-bach. Nid yw’n debygol y bydd y datblygiad hwn yn cael effaith sylweddol ar y galw am ofal plant yn yr ardal.

| Abercynon | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 1<br>1 | 26<br>24 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 1 | Anhysbys |
| **Cyfanswm** | **1** | **26** | **1** | **Anhysbys** |


| Cwm-bach | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2 | 16 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 2 | 56 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **72** | **0** | **0** |

| Dwyrain Aberpennar | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2 | 16 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 2 | 85 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 1 | Anhysbys |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **101** | **1** | **Anhysbys** |

| Gorllewin Aberpennar | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 19 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **19** | **0** | **0** |

| Penrhiwceiber | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 30 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 1 | 12 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **42** | **0** | **0** |

## Gogledd Rhondda




Mae ardal Gogledd Rhondda yn cwmpasu cymoedd Rhondda Fawr a Rhondda Fach o ogledd Trealaw. Treorci a Glynrhedynog yw’r aneddiadau allweddol yn yr ardal hon.

***Poblogaeth***

Mae 20.47% o boblogaeth Gogledd Rhondda rhwng 0-17 oed. Yn Nhreorci y ceir y nifer uchaf o’r rhai 0-17 oed (1482) a Maerdy sydd â’r nifer leiaf (684). Fodd bynnag, y ganran uchaf o’r rhai 0-17 oed o gymharu â’r boblogaeth gyffredinol, yw ward Tylorstown gyda 23.34% o’r boblogaeth o dan 17 oed, ac yna Maerdy gyda 22.06%.

Mae rhagor o ddata am y boblogaeth ar gael yn Adran Un ar Ddeg.

***Cyflenwad gofal plant***

Mae’r tablau isod yn dangos nad oes unrhyw warchodwyr plant cofrestredig yn ward etholiadol Glynrhedynog ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ceir darpariaeth dda o warchodwyr plant yng ngweddill ardal Gogledd Rhondda gydag o leiaf un ym mhob ward etholiadol. Byddai’n ddoeth ymchwilio ymhellach yng Nglynrhedynog.

**Ymchwilio i’r galw am warchodwyr plant yn wardiau etholiadol Glynrhedynog a Threorci**

Eto, mae diffyg gofal y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon, heb unrhyw glybiau y tu allan i oriau ysgol wedi’u cofrestru gydag AGC, na chlybiau anghofrestredig. Mae angen ymchwilio ymhellach i asesu’r galw.

Dim ond dau ddarparwr Gofal sesiynol cofrestredig sydd yn ardal Gogledd Rhondda, ac mae’r ddau yn ward Tylorstown. Fodd bynnag, dros y pum mlynedd diwethaf, mae llawer o ddarparwyr Gofal sesiynol wedi newid eu cofrestriad AGC i Ofal diwrnod llawn er mwyn darparu gwasanaethau cofleidiol i blant oedran meithrin. Mae hyn yn wir yn yr ardal hon, fel ardaloedd eraill yn RhCT. Mae tri o ddarparwyr Gofal sesiynol anghofrestredig hysbys yn yr ardal hon. Mae annog yr holl leoliadau anghofrestredig i gofrestru gydag AGC yn flaenoriaeth barhaus.

**Ymchwilio i’r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol a gofal sesiynol yn ardal Gogledd Rhondda.**
**Annog a chefnogi lleoliadau Gofal sesiynol anghofrestredig yng Ngogledd Rhondda i gofrestru gydag AGC**

***Dechrau'n Deg / Addysg cyn-meithrin***
Ar hyn o bryd mae pedwar Darparwr Addysg Cofrestredig yng Ngogledd Rhondda, sy'n cyflenwi addysg cyn-meithrin i blant 3 oed. Mae dau leoliad cyfrwng Saesneg yn wardiau Glynrhedynog a Phentre, a dau Ddarparwr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg, un yn ward Treorci ac un yn Ystrad.

Mae naw o wasanaethau wedi'u comisiynu gan Dechrau'n Deg yn yr ardal hon. Tri o ddarparwyr Gofal sesiynol cyfrwng Saesneg, pedwar o leoliadau Gofal diwrnod llawn cyfrwng Saesneg a dau leoliad Gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg.

***Prosiectau cyfalaf***
Mae cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i sefydlu gwasanaethau gofal plant newydd, neu i wella gwasanaethau gofal plant presennol yn yr ardal hon dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ward Treorci, defnyddiwyd cyllid cyfalaf y Cynnig Gofal Plant i ymestyn a gwella darparwr Gofal diwrnod llawn presennol ar safle ysgol. Roedd y prosiect yn cynnwys adeiladu estyniad, ailwampio gweddill yr adeilad a chreu man agored gwell. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gydag AGC ar gyfer 36 o leoedd, ac ar hyn o bryd mae'n cynnig gofal cofleidiol i blant oedran meithrin a gofal y tu allan i oriau ysgol i blant hyd at 11 oed.

***Dadansoddiad economaidd***
Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, mae saith Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn yr ardal hon sydd ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn Tylorstown 1 y ceir y nifer uchaf o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm (590) yn ardal Gogledd Rhondda, ac ym Mhentre 2 y ceir y nifer leiaf (125).

***Datblygiadau eraill***
Rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2021, cafodd dau gais cynllunio llawn, ac un cais cynllunio amlinellol, eu cymeradwyo yn yr ardal hon ar gyfer deg o unedau neu fwy. Datblygiadau preswyl yn wardiau Ystrad a Threorci oedd y rhain, a throi hen westy yn ward Ystrad yn fflatiau. Fe allai'r cais cynllunio amlinellol yn Ystrad effeithio ar anghenion gofal plant os caiff caniatâd cynllunio llawn ei roi. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn adroddiad diweddaru blynyddol 2023. Mae'r datblygiad arall yn Ystrad, a'r un yn Nhreorci, yn annhebygol o effeithio ar y galw am ofal plant gan yr ymddengys mai fflatiau ydynt ar gyfer meddiannaeth unigol, neu gwpl, ydynt, ac nid teuluoedd â phlant.

| Glynrhedynog | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 38 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad chwarae agored | 1 | 30 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **68** | **0** | **0** |

| Maerdy | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2 | 13 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 26 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **39** | **0** | **0** |

| Pentre | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2 | 17 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 3 | 84 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 1 | Anhysbys |
| **Cyfanswm** | **5** | **101** | **1** | **Anhysbys** |

| Treherbert | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 2 | 19 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 2 | 79 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 1 | Anhysbys |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **98** | **1** | **Anhysbys** |


| Treorci | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|

| | | AGC sydd ar gael | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 1 | 6 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 4 | 92 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **98** | **0** | **0** |

| Tylorstown | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 1 | 6 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 2 | 38 | 1 | Anhysbys |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **44** | **1** | **Anhysbys** |

| Ystrad | Nifer y lleoliadau AGC | Nifer y lleoedd AGC sydd ar gael | Nifer y lleoliadau anghofrestredig | Nifer y lleoedd anghofrestredig sydd ar gael |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 1 | 10 | 0 | 0 |
| Gofal diwrnod llawn | 1 | 24 | 0 | 0 |
| Gofal sesiynol | 0 | 0 | 1 | 25 |
| Gofal y tu allan i oriau ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mynediad chwarae agored | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **34** | **1** | **25** |

**De Rhondda**




Mae ardal De Rhondda yn cwmpasu cymoedd Rhondda Fawr a Rhondda Fach o Gelli a de Stanleytown tuag at Porth. Tonypandy a Phorth yw'r aneddiadau allweddol yn yr ardal hon.

***Poblogaeth***

Mae 20.51% o boblogaeth De Rhondda rhwng 0-17 oed. Ym Mhenygraig y ceir y nifer uchaf o'r rhai 0-17 oed (1179) a Llwynypia sydd â'r nifer leiaf (448). Fodd bynnag, y ganran uchaf o'r rhai 0-17 oed o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, yw ward Cwm Clydach gyda 22.13% o'r boblogaeth o dan 17 oed, ac yna Penygraig gyda 21.33%.

Mae rhagor o ddata am y boblogaeth ar gael yn Adran Un ar Ddeg.

***Cyflenwad gofal plant***

Mae'r tablau isod yn dangos nad oes unrhyw warchodwyr plant cofrestredig yn wardiau etholiadol Cwm Clydach, Cymer, Llwynypia, Penygraig a Threalaw ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw warchodwyr plant newydd ar restr AGC ers i'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gael ei gwblhau. Mae ardal De Rhondda wedi bod yn ardal lle nodwyd angen yn y gorffennol ac mae ymgyrchoedd recriwtio wedi targedu'r ardal hon o'r blaen. Byddai'n ddoeth cynnal ymgyrch o'r newydd yn yr ardal hon.

**Ymgymryd ag ymgyrch recriwtio gwarchodwyr plant yn ardal De Rhondda**

Heblaw am ward Porth, nid oes unrhyw leoliadau cofrestredig y tu allan i oriau ysgol yn yr ardal hon. Mae angen ymchwilio ymhellach i asesu'r galw.

Fel gyda Gogledd Rhondda, mae nifer o ddarparwyr Gofal sesiynol anghofrestredig yn yr ardal hon. Bydd cymorth i gofrestru gydag AGC yn parhau'n flaenoriaeth.

**Ymchwilio i'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol yn ardal De Rhondda.**
**Annog a chefnogi lleoliadau Gofal sesiynol anghofrestredig yn Ne Rhondda i gofrestru gydag AGC**

***Dechrau'n Deg / Addysg cyn-meithrin***

Ar hyn o bryd mae tri Darparwr Addysg Cofrestredig yn Ne Rhondda, sy'n cyflenwi addysg cyn-meithrin i blant 3 oed. Mae un lleoliad cyfrwng Saesneg yng Nghymer, a dau Ddarparwr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg, un yn ward Porth ac un yn Ynyshir.

Mae chwech o wasanaethau wedi'u comisiynu gan Dechrau'n Deg yn yr ardal hon, pedwar o ddarparwyr Gofal sesiynol cyfrwng Saesneg, un lleoliad Gofal diwrnod llawn cyfrwng Saesneg ac un lleoliad Gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg.

***Prosiectau cyfalaf***
Mae cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i sefydlu gwasanaethau gofal plant newydd, neu i wella gwasanaethau gofal plant presennol yn yr ardal hon dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2018, symudodd lleoliad cyfrwng Cymraeg presennol i ardal wedi'i hailwampio o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn wedi darparu safle pwrpasol iddynt a'u galluogi i gynyddu'u lleoedd cofrestredig o 24 i 30 ac ehangu'r gwasanaethau a gynigir.

***Dadansoddiad economaidd***
Adroddodd 75 o'r lleoliadau hyn eu bod wedi cau dros dro unwaith, gydag 16 yn adrodd eu bod wedi cau dros dro ddwywaith, saith lleoliad yn adrodd eu bod wedi cau deirgwaith, a dau leoliad yn adrodd eu bod wedi cau pedair gwaith (hyd at ddyddiad cyflwyno'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2021).

Adroddodd pum lleoliad eu bod wedi cau ar y diwrnod y gwnaethant gyflwyno'u ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth:

- Tri gwarchodwr plant, dau yn Ne Orllewin Taf Elái ac un yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái.
- Un darparwr y Tu allan i oriau ysgol, yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái.
- Un darparwr Chwarae mynediad agored, yn Ne Orllewin Taf Elái.

Adroddodd darparwyr drwy eu ffurflenni Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth fod cyfanswm o 13,798 o ddiwrnodau o wasanaeth wedi'u colli oherwydd achosion o gau yn gysylltiedig â COVID-19 ar yr adeg benodol honno.





| Nifer y diwrnodau a gollwyd yn sgil cau oherwydd COVID-19 yn ôl ARDAL | Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Chwarae mynediad agored | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 420 | 688 | 0 | 0 | 0 | **1108** |
| De Cynon | 0 | 109 | 0 | 0 | 0 | **109** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Rhondda | 109 | 1225 | 161 | 0 | 371 | **1866** |
| De Rhondda | 192 | 494 | 160 | 0 | 0 | **846** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 2022 | 101 | 488 | 506 | 0 | **3117** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 965 | 255 | 488 | 0 | 0 | **1708** |
| De Orllewin Taf Elái | 2233 | 583 | 707 | 554 | 967 | **5044** |
| **Cyfanswm** | **5941** | **3455** | **2004** | **1060** | **1338** | **13798** |

***Achosion o COVID-19 mewn lleoliadau***


Yn ogystal â dyletswydd i hysbysu AGC a Phrofi Olrhain Diogelu, gofynnwyd i'r sector gofal plant yn RhCT i hysbysu tîm datblygu gofal plant yr ALI hefyd am unrhyw achosion positif yn eu lleoliadau, fel bod swyddogion yn gallu cynnig cymorth ac arweiniad. Crëwyd ffurflen ar-lein yn yr Hydref 2020 ac mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hysbysiadau o achosion positif a gyflwynwyd i'r tîm gofal plant rhwng Mawrth 2021 a Chwefror 2022. Rhaid nodi nad data swyddogol Profi Olrhain Diogelu yw hwn ac roedd yn dibynnu ar leoliadau gofal plant yn hysbysu tîm gofal plant y Cyngor. Felly, nid yw'n adlewyrchu'r holl achosion sydd wedi digwydd yn RhCT.




Gellir gweld bod yr amrywiolyn Omicron wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr achosion positif mewn lleoliadau yn ystod Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022. Roedd cynnydd sydyn ym mis Medi hefyd, ac mae'n fwyaf tebygol mai dychwelyd i'r ysgol ar ôl egwyl yr haf oedd i gyfrif am hynny.


| Nifer yr hysbysiadau positif o COVID-19 a adroddwyd i dîm gofal plant RhCT yn ôl ARDAL | Gwarchodwr plant | Gofal diwrnod llawn | Gofal sesiynol | Gofal y tu allan i oriau ysgol | Chwarae mynediad agored | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 6 | 15 | 10 | 0 | 0 | **31** |
| De Cynon | 3 | 18 | 7 | 0 | 0 | **28** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Rhondda | 10 | 34 | 10 | 0 | 0 | **54** |
| De Rhondda | 0 | 27 | 4 | 0 | 0 | **31** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 13 | 10 | 4 | 0 | 0 | **26** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 8 | 37 | 6 | 0 | 0 | **50** |
| De Orllewin Taf Elái | 9 | 47 | 21 | 12 | 0 | **86** |
| **Cyfanswm** | **49** | **188** | **62** | **12** | **0** | **311** |




Gofynnwyd i leoliadau yn ystod eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ynglŷn ag achosion positif yn eu lleoliadau. Mae'r data isod yn adlewyrchu'r sefyllfa hyd at y dyddiad y cyflwynont eu ffurflenni Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Dylid nodi mai fesul lleoliad yw'r data hwn, nid fesul achos unigol, fel uchod.

| **Nifer y lleoliadau sydd wedi cael o leiaf un hysbysiad o achos positif o COVID-19 cyn cyflwyno'u ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **yn ôl ARDAL** | **Gwarchodwr plant** | **Gofal diwrnod llawn** | **Gofal sesiynol** | **Gofal y tu allan i oriau ysgol** | **Chwarae mynediad agored** | **Cyfanswm** |
| Gogledd Cynon | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | **5** |
| De Cynon | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | **3** |
| Gogledd Rhondda | 2 | 5 | 0 | 0 | 0 | **7** |
| De Rhondda | 0 | 5 | 2 | 0 | 0 | **7** |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 8 | 1 | 0 | 0 | 0 | **9** |
| De Ddwyrain Taf Elái | 3 | 7 | 1 | 0 | 0 | **11** |
| De Orllewin Taf Elái | 1 | 6 | 2 | 0 | 0 | **9** |
| **Cyfanswm** | **16** | **29** | **6** | **0** | **0** | **51** |





***Cynaliadwyedd ariannol***

Gofynnwyd i leoliadau hefyd yn y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ynglŷn ag effaith COVID-19 nawr ac yn y dyfodol ar ddarparu'u gwasanaethau. Pan ofynnwyd iddynt pa mor hyderus yr oeddent y byddent yn gallu parhau i gynnal eu gwasanaethau, roedd 65.6% yn weddol hyderus y byddent yn parhau i weithredu am flwyddyn arall neu'n hirach, tra'r oedd 22.9% ddim yn gwybod. Er ei bod yn dda nodi bod mwyafrif y lleoliadau yn rhesymol o hyderus ynglŷn â'r dyfodol, mae'r ganran gymharol uchel o'r rhai nad oedd yn gwybod yn dangos yr ansicrwydd yr oedd darparwyr yn ei deimlo yn haf 2021 y byddent yn goroesi'r pandemig. O'r rhain, roedd y nifer uchaf a ddewisodd 'Ddim yn gwybod' o ardal De Ddwyrain Taf Elái (16), ac yna Gogledd Rhondda (8). Roedd y nifer uchaf o leoliadau a ddewisodd 'Chwe Mis' yn dod o ardal De Rhondda (6), ac yna Gogledd Ddwyrain Taf Elái (4).




Gofynnwyd i leoliadau hefyd a oeddent yn gweithredu ar gapasiti llawn ar yr adeg y cwblhawyd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Dywedodd 64.5% 'ydyn' eu bod yn gweithredu ar gapasiti llawn (124) tra bod 35.4% wedi dewis 'na' (68).  Roedd y nifer uchaf yn gweithredu ar gapasiti llawn yn Ne Ddwyrain Taf Elái (29) a De Orllewin Taf Elái welodd y nifer uchaf o leoliadau nad oeddent yn gweithredu ar gapasiti llawn (21).




***Effaith COVID-19 ar y galw am wasanaethau***

Mae'n anodd gwerthuso effaith hirdymor COVID-19 ar y galw am wasanaethau gofal plant. Mae'r effaith tymor byr wedi bod yn sylweddol. Mae patrymau gweithio rhieni wedi newid, gyda llawer mwy yn gweithio o gartref bellach. Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar ddarparwyr Gofal y tu allan i oriau a darparwyr gofal gwyliau yn arbennig. Hefyd, mae effaith lleoliadau yn cau oherwydd achosion positif a phrinderau staff wedi effeithio ar hyder rhieni i ddefnyddio gwasanaethau gofal plant, felly hefyd yr ofn y bydd eu plentyn yn cael COVID-19 mewn lleoliadau ac yn ei drosglwyddo i aelodau bregus eu teuluoedd.

Rhoddir manylion sylwadau am effaith COVID-19 ar rieni yn Adran Chwech. Mae'r rhain yn amlygu'r anawsterau y mae rhieni wedi'u hwynebu gyda phlant yn methu mynychu lleoliadau gofal plant gyda fawr ddim rhybudd, gorfod hunanynysu fel cysylltiadau agos, a'r cyfyngiadau ar niferoedd ar gyfer clybiau brecwast a gofal ar ôl oriau ysgol a achoswyd gan gynnal swigod.

Ni fydd yr arolwg rhieni a gynhaliwyd yn yr Hydref 2021 yn adlewyrchu anghenion gofal plant rhieni yn llawn gan yr oedd hyblygrwydd o hyd yn nhrefniadau gweithio llawer o rieni. Bydd adroddiad diweddaru gweithredu blynyddol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2023 yn rhoi darlun cliriach o faterion tymor hir gyda'r cyflenwad gwasanaethau gofal plant neu'r galw amdanynt. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sector ac yn ymateb lle bo modd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u bod yn ymarferol.

**<u>Cymorth a ddarparwyd i'r sector gofal plant</u>**

Ceir gwybodaeth am y cymorth a gynigiwyd i'r sector o ganlyniad i COVID yn Adran Wyth.

# Adran 11: Poblogaeth a Chynllun Llesiant Lleol

**Poblogaeth**

Mae set ddata poblogaeth canol-blwyddyn 2020 yn adrodd mai cyfanswm poblogaeth RhCT yw 241,873, sy'n gynnydd o adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 o 1.78% (237,626).[8] Mae 50,098 o blant a phobl ifanc, 0-17 oed yn RhCT, sy'n gyfwerth ag 20.7% o gyfanswm y boblogaeth.

| Ardal | Cyfanswm poblogaeth | | 0-17 oed | | 18-64 oed | | 65+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Gogledd Cynon | 35858 | 14.83% | 7333 | 20.45% | 21193 | 59.10% | 7332 | 20.45% |
| De Cynon | 25331 | 10.47% | 5495 | 21.69% | 15038 | 59.37% | 4798 | 18.94% |
| Gogledd Rhondda | 36255 | 14.99% | 7421 | 20.47% | 21256 | 58.63% | 7578 | 20.90% |
| De Rhondda | 33251 | 13.75% | 6819 | 20.51% | 19931 | 59.94% | 6501 | 19.55% |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 29642 | 12.26% | 5516 | 18.61% | 19043 | 64.24% | 5083 | 17.15% |
| De Ddwyrain Taf Elái | 36710 | 15.18% | 7732 | 21.06% | 21873 | 59.58% | 7105 | 19.35% |
| De Orllewin Taf Elái | 44826 | 18.53% | 9782 | 21.82% | 26686 | 59.53% | 8358 | 18.65% |
| **Cyfansymiau** | **241873** | **100.00%** | **50098** | **20.71%** | **145020** | **59.96%** | **46755** | **19.33%** |


O'r tabl uchod, gellir gweld mai De Cynon, De Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái sydd â phoblogaethau o'r rhai 0-17 oed sy'n uwch na chyfartaledd RhCT.

Isod, mae ffigurau'r boblogaeth 0-17 oed wedi'u dadansoddi yn ôl ystodau oedran *(fel y'u pennwyd yn y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth)*:

| Ardal | O dan 1 oed | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 12-14 oed | 15-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 379 | 375 | 395 | 408 | 425 | 1,235 | 1750 | 1245 | 1121 |
| De Cynon | 287 | 279 | 291 | 284 | 338 | 897 | 1313 | 922 | 884 |
| Gogledd Rhondda | 344 | 373 | 359 | 417 | 428 | 1180 | 1829 | 1295 | 1196 |
| De Rhondda | 340 | 394 | 358 | 364 | 401 | 1143 | 1602 | 1096 | 1121 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 283 | 284 | 293 | 309 | 289 | 937 | 1299 | 935 | 887 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 367 | 371 | 403 | 398 | 416 | 1365 | 1835 | 1339 | 1238 |
| De Orllewin Taf Elái | 411 | 481 | 475 | 496 | 534 | 1735 | 2380 | 1730 | 1540 |

[8] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/wardlevelmidyearpopulationestimatesexperimental

| Cyfansymiau | 2411 | 2557 | 2574 | 2676 | 2831 | 8492 | 12008 | 8562 | 7987 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|




Ar sail poblogaeth yn unig, mae'n ymddangos bod y galw mwyaf am ofal plant ar gyfer plant oed ysgol ar ei uchaf yn Ne Orllewin Taf Elái, De Ddwyrain Taf Elái a Gogledd Cynon. Byddai hyn yn cyfateb i nifer y lleoedd gofal plant y Tu allan i oriau ysgol sydd ar gael yn ardal Taf yn RhCT. Fodd bynnag, nid oes unrhyw leoliadau gofal plant y Tu allan i oriau ysgol yng Ngogledd Cynon ar hyn o bryd, felly dylid ymchwilio i hyn ymhellach.


## Ymchwilio i'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol yng Ngogledd Cynon


***Amcanestyniadau poblogaeth***


Gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth StatsCymru (yn seiliedig ar 2018), amcangyfrifir y bydd poblogaeth RhCT yn **cynyddu** 4.47% erbyn 2041, tra bydd nifer y rhai 0-17 oed yn **lleihau** 3.37%.[9] Mae'r siart isod yn awgrymu y bydd cyfanswm nifer y rhai 0-17 yn parhau'n weddol sefydlog am y pum mlynedd nesaf, cyn dechrau lleihau yn 2027, gan ostwng i isafbwynt o 48,602 yn 2034, cyn cynyddu eto i 48,803 erbyn 2041. Rhagamcenir hefyd y bydd nifer y babanod o dan 1 oed yn gostwng fymryn yna'n parhau'n sefydlog am y pum mlynedd nesaf.

At ddibenion yr Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant, felly, nid yw'n debygol y bydd newidiadau sylweddol yn y galw am wasanaethau gofal plant yn y pum mlynedd nesaf, yn sgil newidiadau arwyddocaol yn y boblogaeth. Fodd bynnag, bydd yr amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn blynyddol yn cael eu monitro dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau nad oes newidiadau sylweddol i'r amcanestyniadau hyn.

[9] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year




**Y Gymraeg**

Am wybodaeth am ganran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, a chynlluniau'r Cyngor i gynyddu gofal plant cyfrwng Cymraeg, cyfeiriwch at Adran Tri.

**Plant ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu**

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ei gweithredu yng Nghymru o fis Medi 2021 a'i nod yw trawsnewid y disgwyliadau, y profiadau a'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ystod oedran bellach yn cwmpasu'r holl blant a phobl ifanc 0-25 oed, ac mae'r Ddeddf yn creu cynllun statudol unigol a fydd yn disodli'r amrywiaeth bresennol o gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol ac mewn addysg bellach. Nod y Ddeddf hefyd yw cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc, cydweithio ymhlith asiantaethau a llunio system symlach a llai gwrthwynebol.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 665 o ddisgyblion, 0 i 19 oed, mewn pedair ysgolion arbenigol, 89 o ddisgyblion hyd at 16 oed mewn unedau anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ac unedau cyfeirio disgyblion, a 460 o ddisgyblion hyd at 16 oed mewn dosbarthiadau cymorth dysgu mewn ysgolion prif ffrwd.

***Fforwm Blynyddoedd Cynnar ADY***

Mae'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar ADY yn fforwm amlasiantaeth sy'n cynorthwyo plant dan oedran ysgol gorfodol sydd ag angen dysgu ychwanegol posibl, neu angen dysgu ychwanegol wedi'i gadarnhau (ADY). Cafodd aelodaeth y fforwm, a'r prosesau a ddilynwyd, eu diwygio yn dilyn penodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn Ionawr 2021, sef elfen allweddol o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

| Fforwm Blynyddoedd Cynnar - Medi 2021-Ionawr 2022 | Nifer y plant |
|---|---|
| Atgyfeiriadau Newydd | 71 |
| Daethpwyd yn ôl i'r fforwm | 45 |
| Panel cynghori | 16 |
| Cychwyn y broses Cynllun Datblygu Unigol (CDU) | 13 |
| Atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r EPS | 14 |
| Atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth pontio | 21 |
| Atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r fforwm Pontio Blynyddoedd Cynnar (anghenion corfforol/meddygol) | 3 |

***Fforwm Pontio'r Blynyddoedd Cynnar (anghenion corfforol a meddygol)***

Mae'r fforwm hwn yn edrych ar blant â CDUau y Blynyddoedd Cynnar a gynhelir gan yr ALI, ac mae'n sicrhau bod trefniadau pontio priodol ar waith ar eu cyfer, boed mynd i ysgol brif ffrwd (lle byddai eu CDU yn mynd yn CDU yn yr ysgol) neu i leoliad arbenigol (dosbarth ysgol arbennig neu gymorth dysgu, lle byddai eu CDU yn parhau i gael ei gynnal gan yr ALI).

Mae'r fforwm hefyd yn edrych ar blant ag anghenion corfforol, meddygol neu synhwyraidd ac yn sicrhau bod y tîm perthnasol yn gwneud yr holl wiriadau angenrheidiol, a gwneir trefniadau ar eu cyfer i bontio i'r ysgol.

*Ymatebwyr i'r arolwg rhieni*

Dywedodd 7.4% o ymatebwyr bod anabledd neu salwch hirdymor gan eu plentyn (61). I'r ymatebwyr hynny a roddodd eu codau post, daeth y rhan fwyaf o ymatebion o ardal De Orllewin Taf Elái (20), yna Gogledd Cynon (10).

Pan ofynnwyd a ydynt yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, nododd rhieni eu bod yn defnyddio clwb sgiliau cymdeithasol Sadwrn, canolfan ymyrraeth gynnar ar gyfer Awtistiaeth a'u bod yn cael cymorth trwy daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau testun ynglŷn ag anawsterau y maent wedi'u hwynebu, megis:

- *Bu'n rhaid torri oriau gwaith gan nad oedd unrhyw opsiynau gofal plant addas yn fy ardal*
- *Mae'n rhaid i fy ngŵr â minnau gymryd gwyliau blynyddol am yn ail gan nad ydym yn gallu dod o hyd i ofal plant addas ar gyfer ein mab sydd ag awtistiaeth*

Pan ofynnwyd pam nad ydynt yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, roedd ymatebion rhieni'n cynnwys:

- *Nid yw'r oriau'n grêt ar gyfer gwaith*
- *Plentyn awtistig sy'n cyfathrebu'n ddieiriau, sy'n cael anhawster mynd gydag unrhyw un arall*
- *Nid yw gofal plant lleol ar gael ac nid yw'n gallu diwallu anghenion cymhleth fy mhlentyn*
- *Mae'r gofal presennol yn symud i ffwrdd ac mae angen dod o hyd i un newydd sy'n gallu diwallu anghenion ein mab*

Dywedodd 9.7% bod angen addysgol arbennig / angen dysgu ychwanegol gan eu plentyn, a bod angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu (79). I'r ymatebwyr hynny a roddodd eu codau post, daeth y rhan fwyaf o ymatebion o ardal De Orllewin Taf Elái (23), yna De Ddwyrain Taf Elái (13).

Roedd y sylwadau testun ar gyfer y grŵp hwn o rieni yn debyg iawn i sylwadau'r rhieni yr oedd anabledd neu salwch hirdymor gan eu plentyn.

**<u>Dadansoddiad o Ardaloedd</u>**

Cyfeiriwch at Adran Saith.

**<u>Cynllun Datblygu Lleol</u>**

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol gan y Cyngor ar gyfer cyfnod 2006-2021 y cynllun. Er bod cyfnod y cynllun ar gyfer y CDLl hwn wedi dod i ben, yn sgil penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru, bydd y CDLl cyfredol yn parhau ar waith hyd nes bod CDLl newydd wedi'i fabwysiadu. Mae CDLl diwygiedig wrthi'n cael ei baratoi gan y Cyngor ond ni fydd yn cael ei fabwysiadu hyd nes 2025 man cynharaf. Felly, mae'r naratif yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y CDLl cyfredol 2006-2021.

Mae’r CDLl yn diffinio tair prif dref yn RhCT:
Aberdâr yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol, a;
Phontypridd a Llantrisant (gan gynnwys Tonysguboriau) yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol.

Mae’r trefi hyn yn ganolfannau pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd trwy weithredu fel pyrth ar gyfer buddsoddiad newydd, arloesi a datblygu cynaliadwy.

Yn ychwanegol at y prif drefi hyn, mae’r CDLl yn diffinio’r aneddiadau allweddol canlynol hefyd:

| Ardal Strategaeth Ogleddol | |
|---|---|
| Hirwaun | Gogledd Cynon |
| Aberpennar | De Cynon |
| Glynrhedynog | Gogledd Rhondda |
| Treorci | Gogledd Rhondda |
| Porth | De Rhondda |
| Tonypandy | De Rhondda |
| **Ardal Strategaeth Ddeheuol** | |
| Llanharan | De Orllewin Taf Elái |
| Tonyrefail | De Orllewin Taf Elái |

Mae’r aneddiadau allweddol yn llai ac yn llai arwyddocaol yn strategol na’r prif drefi, serch hynny, mae’r aneddiadau hyn yn darparu gwasanaethau pwysig ac yn gweithredu fel canolfan ar gyfer gweithgarwch masnachol a chymunedol.

***Safleoedd strategol ac anstrategol***
Mae’r CDLl yn dyrannu wyth Safle Strategol hefyd. Mae’r rhain yn gallu darparu ar gyfer datblygu sylweddol ac maent wedi’u nodi mewn lleoliadau er mwyn hyrwyddo’r cyfleoedd i’r eithaf ar gyfer adfywio cynaliadwy. Mae’r rhain fel a ganlyn:

| Safle | Ward Etholiadol | Ardal |
|---|---|---|
| Tir yn Robertstown / Abernant | Dwyrain Aberdâr | Gogledd Cynon |
| Tir i’r De o Hirwaun | Hirwaun | Gogledd Cynon |
| Hen Waith Phurnacite | De Aberaman | De Cynon |
| Safle Hen Bwll Glo Maerdy | Maerdy | Gogledd Rhondda |
| Safle Hen Bwll Glo Glynrhedynog, Blaenrhondda | Treherbert | Gogledd Rhondda |
| Hen Waith Glo a Golosg Cwm | Tyn-y-nant | De Ddwyrain Taf Elái |
| Mwyndy | Pont-y-clun | De Orllewin Taf Elái |
| Hen Safle Glo Brig Llanilid | Brynna | De Orllewin Taf Elái |

Mae’r CDLl hefyd yn dyrannu safleoedd tai anstrategol ledled y Fwrdeistref Sirol a safleoedd at ddefnyddiau eraill fel cyflogaeth, manwerthu, a seilwaith trafnidiaeth.

Mae enghreifftiau o gynlluniau mawr sydd wedi cychwyn ers y cynllun diwethaf yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Mae datblygiadau preswyl yn cynnwys:
    - Llanilid,
    - Parc Eirin ,
    - Gwern Heulog (estyniad)
    - Hen Ysgol Uwchradd Aberdâr
    - Hen Ysgol Gyfun Blaengwawr yn Aberaman
    - Mae Hen Goleg y Cymoedd, safle Heol Cwmdâr wedi dechrau datblygiad hefyd

- Ar gyfer Cyflogaeth, mae adeilad yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2021
- Mae ZIP World yn Hirwaun wedi'i ddatblygu ac mae'n gweithredu

Mae datblygiadau tai yn y Ddraenen Wen a Rhydyfelin wedi'u cwblhau ers yr adroddiad llawn diwethaf yn 2017. Dros y pum mlynedd diwethaf, sefydlwyd clwb y tu allan i oriau ysgol yn y Ddraenen Wen yn dilyn ceisiadau gan rieni. Oherwydd materion gyda'r lleoliad, nid oedd yn llwyddiannus a chaeodd o fewn ychydig fisoedd. Fodd bynnag, mae'r arolwg rhieni a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi amlygu'r ward etholiadol hon fel ardal sy'n mynnu ymgynghori ychwanegol er mwyn pennu anghenion gofal plant.


Mae datblygiad Llanilid yn ward etholiadol Brynna yn parhau i weld datblygiad tai sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae datblygiad pellach wedi'i gynllunio yn ystod yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant newydd hwn. Mae'r galw am wasanaethau gofal plant wedi cynyddu ers 2017, ac roedd cynnig am gyfalaf yn llwyddiannus i greu cyfleuster Gofal sesiynol dwyieithog yn yr ysgol gynradd leol. Mae estyniad i'r ysgol hon wedi'i gynllunio fel rhan o'r datblygiad hwn. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, bydd y galw am ofal plant ychwanegol, wrth i fwy o dai gael eu hadeiladu, yn cael ei fonitro.

| **Ymchwilio ymhellach i anghenion gofal plant yn ward etholiadol y Ddraenen Wen** |
|---|
| **Monitro'r galw am ofal plant a grëir gan ddatblygiad tai Llanilid** |

***Yr adran gynllunio***

Gan ddefnyddio data ar dai, mae 2296 o gartrefi wedi'u cynllunio rhwng 2021 a 2026, ac mae 573 o'r rheiny yn dai cymdeithasol, gyda'r 1723 sy'n weddill yn dai preifat.

Mae'r ceisiadau cynllunio tai canlynol, ar gyfer deg uned neu fwy, wedi'u cymeradwyo yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae dadansoddiad o effaith bosibl ar y galw am ofal plant ar gael yn Adran Saith.




Nid yw ceisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd cynllunio llawn cyn 2020 ond nad ydynt wedi dechrau adeiladu eto, yn cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn. Bydd y rhain yn cael eu monitro i sicrhau yr eir i'r afael lle bo modd ag unrhyw effaith ar gyfer y galw am ofal plant ychwanegol.

**Creu swyddi / colli swyddi**

Ymgynghorwyd â staff y Ganolfan Byd Gwaith ynglŷn â nifer sylweddol o achosion o golli swyddi a chreu swyddi yn y pum mlynedd diwethaf a allai gael effaith ar y galw am ddarpariaeth gofal plant. Mae adborth o'r Ganolfan Byd Gwaith yn awgrymu mai'r duedd a welir yn fynych ar hyn o bryd yw recriwtio yn hytrach na lleihau swyddi.

***Creu swyddi***

Mae atyniad newydd i dwristiaid wedi agor yng Ngogledd Cynon, gan greu dros 50 o swyddi. Mae'r rhain yn debygol o fod yn swyddi lleol gyda chymysgedd o oriau gweithio rhan-amser ac amser llawn. Nid oes unrhywbeth i awgrymu y bydd yr atyniad newydd hwn yn creu galw am wasanaethau gofal plant na ellir darparu ar ei gyfer gan wasanaethau presennol yn yr ardal hon. Mar gwaith deuoli'r A465 ar draws yr ardal hon wedi creu rolau yn y sector peirianneg sifil hefyd. Ar ei anterth, rhagwelir y bydd y prosiect hwn yn creu hyd at 500 o swyddi ar gyfer y gweithlu lleol o RhCT a'r ALlau o amgylch. Rhagamcenir y bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn 2025.

Mae ailddatblygu safle yng nghanol Pontypridd i greu adeilad Llys Cadwyn wedi gweld adleoli oddeutu 400 o swyddi presennol i'r safle hwn, a chreu 200 o swyddi newydd yn ystod 2022/23 yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái. Gwasanaethau gofal plant cyfyngedig sydd i'w cael yng nghanol Pontypridd. Fodd bynnag, mae gwasanaethau yn yr ardaloedd o amgylch ar y llwybrau teithio i'r gwaith a allai ddarparu ar gyfer unrhyw alw ychwanegol y gallai'r datblygiad hwn ei greu. Mae ailddatblygu'r adeiladu YMCA yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cyfleuster gofal plant a fydd hefyd yn darparu capasiti gofal plant ychwanegol i staff sy'n gweithio yno.

Mae datblygiad Tŷ Taf yn ardal De Ddwyrain Taf Elái wedi gweld gweithwyr sector cyhoeddus presennol yn trosglwyddo o safleoedd eraill i'r lleoliad hwn. Mae dros 1000 o

staff wedi'u lleoli ar y safle hwn ar hyn o bryd, gyda 600 arall i ddilyn erbyn mis Mawrth 2023. Gall agor darpariaeth Gofal diwrnod llawn yn Haf 2020 ar Ystad Ddiwydiannol Trefforest ddarparu ar gyfer unrhyw alw ychwanegol mewn gwasanaethau gofal plant y gallai hyn ei greu.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau mawr hyn, mae'r sectorau gweithgynhyrchu, cynhyrchu, lletygarwch, logisteg a'r sector gofal i gyd wedi gweld cynnydd mewn swyddi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r pandemig a newidiadau i reolaeth cyflogaeth ers gadael yr UE, wedi creu prinderau staff mewn rhai o'r sectorau hyn. Mae staff y Ganolfan Byd Gwaith wedi cynghori bod cyflogwyr yn cynnig contractau mwy hyblyg a phatrymau shifft, yn ogystal â thrafnidiaeth wedi'u hariannu/am ddim er mwyn denu gweithwyr i lenwi'u swyddi gweigion.

***Colli swyddi***

Bu rhai diswyddiadau ymhlith cwmnïau yn RhCT ers y pandemig. Fe wnaeth cyflogwr mawr yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái droi 30 o staff o'u swydd ar ddiwedd 2020, tra bod cyflogwr â safleoedd ar draws RhCT wedi cau cyfleuster ar ddechrau 2021 gan beri colli 30 o swyddi. Roedd y prif golledion swydd adeg ysgrifennu'r adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn gysylltiedig â'r ymateb i bandemig COVID-19, gydag oddeutu 130 o rolau yn dod i ben o fewn y gwasanaethau Profi Olrhain Diogelu a chanolfannau cynnal profion COVID-19.

## Cynllun Llesiant

Cynllun Lles Cwm Taf 2018-2023 yw penllanw'r asesiad lles a gynhaliwyd yn 2018 ar ôl cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf 2020-21 yn nodi'r heriau y mae'r pandemig wedi'u creu a sut mae gwasanaethau wedi addasu i ddiwallu anghenion trigolion. Bydd Asesiad Lles newydd ar gyfer Cwm Taf Morgannwg yn cael ei gyhoeddi ym Mai 2022 a fydd yn llywio'r Cynllun Lles o 2023 ymlaen.

Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cefnogi amcanion y Cynllun lles, ac yn benodol:

***Lles diwylliannol***

Bydd cefnogi cyflenwi darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'u nodau lles diwylliannol yng Nghwm Taf. Mae ystod dda o ddarparwyr gofal plant sesiynol a thu allan i oriau ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg gan RhCT. Mae llawer o'n lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru gydag Estyn i ddarparu addysg feithrin i blant tair oed nad ydynt yn gallu cael lle cyn-meithrin mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir. Mae hyn yn helpu i gefnogi darparu a datblygu'r Gymraeg yn RhCT ac mae'n rhoi dewis hanfodol i rieni sydd am i'w plant fod yn ddwyieithog. Mae'r buddsoddiad cyfalaf diweddar wedi gwella ymhellach ystod a hygyrchedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

***Lles economaidd***
Mae cyswllt anorfod rhwng cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi â lles economaidd trigolion Cwm Taf. Mae gan yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant rôl hanfodol i sicrhau bod gofal plant digonol ar gael fel y gall rhieni gael mynediad i'r cyfleoedd hyn ac nad yw diffyg gofal plant yn rhwystr rhag gwella lefelau tlodi. Mae natur ddaearyddol RhCT yn gwneud cysylltiadau teithio'n anodd ac yn anoddach i rieni i gael cyflogaeth. Mae sicrhau bod darpariaeth gofal plant wedi'i lleoli lle mae ei hangen ar rieni i fynd i waith neu hyfforddiant yn flaenoriaeth barhaus ar gyfer swyddogion. Hefyd, bydd cyfleoedd hyfforddi'n gysylltiedig â gofal plant yn helpu trigolion Cwm Taf i wella eu lles economaidd a rhoi iddynt y sgiliau i weithio yn y sector gofal plant. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r tîm datblygu gofal plant yn RhCT wedi cynyddu ystod y cyrsiau hyfforddi, ac mae pecyn cymorth gwarchodwr plant newydd ar gael sy'n cynorthwyo i uwchsgilio trigolion. Mae datblygiad hyfforddiant ar-lein, yn sgil y pandemig, wedi cael yr effaith gadarnhaol o gynyddu argaeledd hyfforddiant i drigolion nad ydynt yn gallu teithio i leoliadau hyfforddiant.

***Lles amgylcheddol***
Amgylcheddau awyr agored diogel mewn lleoliadau gofal plant a chwarae yw'r unig gyfle y mae plant yn ei gael i chwarae yn yr awyr agored weithiau. Mae datblygu mannau awyr agored yn ein darpariaeth gofal plant a chwarae yn flaenoriaeth barhaus i swyddogion yn RhCT a bydd yn helpu cefnogi nodau lles amgylcheddol Asesiad Lles Cwm Taf. Mae'r buddsoddiad cyfalaf sydd wedi bod ar gael dros y pum mlynedd diwethaf wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfleusterau a mannau chwarae awyr agored dros 80 o leoliadau gofal plant yn RhCT. Hefyd, mae cyllid ar gyfer cysgodfeydd/ canopïau awyr agored wedi galluogi lleoliadau wneud defnydd o'u man awyr agored unrhyw adeg o'r flwyddyn, a oedd yn hanfodol yn ystod COVID-19 i gefnogi canllawiau mesurau diogelu.

***Lles cymdeithasol***
Gall darparu amgylcheddau diogel ac ysgogol i blant eu diogelu rhag effeithiau niweidiol amddifadedd cymdeithasol. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghymru wedi'i chynllunio'n benodol i sicrhau nad yw plant o ardaloedd o amddifadedd dan anfantais ac y gallant gael yr un cyfleoedd mewn lleoliadau gofal plant ac addysg â'u cyfoedion o gefndiroedd mwy cefnog. Bydd ehangu Dechrau'n Deg o'r Hydref 2022 yn cefnogi pob plentyn dwy oed yn y pen draw i gael gofal plant o ansawdd uchel sy'n cefnogi'u datblygiad.

Mae lleoliadau gofal plant a chwarae yn gyfle delfrydol hefyd i blant a phobl ifanc wneud ymarfer corff drwy gael hwyl a chwarae, a lle gallant ddysgu am fwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw.

## Cynllun Corfforaethol CBSRhCT
Mae Cynllun Corfforaethol CBSRhCT 2020-2024 'Gwneud Gwahaniaeth' yn ymgorffori gweledigaeth y Cyngor i wneud RhCT "y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus". Tair prif flaenoriaeth y cynllun yw:

***Sicrhau bod Pobl: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus***

Mae gwella gwasanaethau i blant yn anhepgor i'r uchelgais hwn. Bydd gwasanaethau gofal plant o ansawdd uchel, gyda staff â'r cymwysterau addas, yn cefnogi'r nod hwn ac yn cynorthwyo plant gyda'u datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf a fydd yn helpu sicrhau bod y sector gofal plant yn RhCT yn parhau i dyfu a gwella.

***Creu Lleoedd: lle mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw***

Mae'r buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau gofal plant dros y pum mlynedd diwethaf wedi gwella cyfleusterau i blant a staff. Mae gwella mannau chwarae yn yr awyr agored wedi creu amgylcheddau lle gall plant fwynhau'r awyr agored a dysgu llawer o sgiliau gwerthfawr. Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi nodi meysydd i'w datblygu ymhellach y gellir eu rhoi ar waith os sicrheir buddsoddiad cyfalaf pellach.

***Galluogi Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu***

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi gweld ffocws ar ddatblygu gwasanaethau gofal plant ar safleoedd ysgol. Mae hyn yn cefnogi'r pontio i blant o ofal plant i'r ysgol, ac mae'n cynorthwyo rhieni sy'n cael tawelwch meddwl y gall eu plant aros ar un safle drwy'r dydd, ac yn cynorthwyo staff gofal plant sy'n gweithio mewn cyfleusterau pwrpasol a diweddar. Mae'r buddion economaidd wedi cynnwys lleoliadau gofal plant yn gallu ehangu'u gwasanaethau, gan gynyddu nifer y staff y maen nhw'n eu cyflogi felly, ac mae wedi galluogi rhieni i weithio am gyfnodau hirach gan nad oes rhaid iddynt gludo'u plant o un lleoliad i'r llall.

# Adran 12: Dadansoddiad o Fylchau a Chrynodeb o Anghenion heb eu Bodloni

***Darpariaeth gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol***

Mae gofal plant y tu allan i'r wythnos waith nodweddiadol wedi'i amlygu fel bwlch mewn adroddiadau blaenorol Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r un bylchau. Gwarchodwyr plant sy'n parhau i gynnig yr hyblygrwydd mwyaf i rieni y mae angen gofal arnynt y tu allan i oriau masnachu arferol. Mae 78% o warchodwyr plant yn agor cyn 8am yn ystod diwrnodau'r wythnos adeg tymor (72% yn ystod gwyliau) ac mae 10% yn agor ar ôl 6pm (9% yn ystod gwyliau). Dim ond 3% sy'n agor ar benwythnosau yn ystod y tymor, ac nid oes unrhyw un yn agor yn ystod gwyliau ysgol. Mae 42% o ddarparwyr Gofal diwrnod llawn yn cynnig gofal cyn 8am ar ddiwrnodau'r wythnos, ond dim ond 1% sy'n cynnig gofal ar ôl 6pm. Nid oes unrhyw ddarparwyr Gofal diwrnod llawn yn cynnig gofal ar ddiwrnodau'r wythnos. Nid oes unrhyw ddarparwyr gofal plant yn RhCT yn cynnig gofal dros nos.

Pan ofynnwyd iddynt sut gellid gwella eu trefniadau gofal plant presennol, dywedodd 18.4% o ymatebion i'r arolwg rhieni eu bod yn ymestyn oriau yn gynnar yn y boreau (12), dywedodd 24.6% eu bod yn ymestyn oriau min nos (16) a dywedodd 10.7% eu bod yn ehangu i gwmpasu penwythnosau (7). Dim ond 4.6% ddywedodd eu bod yn cynnig gofal dros nos (3). Dywedodd 13.3% nad ydynt yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd am fod yr amserau'n anaddas (47). Er gwaetha'r ymatebion hyn, mae'n debygol mai'r realiti yw bod galw annigonol i wneud unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn gynaliadwy i ddarparwyr. Dylid ymgymryd â gwaith pellach i asesu'r gwir angen am oriau gofal plant annodweddiadol ac i gynorthwyo darparwyr i ddarparu ar gyfer hyn os yw'r galw'n ddigonol i sicrhau hyfywedd.

**Ymgymryd ag ymgynghori pellach ynglŷn â'r galw am ofal plant yn ystod oriau annodweddiadol**
**Cynorthwyo darparwyr gofal plant i gynnig gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol mewn ardaloedd â galw dynodedig ac i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn yn effeithiol**

***Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg***

Mae gan RhCT ystod dda o ofal sesiynol (gan gynnwys y rheiny sydd wedi cofrestru fel darparwyr Gofal diwrnod llawn ond sy'n darparu gofal sesiynol yn unig ar hyn o bryd) a gofal y Tu allan i oriau ysgol, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae buddsoddiad cyfalaf ers yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf wedi gwella nifer y lleoedd sydd ar gael, ac ansawdd y lleoliadau, gryn dipyn. Dywedodd 3.7% o ymatebion rhieni nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau gofal plant am nad oedd unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg addas ar gael (13). O'r ymatebion a roddodd eu codau post, roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn ardal Gogledd Rhondda (3), ac yna Gogledd Cynon, De Rhondda, Gogledd Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái (2 yr un).

Ers cynnal yr arolwg rhieni, mae gwasanaethau gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg newydd wedi agor yn ardaloedd Gogledd Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái. Yn ogystal, mae gwasanaeth gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg newydd i'w agor yng Ngogledd Cynon ym mis Medi 2022. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ar gyfer gofal plant o 2 i 4 oed. Mae ystodau oedran y plant yn yr ymatebion rhieni'n awgrymu bod gofal i blant dan 2 oed a phlant oed ysgol gynradd yn angen i'r teuluoedd hyn. Mae diffyg gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau cyfrwng Cymraeg, sydd wedi'u cofrestru gydag AGC eisoes yn angen sydd wedi'i ddynodi, a bydd yn parhau i fod yn un o'r prif flaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf. Mae rhai lleoliadau cyfrwng Cymraeg eisoes wedi dechrau ehangu eu gwasanaethau i ddarparu ar gyfer plant o dan 2 oed, a bydd y Cyngor yn parhau i'w cynorthwyo i wneud hyn lle ceir galw digonol.

**Archwilio a oes gofyn am ofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardal De Rhondda**
**Cynorthwyo lleoliadau i ymestyn gwasanaethau i blant o dan ddwy oed mewn ardaloedd lle ceir angen dynodedig**
**Cynorthwyo clybiau anghofrestredig cyfrwng Cymraeg, y tu allan i oriau ysgol, i gofrestru gydag AGC ac i ehangu gwasanaethau i ofal gwyliau mewn ardaloedd lle ceir galw dynodedig**

***Darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau iaith gwahanol***

Heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg, dywedodd wyth o ddarparwyr gofal plant, y cyfan yn warchodwyr plant, yn eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, eu bod yn defnyddio ieithoedd eraill yn eu gwasanaeth. Ffrangeg (2) ac Eidaleg (3) oedd yr ieithoedd mwyaf cyffredin a siaradwyd, ac yna Pwyleg, Sbaeneg a Shona (1 ymateb yr un). Mae pob un o'r gwarchodwyr plant hyn, ac eithrio un, yn byw yn ardal Taf Elái o RhCT, gyda thri yn byw yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái, tri yn Ne Ddwyrain Taf Elái ac un yn Ne Orllewin Taf Elái. Mae un gwarchodwr plant arall yn byw yng Ngogledd Rhondda.

Dywedodd tri ymateb (0.8% o gyfanswm yr ymatebion) yn yr arolwg rhieni nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd gan nad oedd darpariaeth addas yn eu hiaith, ac nid y Gymraeg na'r Saesneg oedd honno. Nid yw'r ymatebion yn dweud pa iaith y byddent yn hoffi i'w gofal plant ei defnyddio. Roedd y rheini hyn yng Ngogledd Rhondda, De Rhondda a De Ddwyrain Taf Elái, ac roedd eu plant yn 5-8 oed a 12-17 oed yn bennaf. Byddai hyn yn awgrymu bod angen gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau ar gyfer y rhieni hyn.

Nid oes digon o alw ar hyn o bryd i warantu archwilio datblygu darpariaeth gofal plant mewn unrhyw ieithoedd heblaw am Saesneg neu Gymraeg. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn archwilio cyfleoedd hyfforddi i ddarparwyr i gynyddu'u hamrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. Hefyd, byd yr holl ddarparwyr gofal plant yn cael eu hannog i wneud defnydd llawn o farchnata pwyntiau gwerthu unigryw, fel defnyddio ieithoedd ychwanegol yn eu lleoliadau.

**Cynnig hyfforddiant amrywiaeth i ddarparwyr gofal plant er mwyn gwella cynhwysiant mewn lleoliadau**

**Cynorthwyo darparwyr gofal plant i farchnata pwyntiau gwerthu unigryw i rieni, fel defnyddio ieithoedd ychwanegol**

***Mathau o ofal plant sydd ar gael a lleoliad***

Mae bylchau daearyddol a bylchau o ran math o ofal plant yn y ddarpariaeth wedi'u nodi yn Adran Saith. O'r arolwg rhieni, mae'n ymddangos bod galw am ofal y tu allan i oriau ysgol, gan fod y pandemig wedi cael effaith arbennig o niweidiol ar y math hwn o ofal plant. Mae angen ymchwilio ymhellach yn holl ardaloedd RhCT, heblaw am Dde Ddwyrain Taf Elái a De Orllewin Taf Elái. Mae annog lleoliadau anghofrestredig gofal y tu allan i oriau ysgol i gofrestru gydag AGC yn parhau yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

Mae recriwtio gwarchodwyr plant ychwanegol yn flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf hefyd, eto yn holl ardaloedd RhCT, ond yn enwedig yn Ne Rhondda.

Mae'n ymddangos bod bwlch yn y gwasanaethau Gofal sesiynol yn ardal Gogledd Rhondda y mae angen ymchwilio ymhellach iddo. Efallai bod darparwyr anghofrestredig Gofal sesiynol, sydd eisoes yn yr ardal hon ac yn Ne Rhondda, yn darparu ar gyfer unrhyw alw heb ei fodloni. Fodd bynnag, bydd annog a chynorthwyo'r lleoliadau hyn i gofrestru gydag AGC yn sicrhau y gall rhieni ddefnyddio cymorth ariannol gyda'u ffioedd gofal plant, ac y gallant fod yn hyderus bod eu plentyn yn cael gofal gan staff â chymwysterau addas sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, dim ond dwy Nani sydd ar y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref yn RhCT, ac mae'r ddwy yn Ne Orllewin Taf Elái. Blaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf fydd ymgysylltu â'r Nanis hyn a chynnig y lefel cymorth a hyfforddiant iddynt sydd ar gael i'r holl leoliadau gofal plant eraill. Bydd gwaith hyrwyddo'n cael ei wneud hefyd i annog nanis nad ydynt ar y cynllun ar hyn o bryd i gofrestru fel y gellir cynnig cymorth iddynt gan y tîm datblygu gofal plant ac y gall eu cleientiaid gael cymorth ariannol drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a mentrau eraill.

**Archwilio'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol**
**Parhau i hyrwyddo gwarchod plant fel dewis busnes cadarnhaol**
**Archwilio'r galw am Ofal sesiynol yng Ngogledd Rhondda a De Rhondda.**
**Cynorthwyo lleoliadau anghofrestredig presennol yn yr ardaloedd hyn i gofrestru gydag AGC**
**Ymgysylltu â nanis presennol ynghylch y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a hyrwyddo buddion cofrestru i nanis eraill yn RhCT**

***Oedran plant y mae gofal plant ar gael iddynt***

Dywedodd 11.7% o ymatebion rhieni nad oeddent yn defnyddio gofal plant am nad oedd gofal plant addas ar gael ar gyfer oedran eu plentyn (41). O'r rhain, roedd gan y rhan fwyaf blant 5-8 oed (28), ac yna 9-11 oed (11). Byddai hyn yn awgrymu mai gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau yw'r math o ofal plant sydd ei angen fwyaf ar y rhieni hyn. Gogledd Rhondda oedd â'r nifer uchaf o ymatebwyr ar gyfer plant 5-8 oed (8), ac yna De Ddwyrain Taf Elái (6). Mae nifer o glybiau sefydledig Gofal y tu allan i oriau ysgol yn yr ardaloedd hyn,

felly bydd angen gwneud mwy o ymchwil i bennu a oes galw ychwanegol yn yr ardaloedd hyn.

Ers yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, mae cyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru wedi arwain at ehangu sylweddol yn y gwasanaethau ar gyfer plant 3 a 4 oed, gan gynnwys gofal cofleidiol yn y prynhawniau, a lleoliadau yn ehangu i gynnig gofal gwyliau. Mae llawer o ddarparwyr Gofal sesiynol wedi ailgofrestru gydag AGC fel darparwyr Gofal diwrnod llawn er mwyn cynnig gwasanaethau ychwanegol ar gyfer y cynllun hwn. Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn y lle cyntaf fod ehangu'r Cynnig wedi cael effaith niweidiol ar nifer y lleoedd Dechrau'n Deg oedd ar gael. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod hwn wedi datrys ei hun ac mae cydweithwyr Dechrau'n Deg wedi adrodd nad yw hyn yn broblem ar hyn o bryd. Bydd cyflwyno'r cynllun Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed yn effeithio ar leoedd sydd ar gael i grwpiau oedran eraill, a dylid monitro hyn yn fanwl.

**Archwilio galw ychwanegol am ofal y tu allan i oriau ysgol a gofal gwyliau yn ardaloedd Gogledd Rhondda a De Ddwyrain Taf Elái**
**Monitro effaith cyflwyno Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed ar leoedd ar gyfer grwpiau oedran eraill**

***Fforddiadwyedd gofal plant***

Gydag adroddiadau Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant blaenorol, mae adborth gan rieni'n awgrymu bod cost gofal plant yn rhy ddrud iddynt. Yn yr arolwg rhieni ar gyfer yr adroddiad hwn, dywedodd 43.4% o rieni nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd am fod cost gofal plant yn rhy ddrud (152). O'r holl rieni, roedd 65.1% yn cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae gofal plant yn rhy ddrud' (515), tra'r oedd 21.4% ychwanegol yn tueddu cytuno â'r datganiad hwn (169). Trwy gydol yr arolwg, adroddodd ymatebion testun bod cost gwasanaethau gofal plant yn cael ei hystyried yn rhy uchel.

Mae nifer y darparwyr anghofrestredig Gofal sesiynol a Gofal y tu allan i oriau ysgol yn RhCT yn golygu nad yw rhieni'n gallu manteisio ar gymorth ariannol ar gyfer eu costau gofal plant. Mae cynorthwyo'r lleoliadau hyn i gofrestru gydag AGC yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor a byddai'n helpu teuluoedd i gael gofal plant rheoledig ar gyfradd fforddiadwy.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth rhieni o fanteision defnyddio darpariaeth gofrestredig yn flaenoriaeth hefyd, ac felly hefyd hyrwyddo cynlluniau fel Gofal Plant Di-dreth, ac mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn parhau'n flaenoriaeth. Mae ymatebion y Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth yn awgrymu bod 79% (151) o leoliadau cofrestredig yn RhCT, ar hyn o bryd, yn derbyn Gofal Plant Di-dreth neu dalebau gofal plant gan y cyflogwr. O'r rhain, lleoliadau Gofal sesiynol yw'r math o ofal plant sy'n lleiaf tebygol o'u derbyn, gydag ond 52% (13) o ymatebion yn dweud eu bod yn eu derbyn. Mae cynorthwyo darparwyr gofal plant, yn enwedig darparwyr Gofal sesiynol, i gofrestru gyda'r cynllun Gofal Plant Di-dreth yn flaenoriaeth hefyd.

Yn ddiau, bydd ehangu Dechrau'n Deg i gynnwys pob plentyn dwy oed yn cynorthwyo mwy o deuluoedd i gael gwasanaethau gofal plant. Bydd sicrhau ymgysylltu â digon o ddarparwyr gofal plant i ehangu'u darpariaeth yn flaenoriaeth barhaus dros y pum mlynedd nesaf.

**Ymgysylltu â, a chynorthwyo, lleoliadau gofal plant anghofrestredig i gofrestru gydag AGC**
**Parhau i hyrwyddo buddion defnyddio gwasanaethau gofal plant cofrestredig i rieni**
**Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hyrwyddo cynlluniau cymorth ariannol sydd ar gael i rieni â chostau gofal plant**
**Cynorthwyo darparwyr gofal plant, yn enwedig darparwyr gofal sesiynol, i dderbyn Gofal Plant Di-dreth a thalebau gofal plant gan gyflogwyr**
**Gweithio gyda'r sector gofal plant i annog cyfranogiad wrth gyflwyno Dechrau'n Deg**

# Adran 13: Rhwystrau rhag Darpariaeth Gofal Plant

Mae ymatebion o'r arolwg rhieni wedi'u defnyddio fel y sail ar gyfer asesu rhwystrau rhag gwasanaethau gofal plant.

***Rhieni sy'n gweithio***

O'r ymatebwyr hynny sy'n cael eu cyflogi neu sy'n hunangyflogedig, roedd rhwystrau rhag cael darpariaeth gofal plant yn cynnwys:

- *Wedi ceisio cynyddu gofal plant gyda darparwr presennol ond methu yn sgil lleoedd cyfyngedig.*
- *Cyn ysgol ac ar ôl ysgol, gofal plant cyfyngedig y tu allan i oriau ysgol a dim darpariaeth Gymraeg addas.*
- *Cyn i ni ofyn i deulu helpu, roedd costau gofal plant yn afresymol er bod y ddau ohonom ni'n gweithio. Nid oedd yr oriau'n addas ychwaith oherwydd nid oeddwn i'n gallu cyrraedd yno mewn pryd i'w chasglu hi erbyn eu bod yn cau, a hefyd maent yn codi fesul munudau / 5 munud rydych chi'n hwyr.*
- *Mae'r clwb brecwast yn dechrau'n rhy hwyr i mi allu mynd i'n swydd yn brydlon, felly bu'n rhaid i mi ddod o hyd i swydd arall, ond mae'n anodd ar gyfer swyddi nyrsio. Mae gwarchodwyr plant yn rhy ddrud.*
- *Clwb brecwast. Lwc pur os ydw i'n cael lle. Rwy'n gwerthfawrogi ei fod yn ddi-dâl, ond dylai fod rhai lleoedd talu gan yr ysgol. Byddai hyn yn rhoi cymhorthdal i leoedd am ddim ac yn gwella ansawdd y brecwast.*
- *Mae gofal plant yn rhy ddrud o lawer ac nid yw'n werth mynd i'r gwaith i dalu costau rhywun i ofalu am y plant.*

**Ymateb** – Mae gofal cyn ysgol ac ar ôl ysgol, a chost gofal plant i weld yn bryderon arbennig i rieni sy'n gweithio. Mae'r pandemig wedi effeithio'n niweidiol ar ofal y tu allan i oriau ysgol, gan fod llawer o leoliadau'n rhannu mannau cymunedol sydd â mynediad cyfyngedig iddynt. Mae Clybiau Brecwast Di-dâl Llywodraeth Cymru'n cael eu defnyddio gan lawer o rieni sy'n gweithio hefyd, ac mae'n ymddangos bod cyfyngiadau i gael mynediad i'r rheiny yn ystod y pandemig wedi achosi anawsterau. Wrth i gyfyngiadau lacio, dylai'r cyfleusterau hyn ddod ar gael mwy i rieni eto. Fodd bynnag, mae angen amlwg i ymchwilio ymhellach i'r galw am ofal y tu allan i oriau ysgol.

O ran cost gofal plant, mae nifer o gynlluniau ariannol ar gael i gynorthwyo rhieni gyda'r costau. Mae'n ddoeth cynyddu'r ymdrech i hyrwyddo'r rhain er mwyn sicrhau bod rhieni'n gwybod pa gymorth sydd ar gael, a ble gallant ei gael.

**Ymchwilio ymhellach i'r galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol**
**Gwella hyrwyddo cynlluniau ariannol sydd ar gael i rieni â chostau gofal plant**

***Rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddi***

O’r ymatebwyr hynny sy’n chwilio am swydd ond nad ydynt yn gweithio eto, pan ofynnwyd iddynt pam nad ydyn nhw’n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- *Gan i mi gael fy rhoi ar ffyrlo, fe wnaethom golli ein lle gyda’n gwarchodwr plant, wedyn ’doedd gen i ddim gofal plant pan ofynnwyd i mi ddychwelyd i’r gwaith, ac arweiniodd hynny at golli fy swydd.*
- *Mae boreau cynnar yn anodd. Mae’r clwb ar ôl ysgol wedi’i atal ers COVID.*
- *Rwy’n ei chael hi’n eithaf anodd dod o hyd i Warchodwr Plant yn fy ardal, Aberaman, hefyd gwarchodwyr plant sy’n gweithio hyd 6.30 ac ar benwythnosau.*
- *Dim ond rhai codau post y mae awdurdodau lleol yn caniatáu iddynt dderbyn help Dechrau’n Deg. Fe allai hwn fod wedi fy helpu i yn fawr, ond yn lle hynny bu’n rhaid i mi dalu pan oeddwn i’n gweithio ac rwy’n rhiant sengl, ond nid yw’r ddynes sy’n byw ar ochr arall y ffordd yn gweithio ac mae’n cael dechrau’n deg am ddim! Rwy’n dod allan o’r gwaith ac wedi dechrau yn y coleg oherwydd ei bod yn rhy ddrud, ac nid yw’n werth i mi wneud hynny.*
- *Y broblem yn bennaf yw bod swyddi’n disgwyl i chi fod yn gwbl hyblyg a dechrau am 6am. Mae gofal plant neu glybiau cyn ysgol yn dechrau am 8am, ac mae’r wythnos arferol newydd yn cynnwys penwythnosau, ond dim ond o ddydd Llun-Gwener a gorffen am 6pm y mae gofal plant ar gael. Ac yna mae’r rhestrau aros am y rhan fwyaf ohonyn nhw.*
- *Dim ond 38 o warchodwyr plant cofrestredig sydd i’w cael yn RhCT gyfan - diffyg darpariaeth affwysol. Rwyf wedi cael cynnig swydd yn ddiweddar a bu’n rhai i mi ei gwrthod gan na ydw i’n gael gofal plant ar ôl ysgol i’m plant gan nad oes gwarchodwyr plant i’w codi o Ysgol Gynradd Tylorstown. Mae’r sefyllfa’n peri straen ac yn gwahaniaethu’n annheg yn erbyn rhieni sengl nad oes rhieni neu bartneriaid ganddynt i helpu gyda chyfrifoldebau gofal plant. Mae’n arbennig o annifyr gan fod natur fwlio, ddidostur y system Credyd Cynhwysol yn rhoi pwysau aruthrol ar famau i ddod o hyd i waith mewn ardal lle ceir bach iawn o gyfle ac sy’n gyfyngedig i gyflogaeth ar gontractau dim oriau sy’n mynnu gweithio min nos ac ar benwythnosau (ac nid oes unrhyw ofal plant i’w gael bryd hynny y tu allan i’r teulu). Llwyddais i ddod o hyd i swydd yn ddiweddar, i’r Adran Gwaith a Phensiynau yn eironig, ond rwy’n wynebu gorfod gwrthod y swydd oherwydd diffyg gofal plant yn yr ardal hon. Mae’r pwysau, y straen a’r rhwystredigaeth y mae teuluoedd ar Gredyd Cynhwysol yn eu dioddef oherwydd yr amgylchiadau hyn yn sicr yn cyfrannu at gynnydd mewn materion iechyd meddwl. Byddwn i’n awgrymu y dylai POB ysgol gynradd yng Nghymru gael cyfleusterau gofal plant ar ôl ysgol i fynd i’r afael â rhywfaint o’r angen - gallai rhieni rhieni gael eu cyflogi, ar ôl cael yr hyfforddiant a’r archwiliadau iawn, i weithredu’r cyfleusterau hyn fel gweithwyr chwarae, gan ddarparu cyflogaeth iddyn nhw a gofal plant y mae mawr ei angen ar rieni eraill sy’n gweithio. Gallai’r cynlluniau hyn fod yn ddarparwyr gofal plant cofrestredig y gallai rhieni dalu amdanynt a / neu gael ad-daliad amdanynt drwy Gredyd Cynhwysol er mwyn talu treuliau cynnal y clybiau.*

**Ymateb** – Ar ddiwedd mis Chwefror 2022, roedd 102 o warchodwyr plant wedi'u cofrestru gydag AGC yn RhCT, ac roedd wyth ohonynt yn ardal Gogledd Rhondda. Mae'n bosibl bod yr ymatebydd yn y sylw olaf wedi defnyddio cyfleuster chwilio ar-lein y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i chwilio am warchodwyr plant. Mae'r gronfa ddata hon yn dibynnu ar ddarparwyr gofal plant yn diweddaru'u proffiliau bob 6 mis. Os nad ydyn nhw'n gwneud hyn, yna nid yw eu manylion yn weledol yn y cyfleuster chwilio.

Yn y pum mlynedd diwethaf, mae dwy ymgyrch recriwtio gwarchodwyr plant wedi'u cynnal yn yr ardal hon, ac ar gyfer Ysgol Gynradd Tylorstown yn benodol. Canlyniad y rhain oedd un gwarchodwr plant newydd yn cofrestru gydag AGC o'r digwyddiad cyntaf, ac mae un person yn mynd drwy'r broses gofrestru ar hyn o bryd, a fynychodd yr ail ddigwyddiad.

Mae diffyg darpariaeth gofal plant i ddarparu ar gyfer oriau gweithio annodweddiadol wedi'i nodi'n flaenorol fel bwlch yn y gwasanaethau, ac mae'n cael ei werthuso yn Adran Deuddeg.

**Archwilio'r galw am wasanaethau gofal plant annodweddiadol**
**Archwilio sut gellir cynorthwyo darparwyr i gynnig gofal mwy hyblyg sy'n gallu darparu ar gyfer patrymau shifft**

***Teuluoedd incwm isel***

Dywedodd 24.3% o ymatebwyr bod eu hincwm aelwyd wythnosol islaw enillion wythnosol gros cyfartalog RhCT, sef £520.20 (181).[10] Roedd sylwadau penodol gan yr ymatebwyr hyn yn cynnwys:

- *Dim gofal cofleidiol yn yr ysgol leol, pob lleoliad gofal plant yn llawn ac yn methu bodloni anghenion ein gwaith. Gorfod teithio pellter (nid wyf yn gyrru) i fynd ag un plentyn i ofal plant. Mae'r pris wedi codi 3 gwaith ers Covid. Rwyf bellach yn talu mwy nag ydw i'n ei ennill am ofal plant. Nid yw'r ysgol yn cynnig unrhyw glwb ar ôl ysgol, ac nid oes clybiau gwyliau'n cael eu darparu (er i ni gymryd rhan mewn clwb gwyliau treialu eleni ac roedd yn wych; fe wnaeth wir helpu gyda threfniadau gwaith yn ystod y gwyliau.*
- *Ie, nid oes unrhyw ddarparwyr gofal plant rwy'n gallu dod o hyd iddynt a fydd yn gollwng/codi fy merched o'u hysgol.*
- *Ie, nid oedd llawer o ddewisiadau gofal plant a oedd yn hygyrch iawn i mi. Nid wyf yn gyrru felly roedd yn anodd iawn trefnu gofal plant! Mae mor ddrud, rwy'n gwario mwy ar ofal plant nag unrhyw beth arall.*

**Ymateb** – Mae'n ymddangos bod diffyg gofal plant cyfleus, fforddiadwy yn rhwystr i'r grŵp hwn o rieni. Gallai bylchau dynodedig mewn gwasanaethau mewn ardaloedd eraill yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyrwyddo cymorth ariannol i rieni sy'n gweithio, gan gynnwys y rheiny ar incymau isel, yn gam gweithredu blaenoriaeth trwy gydol cyfnod yr Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

---

[10] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year

## Hyrwyddo cymorth ariannol sydd ar gael i rieni ar gyfer costau gofal plant

***Teuluoedd unig rieni***

O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd bod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am eu plentyn/plant, roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Dywedodd 19.7% o ymatebwyr i'r arolwg rhieni fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am eu plant (162), gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn byw yng Ngogledd (35), ac yna Gogledd Rhondda (26). Mae'r ganran hon yn uwch na'r 14% o ymatebwyr yn adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017.

Mae 73% o'r rheiny sydd â chyfrifoldeb llwyr yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig (119), tra bod 13% mewn addysg neu hyfforddiant (21). Mae 16% yn chwilio am swydd ond heb fod yn gweithio eto (26), ac nid yw 7% yn gweithio nac yn chwilio am swydd (11). Dywedodd 10% nad oeddent yn gallu gweithio (16). Roedd y rhesymau dros beidio â gallu gweithio yn cynnwys:

- *Mae'r rhan fwyaf o swyddi'n disgwyl i chi fod yn gwbl hyblyg a dechrau am 6am a gweithio ar y penwythnosau. Ond dim ond o ddydd Llun-Gwener o 8am y mae gofal plant ar gael. Ac mae'r rhestrau aros am y rhan fwyaf ohonyn nhw*
- *Mae'n anodd dod o hyd i warchodwr plant yn fy ardal, un sydd hefyd yn gweithio hyd at 6.30 ac ar benwythnosau*
- *Mae gofal plant mor ddrud; pe bawn i'n rhoi fy machgen 3 oed mewn gofal plant byddwn i'n gweithio am ddim rheswm heblaw i ddweud 'mod i'n gyflogedig*
- *Cost gofal plant*
- *Mae'r costau'n wallgo'*
- *Nid ydyn nhw'n dechrau'n ddigon cynnar*
- *Oherwydd fy mhatrwm shifftiau sy'n dechrau am 7am, mae'n anodd dod o hyd i ofal plant cyn 7 o'r gloch. Mae gofal plant yn ddrud i riant sengl, felly ni allai fforddio defnyddio cyfleusterau gofal plant fel meithrinfeydd/gwarchodwyr plant, felly nid ydw i'n gallu gweithio mwy, ac nid ydw i'n gallu cael mwy o ofal plant*
- *Roedd rhaid i mi aros i symud i'r ardal gan nad oedd unrhyw ofal plant ar gael. Nid ydw i'n gallu newid nawr oherwydd argaeledd ac rwy'n mynd i ddyled yn ystod pob gwyliau ysgol am fod y taliadau ymhell uwchlaw'r terfyn ar gyfer help ar Gredyd Cynhwysol, mae'n nhw'n cael eu talu ymlaen llaw ar gyfer pob gwyliau ysgol ac mae Credyd Cynhwysol ar ffurf ôl-daliadau ar 85% wedi'i gapio islaw'r lleiafswm y gallwn i fyth dalu. Rwy'n colli gwaith yn aml oherwydd mater yn ymwneud â gofal plant ac rwy'n syrthio ar ei hôl hi yn y gwaith gan nad ydw i'n gallu gwneud oriau ychwanegol fel pawb arall.*
- *Mae gen i ferch 6 oed y mae gennyf gyfrifoldeb llwyr amdani, ac rwy'n gweithio'n amser llawn. Rwyf yn y sefyllfa lle mae'n rhaid i mi chwilio am swydd ran-amser oherwydd diffyg gofal cofleidiol i blant ei hoedran hi yn fy ardal. Ar hyn o bryd rwy'n dibynnu ar deulu (yn ddi-dâl) ond nid ydyn nhw'n gallu parhau i helpu oherwydd materion iechyd. Mae hyn wedi dechrau achosi problemau i mi yn y gwaith gan fy mod wedi gorfod aildrefnu cyfarfodydd am fod teulu'n methu helpu ar fyr rybudd. Pe*

*bawn i’n gallu dod o hyd i ofal cofleidiol addas byddwn i’n barod i dalu amdano; a byddwn i’n gymwys i gael gofal plant di-dreth.*

- *Opsiwn cyfyngedig ar gyfer gofal plant dros y penwythnos, dim ond dau sydd yn Rhondda Cynon Taf ac mae’r ddau ar bob pen i RhCT!*
- *Mae pris gofal plant yn ormod i rieni sengl, ni ddylid gwneud iddynt weithio, neu dylai gofal plant fod am ddim; mae’n amhosib o anodd cydbwyso cyllideb fisol pan fo £650 o hwnnw’n gostau gofal i’ch plentyn. Mae £89 yn mynd fel y dreth gyngor, £200 ar nwy, dŵr, trydan, trwydded deledu, band eang. Mae’n gadael rhyw £150 – 200 i mi pan fydd Credyd Cynhwysol wedi torri fy holl arian i lawr i £1100 y mis, nid yw’n ddoniol! Ac nid yw hynny’n cynnwys rhent/morgais, nid oes gen i syniad sut mae pobl yn dod i ben! Ydw, rwy’n hawlio 85% yn ôl ar Gredyd Cynhwysol ond nid dyna’r swm cyfan, felly bob mis rwy’n colli ychydig mwy o’r £150 – 200, a hefyd, os ydw i’n gwneud goramser rwy’n gorfod talu’n ychwanegol am ofal plant ac rwyf wedi gorfod cysylltu â Chredyd Cynhwysol ddwywaith eleni yn sgil peidio â thalu am fy ngofal plant, y tro diwethaf nid thalwyd am 4 mis er bod yr holl fanylion wedi’u hanfon i mewn.*
- *Mae cost gofal plant allan o’m cyrraedd i. Dim ond cwpwl o weithiau’r wythnos rwy’n gallu defnyddio’r cyfleuster hwn. Mae hyn yn achosi problemau i mi o ran gweithio.*

**Ymateb** – Mae’n ymddangos bod gofal plant hyblyg sy’n gallu darparu ar gyfer gwaith shifft yn fater penodol i deuluoedd unig rieni. Mae annog darparwyr gofal plant i gynnig gwasanaeth mwy hyblyg, a chynnig gofal yn ystod oriau annodweddiadol, yn flaenoriaeth barhaus. Bydd sut i gynorthwyo lleoliadau orau i gynnig hyn yn flaenoriaeth i’r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

**Annog lleoliadau i gynnig gofal hyblyg ac oriau annodweddiadol**

***Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig***

O’r ymatebwyr hynny o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

- *Rwyf wedi cael gwarchodwyr plant yn osgoi cymryd fy mhlentyn oherwydd ein hil. Hefyd, dim ond 2 warchodwr plant sydd yn yr ardal sy’n gallu darparu gofal cofleidiol; mae rhestrau aros hir gan y ddau ohonynt.*
- *Nid oes unrhyw ofal plant yn fy ardal i. Mae’n rhaid i mi fynd â fy mhlant at deulu yng Nghaerdydd er mwyn i mi weithio (rwy’n rhiant sengl). Nid oes clwb ar ôl ysgol yn ysgol fy mhlant.*
- *Nid oedd unrhyw anhawster dod o hyd i ofal plant ond dylai fod mwy o help ariannol. Rwyf wedi bod yn gyflogedig ac wedi talu trethi am nifer o flynyddoedd cyn cael plentyn. Cefais fy niswyddo yn ystod y pandemig ac mae’n anodd iawn i mi ennill arian tra’n gofalu am fy mhlentyn. Mae fy ngŵr a minnau wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru’n llym iawn (a chredwn fod hynny’n beth gwych. Rydym yn ddiolchgar am y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio’n galed iawn yn ystod y cyfnod anodd hwn) ac wedi cadw ein mab gartref, a arweiniodd at iddo fynd yn ddibynnol iawn arnaf i (o gymharu â chyn y cyfnod clo), a gwnaeth hynny fy atal rhag cymryd llawer o gyfleoedd gwaith/hyfforddi.*

**Ymateb** – Mae sylwadau gan rieni yn adrodd nad yw lleoliadau gofal plant yn gallu gofalu am eu plentyn ar sail eu hil yn destun pryder mawr. Heb wybod y manylion llawn, nid oes modd mynd i'r afael â'r pwynt penodol hwn. Fodd bynnag, byddai hyfforddiant ychwanegol ar amrywiaeth yn fuddiol i bob mathau o ofal plant.

## Cynnig hyfforddiant amrywiaeth i ymarferwyr gofal plant

***Teuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd***

O'r ymatebwyr hynny sydd â phlant ag anabledd, salwch hirdymor neu angen addysgol arbennig/angen dysgu ychwanegol, roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

- *Ddim yn gallu dod o hyd i ofal plant ar gyfer plant ag Awtistiaeth sy'n cyfathrebu'n ddieiriau. Wedi defnyddio teidiau a neiniau, ond ni all hyn fynd ymlaen wrth iddyn nhw heneiddio. Mae angen llawer mwy o ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion arbennig difrifol.*
- *Nid yw gofal plant fel arfer yn cynnwys penwythnosau neu fin nos. Nid yw pob swydd o ddydd Llun-Gwener*
- *Anhawster gydag adnoddau i blant ag anabledd. Rhaglen gyfyngedig yn ystod gwyliau ysgol. Ni fydd fy mab yn gymwys mwyach i gael lle yn y cynllun chwarae o 14 oed.*
- *Dod o hyd i ofal plant trwy daliadau uniongyrchol ar gyfer fy mhlentyn anabl sydd yn ei arddegau. Hefyd, dod o hyd i ofal plant hyblyg gan ein bod ni'n dau yn hunangyflogedig.*
- *Nid yw'n hawdd dod o hyd i rywun lleol sy'n gyrru ac sydd â'r sgiliau i ddelio ag awtistiaeth ac anawsterau dysgu ar y cyflog a gynigir gan awdurdodau lleol.*
- *Nid wyf yn gwybod am unrhyw opsiynau gofal plant adeg gwyliau ysgol heblaw am y feithrinfa ddydd breifat y bu fy mhlentyn yn ei mynychu cyn dechrau'r ysgol. Nid yw honno'n mynd i fod yn addas iddo wrth iddo fynd yn hŷn ac nid wyf yn gwybod ar hyn o bryd beth fyddai'n gwneud bryd hynny.*
- *Rwy'n ei chael hi'n anodd cael cyllid ar gyfer gofal plant i fy mhlentyn ag anghenion arbennig sydd â chynorthwyydd personol.*
- *Mae gen i 4, mae angen gofal plant arnaf ar gyfer hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno weithiau, i aros dros nos weithiau, oherwydd yr oriau anghyffredin rwy'n eu gweithio*
- *Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (adhd) ac anhwylder yn y sbectrwm awtistig (ahd) gan fy mhlentyn felly mae'n anodd dod o hyd i rywun sy'n gallu delio ag ef. Hefyd mae fy mam yn helpu gyda gofal plant 2 ddiwrnod, ond mae hi'n ofalwr i fy mam-gu oedrannus sydd â dementia, ac weithiau mae'n rhaid iddi fy siomi*
- *Mae anghenion arbennig gan fy mhlant, mae'r hynaf sy'n 6 yn gryf iawn ac mae angen gofal 1-1 arni, weithiau 2-1, ac nid yw fy rhieni'n gallu ymdopi â hi a'm plentyn ieuengaf gyda'i gilydd. Mae hyn yn gwneud gwyliau ysgol yn anodd iawn, ac rwy'n gorfod trefnu i gael amser i ffwrdd o'r gwaith yn aml gan nad oes gen i unrhyw un i ofalu am y ddau gyda'i gilydd.*
- *Mae awtistiaeth ddifrifol gan fy mab. Nid yw gwarchodwyr plant preifat ei eisiau am ei fod yn ormod o waith. Mae'r wladwriaeth yn gwneud DIM i helpu fy mab, heblaw*

*am daliadau Lwfans Byw i'r Anabl. Pan ofynnom am help neu weithiwr cymdeithasol, cawsom ein gwrthod gan nad yw 'dan risg' - efallai y dylwn i fynd yn gaeth i gyffuriau/alcoholig er mwyn cael rhyw gymorth i 'mhlentyn……..*

- *Mae fy mab yn 11 oed ac mae ganddo Syndrom Down, ac ar ôl 12 oed NID oes gofal plant addas yn RhCT. Nid yw gweithwyr cymdeithasol yn ymwybodol o unrhyw ofal, nid yw ysgolion yn gwybod am unrhyw ofal.*
- *Mae fy mhlentyn ieuengaf yn anabl ac nid yw Cymru (yn wahanol i Loegr) yn cynnig 15 awr o ofal plant am ddim o 2 oed. Mae hyn i weld yn annheg iawn,*
- *Gwelsom nad yw'r dewis yn wych yn ein hardal ni, yna cawsom brofiad gwael gydag un a wnaeth i ni ddigalonni am ychydig fisoedd cyn dod o hyd i ofalwyr anhygoel; ond am eu bod mor dda bu'n rhaid i ni ymuno â'r rhestr aros. Wedyn pan oedd angen gofal ar ddiwrnodau ychwanegol arnom, bu'n rhaid i ni aros eto am eu bod yn llawn (roedd hyn i gyd cyn Covid serch hynny, felly rwy'n siŵr y byddai'r sefyllfa'n wahanol nawr gan ei bod yn ymddangos bod llawer o rieni'n cael eu plant adref gyda nhw yn hytrach na defnyddio gofal plant, felly nid yw'r amserau aros mor ddrwg â hynny)*
- *Do, fe ges i brofiad o warchodwyr plant nad oeddent eisiau derbyn fy merch am fod awtistiaeth ganddi, ac wedyn ar ôl iddynt ei derbyn fe wnaethant ei gollwng yn syth. Euthum drwy 3 gwarchodwr plant mewn 2 fis*
- *Mae anghenion ychwanegol gan 2 o'm plant. Rydym yn cael anhawster dod o hyd i leoedd sy'n gallu darparu ar eu cyfer, bydd angen i'r hynaf fynd i ysgol AAA gan nad ydyw'n gallu ymdopi mewn ysgol brif ffrwd, ac ni allwn fforddio i'r ddau ohonyn nhw fynd i'r feithrinfa.*

**Ymateb** – Gall fod yn anodd i rieni gael gofal plant o safon a fydd yn bodloni anghenion eu plentyn orau.

**Hyrwyddo hyfforddiant ADY a hyfforddiant cynhwysiant**
**Archwilio'r galw am ofal gwyliau, yn enwedig ar gyfer plant hŷn ag ADY/ anableddau**
**Hyrwyddo cymorth ariannol sydd ar gael i rieni**

# Adran 14: Addysg Feithrin am Ddim, Dechrau'n Deg a darpariaeth y Cynnig Gofal Plant

## Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen

Mae RhCT yn cynnig 15 awr o addysg feithrin y cyfnod sylfaen i blant o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac addysg feithrin amser llawn (30 awr yr wythnos) o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae hyn yn fwy na hynny a argymhellir gan Lywodraeth Cymru, sef 10 awr yr wythnos.

***Nifer yr ysgolion sy'n cynnig addysg feithrin y cyfnod sylfaen***

Gall pob plentyn yn RhCT gael lleoliad meithrin y cyfnod sylfaen *meithrinfa* mewn ysgol gynradd a gynhelir. Mae'r flwyddyn feithrin o fis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd mae 96 o ysgolion babanod, cynradd ac ysgolion pob oed yn RhCT sy'n cynnig addysg feithrin y cyfnod sylfaen.

I'r plant hynny sy'n troi'n dair oed rhwng Medi a Mawrth bob blwyddyn, gallant gael lle *cyn-meithrin* o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed hyd at y mis Medi canlynol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael y lle cyn-meithrin hwn mewn ysgol a gynhelir os oes lleoedd ar gael ganddynt. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae lleoedd yn cael eu cynnig os oes modd mewn Darparwyr Addysg Gofrestredig nas cynhelir (gweler isod).

| Niferoedd cyn-meithrin a dderbyniwyd (Ionawr) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn academaidd | Cymwys ar gyfer cyn-meithrin | Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | Wedi'u dyrannu | Heb eu dyrannu | Cymwys ond heb wneud cais |
| 2021/2022 | 890 | 750 | 707 | 43 | 140 |
| 2020/2021 | 1003 | 722 | 693 | 29 | 281 |
| 2019/2020 | 1019 | 742 | 684 | 58 | 277 |
| 2018/2019 | 991 | 722 | 640 | 82 | 269 |
| 2017/2018 | 1048 | 757 | 655 | 102 | 291 |

| Niferoedd meithrin a dderbyniwyd (Medi) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn academaidd | Cymwys | Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | Wedi'u dyrannu | Heb eu dyrannu | Cymwys ond heb wneud cais |
| 2022/2023 | 2536 | 2141 | 2141 | 0 | 395 |
| 2021/2022 | 2668 | 2332 | 2332 | 0 | 336 |
| 2020/2021 | 2623 | 2308 | 2308 | 0 | 315 |
| 2019/2020 | 2775 | 2499 | 2499 | 0 | 276 |
| 2018/2019 | 2803 | 2528 | 2528 | 0 | 275 |
| 2017/2018 | 2642 | 2487 | 2487 | 0 | 155 |

***Darparwyr Addysg Cofrestredig***

Yn Rhagfyr 2021, roedd 32 o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig. Lleoliadau gofal plant nas cynhelir, wedi'u cofrestru gydag AGC ac Estyn, yw'r Darparwyr Addysg Cofrestredig hyn.

Roedd 17 o’r rhain yn lleoliadau cyfrwng Saesneg, 12 yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac roedd tri yn defnyddio Cymraeg a Saesneg. Mae hwn yn gynnydd o 25 Ddarparwyr Addysg Cofrestredig adeg yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf yn 2017. Bu’r cynnydd yn ganlyniad derbyn mwy o niferoedd o addysg cyn-meithrin ac adolygiad strategol a nododd ardaloedd daearyddol lle byddai Darparwyr Addysg Cofrestredig ychwanegol yn fuddiol.

Yn ystod 2021, rhoddodd tri lleoliad i gorau i fod yn Ddarparwyr Addysg Cofrestredig. Rhoddodd dau leoliad, y ddau yn rhai cyfrwng Cymraeg, un yng Ngogledd Rhondda a’r llall yn Ne Orllewin Taf Elái y gorau i weithredu. Ymddeoliad y Person â Chyfrifoldeb oedd i gyfrif am un lleoliad yn cau ac roedd y llall yn sgil anawsterau ariannol, a waethygwyd ar ddechrau pandemig COVID-19.  Dewisodd un lleoliad cyfrwng Saesneg yn Ne Orllewin Taf Elái i roi’r gorau i gynnig addysg feithrin y cyfnod sylfaen ond mae’n parhau i weithredu i deuluoedd sy’n talu ffi.

Mabwysiedir ymagwedd strategol wrth recriwtio Darparwyr Addysg Cofrestredig ychwanegol. Mae hyn mewn ardaloedd lle dynodwyd angen, ar sail nifer y plant 3 oed nad ydynt yn gallu cael lleoedd cyn-meithrin addysg feithrin y cyfnod sylfaen yn eu hysgolion lleol a gynhelir.

| **Nifer y Darparwyr Addysg Cofrestredig yn ôl Ardal** | **Iaith y lleoliad** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** | **Dwyieithog** |
| Gogledd Cynon | 1 | 1 | 1 |
| De Cynon | 0 | 1 | 1 |
| Gogledd Rhondda | 2 | 2 | 0 |
| De Rhondda | 1 | 2 | 0 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 2 | 0 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 6 | 2 | 1 |
| De Orllewin Taf Elái | 6 | 2 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **17** | **12** | **3** |

Mae’r holl Ddarparwyr Addysg Cofrestredig yn dilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chânt eu harolygu gan Estyn yn yr un ffordd ag ysgolion a gynhelir. Ers 2019, mae Estyn ac AGC wedi cydweithio i arolygu darparwyr ar y cyd. Mae hyn yn lleihau rhywfaint o’r pwysau a wynebir gan leoliadau gofal plant pan fydd cyrff rheoleiddio yn arolygu ar yr un pryd yn lle dau ymweliad ar wahân mewn unrhyw un flwyddyn. Hefyd, mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth well i’r ddau sefydliad o ddisgwyliadau eu gweithdrefnau arolygu ac mae wedi darparu gweithdrefnau casglu tystiolaeth ac adrodd ar y cyd i leoliadau, gan leihau a mireinio’r dystiolaeth sydd ei hangen yn ei dro.


Yn sgil cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru a’r Cwricwlwm Lleoliadau Nas Cynhelir, mae ymarferwyr mewn lleoliadau wedi bod yn ymgyfarwyddo â dogfennaeth newydd, yn cyrchu a mynychu hyfforddiant priodol ac yn datblygu’u darpariaethau yn gyfatebol.

Ar hyn o bryd, mae dau o Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar (AYBC) yn cynorthwyo Darparwyr Addysg Cofrestredig i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen / y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu i fodloni safonau Estyn. Mae'r Cyngor wedi cynorthwyo lleoliadau gyda buddsoddiad mewn toreth o adnoddau dilys a naturiol ac wedi bod yn datblygu'u hamgylcheddau i adlewyrchu egwyddorion presennol ac addysgeg yn unol â diwygio'r cwricwlwm.

Mae pump o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynorthwyo a'u cynghori gan arweinwyr y Cyfnod Sylfaen o'u hysgol gynradd fwydo. Ymgymerwyd â phrosiect peilot adeg adroddiad yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf yn 2017. Y nod oedd gwella'r pontio o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig cyfrwng Cymraeg i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac i feithrin perthnasoedd gweithio agosach. Er i'r peilot gyflawni'r nodau hyn, cafodd rhai o'r ysgolion hi'n anodd rhyddhau staff yn rheolaidd er mwyn gallu cynnal lefel y cymorth. Mae'r pum Darparwr Addysg Cofrestredig hyn yn parhau i gael cymorth gan dair ysgol cyfrwng Cymraeg, ond mae Darparwyr Addysg Cofrestredig eraill, a rhai newydd a recriwtiwyd ers hynny, bellach yn cael cymorth gan yr AYBCau. Fe wnaeth y peilot gynyddu ymwybyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth ar gyfer yr holl Ddarparwyr Addysg Cofrestredig a'r ysgolion cysylltiedig, ac mae wedi cyfrannu i gefnogi perthnasoedd gweithio agosach.

***Ceisiadau Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen Cyn-meithrin***

Mae ceisiadau am addysg feithrin y cyfnod sylfaen cyn-meithrin bellach ar-lein, drwy'r porth Derbyniadau Ysgolion. Mae hwn, ynghyd â chyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru yn 2017, wedi gweld cynnydd yn niferoedd y plant sy'n cael eu haddysg feithrin y cyfnod sylfaen cyn-meithrin mewn Darparwyr Addysg Cofrestredig nas cynhelir. Mae ceisiadau ar-lein wedi galluogi cael dealltwriaeth fanylach o'r galw am leoedd meithrin a cyn-meithrin addysg feithrin y cyfnod sylfaen. Mae hefyd wedi arwain at gynnig lleoedd i lawer mwy o blant os nad yw eu dewisiadau cyntaf neu'u hail ddewis ar gael.




***Ymatebwyr i'r arolwg rhieni***

Mae 83% o ymatebwyr sydd â phlant 3 neu 4 oed yn cael eu haddysg feithrin y cyfnod sylfaen yn ysgolion RhCT neu Ddarparwyr Addysg Cofrestredig (254). Mae tri ymatebydd yn cael eu haddysg feithrin y cyfnod sylfaen mewn Awdurdodau Lleol eraill. Dywed 4.2% o ymatebwyr y bydd eu plentyn yn dechrau cael yr addysg hon cyn hir (13).

Nid yw 8.8% o ymatebwyr yn cael lleoedd addysg Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen (27). Ychydig ohonynt wnaeth roi rhesymau am hyn, ond roedd rhai o'r ymatebion testun yn cynnwys y rhesymau canlynol:

- *Roeddem yn teimlo nad oedd fy mhlentyn yn barod i ddechrau'r ysgol 'fawr' felly mae wedi mynd yn ôl i feithrinfa breifat*
- *Rwy'n fam sy'n aros gartref, felly nid oes angen i mi gymryd lle wedi'i ariannu ar gyfer fy mhlentyn 3 oed.*

Nid oedd 2.9% yn siŵr a oedd eu plant yn cael yr hawl hon (9). Mae hwn yn ffigur is nag yn yr adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf. Gallai hyn awgrymu bod ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o'r hawl i addysg feithrin y cyfnod sylfaen wedi cynyddu yn y pum mlynedd diwethaf, yn sgil datblygu Cynnig Gofal Plant Cymru o bosibl, a'i gyswllt anorfod â'r ddarpariaeth addysg feithrin y cyfnod sylfaen. Mae'n debygol bod cyflwyno ceisiadau ar-lein fel ag ar gyfer derbyniadau grwpiau blwyddyn eraill, wedi cael effaith gadarnhaol hefyd.

***Cryfderau***

- Nifer fwy o Ddarparwyr Addysg Cofrestredig mewn ardaloedd lle ceir angen dynodedig
- Proses ganolog ymgeisio ar-lein

***Gwendidau***


- Rhai bylchau daearyddol o hyd o ran nifer y lleoedd cyn-meithrin sydd ar gael
- Gall terfynau amser a phrosesau gwneud cais fod yn ddryslyd i rieni

**Cynnig Gofal Plant Cymru**

Cyflwynwyd Cynnig Gofal Plant Cymru ym Medi 2017. Mae'n cynnig hyd at 30 o oriau'r wythnos o addysg feithrin y cyfnod sylfaen a gofal plant ychwanegol wedi'i ariannu, yn gyfunol, am 48 awr yr wythnos i i rieni plant 3 a 4 oed. Fe'i lansiwyd i ddechrau mewn saith Awdurdod Lleol peilot, ac roedd RhCT yn un ohonynt. Ers y dyddiad hwnnw, mae wedi'i gyflwyno ledled Cymru. Mae RhCT yn gweinyddu'r Cynnig ar ran Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ers i'r cynllun gael ei lansio yn 2017. Dylid nodi mai dim ond mewn ardaloedd peilot yr oedd y Cynnig yn 2017-18 ac nad oedd ar gael ledled RhCT. Mae'r ffigurau ar gyfer 2019-20 wedi'u hystumio gan i'r Cynnig gael ei atal o Ebrill i Orffennaf 2020 oherwydd y pandemig, ac felly ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn ystod y misoedd hyn. Ac mae ffigurau 2021-22 hyd at ddyddiad yr ysgrifennwyd

yr adroddiad, ac felly dim ond o Fedi 2021 i Fawrth 2020 y maent, ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn academaidd lawn.




Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu system ar-lein genedlaethol ar gyfer ceisiadau rhieni a hawliadau darparwyr gofal plant. Bydd hyn yn disodli'r systemau gwahanol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan bob Awdurdod Gweithredu.

***Ymatebwyr i'r arolwg rhieni***

Mae 60.6% o ymatebwyr sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn cael y gofal plant wedi'i ariannu mewn lleoliadau yn RhCT (185). Mae dau ymatebydd yn cael eu gofal plant wedi'i ariannu mewn Awdurdodau Lleol eraill.

Nid yw 10.4% o'r rheiny â phlant 3 a 4 oed yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant ond efallai y byddant yn gwneud cyn hir neu yn y dyfodol (32) ac nid oes gan 14.4% unrhyw gynlluniau i'w ddefnyddio (44). O'r rheiny sy'n dewis peidio, roedd rhai o'r ymatebion testun yn cynnwys y rhesymau canlynol:

- *Nid oedd lle ar gael gan unrhyw un yn fy ardal*
- *Nid oes unrhyw un yn gallu gollwng/codi fy merched o'u hysgol*
- *Nid yw'r gofal plant gydag addysg yn cydweddu â'r 'wythnos waith' newydd*
- *Bydd yn effeithio ar daliad gofal plant ar gyfer fy mhlentyn sydd dan 2 oed*
- *Rwy'n gorfod talu am fy mod i'n fyfyriwr*
- *Byddai darpariaeth gwyliau o gymorth, ond mae'r rhan fwyaf o glybiau gwyliau (nid meithrinfeydd neu gylchoedd chwarae) ar gyfer plant 5 oed a hŷn. Prin fod unrhyw beth ar gyfer plant 5 oed ac iau*

Roedd yr ymatebwyr a nododd nad oedd unrhyw ofal cofleidiol addas ar gael yn dod o sawl ardal yn RhCT. Yn fwyaf nodedig oedd y rheiny yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái, yn enwedig wardiau Cilfynydd a Rhondda. Mae swyddogion eisoes wedi nodi bod bwlch posibl yn yr ardaloedd hyn ar gyfer gofal cofleidiol a gwasanaethau codi/gollwng ar gyfer plant oedran meithrin.

Dywedodd 12 o ymatebwyr nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant am fod eu plentyn yn yr ysgol yn amser llawn. Mae plant cymwys, fodd bynnag, yn gallu cael hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu mewn 9 o'r 13 o wythnosau gwyliau ysgol. Mae hyn yn awgrymu bod angen adolygu'r marchnata ar gyfer y Cynnig, a rhoi ffocws ar bwysleisio'r agwedd hon ar y cymhwystra. Mae tîm y Cynnig Gofal Plant yn parhau i adolygu'u strategaeth farchnata ond byddant yn rhoi ffocws o'r newydd ar yr agwedd hon yn y dyfodol.

Dywedodd 84.8% eu bod yn dymuno cael y Cynnig Gofal Plant pan ddaw eu plentyn yn gymwys (146). Dywedodd 9.3% nad oeddent yn dymuno asesu'r Cynnig pan ddaw eu plentyn yn gymwys neu nid oeddent yn siŵr (16). Roedd y rhesymau'n cynnwys:

- *Ni fydd yr oriau'n gweithio gyda fy oriau gweithio i*
- *Bydd fy mhlentyn mewn addysg amser llawn bryd hynny, felly mae braidd yn ddibwrpas*
- *Nid wyf yn siŵr beth ydyw*
- *Nid wyf yn gweithio*

O'r sylwadau, mae'n ymddangos nad yw rhieni'n ymwybodol bod plant mewn addysg amser llawn yn gallu cael elfen wyliau'r Cynnig Gofal Plant hyd at fis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo nawr, ond mae'n ymddangos bod eisiau gwaith ychwanegol i bwysleisio'r elfen hon o'r Cynnig i rieni.

**Parhau i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant, gan bwysleisio'r elfen gwyliau**

***Cryfderau***

- Proses wneud cais ar-lein
- Ystod eang o ddarparwyr yn cyflwyno'r cynllun

***Gwendidau***

- Mae rhieni'n dal yn aneglur ynglŷn ag elfen hawl wyliau'r Cynnig
- Diffyg gwasanaethau cofleidiol yng Ngogledd Ddwyrain Taf Elái, Gogledd Rhondda a De Rhondda.

## Dechrau'n Deg

Yn Rhagfyr 2021, roedd 24 o leoliadau Dechrau'n Deg wedi'u comisiynu, 9 o Gyflenwyr wedi'u Cymeradwyo a phump o leoliadau sy'n cael eu cynnal gan yr ALl. O'r 24 o leoliadau wedi'u comisiynu, mae naw yn darparu'u gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r galw am fwy o leoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wedi arwain at broses dendro newydd er mwyn denu mwy o leoliadau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae 13 o leoliadau Cymraeg eisoes wedi dod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg cofrestredig, a 6 o leoliadau Saesneg lle'r oedd angen am ddarpariaeth ychwanegol. Mae'r rhestr darparwyr newydd cymeradwy yn galluogi lleoliadau i wneud cais i ymuno unrhyw bryd, felly rhagwelir y bydd y nifer hon yn cynyddu. Bydd ymarferiad caffael pellach ar gyfer lleoliadau cyfrwng Saesneg yn cael ei gwblhau yn 2022.

Bydd ehangu Dechrau'n Deg i gynnwys pob plentyn dwy oed yng Nghymru yn y pen draw yn cael effaith sylweddol ar yr angen i recriwtio lleoliadau ychwanegol i gyflwyno Dechrau'n Deg, felly mae'r broses dendro newydd yn amserol ac yn debygol o gefnogi hyn.

Mae'r siart isod yn dynodi'r ardal a'r math o ofal plant yng ngwasanaethau Dechrau'n Deg sy'n cael eu cyflwyno mewn lleoliadau wedi'u comisiynu, cyflenwyr cymeradwy neu leoliadau sy'n cael eu cynnal gan ALI. Mae gwarchodwyr plant yn cyflwyno Dechrau'n Deg hefyd, ac mae naw o warchodwyr plant yn gofalu am blant a ariennir ar hyn o bryd.

| Dechrau'n Deg: Lleoliadau wedi'u comisiynu Cyflenwyr cymeradwy Lleoliadau sy'n cael eu cynnal gan ALI | Gofal sesiynol cyfrwng Saesneg | Gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg | Gofal diwrnod llawn cyfrwng Saesneg | Gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cynon | 1 | 0 | 3 | 0 |
| De Cynon | 2 | 0 | 3 | 1 |
| Gogledd Rhondda | 3 | 0 | 4 | 2 |
| De Rhondda | 4 | 0 | 1 | 1 |
| Gogledd Ddwyrain Taf Elái | 1 | 0 | 1 | 1 |
| De Ddwyrain Taf Elái | 0 | 0 | 3 | 2 |
| De Orllewin Taf Elái | 1 | 1 | 2 | 1 |
| **Cyfansymiau** | **12** | **1** | **17** | **8** |

Yn ystod 2021, roedd 1,353 o blant yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg. Er bod 100% o blant cymwys wedi cael cynnig lle, dim ond 65% wnaeth ddefnyddio'u lle (884). Mae hwn yn ostyngiad ar flynyddoedd blaenorol yn sgil pandemig COVID, gyda phryderon gan deuluoedd ynglŷn ag anfon eu plant i leoliadau gofal plant, ynghyd â phlant a theuluoedd yn gorfod hunanynysu. Mae'r lleoliadau eu hunain wedi bod trwy gyfnodau o gau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, ac o ganlyniad i achosion positif yn y lleoliadau. Mae cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi wedi effeithio ar ymwybyddiaeth teuluoedd o'u cymhwystra ar gyfer Dechrau'n Deg hefyd.

***Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth***

Mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn dilyn model sy'n seiliedig ar anghenion i ariannu lleoedd gofal plant i deuluoedd sydd y tu allan i godau post cymwys Dechrau'n Deg, ac y nodwyd bod angen cymorth i deuluoedd arnynt, a allai gynnwys gofal plant. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer lleoliadau'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a ariannwyd gan Dechrau'n Deg ar gyfer 2021.

| Tymor | Lleoliadau gofal sesiynol | Lleoliadau cyfrwng Saesneg | Lleoliadau cyfrwng Cymraeg | Gwarchodwyr Plant |
|---|---|---|---|---|

| | wedi'u hariannu | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tymor y Gwanwyn Ion-Maw 2021 | 24 | 11 | 6 | 0 |
| Tymor yr haf Ebr-Gorff 2021 | 33 | 12 | 8 | 1 |
| Tymor yr Hydref Medi-Rhag 2021 | 50 | 17 | 7 | 2 |
| **Cyfansymiau** | **107** | **40** | **21** | **3** |

Ar ôl i gyllid C-CAS ddod i ben ym mis Awst 2020, parhaodd y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth gyda'i fodel yn seiliedig ar anghenion i nodi teuluoedd sydd â'r angen mwyaf am gymorth gofal plant. Cafodd 107 o blant ychwanegol gynnig lleoliad gofal plant yn 2021, i gefnogi'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â bodloni anghenion y teulu cyfan.

Yn ôl y disgwyl, yn dilyn pandemig COVID-19, mae nifer y teuluoedd y nodwyd bod angen cymorth arnynt wedi cynyddu. Mae 2022 wedi gweld cynnydd pellach mewn angen, gyda 62 o deuluoedd wedi'u nodi fel rhai ag angen ar hyn o bryd.

***Ymatebwyr i'r arolwg rhieni***

Mae 9.7% o ymatebwyr sydd â phlant 2 neu 3 oed yn cael gofal plant Dechrau'n Deg (36), gyda 77.4% yn dweud nad ydynt yn cael Dechrau'n Deg (285) a 4.6% ddim yn siŵr (17).

O'r rheiny nad ydynt yn cael gofal plant Dechrau'n Deg, dywedodd 78 bod hynny oherwydd nad ydyn nhw'n byw mewn ardal cod post Dechrau'n Deg. Roedd y sylwadau hyn gan deuluoedd wedi'u lleoli ledled RhCT. Daeth y rhan fwyaf o sylwadau gan deuluoedd yn Ne Orllewin Taf Elái (16), Gogledd Cynon (13) a De Rhondda (12).

Roedd rhai ymatebion testun eraill yn cynnwys y rhesymau canlynol dros beidio â chael gofal plant Dechrau'n Deg:

- *Cael trafferth gyda chofrestru yn sgil symud tŷ ac nid oedd ymwelydd iechyd yn barod ei chymorth*
- *Nid wyf yn gwybod beth ydyw*
- *Nid oeddwn i'n gallu ei ddefnyddio mewn meithrinfa yr oedd wedi bod ynddi ers yn 9 mis oed, yn y pentref nesaf. Ni fyddai wedi bod yn deg i'w symud am 1 flwyddyn ac yna ei symud eto ar gyfer yr ysgol*
- *Nid oedd digon o wybodaeth, ni wneuthum ymateb i negeseuon e-bost. Nid yw fy ngofal plant presennol yn ei gynnig*
- *Nid oes darpariaeth Gymraeg yn ddigon agos i gartref i'w defnyddio*

***Cryfderau***

- Yn ychwanegol at gynnig Dechrau'n Deg i deuluoedd cymwys (ar sail cymhwystra daearyddol) fel rhan o'u rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, mae RhCT wrthi'n peilota model hybrid sydd hefyd yn ariannu gofal plant i deuluoedd ar fodel seiliedig ar anghenion, gan ddefnyddio lleoedd Dechrau'n Deg sy'n wag. Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn dilyn y pandemig, a gellir gweld hyn yn y nifer fwy o blant sydd wedi'u dyrannu ar leoliad gofal plant wedi'i ariannu gan Allgymorth.

***Gwendidau***

- Roedd y niferoedd a fanteisiodd ar leoedd Dechrau'n Deg yn ystod COVID yn is o lawer na'r disgwyl. Mae proses ymgeisio ar-lein newydd ar gyfer Dechrau'n Deg wrthi'n cael ei datblygu, a disgwylir i hynny gynyddu'r niferoedd sy'n ymgeisio.
- Rhwng Mawrth a Hydref 2021, dim ond 23 neu 9.5% o leoedd newydd oedd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac mae hyn yn destun pryder. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r broses ail-gomisiynu gofal plant sy'n amcanu at annog lleoliadau ychwanegol i ddod yn ddarparwyr cymeradwy a chynyddu lledaeniad daearyddol lleoliadau Cymraeg a fydd, gobeithio, yn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar hyn.

# Adran 15: Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu

Mae'r sector gofal plant yn RhCT yn elwa o gael staff tra medrus a chymwys. Mae gwaith yn parhau i gynorthwyo ymarferwyr gofal plant i gyflawni cymwysterau uwch ac i sicrhau bod Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cyson yn cael ei annog a'i gefnogi. Mae'r Cyngor yn cynnig ystod o hyfforddiant gorfodol a ariennir a hyfforddiant DPP i'r holl staff gofal plant. Hefyd, mae newidiadau i ofynion cymwysterau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi rhoi mwy o bwyslais hefyd ar sicrhau gweithlu â chymwysterau addas.

At ddibenion yr adroddiad hwn, cymerwyd data ar gymwysterau a hyfforddiant cyfredol y gweithlu gofal plant o ddata ffurflenni'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gyflwynwyd gan ddarparwyr gofal plant ym mis Medi 2021. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar 87% o ddarparwyr yn RhCT a lenwodd y ffurflen ddata hon.

Mae'r dadansoddiad isod yn datgan y lefel cymhwyster uchaf sydd gan aelodau staff yn ôl darparwyr gofal plant o bob math. Mae gan 57.2% o ymarferwyr gymhwyster Lefel 3 (439). Hon yw'r lefel gymhwyster sylfaenol ar gyfer staff sy'n rheoli neu'n arwain lleoliadau gofal plant, fel y pennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith lleoliadau Dechrau'n Deg, i sicrhau bod arweinwyr lleoliadau yn meddu ar gymhwyster ar Lefel 4 NVQ neu Lefel 5 Diploma FfCCh. Dywed 26.3% o ymarferwyr yn RhCT bod cymhwyster Lefel 5 ganddyn nhw erbyn hyn (202).

## Gwarchodwr Plant

***Cymwysterau gofal plant***

Ymhlith gwarchodwyr plant wedi'u cofrestru gydag AGC yn RhCT, mae lefel a chanran y cymwysterau gofal plant fel y'u rhestrir isod:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| GDDP-Lefel 2 | 20 | 21.7% |
| GDDP-Lefel 3 | 52 | 56.5% |
| GDDP-Lefel 5 | 9 | 9.7% |
| Cymhwyster heb ei restru yn SASS sy'n berthnasol i ofal plant | 39 | 42.3% |
| Dim un o'r cymwysterau a restrwyd | 20 | 21.7% |

O'r gwarchodwyr plant uchod, adroddodd 35.8% fod cymhwyster perthnasol CYPOP5 neu IHC/PCP ganddynt (33). Fodd bynnag, mae'r cyrsiau cyn-cofrestru hyn yn hanfodol er mwyn cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru; mae'n debygol fod darparwyr wedi cyflwyno'u data'n anghywir wrth gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Byddem

yn disgwyl i 100% o Warchodwyr Plant cofrestredig ledled RhCT i feddu ar y cymwysterau hyn.

Ar adeg llenwi ffurflen y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, dywedodd 0% o warchodwyr plant eu bod yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 2 neu Lefel 3, a 3.2% tuag at Lefel 5 (3). Adroddwyd fod 2.1% o warchodwyr plant yn gweithio tuag at gymhwyster sy'n berthnasol i ofal plant ond nad yw wedi'u restru yn y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (2), tra bod 3.2% heb fod yn gweithio tuag at yr un o'r cymwysterau a restrwyd. O'r gwarchodwyr plant hyn, roedd 29% yn ansicr os oedden nhw'u hunain neu gynorthwywyr yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r cymwysterau a restrwyd yn adroddiad data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (18).

***Cymwysterau chwarae***

Ymhlith gwarchodwyr plant, mae data'r cymwysterau chwarae wedi'i restru isod:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 1 | 1% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 1 | 1% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | 0 | 0% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 4 | 4.3% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 2 | 2.1% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 1 | 1% |
| Cymhwyster perthnasol i chwarae, ond heb ei restru | 10 | 10.8% |
| Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | 6 | 6.5% |
| Cyfanswm nifer y staff sy'n ymarferwyr chwarae | 25 | 27.1% |

***Cymwysterau Staff / Cynorthwywyr Gwarchod Plant***

Mae data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth yn awgrymu bod y cymwysterau canlynol gan staff/cynorthwywyr gwarchod plant:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| GDDP-Lefel 2 | 2 | 2.2% |
| GDDP-Lefel 3 | 33 | 37.5% |
| GDDP-Lefel 5 | 5 | 5.6% |
| Cymhwyster heb ei restru yn SASS | 15 | 17% |
| Dim Cymwysterau Gofal Plant ffurfiol | 13 | 14.7% |
| Nifer yr Ymarferwyr Gofal Plant | 68 | 77% |

Mae hyfforddiant arall y mae gwarchodwyr plant a chynorthwywyr wedi cael cynnig neu yr ymgymerwyd â nhw yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd Lefel 2 (33)
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig Lefel 3 (31)
- Hyfforddiant Diogelu Lefel 3 (24)
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch (24)
- Rheoli Ymddygiad Heriol (9)
- Hyfforddiant Codi a Chario (8)
- Babanod wedi'u Geni yn ystod Covid (6)
- Cynorthwyo plant drwy ACES (6)
- Hyfforddiant Ymlyniadau Cadarnhaol (5)
- Hyfforddiant Warden Tân (3)

## Gofal diwrnod llawn

### *Cymwysterau gofal plant*

Ymhlith darparwyr Gofal diwrnod llawn, mae'r data wedi'i restru isod. Mae hyn yn seiliedig ar 589 o aelodau staff:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| GDDP-Lefel 2 | 27 | 4.5% |
| GDDP-Lefel 3 | 302 | 51.2% |
| GDDP-Lefel 5 | 165 | 28% |
| Cymhwyster Gofal Plant perthnasol heb ei restru yn SASS | 22 | 22.3% |
| Dim Cymwysterau Gofal Plant ffurfiol | 68 | 11.5% |
| Nifer yr Ymarferwyr Gofal Plant | 584 | 99.1% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal diwrnod llawn gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau gofal plant ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

### *Cymwysterau chwarae*

Ymhlith darparwyr Gofal diwrnod llawn, mae'r data ar gymwysterau chwarae wedi'i rhestru isod:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 9 | 1.5% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 12 | 2% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | 0 | 0% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 28 | 4.7% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 26 | 4.4% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 8 | 1.3% |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 0 | 0% |
| Cymhwyster perthnasol i chwarae, ond heb ei restru | 0 | 0% |
| Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | 108 | 18.3% |
| Cyfanswm nifer y staff sy'n ymarferwyr chwarae | 191 | 32.4% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal diwrnod llawn gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau chwarae ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

Mae hyfforddiant arall y mae staff gofal diwrnod llawn wedi ymgymryd â nhw yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd Lefel 2 (69)
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig Lefel 3 (43)
- Hyfforddiant Codi a Chario (26)
- Hyfforddiant Diogelu Lefel 3 (23)
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch (18)
- Rheoli Ymddygiad Heriol (14)
- Hyfforddiant Ymlyniadau Cadarnhaol (8)
- Babanod wedi'u Geni yn ystod Covid (7)
- Hyfforddiant Warden Tân (7)
- Cynorthwyo plant drwy ACES (1)

## Gofal sesiynol

***Cymwysterau gofal plant***

Ymhlith darparwyr Gofal sesiynol, mae'r data wedi'i restru isod. Mae hyn yn seiliedig ar 117 o aelodau staff:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| GDDP-Lefel 2 | 7 | 5.9% |
| GDDP-Lefel 3 | 72 | 61.5% |
| GDDP-Lefel 5 | 24 | 20.5% |
| Cymhwyster Gofal Plant perthnasol heb ei restru yn SASS | 8 | 6.8% |
| Dim Cymwysterau Gofal Plant ffurfiol | 5 | 4.2% |
| Nifer yr Ymarferwyr Gofal Plant | 116 | 99.1% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal sesiynol gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau gofal plant ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

***Cymwysterau chwarae***

Ymhlith darparwyr Gofal sesiynol, mae'r data ar gymwysterau chwarae wedi'i restru isod:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 1 | 0.8% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 4 | 3.4% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | 3 | 2.5% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 8 | 6.8% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 2 | 4.4% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 8 | 6.8% |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 0 | 0% |
| Cymhwyster perthnasol i chwarae, ond heb ei restru | 6 | 5.1% |
| Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | 9 | 7.6% |
| Cyfanswm nifer y staff sy'n ymarferwyr chwarae | 35 | 29.9% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal sesiynol gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau chwarae ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

Mae hyfforddiant arall y mae staff gofal diwrnod llawn wedi ymgymryd â nhw yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd Lefel 2 (32)
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch (20)
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig Lefel 3 (13)
- Hyfforddiant Diogelu Lefel 3 (10)
- Rheoli Ymddygiad Heriol (6)
- Hyfforddiant Codi a Chario (6)
- Cynorthwyo plant drwy ACES (2)
- Hyfforddiant Ymlyniadau Cadarnhaol (1)
- Babanod wedi'u Geni yn ystod Covid (0)
- Hyfforddiant Warden Tân (0)

## Gofal y tu allan i oriau ysgol

### *Cymwysterau gofal plant*

Ymhlith darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol, mae'r data wedi'i restru isod. Mae hyn yn seiliedig ar 33 o aelodau staff:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| GDDP-Lefel 2 | 3 | 9% |
| GDDP-Lefel 3 | 13 | 39.3% |
| GDDP-Lefel 5 | 4 | 12.1% |
| Cymhwyster Gofal Plant perthnasol heb ei restru yn SASS | 7 | 21.2% |
| Dim Cymwysterau Gofal Plant ffurfiol | 6 | 18.1% |
| Nifer yr Ymarferwyr Gofal Plant | 33 | 100% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau gofal plant ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

### *Cymwysterau chwarae*

Ymhlith darparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol, mae'r data ar gymwysterau chwarae wedi'i restru isod:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 7 | 21.2% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 6 | 18.1% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | 0 | 0% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 1 | 3% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 9 | 27.2% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 0 | 0% |
| Cymhwyster perthnasol i chwarae, ond heb ei restru | 2 | 6% |
| Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | 6 | 18.1% |
| Cyfanswm nifer y staff sy'n ymarferwyr chwarae | 31 | 93.9% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Gofal y tu allan i oriau ysgol gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau chwarae ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

Mae hyfforddiant arall y mae staff Gofal y tu allan i oriau ysgol wedi ymgymryd â nhw yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Hylendid Bwyd Lefel 2 (9)
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig Lefel 3 (6)
- Hyfforddiant Diogelu Lefel 3 (6)
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch (5)
- Hyfforddiant Codi a Chario (3)
- Rheoli Ymddygiad Heriol (2)
- Cynorthwyo plant drwy ACES (1)
- Babanod wedi'u Geni yn ystod Covid (0)
- Hyfforddiant Ymlyniadau Cadarnhaol (0)
- Hyfforddiant Warden Tân (0)

## Chwarae mynediad agored

***Cymwysterau chwarae***

Ymhlith darparwyr Chwarae mynediad agored, mae'r data wedi'i restru isod. Mae hyn yn seiliedig ar 33 o aelodau staff:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| GDDP-Lefel 2 | 0 | 0% |
| GDDP-Lefel 3 | 7 | 21.2% |
| GDDP-Lefel 5 | 2 | 6% |
| Cymhwyster Gofal Plant perthnasol heb ei restru yn SASS | 8 | 24.2% |
| Dim Cymwysterau Gofal Plant ffurfiol | 0 | 0% |
| Nifer yr Ymarferwyr Gofal Plant | 17 | 51.5% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Chwarae mynediad agored gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau gofal plant ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

***Cymwysterau chwarae***

Ymhlith darparwyr Chwarae mynediad agored, mae'r data ar gymwysterau chwarae wedi'i restru isod:

| Cymhwyster | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 14 | 42.4% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 4 | 12.1% |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | 3 | 9% |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 4 | 12.1% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 1 | 3% |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae; Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 4 | 12.1% |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 0 | 0% |
| Cymhwyster perthnasol i chwarae, ond heb ei restru | 3 | 9% |
| Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | 0 | 0% |
| Cyfanswm nifer y staff sy'n ymarferwyr chwarae | 33 | 100% |

Ni wnaeth unrhyw ddarparwyr Chwarae mynediad agored gwblhau gwybodaeth am staff sy'n gweithio tuag at gymwysterau Chwarae ac felly nid oeddem yn gallu adrodd ar unrhyw ddata'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

**Datblygiad ychwanegol y gweithlu**

Mae cyllid o Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu ar gyfer y sector gofal plant credyd cynhwysol yn RhCT. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys:

- Babanod wedi'u geni yn ystod Covid
- Hyfforddiant Warden Tân
- Rheoli Ymddygiad Heriol
- Codi a chario
- Ymlyniadau cadarnhaol
- Cynorthwyo plant drwy ACES

Yn ychwanegol at hyn, mae'r tîm datblygu gofal plant yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau, fel Addysg Oedolion Cymru, Clybiau Plant Cymru a Chwmnïau hyfforddiant prentisiaeth i gyfeirio darparwyr at gyrsiau eraill a ariennir, fel:

- CCPLD Lefel 2
- CCPLD Lefel 3
- Lefel 3 Pontio i Waith Chwarae
- Unrhyw gymwysterau Chwarae perthnasol

***Hyfforddiant / datblygu gweithlu Dechrau'n Deg***

Gall lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg gael mynediad i hyfforddiant ychwanegol. Fe wnaeth ymgynghori â lleoliadau Dechrau'n Deg nodi'r angen am hyfforddiant i gefnogi oedi o ran lleferydd, rheoli ymddygiad heriol ac ehangu dysgu plant, yn enwedig yn y cyfnod ar ôl pandemig COVID-19. Mae ymarferwyr wedi elwa o hyfforddiant Schemas, Makaton, Jabadao (symud corfforol) a sesiynau darganfod gyda'r Curiosity Approach. Mae Sicrwydd Ansawdd Dechrau'n Deg RhCT hefyd yn darparu hyfforddiant ar anghenion dynodedig penodol fel bo'r gofyn.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg i gydymffurfio â Chanllawiau Hyfforddiant Dechrau'n Deg a sicrhau yr ymgymerir â'r holl hyfforddiant a nodwyd ar Fatrics Hyfforddiant Dechrau'n Deg yn unol â rolau a chyfrifoldebau'r ymarferydd gofal plant. Mae'n rhaid i ymarferwyr mewn uwch swydd feddu ar gymhwyster perthnasol a chydnabyddedig ar Lefel 4/5 fel y datgenir ar restr Gofal Cymdeithasol Cymru (GGC) o gymwysterau gofynnol i weithio mewn Gofal Plant Dechrau'n Deg. Mae'n rhaid i ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg feddu ar gymhwyster cydnabyddedig ar Lefel 3. Ymgymerir ag archwiliadau hyfforddiant bob tymor gyda'r holl leoliadau Dechrau'n Deg er mwyn nodi gofynion hyfforddiant statudol. Cynhelir ymweliadau Sicrhau Ansawdd pan nodir bod gofynion hyfforddi, ac fe'u hamlygir wedyn yng nghynlluniau datblygu'r lleoliadau.

***Hyfforddiant / datblygu gweithlu Darparwyr Addysg Cofrestredig***

Mae cyllid ar gyfer hyfforddiant ar gael ar gyfer Darparwyr Addysg Cofrestredig drwy grant RRRS Llywodraeth Cymru (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau), y PDG (Grant Datblygu Disgyblion) a'r Grant Gwella Addysg. Mae'r hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn debyg i hynny a gynigiwyd i leoliadau Dechrau'n Deg (gweler uchod). Yn ogystal, mae Darparwyr Addysg Cofrestredig wedi elwa hefyd o hyfforddiant chwarae bloc ac adnoddau, hyfforddiant ffotograffiaeth gydag adnoddau, hyfforddiant Awtistiaeth Diffyg Canolbwyntio, yn ogystal â hyfforddiant gorfodol fel hyfforddiant Diogelu, Swyddog Tân, Cymorth Cyntaf ac Iechyd a Diogelwch.

Mae Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn adolygu anghenion hyfforddi Darparwyr Addysg Cofrestredig yn rheolaidd i sicrhau bod y dysgu'n gyfredol. Caiff lleoliadau eu cynorthwyo ar sail anghenion unigol a rhoddir ystyriaeth hefyd i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar sail sector cyfan. Mae cydweithredu gyda chydweithwyr ledled Cymru yn sicrhau y darparir tegwch a chysondeb o ran darpariaeth.

Cefnogir y lleoliadau â diwygio'r cwricwlwm gyda hyfforddiant fel cynllunio ymatebol, schemas, llythrennedd ffisegol a modiwlau'r Cyfnod Sylfaen. Bu rhai lleoliadau'n gysylltiedig â'r cam profi ar gyfer cwricwlwm y sector nas cynhelir ac roedd ymarferwyr unigol yn rhan o gyd-lunio'r cwricwlwm newydd. Mae Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio'n agos â phartneriaid Cwlwm ac maent yn cyfeirio lleoliadau at hyfforddiant perthnasol a gynigir drwy'r sefydliadau hyn.

***Darparwyr chwarae wedi'u comisiynu***

Mae cyllid ar gael ar gyfer darparwyr chwarae wedi'u comisiynu drwy'r Tîm Lles a Gwydnwch Cymunedol yn y Gwasanaethau Plant. Mae archwiliadau rheolaidd o'r gweithlu yn nodi hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen ar ymarferwyr chwarae. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant statudol, fel Diogelu, Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a Hylendid Bwyd. Mae'r hyfforddiant sydd wedi'i gynnig yn ystod y deuddeg mis diwethaf wedi cynnwys y canlynol hefyd:

- Gwrando Gweithredol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Hyfforddiant Profedigaeth

- Meithrin Gwydnwch
- Cwrs ar Chwarae plant sy'n benodol i'ch rôl swydd
- Hyfforddiant Emosiwn
- Warden Tân
- Makaton
- Rheoli Ymddygiad Heriol
- Codi a Chario
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Therapi Chwarae
- Meithrin Gwydnwch, Hunanasesu a Chynllun Gweithredu
- Cynllunio Adnoddau
- Asesu Risg
- Rhyw a rhywioldeb
- Camddefnyddio sylweddau
- Deall Chwarae Plant

# Adran 16: Cynllun Gweithredu

| Blaenoriaeth | | Cam | Gan bwy? | Materion allweddol | Deilliant delfrydol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***1 – Galw posibl heb ei fodloni – mathau o ofal plant, lleoliad, oedran*** | | | | | | |
| **1.1** | Annog darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i gynnig gofal yn ystod y gwyliau | Cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhieni i bennu'r union alw<br><br>Ymgysylltu â darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i nodi rhwystrau posibl o ran ymestyn gwasanaethau a chymorth er mwyn goresgyn y rhain lle bo modd | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Diffyg ymatebion i ymgynghoriadau gan rieni/gwarcheidwaid<br><br>Mae rhiant/gwarcheidwad yn datgan bod angen gwasanaeth adeg cwblhau'r arolwg. Pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu, dydy'r rhieni/gwarcheidwaid ddim yn ei gwblhau.<br><br>Grantiau ehangu wedi'u cyfyngu i gynnig cymorth ariannol ar gyfer cynaliadwyedd<br><br>Diffyg staff â chymwysterau addas / diffyg staff yn y gweithlu<br><br>Darparwyr ddim yn dymuno ehangu eu gwasanaeth | Digon o ddarpariaeth gofal yn ystod y gwyliau i ateb y galw<br><br>Clybiau gwyliau yn cael eu defnyddio ac yn gynaliadwy<br><br>Cynnydd yn nifer y plant sy'n cael mynediad i ofal yn ystod y gwyliau<br><br>Darparwyr yn ymgysylltu â'r Garfan Gofal Plant i ystyried ehangu eu gwasanaethau ar y cyd | Ymgynghoriad yn y ddau faes cyntaf a nodwyd erbyn mis Hydref 2022<br><br>Nodi camau gweithredu lleol o'r ymgynghoriad erbyn Rhagfyr 2022 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.2** | Archwilio’r galw am ofal hyblyg ad hoc a/neu gyfleusterau meithrinfa | Ymgynghoriadau wedi'u targedu gyda rhieni/gwarcheidwaid, yn enwedig y rhai sydd angen oriau annodweddiadol<br><br>Ymgysylltu â darparwyr i drafod materion, rhwystrau, y broses gweithredu | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Darparwyr Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Mae modd i ddefnydd annibynadwy achosi problemau o ran cynaliadwyedd i ddarparwyr<br><br>Yn sgil oriau annibynadwy, efallai y bydd problemau o dal gafael ar staff | Darpariaeth ad hoc / hyblyg ddigonol i ateb y galw | Ymgynghori â rhieni erbyn mis Mawrth 2023<br><br>Ymgysylltu â darparwyr erbyn Mehefin 2023 |
| **1.3** | Ymchwilio i’r galw am warchodwyr plant ychwanegol ym mhob rhan o RCT, ond yn arbennig:<br>○ Gogledd Cwm Cynon (Hirwaun a Rhigos)<br>○ De Cwm Cynon (Abercynon a Gorllewin Aberpennar)<br>○ Gogledd Cwm Rhondda (Glynrhedynog a Threorci)<br>○ De Cwm Rhondda (pob ward)<br>○ Gogledd-ddwyrain Taf-elái (Trefforest)<br>○ De-ddwyrain Taf-elái | Ymgysylltu â gwarchodwyr plant presennol i weld lle y gallai fod angen lleoedd ychwanegol, h.y. lle mae'r rhestrau aros hiraf<br><br>Achlysuron hyrwyddo / sesiynau gwybodaeth mewn ardaloedd lle mae angen i ddenu darpar warchodwyr plant newydd | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Efallai na fydd modd i warchodwyr plant gynnig yr oriau sydd eu hangen ar deuluoedd yn yr ardal<br><br>Diffyg diddordeb o ran dod yn warchodwr plant<br><br>Pryderon darpar warchodwyr plant newydd ynghylch cynaliadwyedd eu busnes<br><br>Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau proses cyn-gofrestru a chais gydag AGC yn hir. Efallai y bydd hyn yn atal rhai rhag symud ymlaen | Digon o warchodwyr plant ym mhob rhan o RCT i ddarparu ar gyfer anghenion a nodwyd<br><br>Cofrestriadau a cheisiadau gydag AGC yn cael eu cwblhau mewn da bryd ar gyfer cychwyn busnes gwarchod plant<br><br>Mwy o ymholiadau yn dod i law gan y garfan gofal plant ar gyfer y rhai sy'n dymuno bod yn warchodwr plant a chael mynediad at gyllid | Achlysuron hyrwyddo / sesiynau gwybodaeth yn yr ardal $1^{af}$ a nodwyd yn nhymor yr hydref 2022<br><br>$2^{il}$ ardal a nodwyd yn nhymor y gwanwyn 2023 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (Rhydfelen/Canol llan)<br>○ De-orllewin Taf-elái (Gilfach-goch, Llanharan a Dwyrain Tonyrefail) | | | | | |
| **1.4** | Ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal ychwanegol y tu allan i oriau'r ysgol (ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau) ym mhob rhan o RCT | Ymgynghori â Rhieni/Gwarcheidwaid i bennu'r union alw<br><br>Ymgynghori â darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i weld a ydyn nhw wedi nodi angen<br><br>Ymgysylltu â darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i ehangu eu gwasanaeth lle nodir galw | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Mae patrymau gwaith rhieni/cynhalwyr (gofalwyr) wedi newid ac efallai na fydd angen gwasanaethau gofal y tu allan i oriau'r ysgol arnyn nhw mwyach<br><br>Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol<br><br>Problemau gyda chadw staff<br><br>Diffyg ymatebion rhieni/cynhalwyr i'r ymgynghoriad | Darpariaeth gofal y tu allan i oriau'r ysgol ddigonol i gwrdd ag angen a galw | Ymgynghoriad yn y ddwy ardal gyntaf a nodwyd erbyn diwedd mis Hydref 2022<br><br>Nodi camau gweithredu lleol erbyn diwedd Rhagfyr 2022 |
| **1.5** | Ymchwilio i'r galw am ofal diwrnod llawn ychwanegol yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái | Ymgynghori â rhieni / gwarcheidwaid yn yr ardal a nodwyd i bennu'r angen<br><br>Ymgynghori â darpariaeth gofal diwrnod llawn lleol i asesu pa mor llawn maen nhw ar hyn o bryd a phenderfynu a fyddai'n bosibl ehangu | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i | Diffyg ymatebion i ymgynghoriadau gan rieni/gwarcheidwaid<br><br>Mae rhiant/gwarcheidwad yn datgan bod angen gwasanaeth adeg cwblhau'r arolwg. Pan gaiff y gwasanaeth ei | Darparwr a darpariaeth newydd yn cael eu canfod yn yr ardal i gynnig gofal diwrnod llawn a bodloni'r galw<br><br>Staff â chymwysterau addas ar gael | Erbyn mis Mawrth 2021. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nodi darparwyr/lleoliad newydd yn yr ardal os caiff yr angen am y ddarpariaeth yma ei gadarnhau | Deuluoedd (GGD) | ddarparu, dydy'r rhieni/gwarcheidwaid ddim yn ei gwblhau.<br><br>Grantiau ehangu wedi'u cyfyngu i gynnig cymorth ariannol ar gyfer cynaliadwyedd<br><br>Diffyg staff â chymwysterau addas / diffyg staff yn y gweithlu<br><br>Darparwyr presennol ddim yn dymuno ehangu eu gwasanaeth | Gwasanaethau presennol yn cael eu hehangu i fodloni'r galw a nodwyd | |
| **1.6** | Monitro effaith datblygiadau tai ar anghenion gofal plant, yn enwedig yn yr ardaloedd canlynol:<br>○ Llanilid (Brynna)<br>○ Llanilltud Faerdref<br>○ Pen-y-graig | Gweithio mewn ymgynghoriad â'r Adran Gynllunio<br><br>Cefnogi'r ddarpariaeth gofal plant presennol yn yr ardal i ehangu | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Adran Cynllunio<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Efallai y bydd twf yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael<br><br>Efallai na fydd modd cofrestru digon o leoedd gofal plant i ateb y galw | Digon o leoedd gofal plant i ateb y galw yn y sefydliadau gofal plant presennol<br><br>Ehangu'r ddarpariaeth gofal plant presennol mewn ardaloedd lle mae angen wedi'i nodi<br><br>Cymorth ar gael i sefydlu darpariaethau newydd mewn ardaloedd lle mae galw | Parhaus – adolygu bob 6 mis. Adolygiad cyntaf Rhagfyr 2022 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r garfan cynllunio i nodi anghenion gofal plant h.y. gweithgorau | |
| **1.7** | Cefnogi darparwyr gofal sesiynol heb eu cofrestru i gofrestru gydag AGC ac ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal sesiynol ychwanegol yn yr ardaloedd canlynol:<br>○ Gogledd Cwm Cynon<br>○ De Cwm Cynon<br>○ Gogledd Cwm Rhondda<br>○ De Cwm Rhondda | Ymgysylltu â lleoliadau sydd heb eu cofrestru i fesur eu diddordeb mewn cofrestru<br><br>Cydgysylltu â'r GGD i gasglu manylion lleoliadau sydd heb eu cofrestru<br><br>Cynnal ymgynghoriadau â rhieni/gwarcheidwaid i bennu'r galw am ofal sesiynol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Efallai na fydd lleoliadau sydd heb eu cofrestru yn gallu cofrestru oherwydd problemau gyda'r lleoliad<br><br>Efallai na fydd modd i leoliadau gofrestru oherwydd cyfyngiadau o ran mynediad os ydyn nhw mewn lleoliad a rennir<br><br>Lleoliadau'n anfodlon ymgysylltu â'r garfan a chofrestru<br><br>Gan nad ydyn nhw wedi'u cofrestru, efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn effro o bob lleoliad sydd heb eu cofrestru | Lleoliadau presennol sydd heb eu cofrestru yn cael eu cofrestru gydag AGC<br><br>Lleoliadau sydd heb eu cofrestru yn ymgysylltu a chydweithredu â Charfan Gofal Plant RhCT i drafod y rhwystrau o ran cofrestru | Mapio lleoliadau sydd heb eu cofrestru erbyn mis Hydref 2022<br><br>Cysylltu'n unigol â lleoliadau erbyn Ionawr 2023<br><br>Rhoi cynlluniau cymorth ar waith ar gyfer y rhai sy'n dymuno cofrestru erbyn mis Mawrth 2022<br><br>Cyfathrebu'n barhaus gyda'r rhai sydd ddim yn dymuno cofrestru |
| ***2 – Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg*** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.1** | Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol cyfrwng Cymraeg sydd heb eu cofrestru, a'u cefnogi i gofrestru gydag AGC ac ymestyn gwasanaethau i ddarparu gofal yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o alw a nodwyd | Cysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd heb eu cofrestru i gofrestru gydag AGC<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i nodi anghenion<br><br>Nodi pecynnau cymorth i alluogi cofrestru | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Menter Iaith<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Lleoliadau Cymraeg yn dymuno aros yn ddarpariaeth sydd heb ei chofrestru<br><br>Cymwysterau staff neu gyfyngiadau o ran y lleoliad yn atal cofrestru | Lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cofrestru gydag AGC<br><br>Lleoliadau Cymraeg yn cynnig gofal yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o alw a nodwyd | Cysylltu'n unigol â lleoliadau erbyn Ionawr 2023<br><br>Rhoi cynlluniau cymorth ar waith ar gyfer y rhai sy'n dymuno cofrestru erbyn mis Mawrth 2022<br><br>Cyfathrebu'n barhaus gyda'r rhai sydd ddim yn dymuno cofrestru |
| **2.2** | Archwilio'r galw am Gylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd daearyddol a nodwyd yn yr ymarfer mapio | Ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid mewn ardaloedd a nodwyd yn yr ymarfer mapio<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i asesu'r galw | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Diffyg darparwyr sy'n fodlon agor lleoliadau newydd<br><br>Diffyg lleoliadau addas mewn ardaloedd o alw<br><br>Diffyg ymatebion i arolygon rhieni/gwarcheidwaid | Cylchoedd Meithrin newydd yn cael eu hagor mewn ardaloedd o angen a nodwyd<br><br>Lleoliadau addas yn cael eu nodi mewn ardaloedd o angen trwy'r ymarfer mapio | Ymgynghoriad yn yr ardal gyntaf a nodwyd erbyn mis Mawrth 2023<br><br>Nodi camau gweithredu lleol o'r ymgynghoriad erbyn mis Mai 2023 |
| **2.3** | Ymchwilio i fylchau posibl mewn gofal sesiynol a gofal | Ymgynghori â rhieni / gwarcheidwaid mewn | Carfan Datblygu Gofal Plant | Diffyg ymatebion i arolygon rhieni/gwarcheidwaid | Digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i ateb y galw | Yn mynd rhagddo |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg yn Ne Cwm Rhondda | ardaloedd a nodwyd i asesu'r galw<br><br>Ymgysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg presennol yn yr ardal<br><br>Nodi cyfleoedd i ehangu | Mudiad Meithrin<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Dim llawer o alw am ofal oriau dydd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal<br><br>Dim llawer o ddarparwyr yn dymuno sefydlu darpariaeth | Darparwr yn cytuno i sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ardal<br><br>Perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda Mudiad Meithrin i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth | |
| **2.4** | Cynnig cymorth a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn hyderus i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau ac i hyrwyddo eu hunain fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. | Cynnig hyfforddiant i ddarparwyr yn ystod oriau sy'n gyfleus i'r dysgwyr<br><br>Cyfeirio dysgwyr at hyfforddiant Cymraeg sy'n bodoli eisoes<br><br>Comisiynu sesiynau hyfforddi mewnol trwy raglen hyfforddi'r garfan gofal plant<br><br>Ymgysylltu â'r sector i ganfod rhwystrau i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn lleoliadau | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Darparwyr hyfforddiant<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru | Diffyg manteisio ar yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig<br><br>Dim amser gan leoliadau i fynychu sesiynau hyfforddi yn sgil problemau staffio<br><br>Argaeledd cyrsiau ar amseroedd addas ar gyfer y gweithlu gofal plant<br><br>Diffyg hyfforddiant addas i'w gomisiynu'n fewnol | Lleoliadau yn derbyn hyfforddiant Cymraeg ac yn ei ddefnyddio yn eu lleoliadau<br><br>Staff yn fwy hyderus yn eu gallu i siarad Cymraeg ac yn hyrwyddo'u hunain fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog | Ym mynd rhagddo – mapio cychwynnol yr hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr Hydref 2022 |
| **2.5** | Hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol i leoliadau ac annog cyfranogiad | Cynnig cymorth a chyngor i leoliadau i'w hannog i gymryd rhan yn y Cynnig Rhagweithiol Cymraeg | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Mudiad Meithrin | Darparwyr gofal plant ddim yn manteisio ar hyfforddiant i weinyddu'r cynnig gweithredol | Lleoliadau'n cynnig y cynnig gweithredol Cymraeg<br><br>Lleoliadau yn manteisio ar | Yn mynd rhagddo |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cysylltu darparwyr â'r hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael | Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru | Hyfforddiant yn y Gymraeg ddim yn addas ar gyfer llwyth gwaith y sector gofal plant | hyfforddiant i wella'u sgiliau a'u gallu o ran y Gymraeg | |
| **2.6** | Ymgyrch hyrwyddo i ddenu mwy o warchodwyr plant Cymraeg eu hiaith | Gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid Cymraeg i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i nodi a oes cynlluniau eisoes ar waith i ddenu gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg a'u cynnwys mewn ymgyrch hyrwyddo leol<br><br>Ymgysylltu â gwarchodwyr plant i ganfod unrhyw rai sy'n gallu siarad Cymraeg ond sydd ddim yn hyrwyddo'u hunain fel siaradwyr Cymraeg | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Mudiad Meithrin<br><br>PACEY Cymru<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Pryderon darpar warchodwyr plant newydd ynghylch cynaliadwyedd eu busnes<br><br>Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau proses cyn-gofrestru a chais gydag AGC yn hir. Efallai bydd hyn yn atal rhai rhag symud ymlaen<br><br>Diffyg diddordeb mewn bod yn Warchodwr Plant | Rhagor o warchodwyr plant yn cael eu cofrestru fel rhai sy'n cynnig eu gwasanaeth yn ddwyieithog neu yn Gymraeg | Yn mynd rhagddo |
| **2.7** | Cefnogi nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynyddu cyfraddau pontio o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg | Casglu data ar gyfraddau pontio i ddosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg<br><br>Ymgysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg i drafod gwybodaeth, rhwystrau a materion o ran pontio | Carfan Gofal Plant<br><br>Lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg<br><br>Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, | Niferoedd sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg ddim yn cynyddu yn unol â thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | Cyfraddau pontio o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu | Dadansoddi data erbyn Rhagfyr 2022<br><br>Ymgysylltu â lleoliadau / ysgolion Parhaus |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymgysylltu ag ysgolion i wella cysylltiadau â lleoliadau gofal plant sy'n bwydo iddyn nhw | Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Methu â goresgyn unrhyw rwystrau a nodwyd | | |
| ***3 – Fforddiadwyedd gofal plant*** | | | | | | |
| **3.1** | Parhau i hyrwyddo manteision ariannol y Cynnig Gofal Plant, gan bwysleisio'n arbennig yr hawl yn ystod y gwyliau | Hyrwyddo Cynnig Gofal Plant i rieni / gwarcheidwaid yn ystod achlysuron cyhoeddus fel picnic y tedis, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac ymweliadau rhieni a phlantos bach<br><br>Sicrhau bod yr wybodaeth ar y wefan yn gywir, yn gyfredol ac yn cael ei hyrwyddo<br><br>Annog darpariaethau gofal plant i hysbysebu a hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant<br><br>Ymgysylltu ag ysgolion lleol yn RhCT i hyrwyddo hawl y Cynnig Gofal Plant yn ystod y gwyliau i blant meithrin | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Carfan Cynnig Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Darparwyr Gofal Plant | Darparwyr yn rhoi gwybodaeth anghywir i rieni<br><br>Rhieni yn parhau i fod yn ansicr ynghylch cymhwysedd a buddion y Cynnig Gofal Plant<br><br>Dim cynnydd yn y niferoedd sy'n gwneud cais am y Cynnig | Mwy o leoedd Cynnig Gofal Plant ar gael i rieni/gwarcheidwaid<br><br>Mwy o ddewis o ddarparwyr ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid<br><br>Yr hawl yn ystod y gwyliau'n cael ei fanteisio arno a'i ddefnyddio'n effeithiol<br><br>Achlysuron hyrwyddo yn targedu rhieni sydd â phlant 3-4 oed cymwys a chynnydd yn nifer y plant sy'n manteisio ar y Cynnig | Cyfnod hyrwyddo cychwynnol tymor yr Hydref 2022 yn unol â chyflwyno'r system genedlaethol newydd<br><br>Adolygu bob 3 mis wedi hynny |
| **3.2** | Rhoi cymorth i ddarparwyr gofal plant i dderbyn taliad drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth neu dalebau gofal plant gan gyflogwyr | Hyrwyddo'r buddion o gofrestru i gynnig y cynllun Gofal Plant Di-dreth neu dalebau gofal plant gan gyflogwyr<br><br>Sesiynau cymorth i ddarparwyr i gynnig cyngor ar | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Darparwyr Gofal Plant | Lleoliadau ddim yn cynnig cynlluniau fel Gofal Plant Di-dreth<br><br>Lleoliadau'n ansicr ar sut i ymuno â'r cynlluniau neu'n methu ag ymuno | Cynnydd yn nifer y lleoliadau sy'n derbyn taliadau trwy Ofal Plant Di-dreth neu dalebau gofal plant gan gyflogwyr | Hyrwyddo cychwynnol Gwanwyn 2023<br><br>Adolygu bob 3 mis wedi hynny |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | sut i gofrestru er mwyn cynnig y cynlluniau a nodwyd<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hysbysebu'r cynlluniau a'u hyrwyddo i leoliadau a rhieni | Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | | Lleoliadau'n manteisio ar sesiynau cymorth a chyngor ar sut i gofrestru ar y cynlluniau a nodwyd | |
| **3.3** | Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hyrwyddo opsiynau gofal plant a chymorth ariannol i rieni | Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol yn gyfredol ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol<br><br>Ailsefydlu cysylltiadau ag Ymgynghorwyr rhieni sydd ar eu pennau eu hunain y Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i gleientiaid<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a charfanau datblygu gofal plant/Cynnig Gofal Plant yn mynychu achlysuron i ddosbarthu gwybodaeth i deuluoedd<br><br>Rhoi gwybodaeth i ddarparwyr gofal plant er mwyn iddyn nhw ei dosbarthu i deuluoedd | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Carfan y Cynnig Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Y Ganolfan Byd Gwaith/Ymgynghorwyr rhieni sydd ar eu pennau eu hunain | Yr wybodaeth ddiweddaraf heb ei rhoi ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, neu heb ei dosbarthu i ddarparwyr gofal plant<br><br>Cysylltau ag ymgynghorwyr rhieni sydd ar eu pennau eu hunain y Ganolfan Byd Gwaith heb eu cynnal | Teuluoedd yn effro i'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer costau gofal plant ac yn gwybod sut i fanteisio arno<br><br>Rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu cefnogi i ddechrau cyflogaeth a/neu gael hyfforddiant<br><br>Cynnydd yn swp a math yr wybodaeth sydd ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Adolygu bob 6 mis |
| ***4 – Plant a chanddyn nhw anghenion addysgol arbennig neu anableddau*** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.1** | Archwilio’r galw am ofal yn ystod y gwyliau i blant ag anghenion ychwanegol neu anabledd | Ymgynghori â rhieni / gwarcheidwaid plant ag anghenion dysgu ychwanegol / anabledd i nodi angen am ofal yn ystod y gwyliau / rhwystrau rhag cael mynediad iddo<br><br>Ymgysylltu â darparwyr i ymestyn gwasanaethau yn ystod y gwyliau<br><br>Hyrwyddo cymorth sydd ar gael i deuluoedd i gael mynediad i ofal plant yn ystod y gwyliau | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Dechrau'n Deg<br><br>Y Garfan Chwarae | Ddim yn mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag manteisio ar ofal yn ystod y gwyliau<br><br>Teuluoedd ddim yn effro i'r opsiynau sydd ar gael iddyn nhw<br><br>Ffrydiau cyllido a nodwyd ddim yn gynaliadwy neu heb eu halinio â'i gilydd | Plant yn gallu manteisio ar ofal yn ystod y gwyliau sy'n bodloni eu hanghenion | Ymarfer cwmpasu cychwynnol erbyn Rhagfyr 2022<br><br>Camau gweithredu wedi’u nodi erbyn Gwanwyn 2023 |
| **4.2** | Dod o hyd i gyfleoedd i wella mynediad i ofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant ag anghenion dysgu a chorfforol ychwanegol | Cefnogi darparwyr gofal plant i fanteisio ar hyfforddiant addas, arbenigol<br><br>Ystyried y rhwystrau sy'n rhwystro teuluoedd rhag manteisio ar ofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar<br><br>Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i deuluoedd plant sydd ag anghenion ychwanegol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Darparwyr Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Carfan hyfforddi Dechrau'n Deg | Costau cymorth uwch yn rhwystrol i leoliadau / teuluoedd<br><br>Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol<br><br>Diffyg darpariaeth addas sy'n agos i gartrefi plant | Modd i deuluoedd gael mynediad at ofal plant sy'n diwallu anghenion eu plant<br><br>Lleoliadau gofal plant yn llwyr hygyrch i bob plentyn<br><br>Staff wedi'u hyfforddi'n addas i ddiwallu anghenion y plentyn | Ymarfer cwmpasu cychwynnol erbyn Rhagfyr 2022<br><br>Camau gweithredu wedi’u nodi erbyn Gwanwyn 2023 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.3** | Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a chyfrifoldebau'r lleoliad i blant a'u teuluoedd | Hyrwyddo rhaglen hyfforddi ADY i leoliadau<br><br>Dosbarthu taflen Fforwm y Blynyddoedd Cynnar i bob lleoliad<br><br>Cynnwys gwybodaeth yng nghylchlythyr tymhorol gofal plant<br><br>Dangos i leoliadau blae mae cael gwybodaeth a chymorth ychwanegol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Dechrau'n Deg<br><br>Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Lleoliadau ddim yn effro i'w cyfrifoldebau ac felly ddim yn cynnig y lefel gywir o gymorth<br><br>Lleoliadau ddim yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael | Modd i bob lleoliad gael mynediad at hyfforddiant ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw<br><br>Holl staff gofal plant yn gwbl effro i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'u cyfrifoldebau<br><br>Plant yn cael cymorth ac anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn lleoliadau gofal plant | Hyrwyddo amserlen hyfforddi yn mynd rhagddo<br><br>Ymgyrch ymwybyddiaeth / sesiynau gwybodaeth yn nhymor yr Hydref 2022 |
| **4.4** | Cynnig hyfforddiant ar amrywiaeth i ddarparwyr gofal plant i wella cynhwysiant o fewn lleoliadau | Nodi hyfforddiant addas a chomisiynu cyrsiau a nodwyd<br><br>Hyrwyddo hyfforddiant i'r sector / gwerthuso effaith<br><br>Dangos i leoliadau blae mae cael gwybodaeth a chymorth ychwanegol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Dechrau'n Deg<br><br>Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Lleoliadau ddim yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael<br><br>Materion yn dal i gael eu hadrodd | Modd i bob lleoliad gael mynediad at hyfforddiant ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw<br><br>Plant yn cael cymorth ac anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn lleoliadau gofal plant | Hyfforddiant wedi'i nodi a'i hyrwyddo erbyn Rhagfyr 2022 |
| ***5 – Cymorth i'r sector gofal plant*** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.1** | Parhau i gynnig grantiau i gefnogi darpariaeth newydd neu ehangu darpariaeth bresennol, ac i gefnogi lleoliadau sy'n wynebu caledi ariannol difrifol | Cefnogi datblygiadau newydd a hyrwyddo grantiau sydd ar gael i ddarparwyr<br><br>Hyrwyddo grantiau caledi ariannol i leoliadau | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Ffrydiau cyllido yn gyfyngedig a does dim modd iddyn nhw gefnogi pob cais<br><br>Efallai na fydd lleoliadau sy'n profi caledi ariannol eisiau ymgysylltu â'r ALI<br><br>Er gwaethaf cynnig cymorth caledi ariannol, mae rhai lleoliadau yn parhau i fod yn anghynaladwy | Pob lleoliad sy'n gwneud cais am gyllid yn cael cymorth<br><br>Cynaliadwyedd y lleoliadau wedi'u diogelu | Yn mynd rhagddo |
| **5.2** | Annog pob lleoliad i gofrestru gyda GGD a chadw'u cyfrifon yn gyfredol | Cynnwys nodiadau atgoffa i ddiweddaru manylion gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob achlysur ymgysylltu/llenyddiaeth gyda'r sector<br><br>Hyrwyddo manteision cofrestru gyda GGD i ddarparwyr newydd<br><br>Ei gwneud yn amod o gyllid/cymorth bod yn rhaid cadw cyfrifon GGD yn gyfredol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Dydy lleoliadau ddim yn diweddaru eu manylion a'u cyfrifon yn mynd yn segur<br><br>Dydy lleoliadau ddim yn cofrestru gyda GGD | Pob lleoliad wedi'i gofrestru ac yn gyfredol â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Cyfleuster chwilio gofal plant yn y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gywir ac yn gyfredol | Adolygu bob 6 mis mewn partneriaeth â GGD |
| **5.3** | Gwella ymgysylltiad â nanis sydd eisoes ar y cynllun Darparwr | Cysylltu â phob nani yn RhCT sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd | Carfan Datblygu Gofal Plant | Efallai na fydd nanis yn fodlon ymgysylltu â'r garfan | Nanis yn ymgysylltu ac yn cael eu cefnogi gan y garfan | Cyswllt cychwynnol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gofal Plant yn y Cartref | Cynnig cyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu a lefelau cymorth i nanis ar y gofrestr | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | | Nanis ar y gofrestr yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu ac yn gwella eu DPP | erbyn mis Hydref 2022<br><br>Cymorth yn mynd rhagddo |
| **5.4** | Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa, gan amlygu’n glir y pecyn cymorth sydd ar gael i ddarpar warchodwyr plant | Cynllunio amserlen o achlysuron ymgysylltu/sesiynau gwybodaeth i hyrwyddo gwarchod plant a'r pecyn cymorth sydd ar gael<br><br>Ymgyrch hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i hyrwyddo gwarchod plant a'r manteision/cymorth sydd ar gael<br><br>Cadw cysylltiad rheolaidd ag unigolion a ariennir drwy'r pecyn cymorth<br><br>Canfod y rhesymau dros dynnu'n ôl o'r pecyn cymorth | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Pryderon darpar warchodwyr plant newydd ynghylch cynaliadwyedd eu busnes<br><br>Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau proses cyn-gofrestru a chais gydag AGC yn hir. Efallai y bydd hyn yn atal rhai rhag symud ymlaen<br><br>Diffyg diddordeb o ran dod yn warchodwr plant<br><br>Unigolion a ariannwyd yn methu â chwblhau cofrestriad gydag AGC | Gwarchodwyr plant newydd yn cael eu denu ac yn manteisio ar y cynnig o gymorth<br><br>PACEY yn dangos y ffordd i ddarpar ddysgwyr sy'n byw yn RhCT at y Garfan Gofal Plant am wybodaeth a chymorth<br><br>Mwy o ymholiadau yn dod i law gan ddarpar warchodwyr plant newydd | Yn mynd rhagddo<br><br>Anelu i unigolion gwblhau cofrestriad gydag AGC o fewn 8 mis i'r sesiwn gwybodaeth gychwynnol<br><br>Anelu at 80% o'r rhai a ariennir i gofrestru gydag AGC yn llwyddiannus |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.5** | Hyrwyddo manteision cael mynediad at ofal plant wedi'i rheoleiddio i les a datblygiad plentyn | Hyrwyddo'r llyfryn 'Dewis Gofal Plant' a sicrhau ei fod ar gael yn electronig ac ar bapur<br><br>Datblygu ymgyrch hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan, taflenni | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Rhieni/gwarcheidwaid ddim yn effro i'r gwahaniaethau rhwng gofal plant cofrestredig a heb ei gofrestru<br><br>Efallai bod lleoliadau sydd heb eu cofrestru'n fwy deniadol i rieni/gwarcheidwaid gan fod y ffioedd yn is<br><br>Efallai bod lleoliadau cofrestredig yn llawn ac yn methu â derbyn plant newydd<br><br>Efallai nad oes lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ag AGC ar gael mewn ardaloedd lle mae galw | Mynediad i ofal plant cofrestredig ar gael i bob plentyn<br><br>Gwybodaeth gan rieni i lywio eu dewisiadau gofal plant yn well<br><br>Rhieni'n deall manteision defnyddio gofal plant wedi'i reoleiddio | Hyrwyddo'r llyfryn yn mynd rhagddo<br><br>Ymgyrch hyrwyddo erbyn mis Mawrth 2023 |
| **5.6** | Hyrwyddo'r cynllun Darparwr Gofal Plant yn y Cartref i rieni; hyrwyddo manteision cofrestru iddyn nhw, ac i nanis presennol sydd ddim ar y cynllun | Datblygu ymgyrch hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan, taflenni<br><br>Anelu at ganfod nanis yn yr ALI sydd ddim ar y gofrestr wirfoddol<br><br>Ymgysylltu â nhw a'r rhieni maen nhw'n gweithio iddyn nhw i hyrwyddo manteision cofrestru | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Rhieni/gwarcheidwaid ddim yn effro i'r gofrestr a'r manteision/diogelwch y mae'n eu rhoi<br><br>Nanis presennol ddim yn effro i'rr gofrestr / ddim yn bodloni'r gofynion | Gwybodaeth gan rieni i lywio eu dewisiadau gofal plant yn well<br><br>Modd i nanis fanteisio ar gymorth i fodloni meini prawf ar gyfer cofrestru<br><br>Pob nani yn RhCT wedi cofrestru ac yn | Ymgyrch hyrwyddo erbyn Mehefin 2023<br><br>Ymgysylltu a chymorth unigol yn mynd rhagddo wedi hynny |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nodi hyfforddiant/cymorth i'r rhai sydd ddim yn bodloni'r meini prawf | | | ymgysylltu â'r garfan datblygu gofal plant | |
| **5.7** | Cefnogi'r sector i baratoi ar gyfer cyflwyno cynllun Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy flwydd oed, a'u cefnogi i ymgysylltu ag ef | Clustnodi a chomisiynu darparwyr gofal plant addas i gynnig darpariaeth Dechrau'n Deg<br><br>Darparwyr Dechrau'n Deg yn cael eu cefnogi i fodloni'r lefel ansawdd ddymunol<br><br>Darparwyr Dechrau'n Deg yn cael eu cefnogi i addasu lleoliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â meini prawf Dechrau'n Deg<br><br>Cynnig cymorth wedi'i deilwra i leoliadau i ehangu gwasanaethau/lleoedd | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Dechrau'n Deg<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Diffyg darpariaeth gofal plant addas ar gael i fodloni anghenion rhaglen Dechrau'n Deg mewn ardaloedd dynodedig<br><br>Y broses gomisiynu yn rhwystro darparwyr posibl rhag tendro am gontractau | Nifer digonol o leoliadau gofal plant ar gael i fodloni'r cynnydd yn nifer yr ardaloedd Dechrau'n Deg<br><br>Darpariaeth Dechrau'n Deg o ansawdd i gefnogi datblygiad plant cymwys | Ehangu cychwynnol erbyn Medi 2022<br><br>Cymorth ym mynd rhagddo wrth i'r rhaglen gael ei hymestyn |
| **5.8** | Cefnogi lleoliadau i farchnata eu gwasanaethau'n effeithiol, yn enwedig rhinweddau unigryw, fel ieithoedd ychwanegol, neu wasanaethau hyblyg, ad hoc neu annodweddiadol. | Annog pob lleoliad i gofrestru gyda GGD a chadw'u manylion yn gyfredol<br><br>Datblygu ymgyrch i dynnu sylw at fanteision marchnata eu gwasanaethau'n effeithiol<br><br>Comisiynu hyfforddiant marchnata, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ar gyfer y sector | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Lleoliadau ddim yn cofrestru gyda GGD nac yn cadw'u manylion yn gyfredol<br><br>Lleoliadau ddim yn ymgysylltu â hyfforddiant na chynigion o gymorth | Lleoliadau'n effro i'w rhinweddau unigryw ac yn eu marchnata'n effeithiol<br><br>Lleoliadau'n diweddaru eu proffiliau'n rheolaidd trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i wneud y gorau o'r hysbysebu | Ymgyrch gychwynnol erbyn mis Mawrth 2023<br><br>Adolygu bob chwe mis |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | am ddim y mae hyn yn ei gynnig<br><br>Lleoliadau'n hyderus i ddefnyddio amrywiaeth o offer marchnata i hyrwyddo eu busnesau | |
| ***6 – Ansawdd a llywodraethu*** | | | | | | |
| **6.1** | Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol a gofal sesiynol sydd heb eu cofrestru; eu hannog a'u cefnogi i gofrestru gydag AGC | Mapio manwl o leoliadau heb eu cofrestru yn RhCT<br><br>Cynnig cymorth ac arweiniad 1:1 i leoliadau sydd heb eu cofrestru<br><br>Chwilio am weithdai i roi cymorth o ran cofrestru, a'u comisiynu<br><br>Cynnig cymorth ariannol a hyfforddiant wedi'i ariannu i gydymffurfio â gofynion cofrestru | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Amharodrwydd lleoliadau sydd heb eu cofrestru i fynd drwy'r broses gofrestru gydag AGC<br><br>Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i fodloni gofynion o ran cofrestru<br><br>Lleoliadau ddim yn addas i gofrestru | **10%** y flwyddyn o'r lleoliadau sy'n weddill sydd heb eu cofrestru wedi dechrau, neu wedi cyflawni, cofrestriad gydag AGC<br><br>Cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig | Mawrth 2023 |
| **6.2** | Gwella ansawdd y lleoliadau gofal plant y tu hwnt i'r Safonau Cenedlaethol Gofynnol | Hyrwyddo cynlluniau Sicrhau Ansawdd addas ac annog lleoliadau i gymryd rhan lle bo modd<br><br>Cynnig cymorth parhaus i leoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr addysg cofrestredig i roi cynlluniau Sicrwydd Ansawdd | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar | Dim cyllid ar gael i gefnogi lleoliadau i gymryd rhan mewn cynlluniau sicrhau ansawdd allanol<br><br>Gallu staff i gefnogi lleoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr addysg cofrestredig | Lleoliadau'n cyflawni cynlluniau Sicrhau Ansawdd cydnabyddedig ac yn codi safonau yn eu hymarfer<br><br>Lleoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr addysg cofrestredig yn | Yn mynd rhagddo |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | perthnasol a chamau gweithredu a argymhellir ar waith<br><br>Cynnig cyfleoedd hyfforddi DPP a ariennir yn barhaus<br><br>Hyrwyddo hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir | Swyddogion Sicrhau Ansawdd Dechrau'n Deg | Ymrwymiad lleoliadau i wella ansawdd | gwella ansawdd yn eu hymarfer | |
| **6.3** | Hyrwyddo manteision ariannol i rieni o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant sydd wedi'u cofrestru gydag AGC | Ymgyrch hyrwyddo i dynnu sylw at fanteision darpariaeth gofrestredig a goblygiadau defnyddio darpariaeth sydd heb ei chofrestru<br><br>Cysylltu â sefydliadau ymbarél i hyrwyddo manteision darpariaeth gofrestredig AGC<br><br>Cysylltu â GGD i hyrwyddo manteision defnyddio gofal plant cofrestredig AGC ar eu gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Rhieni'n dewis darpariaethau sydd heb eu cofrestru sy'n llai drud yn hytrach na darpariaethau cofrestredig AGC<br><br>Diffyg dealltwriaeth gan rieni o'r gwahaniaeth mewn darpariaethau cofrestredig a rhai sydd heb eu cofrestru | Rhieni'n deall manteision a mesurau diogelu o ddefnyddio darpariaeth gofrestredig AGC<br><br>Mwy o rieni yn dewis darpariaethau cofrestredig AGC | Yn mynd rhagddo |
| ***7 – Oriau annodweddiadol / galw ad hoc*** | | | | | | |
| **7.1** | Archwilio'r defnydd o leoedd ad hoc ac annog lleoliadau i gynnig contractau mwy hyblyg | Ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid i benderfynu ar y galw am ofal plant ad hoc/hyblyg | Carfan Datblygu Gofal Plant | Mae'n bosibl y bydd defnydd annibynadwy yn achosi problemau o ran cynaliadwyedd i ddarparwyr | Modd i leoliadau gynnig gofal mwy hyblyg i'r rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol | Ymgynghoriad cychwynnol Gwanwyn 2023 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cydgysylltu â lleoliadau i ddeall y rhwystrau/materion sy'n ymwneud â chynnig contractau hyblyg i rieni | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Yn sgil oriau annibynadwy, efallai y bydd problemau o dal gafael ar staff<br><br>Diffyg ymatebion gan rieni/gwarcheidwaid<br><br>Mae rhiant/gwarcheidwad yn datgan bod angen gwasanaeth adeg cwblhau'r arolwg. Pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu, dydy'r rhieni/gwarcheidwaid ddim yn ei gwblhau.<br><br>Lleoedd ddim ar gael ar adegau o angen | Digon o ofal plant ar gael i ddarparu ar gyfer defnydd ad hoc neu hyblyg | Ymgysylltu â lleoliadau yn mynd rhagddo wedi hynny |
| **7.2** | Cynnal ymgynghoriad pellach i sefydlu’r galw am ofal plant yn ystod oriau annodweddiadol, yn arbennig cyn 8am neu ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos, penwythnosau a gofal dros nos | Ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid i bennu'r galw<br><br>Cydgysylltu â lleoliadau i ddeall y rhwystrau/materion sy'n gysylltiedig â chynnig oriau agor annodweddiadol<br><br>Gweithio gyda lleoliadau unigol mewn ardaloedd lle mae arolwg rhieni wedi nodi galw am oriau annodweddiadol | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Ymatebion annigonol gan rieni/gwarcheidwaid i sefydlu’r galw<br><br>Mae angen gwasanaeth yn ôl rhieni/cynhalwyr ar adeg cwblhau'r arolwg, ond dydyn nhw ddim yn manteisio arno os yw e ar gael | Modd i rieni/gwarcheidwaid gael mynediad at ofal plant digonol yn ystod oriau annodweddiadol<br><br>Darparwyr gofal plant yn agored i drafodaethau ynghylch darparu gofal yn ystod oriau annodweddiadol | Ymgynghoriad cychwynnol Gwanwyn 2023<br><br>Ymgysylltu â lleoliadau yn mynd rhagddo wedi hynny |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Lleoliadau yn methu â staffio oriau annodweddiadol | | |
| ***8 – Datblygu'r Gweithlu*** | | | | | | |
| **8.1** | Sicrhau bod modd i ymarferwyr fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi statudol a DPP perthnasol | Hyrwyddo rhaglenni hyfforddi presennol i'r sector<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â charfanau eraill i osgoi dyblygu hyfforddiant<br><br>Cyfeirio lleoliadau at hyfforddiant sydd wedi'i gyfyngu i leoliadau Dechrau'n Deg/darparwyr addysg cofrestredig<br><br>Comisiynu hyfforddiant allanol i gynnig cyrsiau DPP a nodwyd drwy ymgynghoriad â'r sector | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Dechrau'n Deg<br><br>Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae | Dysgwyr yn methu â mynychu oherwydd amser y cwrs<br><br>Dysgwyr ddim yn mynychu hyfforddiant gorfodol dynodedig<br><br>Hyfforddiant DPP yn anaddas neu ddim yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr<br><br>Dim digon o arian i gynnig cyrsiau DPP gofynnol | Hyfforddiant cymorthdaledig perthnasol ar gael i bob ymarferydd<br><br>Yr holl ymarferwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant statudol<br><br>Hyfforddiant statudol ar gael i'r sector drwy raglen dreigl i sicrhau bod digon o leoedd ar gael | Yn mynd rhagddo |
| **8.2** | Hyrwyddo hyfforddiant ADY a chynhwysiant; gwella mynediad at hyfforddiant, yn enwedig i warchodwyr plant | Parhau i hyrwyddo rhaglen dreigl ADY i leoliadau<br><br>Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i gynnig hyfforddiant ar wahanol adegau i leihau rhwystrau i rai darparwyr, e.e. ar benwythnosau neu ar ôl 6pm | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Dechrau'n Deg / Darparwyr Addysg Cofrestredig<br><br>Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar | Amseroedd hyfforddi amgen ddim yn bosibl, gan arwain at wahardd rhai darparwyr<br><br>Dim ond hyn a hyn o hyfforddiant ADY parhaus ar gael, neu'n gyfyngedig o ran y nifer o leoedd sydd ar gael | Pob ymarferydd yn cael mynediad i hyfforddiant ADY/Cynhwysiad<br><br>Digon o hyfforddiant ADY ar gael i fodloni galw'r sector gofal plant | Yn mynd rhagddo |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar | | | |
| **8.3** | Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau i gynnig llwybrau pontio i'r sector gofal plant ar gyfer disgyblion sy'n gadael yr ysgol, yn enwedig disgyblion cyfrwng Cymraeg | Cysylltu ag ymgynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion/colegau, cytuno ar gamau gweithredu lleol<br><br>Cryfhau cysylltiadau â charfan gweithlu rhanbarthol RhCT, Gyrfa Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa a hyrwyddo ymgyrchoedd recriwtio<br><br>Cefnogi darparwyr gofal plant presennol i ddod yn llysgenhadon yn eu sector i hyrwyddo i ysgolion a cholegau<br><br>Coladu data gwaelodlin ar gyfer llwybrau ymadael myfyrwyr gofal plant o ysgolion/colegau i fonitro cynnydd | Carfan Datblygu Gofal Plant<br><br>Carfan Gweithlu Rhanbarthol<br><br>Gyrfa Cymru<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Ymgynghorwyr gyrfaoedd ysgolion/colegau | Ysgolion/Colegau ddim yn fodlon ymgysylltu<br><br>Diffyg niferoedd o ddarparwyr gofal plant presennol yn manteisio ar y cyfle i ddod yn llysgenhadon<br><br>Diffyg niferoedd o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n dymuno manteisio ar ofal plant fel opsiwn gyrfa<br><br>Dim cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol/coleg sy'n ymuno â'r gweithlu gofal plant | Gwaith partneriaeth llwyddiannus gydag ysgolion/colegau a phartneriaid<br><br>Carfan gref o lysgenhadon gofal plant i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa i fyfyrwyr<br><br>Cynnydd yn nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n symud ymlaen i swyddi yn y sector gofal plant | Ymgysylltu â phartneriaid erbyn mis Mawrth 2023<br><br>Coladu data gwaelodlin erbyn mis Medi 2023<br><br>Nodi camau gweithredu erbyn Rhagfyr 2023 |